
GILLESPIES
MAWRTH 2014



YNYS MÔN, GWYNEDD A PHARC CENEDLAETHOL ERYRI

ASTUDIAETH SENSITIFRWYDD A CHAPASISTI Y TIRWEDD

ADRODDIAD TERFYNOL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

RHAN 1: CYFLWYNIAD

Asesiad o Sensitifrwydd a Capasiti y Dirwedd: Cefndir

1.1 Cafodd yr Asesiad hwn ei gomisiynu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn. Ei nod oedd darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio, llywio datblygiad Canllawiau Cynllunio Atodol, gan helpu i ddiogelu tirweddau sensitif a nodedig rhag datblygu amhriodol ac annog agwedd gadarnhaol at ddatblygiad yn y lleoliad cywir ac ar raddfa briodol. Mae'r astudiaeth, fel y mae'n berthnasol i Eryri, yn ystyried yn benodol y tri math datblygu canlynol.

Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy

- Ynni Gwynt (gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau ar raddfa lai)

Datblygiadau Eraill (Isadeiledd Trawsgludo a Thwristiaeth)

- Mastiau Symudol (Isadeiledd Trawsgludo Telathrebiadau)
- Meysydd ac Estyniadau i safleoedd Carafannau Statig / Cabanau (Twristiaeth)

1.2 Mae pa mor dderbyniol yw datblygiad ar raddfa fawr yn y dirwedd wledig yn bwnc emosiynol ac yn un lle mae angen cyfaddawd yn aml. Er y cydnabyddir yn gyffredinol y dylai'r tirweddau mwyaf gwerthfawr gael eu diogelu, mae rhai meysydd lle gellir gwneud lle ar gyfer datblygiad, er bod hynny mewn ffordd a reolir i leihau effeithiau andwyol. Mae'r astudiaeth hon yn anelu at ddeall lle a sut orau i ddarparu ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad a nodwyd yn y briff.

1.3 Mae'r dull asesu a amlinellir yn Adran 2 wedi'i ddatblygu ar y cyd â Grŵp Llywio'r Prosiect, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o APC Eryri, ac Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) Ynys Môn a Gwynedd.

1.4 Mae'n bwysig nodi bod hon yn astudiaeth strategol ac nid yw'n rhagnodol ar lefel safle unigol. Nid yw'n disodli'r angen am asesu ceisiadau cynllunio unigol neu ar gyfer tirwedd leol benodol ac asesiad effaith weledol fel rhan o Asesiad Effaith Amgylcheddol ffurfiol (AEA). Nid yw'r asesiad yn cymryd i ystyriaeth ystyriaethau treftadaeth naturiol a diwylliannol eraill (ac eithrio pan maent yn ymwneud â chymeriad tirwedd ac ystyriaethau gweledol), ffactorau technegol na'r angen canfyddedig am y datblygiad.

1.5 Gofynion allweddol y briff ar gyfer yr astudiaeth oedd y dylai fod yn gyfeillgar, yn gryno ac yn gyson â dulliau gweithredu mewn awdurdodau cyfagos.

1.6 Mae trosolwg byr o ynni adnewyddadwy a datblygiadau eraill yn cael ei gynnwys isod.

Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy

1.7 Mae Ynys Môn, Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol yn wynebu ystod eang o heriau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Mae cydbwyso'r angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy gyda'r angen i leihau niwed i nodweddion unigryw ac arbennig tirwedd yr ardal yn un o'r heriau hyn. Mae amodau da yn nhirweddau gogledd Cymru i gynhyrchu trydan gwynt, dŵr / hydro a heulol fel y dangosir yn yr *'Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddadwy Ynys Môn, Gwynedd ac Eryri'* (2012).

1.8 Mae Rhaglen Ynys Ynni Môn yn ffactor allweddol yn gyrru materion ymlaen o ran hyrwyddo datblygiadau ynni ym Môn (gyda phwysau arbennig yn rhan ogleddol yr ynys ar gyfer ynni gwynt ar y tir).

Datblygiad Ynni Gwynt

1.9 Mae gan Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd mawr o ucheldir gwledig ac ardaloedd arfordirol gydag adnodd gwynt toreithiog. Er mai ymagwedd Llywodraeth Cymru yw cyfyngu datblygiad ffermydd gwynt ar raddfa fawr i Ardaloedd Chwilio Strategol NCT8, nid yw polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn pennu cyfyngiadau gofodol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt o dan 25 MW. Yn sgil y nifer cynyddol o geisiadau cynllunio, ceisiadau barn sgrinio AEA ac ymholiadau cyn cais yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygiadau unigol a chlystyrau o dyrbinau gwynt ar wahanol raddfeydd i gynghorau Ynys Môn a Gwynedd ac APCE i raddau ychydig yn llai mae'r astudiaeth hon wedi cael ei chomisiynu er mwyn cyfeirio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf addas a sicrhau bod y nodweddion allweddol ac ansawdd tirweddau'r ardal yn cael eu diogelu.

1.10 Mae tyrbinau gwynt yn strwythurau uchel, sy'n cael eu lleoli fel arfer mewn mannau agored neu uchel. Mae hyn yn cynyddu'r potensial ar gyfer effeithiau gweledol helaeth ar y dirwedd, sy'n cael ei waethygu gan y cydadwaith weledol sydd yn aml yn gymhleth rhwng gwahanol gyflyrau goleuo a graddfa a ffurf grwpiau o dyrbinau.

1.11 Mae symudiad y llafnau rotor yn denu'r llygad a dan amodau goleuo penodol, gall tyrbinau sy'n symud fod yn weladwy o hirbell.

1.12 Mae pa mor dderbyniol yw tyrbinau gwynt yn y dirwedd yn bwnc emosiynol ac yn un lle mae angen cyfaddawd yn aml. Er y cydnabyddir yn gyffredinol y dylai'r agweddau mwyaf gwerthfawr o'r dreftadaeth naturiol gael eu diogelu, gall y tirweddau hynny o werth llai ddarparu ar gyfer rhywfaint o ddatblygiad ynni gwynt fel arfer, er y dylai hynny fod mewn ffordd a reolir er mwyn lleihau effeithiau andwyol.

Datblygiadau Ynni Haul PV ar Raddfa cae

1.13 Mae galw'n dod yn amlwg am ddatblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae ar Ynys Môn a hefyd yng Ngwynedd (tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri). Mae'r pwysau ym Môn i'w gweld yn arbennig yn rhannau canol a deheuol yr ynys, ac mae pryderon cynyddol y gallai'r math yma o ddatblygiad gael effaith niweidiol ar gymeriad y dirwedd trwy droi tirwedd amaethyddol i fod yn fwy o un ddiwydiannol. Does dim pwysau tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri ei hunan am ddatblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae, oherwydd natur gymhleth topograffi'r dirwedd; fodd bynnag mae pryderon am ddatblygiadau ynni haul PV ar raddfa lai, a'r effaith y gallai'r rheiny eu cael ar dirwedd y Parc.

1.14 Mae datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae yn golygu cael paneli haul sengl sydd fel arfer wedi'u gosod mewn rhengoedd o 18-20, gyda fframiau metel alwminiwm neu ddur yn dal pob un. Bydd y rhengoedd yn tueddu i fod wedi'u gosod ar ongl o 20-40 gradd, er bod rhai'n gallu newid ongl yn ystod y dydd er mwyn 'dilyn' yr haul; bydd y symudiad yma'n mynd ymlaen yn raddol yn ystod y dydd ac fel arfer does dim modd ei weld yn digwydd. Er na fyddant yn arbennig o uchel, (yn tueddu i fod wedi'u gosod 1.5 - 2m uwchben lefel y ddaear), gall datblygiadau ynni haul PV gael ôl troed mawr. Gall fod adeiladau, ffyrdd mynediad a ffensys diogelwch yn gysylltiedig gyda datblygiadau ar raddfa cae sydd, ynghyd â'r rhengoedd o baneli, yn gallu achosi effeithiau niweidiol i'r olygfa.

1.15 Bydd datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae yn tueddu gael eu lleoli ar ben llwyfandir agored neu ar dir gyda rhywfaint o rediad ynddo, yn wynebu'r de, er mwyn cael gymaint o haul ag y bo modd. Yn gyffredinol, bydd y datblygwyr yn osgoi safleoedd gyda rhediad serth yn y tir, oherwydd cyfyngiadau technegol.

1.16 Mae nodweddion diwydiannol/trefol yn perthyn i ddatblygiadau ynni haul PV, sy'n gallu cynyddu'r hyn a welir fel effaith pobl ar y dirwedd.[1] Gall sensitifrwydd gweledol ddigwydd oherwydd y llewyrch golau sy'n gallu bod yn gysylltiedig gyda ffermydd ynni haul. Bydd panelau'n tueddu i adlewyrchu'r awyr, gan arwain at effaith amrywiol ar yr olygfa o dan wahanol amgylchiadau atmosfferig/goleuo.

1.17 Bydd y golygfeydd o ddatblygiadau PV yn amrywio yn ôl yr ongl a'r pellter oddi wrthynt. Mae wedi cael ei ddweud bod golygfeydd o bellter hir sy'n edrych at du blaen rhengoedd PV yn debyg i edrych ar dwnelau polythen 'polytunnel' o bell, ac o dan rai amgylchiadau golau gallant gael eu camgymryd am gorff mawr o ddŵr.

Datblygiadau Eraill (Seilwaith Trawsyrru a Thwristiaeth)

Lein Uwchben 400 kV (Seilwaith Trawsyrru Trydan)

1.18 Yn ogystal â chynlluniau ynni adnewyddol, mae rhai prosiectau seilwaith ar raddfa fawr yn cael eu datblygu, yn cynnwys gorsaf bŵer niwclear ychwanegol yn y Wylfa ar arfordir gogledd-ddwyrain Môn. Mae'r Grid Cenedlaethol (National Grid PLC) yn edrych ar hyn o bryd ar gynigion ar gyfer lein uwchben 400 kV ar beilonau i gysylltu'r orsaf bŵer niwclear arfaethedig gyda'r is-orsaf drydan bresennol ym Mhentir ger Llanberis, Gwynedd.

1.19 Mae sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad lein uwchben 400 kV yn dibynnu ar amrediad o nodweddion neu feini prawf ac yn cael ei ddiffinio yn ôl y graddau mae cymeriad cynhenid ac amwynder gweledol y dirwedd yn agored

[1] Nodyn Cyngor Rhif 2 y *Devon Landscape Policy Group: Accommodating Wind and Solar PV Developments in Devon's Landscape, 2013*

i niwed o ran newid sy'n deillio o'r datblygiad penodol hwn. Mae 'Rheolau Holford' yn set o nodiadau y bydd datblygwyr yn eu defnyddio i'w harwain ar drefnu llwybr cynigion lein uwchben mewn ffordd sensitif. Gall y rheolau hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth ystyried sensitifrwydd cymharol tirweddau i'r math yma o ddatblygiad (gweler Atodiad 10).

Mastiau Symudol (Isadeiledd Trawsgludo Telathrebiadau)

1.20 Mae pwysau yn ymwneud â seilwaith telathrebu yn cael ei brofi fwyaf o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, yn enwedig mewn perthynas â chynigion ar gyfer mastiau ffôn symudol newydd ac amnewid yr hen rai am rai newydd. Mae hyn oherwydd cyfuniad o ddiffyg derbyniad ffôn symudol a thopograffeg amrywiol y Parc Cenedlaethol, sy'n golygu ei bod yn ofynnol i gael mwy o fastiau er mwyn cael derbyniad.

1.21 'In more remote areas, telecommunications infrastructure is one of the few developments which by necessity has to be prominently sited. Such developments inevitably affect the perceived wildness of the landscape, by introducing an overt man-made structure into an area perceived as relatively natural and remote from human influence. There can also be an impact on landscapes when there is an increase of structures along established infrastructure corridors. This results in increased visual clutter and development often in highly visible locations. In addition, the visual effects of masts can increase through cumulative visual impact, as prominent sites often contain several, disparately designed developments."[2]

122 Yn bresenol nid oes yna bwysau yn Ynys Môn na Gwynedd ar gyfer ychwaneg o newu amnewid mastiau symudol.

Meysydd Carafannau Statig/ Cabannau ac Estyniadau (Twristiaeth)

1.23 Mae tirweddau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn hollbwysig i'r economi leol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddiwydiant twristiaeth yr ardal. Mae twf twristiaeth a hamdden wedi arwain at ddatblygu meysydd / parciau carafannau symudol a chabannau. Mae yna nifer sylweddol o ddatblygiadau meysydd carafannau / siales statig wedi eu lleoli ar hyd arfordiroedd Ynys Môn a Gwynedd a hefyd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r safleoedd hyn (yn enwedig ar hyd yr arfordir) yn amlwg ac yn ddiolwg o ran ymddangosiad gyda rhai safleoedd yn ymestyn dros ardaloedd mawr ac yn aml yn tra-arglwyddiaethu ar ac yn diraddio'r dirwedd.

1.24 Tra fo'r Cynghorau ynghyd ac Awdurdod y Parc yn cydnabod buddiannau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol ac eraill y mathau yma o ddatblygiadau, mae rheolaeth gofalus yn hanfodol er mwyn sicrhau nad ydym yn arwain at niwed annerbyniol i nodweddion pwysig o ran cymeriad y dirwedd ble lleolir y datblygiad, gyda nifer ohonynt ddynodiadau cenedlaethol megis Parciau cenedlaethol neu Ardaloedd o harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

1.25 Mae gwaharddiad llwyr ar unrhyw ddatblygiadau statig meysydd carafannau/cabannau newydd ar draws y tri Awdurdod Cynllunio Lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol o fewn Ynys Môn a Gwynedd y gallai meysydd presennol gael eu hymestyn 10% mewn unedau am bob maes/parc (yn seiliedig ar faint gwreiddiol y datblygiad) os daw gwelliannau amgylcheddol sylweddol yn eu sgil. Yn yr un modd, ym Mharc Cenedlaethol Eryri gall cynnydd o 10% yn ardal gyffredinol maes parc gael ei ganiatáu (ond nid cynnydd yn y nifer o unedau) os yw'n darparu gwelliannau tirweddol/amgylcheddol. Mae gwasgfa arfordirol yn bygwth rhai o'r meysydd/parciau hyn. Wrth i lefel y môr godi yn y dyfodol efallai y bydd angen i rywfaint o feysydd/barciau carafannau statig/cabannau arfordirol i ail-leoli neu ehangu eu lleiniau ymhellach i mewn i'r tir i wneud iawn am y tir a gollwyd; gan ychwanegu ymhellach at bwysau datblygiad ar hyd yr arfordir.

[2] http://www.snh.org.uk/futures/Data/pdfdocs/LANDSCAPES.pdf

Fframwaith Cynllunio a Pholisi

Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

1.26 Mae polisi cynllunio Cymru, yn cynnwys y dogfennau polisi cenedlaethol (Cymreig) a lleol. Ar lefel genedlaethol, mae *Cynllun Gofodol Cymru* (2008) yn darparu strategaeth ofodol i Gymru gyfan sy'n amlinellu agenda eang 20 mlynedd i lywio datblygiad ac ymyriadau polisi yn y dyfodol. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 6, Chwefror 2014) (PCC) yn darparu'r ystyriaethau, egwyddorion a'r amcanion polisi cenedlaethol cyffredinol, sy'n sail i'r system gynllunio yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei gefnogi gan nifer o *Nodiadau Cyngor Technegol* (NCTau) sydd, ynghyd â'r cylchlythyrau a llythyrau egluro polisi, yn cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Fersiwn Saith (Gorffennaf 2014)

1.27 Mae'r polisïau cynllunio defnydd tir ar gyfer Llywodraeth Cymru a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) yn sefydlu amcanion y Llywodraeth ar gyfer cadwraeth a gwella treftadaeth naturiol, yn enwedig diogelu cynefinoedd cynhenid, coed a choetiroedd a thirweddau gyda dynodiadau statudol.

1.28 Mae system wybodaeth LANDMAP yn cael ei chydnabod yn ffurfiol ym Mholisi Cynllunio Cymru fel y man cychwyn ar gyfer asesu tirwedd yng Nghymru. Mae LANDMAP yn darparu gwybodaeth ar gyfer holl dirweddau Cymru.

1.29 Mae dyfyniadau o Bolisi Cynllunio Cymru ynghylch datblygiadau ynni ac adnewyddadwy telathrebu yn cael eu cynnwys isod fel a ganlyn:

Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy

1.30 Mae pob math o ynni adnewyddadwy yn cael eu hyrwyddo lle maent yn dderbyniol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.

1.31 'Mae'r DU yn ddarostyngedig i ofynion Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys targed i'r DU sicrhau bod 15% o'i hynni yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae Map Ffyrdd Ynni Adnewyddadwy y DU yn nodi'r trywydd y dylai'r DU ei ddilyn i gyflawni'r targedau hyn, hyrwyddo ynni adnewyddadwy i atal y newid yn yr hinsawdd a diogelu cyflenwadau ynni yn y dyfodol12. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud ei rhan drwy gyflawni rhaglen ynni sy'n cyfrannu at ostwng allyriadau carbon fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd (gweler 4.5) tra'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Amlinellir hyn yn Natganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' (2012) (PCC fersiwn 6 par 12.8.1)

1.32 'Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni'r uchelgais a fynegir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy. Mae'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy14 yn cynnwys rhwymedigaethau penodol er mwyn ei gwneud yn haws mynd ati'n effeithiol i ystyried ffynonellau ynni adnewyddadwy, technoleg hynod effeithiol a systemau gwresogi ac oeri ardal yng nghyd-destun datblygu ardaloedd diwydiannol a phreswyl. Hefyd (o 1 Ionawr 2012 ymlaen) bydd yn ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad cyhoeddus newydd, ac adeilad cyhoeddus presennol sy'n cael ei ailwampio, yn batrwm i eraill yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb. Mae'r materion sydd wrth graidd y dyletswyddau hyn yn rhai y bu'r polisi cynllunio yn canolbwyntio arnynt ers tro byd yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, dylai awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr fel ei gilydd dalu sylw penodol i'r canllawiau a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy15 a Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy – Llawlyfr i Gynllunwyr16. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried paratoi canllawiau eraill wedi'u targedu, lle bo hynny'n briodol.' (PCC fersiwn 6, Par 12.8.2)[3]

Datblygiadau Telathrebu

1.33 'Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod seilwaith telathrebu fforddiadwy, diogel sy'n hygyrch dros ardal eang yn bwysig i ddinasyddion a busnesau ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y seilwaith telathrebu yng

[3] Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 7, Gorffennaf 2014), Pennod 12 – Isadeiledd a Gwasanaethau 12.8

Nghymru yn gallu bodloni'r her hwn, gan helpu i adeiladu economi ffyniannus yng Nghymru. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r diwydiant telathrebu a'r corff rheoleiddio cyfathrebu, Ofcom, i rannu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r seilwaith telathrebu, i ddeall y ffactorau rheoleiddiol, economaidd a chynllunio sy'n rhwystro buddsoddiadau ac i ddylanwadu ar lunio polisïau yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau sefydledig ar gyfer diogelu cefn gwlad ac ardaloedd trefol – yn enwedig y Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yr Arfordir Treftadaeth ac ardaloedd ac adeiladau o bwys pensaernïol neu hanesyddol."[4]

Nodiadau Cyngor Technegol

1.34 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cael ei gefnogi gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) sy'n cynnwys y canlynol**:**

1.35 ***NCT 8:*** *Ynni Adnewyddadwy* - mae'n dynodi saith Ardal Chwilio Strategol (SSA) ledled Cymru. Mae'r rhain yn ardaloedd y gellir o bosibl lleoli'r ffermydd gwynt mwyaf (>25MW) ynddynt. Mae TAN 8 yn nodi ardaloedd lle mae'n debygol y caiff cynigion eu cefnogi, ardaloedd i'w gwarchod yn sylweddol rhag datblygiadau ffermydd gwynt, a'r ymagwedd i'w dilyn mewn ardaloedd eraill. Mae TAN 8 yn nodi y dylid osgoi ymgymryd â chynlluniau ynni gwynt mawr ar y rhan fwyaf o'r ardaloedd y tu allan i'r SSAau; serch hynny, efallai y gellir ystyried ffermydd gwynt hyd at 25 MW ar safleoedd tir llwyd ac ar gyfer cynlluniau ynni gwynt cymunedol a domestig llai na 5 MW mewn mannau eraill. Mae *Nodyn Canllaw Gwybodaeth 3 LANDMAP: Defnyddio LANDMAP ar gyfer Asesiad o Effaith Tyrbinau Gwynt ar y Tir ar Dirwedd a Gweledol* (2013) yn cyfeirio at TAN 8 ac yn cyflwyno gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r SSAau a datblygiadau ynni gwynt gyda'r bwriad o osgoi, lleihau a gwneud yn iawn am effeithiau andwyol.

1.36 O ran datblygiad ynni gwynt, mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol bod rhagdybiaeth ar gyfer newid tirwedd mawr yn y SSAau ac yn agos atynt, ond na ddylid caniatáu newid sylweddol y tu allan i'r SSAau.

1.37 Mae TAN 8 yn cyfeirio at ddatblygiadau ynni solar PV; fodd bynnag, mae hyn yn gysylltiedig â datblygiadau ar raddfa ddomestig sydd y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon.

1.38 ***NCT 12: Dylunio*** – mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol werthuso cymeriad y dirwedd, gan gynnwys y rhinweddau gweledol a synhwyrol ac mae'n pwysleisio bod angen ystyried cymeriad tirwedd wrth ddatblygu fframwaith cynllunio cadarn a chydlynol. Y bwriad yw sicrhau y lleolir datblygiadau mewn ardaloedd sy'n gallu eu cynnwys orau, sydd wedyn yn helpu i gyfyngu'r effeithiau andwyol a chynnal amrywiaeth y dirwedd. Mae TAN 12 yn cefnogi'r defnydd o LANDMAP er mwyn helpu i hysbysu a chanfod lle ffefrir datblygu o ran tirwedd.

1.39 ***NCT 13: Twristiaeth*** - mae'n rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth ym maes cynllunio, gan gynnwys amodau meddiannaeth, datblygiadau carafanau a chabannau gwyliau, a chyngor perthnasol arall.

1.40 ***NCT 14: Cynllunio'r Arfordir*** - mae'n rhoi cyngor ar faterion allweddol sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer y parth arfordirol, gan gynnwys cynlluniau rheoli hamdden a threftadaeth a'r draethlin.

1.41 ***NCT19: Telathrebu*** – mae'n rhoi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â thelathrebu ym maes cynllunio gan gynnwys mastiau ffonau symudol ac ystyriaethau amgylcheddol.

Canllaw ar gyfer Dylunio Cynaliadwy yn y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru (Gwanwyn 2009)

1.42 Nod y canllaw hwn yw hyrwyddo dyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel, sy'n ychwanegu at harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Parciau Cenedlaethol Cymru.

1.43 Mae'r ddogfen yn ystyried datblygiadau ynni adnewyddadwy, tirwedd, bioamrywiaeth, lle ac arbenigrwydd lleol ymhlith egwyddorion eraill dylunio cynaliadwy. Mae'n cynnig arweiniad generig a all gael ei ddefnyddio gan staff rheolaeth datblygu i asesu ceisiadau cynllunio, yn ogystal â datblygwyr, tirfeddianwyr a dylunwyr.

Cefndir Polisi Lleol

1.44 Yn dilyn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) mae angen i bob Awdurdod Unedol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal. Bydd y cynlluniau hyn yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol (CDU) cynharach ac yn dod yr unig gynllun datblygu ar gyfer pob Cyngor ac Awdurdod y Parc. Bydd

[4] Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 7, Gorffennaf 2014), Pennod 12 – Isadeiledd a Gwasanaethau 12.11

pob CDLl unigol yn un ddogfen, yn gosod allan strategaeth, a pholisïau ar gyfer safleoedd penodol ac i reoli datblygiad.

1.45 Fe gyhoeddodd Awdurdod y Parc y CDU ar ei gyfer ef yn 2011.

1.46 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn (ym Mai 2013) wedi cyhoeddi eu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC). Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyhoeddi yn hydref 2014 (yn unol â'r amserlen adolygedig). Mae'n cael ei ragweld y bydd y CDLlC yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol yn 2016.

1.47 Ym Môn, mae Cynllun Fframwaith Gwynedd a Chynllun Lleol Ynys Môn yn ffurfio'r 'Cynllun Datblygu' a'r rheiny fydd y cynllun mabwysiedig ar gyfer awdurdod cynllunio lleol Môn hyd nes bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol Wedi ei Stopio hefyd yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

1.48 Bydd Cynllun Datblygu Unedol (CDU) presennol Gwynedd yn parhau i weithredu fel y cynllun mabwysiedig ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd hyd at adeg mabwysiadu'r CDLlC yn ffurfiol.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd) – Gwaith yn dod ymlaen

1.49 Mae cyfres o bapurau pwnc a phapurau testun wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth i gefnogi ac fel cefndir i'r CDLlC a bydd y rheiny'n rhan o'r sail o dystiolaeth yn gysylltiedig gyda materion fydd angen sylw tu mewn i'r CDLlC. Mae'r papurau cefndir a ganlyn yn arbennig o berthnasol i'r astudiaeth hon:

- Papur Cefndir: Strategaeth Tirwedd Gwynedd (Diweddariad 2012) *Noder: Dogfen wedi'i seilio ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd (mabwysiadwyd Tachwedd 2009) a gynhyrchwyd ar gyfer CDU Gwynedd, sy'n israddu'r Ardal Awdurdod Lleol yn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd.*
- Papur Cefndir: Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (Diweddariad 2011) *Noder: Dogfen gefndir sy'n israddu'r Ardal Awdurdod Lleol yn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd.*

1.50 Papur cefndir: Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig Môn a Gwynedd (2012). Dogfen sy'n cyflwyno nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig posibl/arfaethedig[5] ar draws Môn a Gwynedd; gan ddefnyddio LANDMAP a thystiolaeth arall ar sail desg ac arolwg maes.

Ynys Môn – 'Cynllun Datblygu'

<u>Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993)</u>

1.51 Roedd Cynllun Fframwaith Gwynedd yn darparu'r canllawiau strategol ar gyfer datblygu ar Ynys Môn am y cyfnod 1991 i 2006.

<u>Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)</u>

1.52 Mae Cynllun Lleol Ynys Môn yn dehongli polisïau yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd (1993) yn fanylach ac mae nifer o Fapiau Cynigion i fynd gydag ef. Yn y cynllun, mae polisïau sy'n rhoi amlinelliad o flaenoriaethau'r Cyngor o ran gwarchod mannau fel AHNE ac Arfordir Treftadaeth.

<u>*Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (wedi ei stopio yn 2005)*</u>

1.53 Mae'r Cynllun Datblygu Unedol wedi ei Stopio (2005) yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer cynllunio oherwydd bod y gwaith paratoi arno wedi dod ymlaen gryn dipyn.

<u>*Canllawiau Cynllunio Atodol*</u>

1.54 Cynhyrchwyd Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi polisïau sydd yn y fframwaith polisi cyfredol (sy'n cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993), Cynllun Lleol Ynys Môn (1996) a'r Cynllun Datblygu Unedol wedi ei Stopio (2005). Mae'r pwyntiau a ganlyn yn berthnasol i'r astudiaeth hon:

- Llety Gwyliau (Mabwysiadwyd 2007)
- Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol Gogledd Cymru (Mabwysiadwyd 2002)
- Ynni Gwynt ar y Tir (Mabwysiadwyd 2013)

Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (Gorffennaf 2009)

[5] Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n diffinio Ardaloedd Tirwedd Arbennig fel 'ardal o ddiddordeb tirwedd uchel o ran eu gwerth cynhenid yn ffisegol, amgylcheddol, gweledol, diwylliannol a hanesyddol' (2008).

1.55 Prif amcan y CDU yw sicrhau datblygiad cynaliadwy a chreu amgylchiadau ffafriol i warchod, cefnogi a datblygu cymunedau - yn ddiwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

1.56 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol wedi cael eu cynhyrchu i gefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol. Mae'r pwyntiau a ganlyn yn berthnasol i'r astudiaeth hon:

- Cymeriad Tirwedd (Mabwysiadwyd Tachwedd 2009). Diweddarwyd y ddogfen hon wedyn, a'i chyhoeddi fel Strategaeth Tirwedd Gwynedd yn 2012, fel dogfen gefnogi i roi gwybodaeth gefndir ar gyfer y CDLlC.
- Llety Gwyliau (mabwysiadwyd Gorffennaf 2011)
- Ynni Gwynt ar y Tir (Drafft Rhagfyr 2012)

1.57 Mae rhan fawr y Wynedd wedi'i dynodi fel Parc Cenedlaethol Eryri ac er bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn ei ardal ei hunan, Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ardaloedd cyfagos tu mewn i ardal yr astudiaeth. Gan y gallai unrhyw ddatblygiad mewn ardaloedd cyfagos effeithio ar gefndir ehangach y Parc, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y pwrpas y dynodwyd y Parc Cenedlaethol ar ei gyfer.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022 (2011)

1.58 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau cynllunio statudol, rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd ystyried cyfrifoldebau statudol a rôl reoli Awdurdodau Parc Cenedlaethol fel sydd yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

Y pwrpasau hyn yw:

Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc.

Hyrwyddo cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc.

1.59 Mae'r CDLl yn nodi:

'Er nad yw prosiectau cynhyrchu pŵer o ynni ar raddfa fawr yn gydnaws â statws Parc Cenedlaethol, rhoddodd asesiad o ynni adnewyddadwy yn Eryri ystyriaeth i'r posibilrwydd fod lle o bosibl i gyfrannu at leihau galw am drydan o danwydd ffosil trwy arbedion effeithlonrwydd a thrwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy bach i ddiwallu anghenion domestig neu gymunedol. Roedd y rheiny'n cynnwys cynlluniau trydan dŵr ar raddfa fach, tyrbinau gwynt domestig, ffotofoltäig, biomas a nwy safle tirlenwi'. (Paragraff 3.19).

1.60 Mae'r CDLl yn cynnwys polisi penodol sy'n ymwneud â diogelu'r dirwedd mewn perthynas â datblygiadau: Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd (2), sy'n nodi fel a ganlyn:

'Dylai graddfa a dyluniad datblygiad newydd yn cynnwys ei osodiad a thirlunio barchu a diogelu cymeriad y dirwedd. Ymwrthodir effeithiau annerbyniol ar y dirwedd a rhoddir ystyriaeth benodol iawn i warchod:

- *Ardaloedd Adran 3 o harddwch naturiol*[6]*.*
- *Arfordir sydd heb ei ddatblygu.*
- *Golygfeydd sydd yn weladwy o olygfannau.*
- *Ardaloedd cymeriad tirlun wedi ei seilio ar LANDMAP fel y diffinnir yng Nghanllaw Atodol ar Dirweddau Eryri.'*[7]

1.61 **Mae'r CDLl hefyd yn datgan:**

'Mae tirweddau Eryri'n cynnwys mynyddoedd creigiog, rhostiroedd uchel, dyffrynnoedd coediog, llynnoedd, rhaeadrau, aberoedd, ac arfordir sydd i gyd yn cyfrannu at 'Rinweddau Arbennig' yr ardal. Mae llonyddwch a phellenigrwydd yr ardal hefyd yn ychwanegu at yr hyn sy'n gwneud Eryri mor arbennig. Bydd yr Awdurdod (APCE) yn annog datblygiad nad yw'n effeithio'n andwyol ar unrhyw un o'r rhinweddau arbennig hyn er mwyn cynnal

[6] Mae Adran 3 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygio) 1985 yn rhoi cyfrifoldeb ar bob un o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr i baratoi map sy'n dangos yr ardaloedd o fynydd-dir, gweundir, rhostir, coetir, twyndir, clogwyni neu flaendraeth y mae'r Awdurdod yn ystyried bod ei harddwch naturiol yn arbennig o bwysig i'w warchod.

[7] Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) 2007-2022 (2011)

ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn y parc a phrofiad ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol. Gall datblygiadau tu allan i'r Parc Cenedlaethol hefyd gael effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd ac effeithio ar olygfeydd allan ac i mewn i'r ardal. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd trafod effeithiau traws ffiniol datblygiadau ar y dirwedd gydag Awdurdodau cyfagos. Bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i'r effaith weledol ac effaith ar y dirwedd yn achos cynigion sydd yn agos i ffiniau'r Parc Cenedlaethol a'r modd y gall y rhai hyn effeithio ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol."[8] Paragraff 3.18

1.62 Mae nifer o ddogfennau Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) wedi cael eu paratoi i ddarparu rhagor o wybodaeth fanwl i gefnogi CDLl Eryri. Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r dogfennau hyn wrth wneud penderfyniadau ac maent yn ystyriaeth berthnasol. Mae'r CCA a ganlyn yn berthnasol i'r astudiaeth hon:

- Llety Ymwelwyr (Hydref 2012).
- Tirweddau Eryri (Drafft Gweithio) - Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi defnyddio LANDMAP i hysbysu canfod Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACT) a chanllawiau rheoli perthynol.
- Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Drafft).

Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd, Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd (Cadw) (2004)

1.63 Mae'r Safle Treftadaeth y Byd hwn yn cynnwys Cestyll a Muriau Trefi Caernarfon a Chonwy, a Chestyll Harlech a Biwmares. Mae'r tri chastell sydd wedi'u hamlygu â llythrennau trwm o fewn ardal yr astudiaeth, ac mae Castell a Muriau Tref Conwy o fewn clustogfa ardal yr astudiaeth.

1.64 Mae Cynllun Rheoli[9] wedi'i baratoi ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd i ddiogelu a gwella lleoliadau'r Cestyll ac i annog eu cyflwyno i'r cyhoedd ar gyfer addysg ac ymchwil gydol oes. Mae lleoliad yr henebion wedi'i ddiogelu trwy'r system gynllunio leol; mae'r Cynghorau ac Awdurdod y Parc wedi nodi polisïau cynllunio i ddiogelu Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad yn y dirwedd (gan gynnwys golygfeydd pwysig a hanesyddol i mewn ac allan o bob heneb yn Safle Treftadaeth y Byd sydd, yn gyffredinol, yn ymestyn y tu hwnt i ardal y lleoliad hanfodol).

Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn (2009-2014)

1.65 Mae'r dibenion, dyletswyddau a gofynion rheoli ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'u dangos yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Nid yw'n bwrpas gan y dynodiad hwn i fod yn atal datblygiad ond bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried unrhyw gynnig datblygu er mwyn sicrhau nad yw'n gwneud niwed gormodol i gymeriad ac ymddangosiad yr AHNE, sicrhau ei fod wedi'i leoli'n sensitif a'i fod wedi'i ddylunio i gyd-fynd gyda neu wella cryfderau a nodweddion arbennig yr ardal.

1.66 Mae Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn yn fframwaith ar gyfer darparu gwybodaeth a llywio gweithgareddau allent effeithio ar yr AHNE.

1.67 Mae'r CDLlC yn darparu gwarchodaeth lefel uchel i'r AHNE trwy gyfrwng gwahanol bolisïau a chynigion, tra bod y Cynllun Rheoli'n cefnogi'r CDLlC trwy gyfrwng polisïau priodol ar amddiffyn, parhad a gwella nodweddion arbennig yr ardal.

Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn (Penrhyn Llŷn) (2010-2015)

1.68 Fel gyda Chynllun Rheoli AHNE Ynys Môn a drafodwyd uchod, mae Cynllun Rheoli AHNE Llŷn (Penrhyn Llŷn) yn fframwaith ar gyfer darparu gwybodaeth a llywio gweithgareddau allent effeithio ar yr AHNE.

1.69 Yn y Cynllun Rheoli, mae'r amcanion, polisïau a rheolaeth sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer yr AHNE. Mae'r polisïau sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon yn dod o dan y penawdau thematig AHNE a ganlyn:

- Thema 1: Cefn Gwlad a Chymeriad Arfordirol (cod CCC).
- Thema 6: Newid Hinsawdd (cod CLC).

Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri (2010-2015)

[8] Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) 2007-2022 (2011)

[9] http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/protection/worldheritage/cstlsedward1/?lang=en

1.70 Mae Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'n cael ei adolygu bob pum mlynedd ac mae'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc (Drafft 2009) yn cael ei ddefnyddio fel ffynhonnell ar ei gyfer, ac mae hwnnw hefyd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Mae'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc hefyd yn cynnwys map llonyddwch.

Asesiad Morlun Cymru (Morluniau Cymru a'u sensitifrwydd i ddatblygiadau alltraeth) 2009

1.71 Mae CCGC (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) erbyn hyn) wedi asesu cymeriad a nodweddion arbennig morluniau Cymru, gan gynnwys eu sensitifrwydd cymharol i ddatblygiadau ar y môr.

1.72 Mae Asesiad Morlun Cymru yn rhannu arfordir Cymru yn 50 uned morlun rhanbarthol sy'n nodi cymeriad a rhinweddau pob uned. Mae hefyd yn asesu sensitifrwydd a chynhwysedd pob uned morlun i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn y môr. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddatblygiadau ynni gwynt yn y môr mae'n darparu gwybodaeth werthfawr wrth benderfynu ar effaith bosibl datblygiadau ynni gwynt ar y tir ar gymeriad a rhinweddau morlun.

Asesiad Morlun Ynys Môn ac Eryri (2013)

1.73 Mae Asesiad Cymeriad Morlun Ynys Môn ac Eryri, a gwblhawyd ym mis Awst 2013[10], yn asesu'r Mathau Cymeriad Morlun (SCTs) a'r Ardaloedd Cymeriad Morlun (SCAs) mwy manwl sy'n rhan o'r ddau ranbarth.

1.74 Un o brif ddibenion yr Astudiaeth Morlun oedd i ddal y rhinweddau canfyddiadol ac arbrofol o'r arfordir, a'u perthnasu gyda gwahanol amgylcheddau ffisegol ac ardaloedd daearyddol. Mae canlyniadau'r astudiaeth hon wedi llywio'r Astudiaeth Capasiti Tirwedd a Sensitifrwydd hwn gyda SCTau a SCAu a gyfeirir atynt drwyddo draw.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Map Ardaloedd Tawel Cymru (Mawrth 2009)

1.75 Mae'r Map Ardaloedd Tawel Cymru, 2009 a'r dadansoddiad ystadegol sy'n cyd-fynd ag o, yn darparu sylfaen dystiolaeth wrthrychol a chadarn i lywio penderfyniadau cynllunio. Gyda'i gilydd maent yn darparu dangosydd o newid mewn tawelwch a ellir ei ddefnyddio mewn Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad o Effaith Amgylcheddol. Maent yn nodi sut y mae penderfyniadau cynllunio dros y 12 mlynedd diwethaf wedi effeithio ar dawelwch yng Nghymru ac mae'n darparu llinell sylfaen i fesur yr effaith bosibl y gall cynlluniau a rhaglenni eu cael ar dawelwch a'r awyr nosol yn y dyfodol.

1.76 Mae haenau data GIS a mapiau sydd wedi eu cynnwys ym Map 2009 ar gael ac maent yn ffynhonnell ddefnyddiol o ddata. Darperir copi o fap 2009 wedi ei droshaenu â data cod post yn Ffigwr A-3 yn Atodiad

Patrwm Gweithredu tuag at yr Astudiaeth

1.77 Prif amcanion yr asesiad yw:

- Darparu asesiad strategol o sensitifrwydd cymharol tirweddau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i ystod o ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygiad twristiaeth gan ddefnyddio setiau o feini prawf tirweddol a gweledol sy'n cynnwys agweddau corfforol a chanfyddiadol yn ogystal â rhoi ystyriaeth i werth tirwedd.
- Datblygu cyfres o strategaethau tirwedd sy'n rhoi syniad o ble y gallai datblygiadau orau gael ei leoli ac awgrym o raddfa briodol datblygiad, yn seiliedig ar drothwyon uchafswm capasiti.
- Darparu canllawiau lleoli a dylunio sy'n berthnasol i bob un o'r gwahanol fathau o ddatblygiad ac ystyried methodoleg ar gyfer gwerthusiad cronnus o'r dirwedd ac effaith weledol gwahanol fathau o ddatblygiad.

1.78 Nid oes dull y cytunwyd arno yn ffurfiol ar gyfer asesu sensitifrwydd na gallu tirweddau mewn perthynas â mathau gwahanol o ddatblygu ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn yr astudiaeth hon. Mae'r fethodoleg a nodir yn Adran 2 wedi cael ei ddatblygu o ganllawiau cyhoeddedig presennol a'r dull a ddefnyddir mewn astudiaethau tebyg eraill. Mae'n seiliedig ar yr cynsail y dylai datblygiad gael ei dderbyn yn fwy rhwydd yn yr ardaloedd lleiaf sensitif a dylent osgoi ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr am eu nodweddion golygfaol, hamdden a rhinweddau annatblygedig, megis llonyddwch a phellenigrwydd; yn enwedig yr ardaloedd hynny sy'n cael eu heffeithio gan ddynodiadau rhyngwladol neu genedlaethol a'r rhai lle mae'r effeithiau cronnol cynlluniau presennol a chynlluniau wedi cael caniatad yn cyfyngu datblygiad pellach.

[10] Asesiad Cymeriad Morlun Ynys Môn ac Eryri, Fiona Fyfe Associates (Awst 2013)

Strwythur yr Adroddiad

1.79 Mae gweddill yr adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

Rhan 2: Methodoleg

Rhan 3: Tirweddau gwaelodlin Parc Cenedlaethol Eryri

Rhan 4: Gwerthusiad o Sesnitifrwydd Tirwedd a Chyflwyno Strategaethau

Rhan 5: Arweiniad generic ar Leoli & Dyluniad

Rhan 6: Arweiniad ar gyfer Asesu Effeithiau Tirweddol a Gweledol Cronnus

1.80 Cefnogir yr adroddiad hefyd gyda ffigyrau ac atodiadau fel y'i rhestrwyd yn y cynnwys.

RHAN 2: METHODOLEG

2.1 Mae methodoleg yr adroddiad wedi'i dangos yn y siart llif isod ac yn cael ei disgrifio'n fanylach yn y testun sy'n dilyn.

Diagram Llif Methodoleg

Cam Un: Fframwaith Asesu

2.2 Cafodd y fethodoleg ei llywio nifer o ddogfennau gan gynnwys canllawiau a ddatblygwyd i'w defnyddio yn yr Alban sy'n cael eu derbyn yn helaeth yng Nghymru a Lloegr. Roedd y ddogfen arferion da canlynol yn llawn gwybodaeth:

- *Canllawiau ar gyfer Asesu Effaith Tirwedd a Gweledol (GLVIA3).* Y Sefydliad Tirwedd a'rSefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA) (Trydydd Argraffiad 2013). Dyma safon y diwydiant ar gyfer asesu tirwedd a gweledol.

2.3 Mae GLVIA3 yn hyrwyddo'r defnydd o farn broffesiynol ynghyd â dealltwriaeth o gymeriad tirwedd i gynorthwyo ar gyfer rhagdybiaethau ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud un dirwedd yn fwy neu'n llai sensitif na thirwedd arall i fathau penodol o ddatblygiad. Yn allweddol i hyn yw dealltwriaeth o ba agweddau o'r dirwedd sy'n dueddol i'r mathau o ddatblygiad a gynigiwyd. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion ffisegol, canfyddiadol a phrofiadol. Mae tueddiad y rhain yn cael ei asesu ar wahân yn gyntaf cyn cael eu cyfuno â safbwynt ar werth cymharol y dirwedd dan sylw a llunio safbwynt o sensitifrwydd cyffredinol drwy asesiad cytbwys o'r holl nodweddion.

Ffynonellau Data

2.4 Hysbyswyd yr asesiad gan ddata a gasglwyd o ffynonellau o wybodaeth sylfaenol a restrir yn Atodiad 5, sy'n cynnwys mapiau, asesiadau cymeriad tirwedd a hanesyddol perthnasol, LANDMAP, gwaith maes ac ymgynghoriadau â'r Grŵp Llywio.

LANDMAP

2.5 LANDMAP yw'r fethodoleg a fabwysiadwyd yn ffurfiol ar gyfer asesu tirwedd yng Nghymru ac mae wedi'i defnyddio'n helaeth yn yr astudiaeth hon. Mae LANDMAP yn adnodd tirwedd GIS Cymru gyfan lle cofnodir cymeriad, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd a'u gwerthuso mewn cyfres o ddata cenedlaethol cyson. Mae LANDMAP yn cynnwys pum cyfres o ddata perthynol (haenau) – Tirwedd Ddaearegol, Tirwedd Cynefinoedd, Gweledol a Synhwyrol, Tirwedd Hanesyddol a Thirwedd Ddiwylliannol.

2.6 Gyda'i gilydd mae'r rhain yn dangos beth yw nodweddion tirwedd, beth sy'n ei gwneud yn unigryw, a pha fath o newidiadau a phwysau y gallai'r dirwedd fod yn sensitif iddynt. Mae gwybodaeth ar bob un wedi'i nodi ym Methodoleg LANDMAP: Canllawiau Cymru (CNC, 2013).

2.7 Mae pob un o'r pum haen ofodol wedi'i rhannu'n unedau daearyddol arwahanol (polygonau GIS) y cyfeirir atynt fel ardaloedd agwedd. Mae pob ardal agwedd ar y map yn cael ei diffinio gan ei nodweddion a rhinweddau tirwedd adnabyddedig. Gyda phob ardal agwedd mae disgrifiad (cofnod Arolwg Casglwr) sy'n disgrifio ac yn dogfennu cymeriad, nodweddion a rhinweddau'r dirwedd. Mae argymhellion rheoli hefyd yn cael eu nodi, ynghyd â sgôr gwerthusiad cyffredinol, yng nghyd-destun pwysigrwydd lleol i bwysigrwydd rhyngwladol.

2.8 Mae pob Arolwg Casglwr yn cofnodi gwybodaeth o safbwynt unigryw'r haen LANDMAP dan sylw, gyda phob haen LANDMAP yn cael ei chynhyrchu ar wahân ar gyfer pob un o'r pum haen. Felly, pan gyfeirir at nodweddion allweddol ar draws nifer o haenau ar gyfer yr un ardal ddaearyddol, pwysleisir eu pwysigrwydd. Fodd bynnag, dim ond drwy asesu pob haen yn unigol y gellir deall pa agweddau o gymeriad a nodweddion y dirwedd sy'n sensitif.

2.9 Er bod GLVIA3 yn argymell y dylid defnyddio data o'r pum haen LANDMAP mewn unrhyw asesiad, nid oedd yr wybodaeth ynglŷn â Thirwedd Ddiwylliannol yn yr haen Tirwedd Ddiwylliannol yn ddigon manwl i fod yn ddefnyddiol ar gyfer yr astudiaeth hon[11], felly cytunwyd â'r Grŵp Llywio na ddefnyddir yr haen hon.

Diffiniad o Ardal Astudiaeth a Graddfa'r Mapio

Ardaloedd Astudiaeth Cyffredinol ac Unigol

2.10 Mae'r ardal astudiaeth gyfan yn cynnwys pob un o ardaloedd awdurdod cynllunio lleol Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (gweler Ffigwr 1). Mae'n cynnwys ardaloedd â nodweddion tirwedd penodol yn bennaf Parc Cenedlaethol Eryri (gan gynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol a'r Arfordir Annatblygedig fel y

[11] Nid yw Nodyn Canllaw Gwybodaeth 3 LANDMAP yn nodi unrhyw feini prawf gwerthuso penodol ar gyfer y Dirwedd Ddiwylliannol

nodwyd yn CDLl APCE), AHNE Ynys Môn, AHNE Llŷn, Safle(oedd) Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd, Arfordir Treftadaeth Bae Aberffraw (Ynys Môn), Arfordir Treftadaeth Mynydd Tŵr (Ynys Môn), Arfordir Treftadaeth Gogledd Môn (o Borth Swtan i Amlwch, Ynys Môn), Arfordir Treftadaeth Llŷn (o amgylch Pen Llŷn, gan gynnwys Ynys Enlli, Gwynedd), Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig, a Pharciau a Gerddi Cofrestredig.

2.11 Roedd yr asesiad yn ystyried materion arfordirol a morlun pan oeddent yn berthnasol i asesu cymeriad tirwedd a sensitifrwydd arfordir Ynys Môn a Gwynedd ac Eryri rhwng Penygogarth (i'r gogledd-ddwyrain) i lawr i aber Afon Dyfi yn Aberdyfi (ymhell yn ne ardal yr astudiaeth). Lle mae gan dirweddau berthynas agos â'r arfordir a'r môr, defnyddiwyd gwybodaeth o Asesiad Morlun Cymru CCGC ac Asesiad Cymeriad Morlun Ynys Môn ac Eryri ochr yn ochr â'r disgrifiadau ACT er mwyn helpu i lywio'r asesiad.

2.12 Nid oedd ystyried sensitifrwydd datblygiadau ar y môr megis datblygiadau ynni gwynt, a datblygiadau ynni hydro amrediad llanw ac alltraeth yn rhan o gylch gwaith yr astudiaeth.

2.13 O ran datblygiadau ynni gwynt mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â sensitifrwydd tirwedd a gweledol datblygiadau llai; fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried dylanwad datblygiadau gweithredol / gyda chaniatâd ar y dirwedd fel rhan o'r waelodlin ar gyfer ystyried sensitifrwydd a chynhwysedd. Gan fod effeithiau tirwedd a gweledol datblygiadau fertigol tal megis tyrbinau gwynt yn gallu ymestyn ar draws ffiniau, pennir uchafswm o 35 km fel cylchfa'r astudiaeth. Mae hyn yn ystyried natur uchel y dirwedd a'r potensial am olygfeydd pellgyrhaeddol allan o Barc Cenedlaethol Eryri a rhannau o Wynedd ar y cyd â phresenoldeb tair Ardal Chwilio Strategol (SSA A, SSA B ac SSA D) sydd oll yn gorwedd o fewn 35 km o Barc Cenedlaethol Eryri.

2.14 Lle bo'n berthnasol mae'r astudiaeth hon wedi ystyried gwybodaeth a gedwir mewn cronfeydd data LANDMAP a strategaethau tirwedd a baratowyd gan awdurdodau cyfagos Conwy, Sir Ddinbych, Powys a Cheredigion.

2.15 Oherwydd natur amrywiol y gwahanol fathau o ddatblygiad a'r pwysau daearyddol cysylltiedig, cytunwyd y byddai ardaloedd astudiaeth a chylchfeydd astudiaeth ar wahân yn cael eu llunio ar gyfer pob math o ddatblygiad.

Graddfa Mapio

2.16 Fel arfer mae astudiaethau sensitifrwydd a chynhwysedd tirwedd yn seiliedig ar asesiadau cymeriad tirwedd lleol cyfredol sy'n rhannu'r dirwedd yn unedau cymeriad (mathau neu ardaloedd). Yna mae'r rhain yn cael eu hadolygu a nodir nodweddion allweddol pob uned tirwedd sy'n gallu bod yn sensitif i unrhyw ddatblygiad (meini prawf sensitifrwydd allweddol). Er bod y meini prawf sensitifrwydd allweddol hyn yn gallu amrywio yn dibynnu ar natur y datblygiad sy'n cael ei ystyried, mae'r ymagwedd gyffredinol fwy neu lai'r un fath.

2.17 Ar gyfer yr astudiaeth hon, mae'r asesiad yn seiliedig ar y 59 ACT presennol sydd wedi'u nodi yn y dogfennau canlynol:

- CDLl ar y Cyd Papur Cefndir: Strategaeth y Tirwedd Môn (Diweddariad 2011) – diffinio 18 ACT.
- CDLl ar y Cyd Papur Cefndir: Strategaeth y Tirwedd Gwynedd (Diweddariad 2012) – diffinio 16 ACT.
- Nghynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri (2011) – Tirweddau Eryri (Drafft) – diffinio 25 ACT

2.18 Mae Ffigwr 3 yn dangos y 59 ACT yng nghyd-destun ardal yr astudiaeth.

Meini Prawf Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol

2.19 Un cam allweddol ym mhroses yr astudiaeth oedd canfod a deall agweddau o dirwedd sy'n fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y gwahanol fathau o ddatblygiad gan mai'r nodweddion hyn sy'n diffinio faint o ddatblygiad y gellir ei gynnwys yn yr ardal neu beidio.

2.20 Mae'r meini prawf a ddiffinnir yn Nhablau 2.03 – 2.07 yn seiliedig ar arferion da cyfredol a chytunwyd arnynt gyda'r Grŵp Llywio. Maent yn cynnwys meini prawf sy'n ymwneud â chymeriad tirwedd a mwynderau gweledol ynghyd ag agweddau esthetig, canfyddiadol a phrofiadol eraill, er enghraifft ansawdd, pellenigrwydd a llonyddwch golygfa. Maent hefyd yn cynnwys meini prawf sy'n ymwneud â gwerth y dirwedd[12], fel y diffinnir gan bresenoldeb unrhyw ddynodiadau tirwedd a thirweddau heb eu dynodi sydd

[12] Er nad yw'n faen prawf sensitifrwydd yn hollol, mae tirweddau dynodedig yn nodweddiadol yn agored iawn i newid sy'n gysylltiedig â datblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth, felly cawsant eu cynnwys yn yr asesiad o sensitifrwydd.

wedi'u gwerthuso gan LANDMAP fel Eithriadol neu Uchel [13]. Mae'n bwysig pwysleisio efallai y gall tirwedd sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan gymdeithas dderbyn rhai mathau o ddatblygiad yn y lleoliad cywir - os yw'n cyd-fynd â chymeriad y dirwedd ac nad yw'n cyfaddawdu'r rheswm pam y rhoddir gwerth ar y dirwedd ac yn yr achos o dirwedd ddynodedig, nid yw'n cyfaddawdu pwrpas y dynodiad. Ar y llaw arall, gall tirwedd sydd heb ei dynodi fod yn hynod sensitif i fathau penodol o ddatblygiad os oes ganddi nodweddion penodol sy'n hynod sensitif i'r mathau hynny o ddatblygiad.

2.21 Mae'r tablau hefyd yn nodi'r setiau data LANDMAP (gweler Atodiad 6) a ffynonellau data allweddol eraill a ddefnyddiwyd i helpu i asesu sensitifrwydd pob maen prawf a sut y cawsant eu defnyddio i ddangos sensitifrwydd is neu uwch.

2.22 Cafodd sensitifrwydd pob ACT i'r gwahanol fathau o ddatblygiad ei asesu'n systematig yn erbyn pob un o'r meini prawf sensitifrwydd. Cafodd y sensitifrwydd yn erbyn pob maen prawf ei raddio gan ddefnyddio graddfa sensitifrwydd tri phwynt trosiannol, uwch, canolig neu is fel y disgrifir yn Nhabl 2.01 isod.

Tabl 2.01: Diffiniad o sensitifrwydd wedi'i asesu yn erbyn pob maen prawf

Sensitifrwydd	Diffiniad
Uwch	Ardaloedd lle mae nodweddion tirwedd allweddol yn agored i niwed ac yn debygol o gael eu heffeithio gan y math penodol o ddatblygiad sy'n cael ei ystyried. Ni fyddai'r dirwedd yn gallu derbyn datblygiad heb effaith sylweddol ar ei gymeriad.
Canolig	Ardaloedd lle gallai math penodol o ddatblygiad achosi rhai effeithiau andwyol ar nodweddion tirwedd allweddol. Er y gallai'r dirwedd dderbyn peth ddatblygiad os yw wedi'i leoli a'i ddylunio'n sensitif, gallai gyflwyno nodweddion anaddas newydd neu newid cymeriad.
Is	Tirweddau nad ydynt yn agored iawn i newid, ar ôl ystyried eu cymeriad a gwelededdcyffredinol, ac a allai dderbyn math penodol o ddatblygiad heb effaith andwyol sylweddol.

2.23 Yna cafodd asesiad sensitifrwydd cyffredinol pob ACT ei werthuso a rhoddwyd gradd sensitifrwydd cyffredinol gan ddefnyddio graddfa sensitifrwydd chwe phwynt, **isel, isel-canolig, canolig, canolig-uchel, uchel ac uchel iawn** fel y disgrifir yn Nhabl 2.02**.**

Tabl 2.02: Diffiniad o Asesiad Sensitifrwydd Cyffredinol

Sensitifrwydd	Diffiniad
Uchel Iawn	Mae nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn hynod o sensitif i'r math o newid a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
Uchel	Mae nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn sensitif iawn i'r math o newid a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.

[13] Mae NCT 8 yn nodi er mwyn canfod gwerth tirwedd ardal, dylid mapio gwybodaeth gyfredol ynglŷn â gwerth tirwedd o LANDMAP. Gall casgliad o sgorau gwerthuso Eithriadol ac Uchel mewn ardal benodol fod yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'n golygu gwaharddiad penodol yn erbyn datblygiad; dylid barnu'r wybodaeth sylfaenol lle cafwyd y gwerthusiad er mwyn llunio asesiad sensitifrwydd yn seiliedig ar werth.

Canolig - Uchel	Mae nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn sensitif i'r math o newid a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
Canolig	Mae rhai o'r nodweddion a rhinweddau allweddol y dirwedd yn sensitif i newid a graddfa'r datblygiad o'r math sy'n cael ei asesu.
Isel-Ganolig	Mae ychydig o nodweddion allweddol a rhinweddau y dirwedd yn sensitif i newid ar raddfa'r datblygiad o'r math sy'n cael ei asesu.
Isel	Mae nodweddion allweddol a nodweddion y dirwedd yn gadarn ac yn llai tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan y math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.

2.24 Roedd y broses hon yn gofyn am ymagwedd gytbwys, gan ystyried yr holl feini prawf asesu gan ganolbwyntio'n enwedig ar dueddiad nodweddion tirwedd allweddol pob ACT i'r math penodol o ddatblygiad. Mae pob un o'r gwerthusiadau yn cynrychioli barn dau o benseiri tirwedd siartredig cymwysedig a phrofiadol, yn seiliedig ar astudiaeth pen desg ac arolygon maes ill dau. Nid yw'r gwerthusiad cyffredinol o sensitifrwydd yn seiliedig ar unrhyw fformiwla fathemategol (er enghraifft - pennu sgorau ac adio'r sgoriau is, cymedrol ac uwch a gweithio allan beth yw'r cyfartaledd). **Fe ddylid hefyd pwysleisio** bod sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a bod y gwerthusiad cyffredinol yn cynrychioli sensitifrwydd cyffredinol ar draws yr ACT i adlewyrchu natur strategol yr astudiaeth hon.

2.25 Yn olaf, mae'n bwysig nodi bod sensitifrwydd y dirwedd a nodwyd yn yr astudiaeth hon yn gwbl berthynol i dirwedd Gogledd Cymru yn unig. Efallai y byddai tirwedd sydd wedi ei ddosbarthu fel sensitif yn yr astudiaeth benodol hon yn cael ei ddosbarthu fel un sensitifrwydd uwch neu is mewn rhannau eraill o'r DU.

Tabl 2.03: Meini prawf ar gyfer Asesu Asesu Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol i Ddatblygiad Ynni Gwynt

Meini Prawf Tirwedd		
Maint	Mae hwn yn un o nodweddion mwyaf pwysig sy'n effeithio ar ble gall tyrbinau gwynt gael eu gosod yn haws, a hefyd wrth ddylanwadu ar raddfa'r datblygiad a allai fod yn briodol. Mae tirwedd eang ar raddfa fawr fel arfer yn llai sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt mawr na tirwedd ar raddfa fach. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw graddfa ymddangosiadol y tirffurf yn cael ei leihau gan faint y tyrbinau.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS8: Graddfa / disgrifiadau ACB / data OS / Delweddaeth o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Llai •Tirweddau eang neu ar raddfa fawr	***Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Tirweddau ar raddfa fach • Systemau caeau ar raddfa fach •Elfannau graddfa dynol

<table>
<tr><td>Tirffurf</td><td colspan="2">Mae tirffurfiau sydd yn llyfn, rheolaidd a chonfecs, neu'n fflat ac unffurf yn debygol o fod yn llai sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt na thirffurfiau amrywiol cymhleth gyda thirnodau nodedig lle gallai tyrbinau gwynt gweladwy gael effaith andwyol ar ymddangosiad y tirffurf. Gall tirffurfiau cymhleth gynnig rhai cyfleoedd sgrinio ar gyfer tyrbinau ond mae angen cymryd gofal i sicrhau nad yw tyrbinau yn tra-arglwyddiaethu dros dirffurfiau cymhleth.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS Lefel 2: Tirffurf & VS4: Ffurf Topograffig / Disgrifiadau ACB /data OS data / Data Topograffig / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
• Tirffurf di-nodwedd syml
• Tirffurf Confecs
• Plateau
• Fflat ac unffurf</td><td>Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
• Bryniau garw
• Tirffurf afreolaidd neu dirffurf cymleth
• Dyffrynnoedd a brigiadau cul</td></tr>
<tr><td>Tirorchudd</td><td colspan="2">Nid yw'r maen prawf hwn yn ymwneud â sensitifrwydd deunydd penodol o fath o orchudd tir, ond yr argraff o batrwm gorchudd tir. Mae tirweddau heb annibendod syml gyda llinellau ysgubol a gorchudd tir cyson yn debygol o fod yn llai sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt. Gall ardaloedd o goedwigaeth fasnachol a ffermio dwys hefyd fod yn fynegydd o lai o sensitifrwydd. Mae tirweddau cymhleth sy'n cynnwys amrywiaeth neu frithwaith o nodweddion tirwedd nodweddiadol neu sensitif megis coed a choetiroedd, patrymau a gwrychoedd caeau afreolaidd yn nodweddiadol fod yn fwy agored i newid sy'n deillio yn sgil datblygiad ynni gwynt. Mae gorchudd coed a choetirol yn cynnig y potensial i sgrinio tyrbinau ar raddfa fach mewn sefyllfaoedd penodol (yn enwedig ar y cyd â thirffurf tonnog) er bod yn rhaid bod yn ofalus i beidio â chaniatáu tyrbinau i dynnu oddi wrth neu ddominyddu nodweddion arbennig lleol, fel bryncynnau coed, coed hynafol neu goedydd rhodfaol.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS Lefel 3: Tir orchudd & VS5: Patrwm tir orchudd / disgrifiaeau ACT / data AO / Delweddaeth o’r awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
• Tirwedd syml, rheolaidd neu unffurf
• Tir a ddatblygwyd, tir diffaith neu wastraff
• Porfa ucheldirol agored
• rhostir yr ucheldir
• Coedwigaeth
• Tir fferm yn yr iseldir</td><td>Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
• • tirlun cymhleth neu afreolaidd
• Ucheldir creigiog
• Bryniau agored
• Patrwm caeau / mosaig
• Dyffrynnoedd
• Dwr</td></tr>
</table>

Dylanwadau a grewyd gan ddyn	Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â faint o strwythurau adeiledig ac ymyrraeth ddynol sy'n bresennol yn y dirwedd. Efallai y bydd presenoldeb strwythurau modern megis tyrbinau gwynt, trafnidiaeth, seilwaith cyfleustodau neu gyfathrebu neu ddatblygiad diwydiannol yn lleihau sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad ynni gwynt, yn yr un modd ac y gall y dylanwadau gweladwy o chwarela neu dirlenwi. Fe all amlder y ffurf adeiledig a dylanwadau o waith dyn mewn ardaloedd setliadau dwys mwy cyfoes hefyd fynegi llai o sensitifrwydd i dyrbinau gwynt. Fodd bynnag, ym mhob un o'r achosion hyn rhaid gofalu i osgoi gwrthdaro gweledol pellach a newid cronnus drwy gyflwyno strwythurau fertigol ychwanegol. Mewn ardaloedd setlo mae cydbwysedd i'w daro rhwng effeithiau gweledol ac effeithiau ar gymeriad y dirwedd. Mae ardaloedd setlo fwy gwasgaredig a / neu eu nodweddion yw cymeriad mwy sefydledig, adeiledig traddodiadol neu hanesyddol, gan gynnwys strwythurau hanesyddol yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt. Gall coedwigaeth fasnachol hefyd gyflwyno dylanwad a wnaed gan ddyn dros dro i dirweddau ucheldirol a fyddai fel arall yn ymddangos yn naturiol a gwyllt.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS6: Setliad & VS27: Amod / disgrifiadau ACT / data OS / data Tir Lleol a'r Property Gazetteer (LLPG) data / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Isadeiledd mawr (trafnidiaeth/cyfathrebiadau/ isadeiledd cyfleustodau/tyrbinau gwynt) • Datblygiad diwydiannol cyfoes • Setliadau mawr / cronnus/ setliadau cyfoes • Coedwigaeth fasnachol	***Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Anaml /dim ffurf preswyl • Setliad gwasgaredig/ ardaloedd amhoblog • Presenoldeb adeiladau/strwythurau hanesyddol neu setliad
Meini Prawf Gweledol		
Nenlinelloedd a Gosodiadau	Mae tirweddau gyda chribau neu orwelion nodedig yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt na gorwelion sy'n llai amlwg, neu sydd wedi cael eu heffeithio gan strwythurau cyfoes sy'n bodoli eisoes, megis seilwaith trydan neu gyfathrebu. Mae presenoldeb nodweddion tirwedd arbennig neu hanesyddol megis henebion ar ben bryniau, meindyrau eglwys neu bentrefi brodorol yn cynyddu sensitifrwydd '.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd Disgrifiadau ACT/Data AO/Delweddaeth o'r awyr (Google Earth)/Ymweliaeau Safle	
	Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Nenlinelloedd llai amlwg	***Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch***

	• Nodweddion fertigol presennol (datblygiad cyfoes) • Datblygiad adeiledig presennol	• Nenlinelloedd amlwg • Nenlinelloedd nodedig • Nenlinelloedd di-dor/ annatblgedig • Presenoldeb tirwedd nodedig/sensitif gyda nodweddion tirweddol fel tirnodau hanesyddol
Symudiad	Gall tyrbinau dynnu y llygad drwy gyflwyno symudiad i mewn i'r dirwedd. Felly, mae tirweddau sydd yn cael eu heffeithio yn barod gan symudiad yn debygol o fod yn llai sensitif, ac fe fydd tirweddau sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu llonyddwch yn fwy sensitif.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS18: Lefel Mynediad Dynol/Ymweliadau Safle	
	Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Mynediad cyson neu aml • Prysurdeb	***Rhai dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Mynediad prin neu anaml
Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol a Derbynyddion Nodweddiadol (tu fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â golygfeydd a derbynyddion gweledol sy'n dylanwadu ar sensitifrwydd gweledol. Mae'r tebygolrwydd y bydd tyrbinau'n hynod weladwy yn y dirwedd yn dibynnu ar faint y datblygiad a'r tirffurf lle y'i lleolir ac ar gyfleoedd i guddio oherwydd gorchuddion tir, yn enwedig adeiladau, coed a choedlannau. Mae tirweddau sy'n cynnwys golygfeydd mewnol ac allanol cyfyngedig yn debygol o fod yn llai sensitif na thirweddau agored gyda golygfeydd mewnol ac allanol helaeth. Bydd argaeledd golygfeydd o'r tirweddau hyn o ardaloedd cyfagos hefyd yn dylanwadu ar sensitifrwydd. Mae tirweddau sy'n cynnwys llwybrau i dwristiaid, llwybrau cenedlaethol neu ranbarthol, a lleoliadau ymwelwyr cydnabyddedig eraill yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt. Yn yr un modd, gall agosrwydd at anheddiad sy'n cynyddu'r posibilrwydd o effaith andwyol ar fwynderau gweledol gynyddu sensitifrwydd ardal. Mae'r niferoedd a'r mathau o bobl sy'n debygol o brofi newid mewn golygfa oherwydd datblygiad arfaethedig yn dylanwadu ar sensitifrwydd gweledol. Y derbynyddion mwyaf sensitif yw preswylwyr, cymunedau, pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored lle mae'r dirwedd yn rhan o'r profiad, y rhai sy'n ymweld ag asedau treftadaeth adeiledig a naturiol sy'n canolbwyntio ar y dirwedd, atyniadau harddwch a hamdden allweddol a defnyddwyr llwybrau golygfaol. Mae pob lleoliad yn creu disgwyliadau penodol. Mae llwybrau cludiant fel arfer yn dderbynyddion llai sensitif, fodd bynnag mae golygfeydd sengl a dilyniannol o lwybrau golygfaol a thwristiaid cydnabyddedig yn bwysig i ganfyddiad y dirwedd.	
	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd	

	LANDMAP VS9: Tir Caeedi/Disgrifiadau ACT/Data AO/Delweddau o'r Awyr (Google Earth)/Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is • Tirweddau sy'n gyfyng, yn gynhwysol neu'n gaeedig gydag ychydig o olygfeydd mewnol neu allanol • Ychydig iawn o boblogaeth neu ddim mynediad • Tirweddau cyfagos o sensitifrwydd is • Cyfrannu ychydig iawn at y dirwedd ehangach • Cefnlen syml mawr • Cysylltiad gwan â'r ACT cyfagos	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is*** • Tirweddau sy'n gyfyng, yn gynhwysol neu'n gaeedig gydag ychydig o olygfeydd mewnol neu allanol • Ychydig iawn o boblogaeth neu ddim mynediad • Tirweddau cyfagos o sensitifrwydd is • Cyfrannu ychydig iawn at y dirwedd ehangach • Cefnlen syml mawr • Cysylltiad gwan â'r ACT cyfagos
Golygfeydd i Dirwedd Pwysig ac ohonynt a Nodweddion Treftadaeth Diwylliannol (tu fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae tirweddau sy'n bwysig i'r golygfeydd i mewn ac allan yn ogystal â lleoliad ardaloedd tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol dynodedig **allweddol** / canolbwynt (megis AHNE, Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Ardaloedd o Harddwch Eithriadol, Llwybrau Cenedlaethol a Rhwydweithiau Beicio ac atyniadau ymwelwyr allweddol megis bryngaerau / cestyll / meindyrau eglwysi) yn debygol o fod yn fwy sensitif. Efallai y bydd gosodiad tirweddau dynodedig yn fwy sensitif pan fo'r lleoliad yn cyfrannu at ansawdd golygfaol cyffredinol y dirwedd ddynodedig. At ddibenion yr astudiaeth hon ystyrir bod Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig (SAMau) ddim ond o werth fel atyniad neu ganolbwynt i ymwelwyr.	
	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigurau 4.1 a 4.2)/Disgrifiadau ACT/ Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is • Cysylltiad gwan â thirwedd • Ychydig iawn o ryngweledded rhwng safleoedd	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is*** • Cysylltiad gwan â thirwedd • Ychydig iawn o ryngweledded rhwng safleoedd
Meini Prawf Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol		
Ansawdd a Chymeriad Golygfaol	Bydd ardaloedd o olygfeydd hardd, cymeriad, ansawdd, cyfanrwydd, naws cryf am le ac amlygrwydd lleol fel arfer yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni gwynt o'u cymharu ag ardaloedd llai golygfaol. Mae hyn yn cynnwys tirweddau sydd wedi'u dynodi am eu harddwch naturiol (megis yr Arfordir Treftadaeth neu AHNE ddynodedig) ond hefyd ardaloedd o dirwedd nad ydynt yn ddynodedig, gan gynnwys ardaloedd sy'n nodweddiadol yn lleol neu â chymeriad cryf.	

	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd LANDMAP VS25 Naws Am Le, VS46: Ansawdd Golygfaol, VS47: Cyfanrwydd a VS48: Cymeriad / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is • Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig • Ansawdd golygfaol isel (h.y. ardaloedd diwydiannol) • Naws gwan am le	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Gwerthusiad LANDMAP Eithriadol neu Uchel • Ansawdd golygfaol uchel (h.y. AHNE / Arfordir Treftadaeth) • Naws cryf am le
Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae ardaloedd sy'n eithaf anghysbell gyda chymeriad gwyllt a / neu dawel ac nad oes llawer o ddatblygiadau adeiledig yn cynyddu sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad ynni gwynt. Gall datblygiad tyrbinau ger ardaloedd o'r fath danseilio rhinweddau arbennig a lleoliad ardaloedd penodol, ond os yw hyn yn gysylltiedig â mathau eraill o ddatblygiad ac ar yr un raddfa â'r datblygiadau hyn megis ffermydd, efallai bydd yr effaith yn llai.	
	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd LANDMAP VS24: Nodweddion Canfyddiadol a Synhwyrol/Map Ardaloedd Tawel Cymru/Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is • Bygythiol; anneniadol; swnllyd; setledig • Agos at arwyddion amlwg o weithgarwch a datblygiadau dynol	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Anghysbell; tawel; gwyllt; ysbrydol; deniadol; heddychol • Anghysbell yn gorfforol neu'n ganfyddiadol, heddychol neu dawel
Meini Prawf Gwerth		

<table>
<tr><td>Gwerth Tirwedd</td><td colspan="2">Mae’n debygol y bydd ardaloedd lle mae crynodiad o werthusiadau LANDMAP Eithriadol neu Uchel yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni gwynt. Yn ogystal â hyn, mae tirweddau sydd wedi'u dynodi’n ffurfiol oherwydd gwerth golygfaol, dyluniad neu hamdden yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni gwynt nag ardaloedd heb eu dynodi. Mae gradd y sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a rhinweddau’r dirwedd sy’n cael eu nodi yn y dynodiad. Mae hierarchaeth y dynodiad yn dylanwadu ar sensitifrwydd tirwedd. Ystyrir bod tirweddau dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol megis Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac AHNE yn hynod sensitif, gyda dynodiadau rhanbarthol a lleol megis AHE a SLAau yn dilyn hyn hefyd. Mae gwerth tirwedd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol drwy ddynodiad, ond gellir hefyd penderfynu ar werth drwy ddogfennau cyhoeddedig megis taflenni i dwristiaid; celf a llenyddiaeth. Nid yw Arfordiroedd Treftadaeth yn cael eu gwarchod drwy ddynodiad ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau data allweddol sy’n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP VS50: Gwerthusiad Cyffredinol, VS49: Prinder, LH45: Gwerthusiad Cyffredinol, LH42: Cysylltedd/Cydlyniad, GL31: Prinder/Unigrywiaeth a GL33: Gwerthusiad Cyffredinol/Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.1)</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Dim safleoedd dynodedig
• Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Dim safleoedd dynodedig
• Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig</td></tr>
<tr><td>Gwerth Hanesyddol</td><td colspan="2">Mae’n debygol y bydd ardaloedd sy’n cael eu cydnabod yn bennaf fel Hanesyddol neu Ddiwylliannol Eithriadol neu Uchel yng ngwerthusiadau LANDMAP yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni gwynt. Mae ardaloedd sydd wedi’u dynodi oherwydd gwerth hanesyddol neu dreftadaeth ddiwylliannol rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol megis Safleoedd Treftadaeth y Byd yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni gwynt yn enwedig os yw cymeriad neu ganfyddiad y dirwedd lle y’u lleolir yn debygol o gael ei newid yn sylweddol gan y datblygiad arfaethedig. Nid yw Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig wedi'u diogelu drwy ddynodiad ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau data sy’n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP HL38: Prinder, HL35: Cyfanrwydd a HL40: Gwerthusiad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.2)</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Dim safleoedd dynodedig
• Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Dim safleoedd dynodedig
• Gwerthusiad LANDMAP isel i</td></tr>
</table>

			ganolig

Tabl 2.04: Meini Prawf ar gyfer Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd a'r Olygfa ar gyfer Datblygiadau Ynni Haul PV ar Raddfa Cae

Meini Prawf Tirwedd		
Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Hwn yw un o'r nodweddion pwysicaf sy'n effeithio ar le mae'n rhwyddach i leoli datblygiadau ynni haul PV, a hefyd fel dylanwad ar ba raddfa o ddatblygiad sy'n briodol. Mae tirweddau gyda phatrymau rheolaidd o gaeau mawr yn debygol o fod yn llai sensitif i'r math yma o ddatblygiad, tra bo tirweddau ar raddfa fechan gyda theimlad o agosrwydd a phatrymau o gaeau mwy cymhleth, heb siâp rheolaidd ac yn llai o faint, yn cael eu hystyried yn rhai o sensitifrwydd uwch. Er enghraifft, os bydd datblygiad ynni haul PV yn digwydd mewn nifer o gaeau llai o faint a heb siâp rheolaidd iddynt, agosaf at ei gilydd, gallai hynny effeithio ar yr hyn a welir fel cymeriad, patrwm a graddfa'r dirwedd. Rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw graddfa'r patrwm caeau fel mae'n cael ei weld yn cael ei wanhau gan faint y datblygiad ynni haul PV. Ystyrir bod tirweddau gyda gwrychoedd / terfynau caeau sy'n uchel/wedi gordyfu yn llai tueddol i gael niwed oddi wrth ddatblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae; tra bo tirweddau lle mae gan y caeau derfynau isel, wedi'u rheoli, o wrychoedd, waliau a ffensys yn fwy tueddol i gael niwed. Mae hyn oherwydd bod y mesurau lliniaru i'r fath ddatblygiadau'n aml yn cynnwys gadael i wrychoedd dyfu'n fawr a/neu blannu gwrychoedd uchel i sgrinio datblygiadau.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS8: Graddfa a VS7 Math o Derfyn / Disgrifiadau o'r ACT / Data Arolwg Ordnans / Lluniau Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Caeau ar raddfa fawr • Patrwm caeau syml / rheolaidd / unffurf • Cyfran uchel o wrychoedd / terfynau caeau heb eu rheoli / yn uchel	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Caeau ar raddfa fechan • Mosaig o batrymau caeau cymhleth / garw / heb batrymau rheolaidd • Tirweddau clòs • Patrymau caeau hynafol • Terfynau caeau gyda chyfran uchel o wrychoedd, ffensys a / neu waliau isel wedi'u rheoli'n dda.

<table>
<tr><td>Tirffurf</td><td colspan="2">Mae tirweddau sydd ar raddfa fawr, yn wastad neu'n ymdonni ychydig yn debygol o fod yn llai sensitif i ddatblygiad ynni haul PV nag yw tirweddau gyda thirffurfiau amlwg sy'n ymdonni, a llethrau sydd yn y golwg (yn cynnwys tir ar yr arfordir yn union uwchben y môr). Mae hyn am fod panelau haul PV yn tueddu i fod yn llai amlwg ar dirweddau gwastad na phan fyddant ar dir amlwg iawn gyda rhediad ynddo neu dir uwch. Nid yw panelau haul PV sydd ar y ddaear yn arbennig o amlwg o ran uchder, ac mae golygfeydd pellter canolig / hir yn fwy cyfyngedig / wedi'u sgrinio mewn tirwedd wastad, yn hytrach na bod panelau ar lethrau gweledol, ar dirffurfiau amlwg neu i'w gweld wrth edrych i lawr o fannau uwch.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS Lefel 2: Tirffurf a VS4: Ffurf Topograffig / Disgrifiadau o'r ACT / Data Arolwg Ordnans / Data Topograffig / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
Tirweddau amgrwm neu wastad
Tirweddau iseldir helaeth
Tirffurf unffurf
Tirweddau neb nodweddion amlwg ynddynt</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
Bryniau garw
Tirffurf serth
Tirffurf afreolaidd neu gymhleth
Bryniau a chefnau cul
Nodweddion tirffurf nodedig</td></tr>
<tr><td>Gorchudd Tir</td><td colspan="2">Ystyrir bod tirweddau sy'n cynnwys gorchudd tir âr neu arddwriaeth yn llai sensitif i ddatblygiadau ynni haul PV. Mae hynny am ei fod yn cael ei gydnabod y gall paneli haul PV edrych yn debyg i dwneli polythen 'polytunnel' a hefyd i ryw raddau fel gorchudd tir plastig (fydd yn orchudd dros dro ar rai caeau tir âr am tua 6 wythnos o'r flwyddyn i gynorthwyo a diogelu cnydau salad). Mae safleoedd 'tir llwyd' neu drefol hefyd yn llai sensitif, oherwydd y ffordd gwelir agwedd drefol / ddiwydiannol i ddatblygiadau ynni haul PV.

I'r gwrthwyneb i hyn, ystyrir bod tirweddau gyda thir pori a / neu orchudd tir rhannol naturiol fel gweundir yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni haul PV.

Gall tirweddau gydag arwynebedd nodedig / helaeth o goetir (yn enwedig coetir rhannol naturiol) a thirweddau tir parc hefyd fod yn fyw tueddol i gael eu newid os bydd datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae. Mae hynny oherwydd y gall fod angen tynnu llystyfiant i ffwrdd er mwyn hwyluso gosod y fath ddatblygiadau yn eu lle.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS Lefel 3: Gorchudd Tir a VS5: Patrwm Gorchudd Tir / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd</td></tr>
</table>

	• Caeau âr ar raddfa fawr (lefel isel) • Safleoedd wedi'u datblygu'n gynharach / tir gwyrdd	• Gorchudd tir naturiol / rhannol naturiol (h.y. gweundir) • Tir pori agored • Caeau pori • Ardaloedd mawr o goetir rhannol-naturiol • Tirweddau tir parc
Dylanwadau wedi'u creu gan bobl	Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â faint o ymyrraeth gan bobl sy'n bresennol yn y dirwedd. Gall sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad ynni haul PV fod yn is mewn tirweddau sydd wedi'u creu gan bobl a/neu rai gydag arwyddion ynddynt o weithgaredd pobl a datblygiadau fel aneddiadau sy'n fawr ac yn estyn allan ymhell, seilwaith cludiant, cyfleustodau neu gyfathrebu neu ddatblygiad diwydiannol. Felly hefyd ddylanwadau gweledol oddi wrth waith chwarela neu dirlenwi ac amlder y ffurf adeiledig ac ymyrraeth pobl mewn ardaloedd mwy cyfoes sydd wedi'u haneddu'n ddwys. I'r gwrthwyneb i hyn, credir bod ardaloedd sydd wedi'u haneddu'n fyw gwasgarog ac yn rhydd o weithgaredd pobl a tharfu gan bobl yn fwy sensitif i'r math yma o ddatblygiad, oherwydd y bernir bod ganddynt naturioldeb. Mae ardaloedd gyda chymeriad nodweddiadol o adeiladau traddodiadol neu hanesyddol, yn cynnwys strwythurau hanesyddol, yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni haul PV.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS6: Anheddiad a VS27: Condition / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Data'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch***
	• Seilwaith mawr (cludiant / cyfathrebu / seilwaith cyfleustodau / elfennau diwydiannol) • Datblygiad diwydiannol modern • Aneddiadau trefol / modern mawr / dwys • Cymeriad 'wedi'i ddatblygu' • Presenoldeb ffyrdd a thraciau yn y dirwedd	• Absenoldeb datblygiad modern • Ffurf adeiledig preswyl yn anaml / ddim yn bresennol • Anheddiad gwasgarog / prin / ardaloedd heb boblogaeth ynddynt • Presenoldeb anheddiad / adeiladau / strwythurau hanesyddol / cynhenid ar raddfa fechan.
Meini Prawf Gweledded		

Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiad-ol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r tebygolrwydd y bydd datblygiadau ynni haul PV yn weladwy iawn mewn tirwedd benodol yn dibynnu ar y tirffurf ac ar bresenoldeb gorchudd tir allai ei sgrinio, yn enwedig coed a choetir. Mae hefyd yn dibynnu ar y nifer o bobl o wahanol fathau sy'n debygol o weld y dirwedd ac unrhyw newid ynddi (e.e. preswylwyr, gweithwyr, ymwelwyr). Mae'r sensitifrwydd gweledol i ddatblygiadau ynni haul PV yn is lle mae gan dirweddau deimlad cryf o fod wedi'u cau i mewn (oherwydd topograffi a / neu orchudd tir rheolaidd fel coetir, gwrychoedd wedi gordyfu, coed mewn gwrychoedd a lleiniau cysgodi o goed). Mae hynny oherwydd bod y math yma o ddatblygiad yn llai tebygol o fod yn weladwy lle mae'r dirwedd wedi'i chau i mewn. Fodd bynnag, mae tirweddau gyda chymeriad mwy agored a heb fod wedi'u cau i mewn yn fwy tebygol o fod yn sensitif iawn i ddatblygiadau ynni haul PV. Gall tirweddau gyda phatrymau cryf o wrychoedd is neu waliau cerrig / ffensys mewn siapiau cymhleth yn derfynau caeau fod yn fwy sensitif i ddatblygiad gan y gallai uchder y panelau fod yn fwy nag uchder y terfynau sy'n bodoli'n barod. Felly mae sgrinio lleol ar gyfer ddatblygiadau (trwy gynyddu uchder y gwrychoedd) yn fwy addas mewn tirweddau lle mae amrywiaeth yn uchder y terfynau. Mae tirweddau sy'n weladwy iawn o dirweddau cyfagos yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae nag yw tirweddau sydd wedi'u cau i mewn fwy, a chanddynt olygfeydd cyfyngedig at i mewn ac at allan. Y golygfeydd allweddol yw'r rhai o fannau caiff y cyhoedd fynediad iddynt (sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd neu eu hyrwyddo o ran eu gwerth golygfaol) sy'n edrych tuag at nodweddion o ddiddordeb. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn sensitif i newid a datblygiad. Gall sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad hefyd gael ei gynyddu gan olygfeydd helaeth, sy'n adnabyddus, yn rhai agos neu o bellter canolig, oddi wrth lwybrau teithio golygfaol neu weledfannau i ymwelwyr.
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS9: Amgau a VS7 Math o Derfyn / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle

	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Tirweddau sydd wedi'u cyfyngu, eu cau i mewn neu eu hamgau, gyda dim ond ychydig o olygfeydd at i mewn neu at allan • Dim ond ychydig o olygfeydd o'r naill i'r llall gyda thirweddau neu weledfannau sensitif • Caeau gyda therfynau o wrychoedd cyfan / gwrychoedd wedi gordyfu / gwrychoedd gyda choed • Presenoldeb blociau o goetir a lleiniau cysgodi o goed • Ardal wedi'i phoblogi'n denau	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Tirweddau sy'n agored neu'n amlwg a gyda golygfeydd yn estyn ymhell • Gorchudd tenau o goetir / coed • Systemau caeau gyda therfynau o ffensys / gwrychoedd wedi'u rheoli / waliau cerrig / dim terfynau caeau • Golygfeydd cryf, o'r naill i'r llall, rhyngddynt a thirweddau sensitif (yn cynnwys tirweddau cyfagos o sensitifrwydd uwch, yn enwedig tirweddau wedi'u dynodi'n rhyngwladol a chenedlaethol) • Yn rhan bwysig o'r olygfa o weledfannau sensitif (fel golygfeydd o lwybrau golygfaol, mannau adnabyddus yn y dirwedd, neu weledfannau sy'n cael eu hyrwyddo
Meini Prawf Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol		
Ansawdd a Chymeriad Golygfaol	Bydd ardaloedd gyda golygfeydd hardd, cymeriad, ansawdd, cyfanrwydd, naws cryf am le ac yn nodedig yn lleol fel arfer yn fwy sensitif i ddatblygiadau ynni haul PV o'u cymharu ag ardaloedd llai golygfaol. Mae hyn yn cynnwys tirweddau sydd wedi'u dynodi am eu harddwch naturiol (megis Arfordir Treftadaeth neu AHNE ddynodedig) a hefyd ardaloedd o dirwedd nad ydynt wedi'u dynodi, gan gynnwys ardaloedd sy'n nodedig yn lleol neu â chymeriad cryf ac y byddai'r math yma o ddatblygiad yn debygol o effeithio ar eu nodweddion golygfaol arbennig.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS25 Naws am Le, VS46: Ansawdd Golygfaol, VS47: Cyfanrwydd a VS48: Cymeriad / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Arfarniad LANDMAP isel i ganolig • Ansawdd golygfaol isel (h.y. ardaloedd diwydiannol) • Y naws am le yn wan	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Arfarniad LANDMAP eithriadol neu uchel • Ansawdd golygfaol uchel (h.y. ac AHNE / Arfordir Treftadaeth) • Y naws am le yn gryf

<table>
<tr><td>Pellenigrwydd / Llonyddwch</td><td colspan="2">Mae ardaloedd sy’n gymharol anghysbell gyda chymeriad gwyllt a / neu dawel a heb lawer o ddatblygiadau adeiledig yn cynyddu sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad ynni haul PV. Gall datblygiad mewn tirweddau o’r fath danseilio rhinweddau arbennig a chymeriad trwy ddod â nodweddion newydd i mewn nad ydynt yn rhai nodweddiadol, ac sy’n effeithio ar beth a welir fel pellenigrwydd a thawelwch yr ardal.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i’r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS24: Nodweddion Canfyddiadol a Synhwyrol / Map Ardaloedd Tawel Cymru / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
Bygythiol; ddim yn ddeniadol; swnllyd; wedi’u haneddu
Yn agos at arwyddion gweladwy o weithgaredd a datblygiad gan bobl</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
Pell; tawel; gwyllt; ysbrydol; deniadol; heddychlon
Pellennig, heddychlon neu dawel, yn ffisegol neu’n ganfyddiadol,</td></tr>
<tr><td colspan="3">Meini Prawf Gwerth</td></tr>
<tr><td>Gwerth Tirwedd</td><td colspan="2">Mae’n debygol y bydd ardaloedd lle mae crynodiad o arfarniadau LANDMAP Eithriadol neu Uchel yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni haul PV. Yn ogystal â hyn, mae tirweddau sydd wedi'u dynodi’n ffurfiol oherwydd gwerth golygfaol, dyluniad neu hamdden yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni haul PV nag ardaloedd heb eu dynodi. Mae graddfa’r sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a rhinweddau’r dirwedd sy’n cael eu gwerthfawrogi gan y dynodiad. Mae hierarchaeth y dynodiad yn dylanwadu ar sensitifrwydd y dirwedd. Ystyrir bod tirweddau gyda dynodiad rhyngwladol a chenedlaethol fel Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac AHNE yn sensitif iawn, a’r nesaf wedyn o ran sensitifrwydd yw dynodiadau rhanbarthol a lleol megis Ardaloedd o Harddwch Eithriadol ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae gwerth tirwedd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol drwy ddynodiad, ond gall gwerth hefyd gael ei ddylanwadu gan ddogfennau sy’n cael eu cyhoeddi, fel taflenni i dwristiaid; celf a llenyddiaeth. Nid yw Arfordiroedd Treftadaeth yn cael eu gwarchod drwy ddynodiad, ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i’r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS50: Arfarniad Cyffredinol, VS49: Prinder, LH45: Arfarniad Cyffredinol, LH42: Cysylltedd / Cydlyniad, GL31: Prinder / Pa mor Unigryw a GL33: Arfarniad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.1)</td></tr>
</table>

	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Dim safleoedd wedi'u dynodi • Arfarniad LANDMAP isel i ganolig	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Parc Cenedlaethol, AHNE, Arfordir Treftadaeth, Ardal o Harddwch Eithriadol, Ardal Tirwedd Arbennig • Arfarniad LANDMAP Neilltuol neu Uchel
Gwerth Hanesyddol	Mae'n debygol y bydd ardaloedd sy'n cael eu cydnabod yn bennaf gan arfarniad Hanesyddol neu Ddiwylliannol Neilltuol neu Uchel yn LANDMAP yn fwy sensitif i ddatblygiad ynni haul PV. Mae ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd gwerth hanesyddol neu dreftadaeth ddiwylliannol ryngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol fel Safleoedd Treftadaeth y Byd yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiad. Mae hynny'n enwedig os yw cymeriad neu ganfyddiad y dirwedd lle maen nhw wedi'u lleolir yn debygol o gael ei newid yn sylweddol gan y datblygiad arfaethedig. Nid yw Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig yn cael eu diogelu drwy ddynodiad, ond ystyrir gan lawer eu bod o werth cenedlaethol.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP HL38: Prinder, HL35: Cyfanrwydd a HL40: Arfarniad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.2)	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Dim safleoedd wedi'u dynodi • Arfarniad LANDMAP isel i ganolig	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig, Parc a Gardd Cofrestredig, Henebion Rhestredig sy'n amlwg yn yr olygfa fel bryngaerau a chestyll y bydd twristiaid yn ymweld â hwy'n aml • Arfarniad LANDMAP Neilltuol neu Uchel

Tabl 2.05: Meini Prawf ar gyfer Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd a'r Olygfa ar gyfer Datblygiad Leiniau Uwchben 400 kV

2.26 Mae sensitifrwydd tirwedd i leiniau uwchben 400 kV yn dibynnu ar amrediad o nodweddion neu feini prawf. Lle mae'r rhain wedi'u cysylltu'n uniongyrchol gyda chanllawiau a ddarperir yn Rheolau Holford [14] tynnwyd sylw at hynny. Cafodd y meini prawf eu geirio'n ofalus er mwyn eglurder, rhwyddineb i'w dehongli a chysondeb gyda chanllawiau a gyhoeddwyd ar asesu cymeriad tirwedd ac asesu effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol.

Meini Prawf Tirwedd

[14] Lluniwyd y canllawiau cyntaf ar lwybr leiniau uwchben yn 1959 gan Syr Sir William Holford, ddaeth yn Arglwydd Holford yn ddiweddarach. Dywed NPS EN-5 mai Rheolau Holford yw'r sail ar gyfer dewis llwybr i leiniau uwchben newydd (para 2.8.7) – mae Rheolau Holford i'w gweld yn Atodiad 10 yr adroddiad hwn, er mwyn gallu cyfeirio atynt.

<table>
<tr><td>Graddfa</td><td colspan="2">Mae tirwedd ar raddfa fawr, lle mae'r peilonau'n ymddangos yn fwy cymesur i'r dirwedd, yn debygol o fod o sensitifrwydd is na thirwedd ar raddfa fechan, lle mae'r peilonau'n debygol o fod yn dominyddu mwy. Gall cymharu'r peilonau gyda nodweddion o'r dirwedd fel patrymau caeau, tirffurf, coed unigol ac adeiladau hefyd bwysleisio maint y peilonau.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS8: Graddfa / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
• Tirweddau ar raddfa anferth neu fawr</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
• Tirweddau ar raddfa glòs a bychan
• Systemau cae ar raddfa fechan
• Elfennau ar raddfa pobl</td></tr>
<tr><td>Tirffurf</td><td colspan="2">Mae tirffurfiau sy'n esmwyth, rheolaidd ac amgrwm, neu'n wastad ac unffurf, yn debygol o fod yn llai sensitif i ddatblygiad i lein uwchben 400 kV na thirffurfiau dramatig neu arw yn yr ucheldir. Mae hyn oherwydd bod gan yr ail o'r rhain gymeriad sy'n fwy amlwg a nodedig. Mae gan ddyffrynnoedd a bryniau isel sy'n ymdonni fwy o botensial i ddarparu cefnlen addas a chyfyngu ar ba mor hawdd yw gweld lein uwchben, ac felly maen nhw'n llai sensitif. (Rheolau Holford rhif 4 a 5)</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS Lefel 2: Tirffurf a VS4: Ffurf Topograffig / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Data Topograffig / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
• Tirffurf syml heb nodweddion
• Tirffurf amgrwm
• Tirffurf gwastad ac unffurf
• Dyffrynnoedd a bryniau isel sy'n ymdonni</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
• Ucheldir dramatig / garw
• Tirffurf afreolaidd neu gymhleth
• Nodweddion nodedig yn y tirffurf</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Gorchudd Tir</td><td colspan="2">Mae tirweddau syml heb lawer o elfennau anhrefnus ynddynt, gyda llinellau ysgubol a rhannau helaeth o orchudd tir cyson yn debygol o gynnig mwy o botensial ar gyfer lein uwchben 400 kV na rhannau gyda phatrymau mwy cymhleth, afreolaidd neu glòs (er enghraifft systemau caeau hanesyddol), sy'n tueddu i fod yn fwy sensitif a lle byddai peilonau mawr yn fwy amlwg (Rheolau Holford 5 a 6)

Gall coed, coetir a gwrychoedd gynorthwyo i sgrinio golygfeydd a lleihau ymddangosiad o uchder y peilonau. O ran hyn, gallant gynorthwyo i leihau sensitifrwydd y dirwedd. I'r gwrthwyneb o hyn, gall niferoedd uchel o goed unigol neu leiniau bychan o goed arwain at golledion sylweddol o goed, yn enwedig gan nad yw'n hawdd gwyro llwybr leiniau uwchben 400 kV i osgoi'r nodweddion hynny. Y tirweddau lleiaf sensitif yw'r rhai'n cynnwys rywfaint o goetir neu wregysau o goed, sy'n gallu darparu cyfleoedd i sgrinio heb golli llawer o goed. (Rheolau Holford 2 a 5)</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd

LANDMAP VS Lefel 3: Gorchudd Tir a VS5: Patrwm Gorchudd Tir / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai

• Tirwedd syml, rheolaidd neu unffurf
• Tir sydd wedi'i ddatblygu, wedi'i esgeuluso neu dir gwastraff
• Coedwigaeth fasnachol
• Ffermdir tir isel</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch

• Ucheldiroedd creigiog
• Tirwedd gymhleth, afreolaidd neu glòs
• Patrwm / mosaig caeau
• Llawer o goed ar wasgar mewn caeau a gwrychoedd</td></tr>
<tr><td>Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl</td><td colspan="2">Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â faint o strwythurau wedi'u hadeiladu ac ymyrraeth gan bobl sy'n bresennol yn y dirwedd. Gall graddau uchel o ddylanwadau wedi'u creu gan bobl ar y dirwedd olygu ei bod yn llai sensitif i newid oherwydd datblygiadau lein uwchben 400 kV. Mae peilonau'n debygol o fod yn llai amlwg mewn tirweddau tir llwyd neu ddiwydiannol sydd wedi cael eu heffeithio'n barod gan strwythurau adeiledig fel mastiau, peilonau neu simneiau, ond dim ond os na fydd gwrthdaro gweledol yn digwydd wrth edrych ar y strwythurau pan yn agos atynt. Gall coedwigaeth fasnachol hefyd ddod â dylanwad dros dro wedi'i greu gan bobl i dirweddau ucheldir y byddent fel arall yn ymddangos yn naturiol a gwyllt.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd

LANDMAP VS6: Anheddiad a VS27: Cyflwr / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Data'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle</td></tr>
</table>

	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Seilwaith mawr (seilwaith cludiant / cyfathrebu / cyfleustodau) • Datblygiad diwydiannol modern • Aneddiadau trefol / modern mawr / wedi'u crynhoi • Coedwigaeth fasnachol	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Ffurf adeiledig preswyl yn brin / gwbl absennol • Anheddiad gwasgarog / anheddiad ysgafn / ardaloedd heb boblogaeth • Presenoldeb adeiladau / strwythurau neu anheddiad hanesyddol
Patrwm Anheddiad	Mae hyn yn ymwneud â phatrwm anheddiad mewn perthynas â chymeriad tirwedd, yn hytrach na gweledodd a golygfeydd, sy'n cael eu trafod ymhellach ymlaen. Oherwydd nad yw leiniau uwchben 400 kV yn gallu gwyro'n hawdd o gwmpas eiddo unigol neu grwpiau o eiddo, ystyrir bod tirweddau gyda phatrwm anheddiad dwys gwasgarog yn fwy sensitif na thirweddau lle mae anheddiad wedi'i glystyru mewn pentrefi. (Rheolau Holford 1 a 2)	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS6: Anheddiad / Disgrifiadau ACT / Data'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Trefol • Pentrefi • Anheddiad mewn clystyrau	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Patrwm anheddiad dwys gwasgarog • Aneddiadau hanesyddol
Meini Prawf Gweledol		
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae tirweddau nad ydynt yn ffurfio nenlinell neu gefnlen nodedig yn tueddu i fod yn llai sensitif i ddatblygiadau lein uwchben 400 kV na thirweddau gyda nodweddion gweledol cryf a chanolbwyntiau fel cofadail ar ben bryn, meindwr eglwys neu nodweddion o'r dirwedd. Gall rheiny ffurfio nenlinellau pwysig, tirnodau neu gefndiroedd ar gyfer aneddiadau neu nodweddion hamdden (Rheol Holford rhif 4 – fel tir agored, gwastad neu dir sy'n agored, uchel ac yn codi).	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	

		Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Nenlinellau llai amlwg • Nodweddion fertigol yn bodoli'n barod (datblygiad modern) • Datblygiad adeiledig yn bodoli'n barod	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Nenlinellau amlwg • Nenlinellau / cefndiroedd nodedig • Nenlinellau heb gael eu tarfu / heb eu datblygu • Presenoldeb nodweddion nodedig / sensitif yn y dirwedd, fel tirnodau hanesyddol
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	Mae'r tebygolrwydd y bydd lein uwchben yn weladwy iawn mewn tirwedd benodol yn dibynnu ar y tirffurf ac ar bresenoldeb gorchudd tir allai ei sgrinio, yn enwedig coed a choetir. Mae hefyd yn dibynnu ar y nifer o bobl o wahanol fathau sy'n debygol o weld y dirwedd ac unrhyw newid ynddi (e.e. preswylwyr, gweithwyr, ymwelwyr). Gall topograffi neu lystyfiant roi teimlad o fod wedi'i gau i mewn, sy'n gallu cynorthwyo i wneud y peilonau'n llai gweladwy a thrwy hynny fod yn arwydd o sensitifrwydd is y dirwedd.[15] Gall tirweddau agored fod yn fwy gweladwy, yn enwedig pan fydd modd edrych i lawr arnynt. Gallant hefyd fod yn weladwy o dirweddau sydd agosaf atynt. Gall tirweddau gyda golygfeydd cyfyngedig at i mewn ac at allan fod yn llai sensitif i ddatblygiadau lein uwchben 400 kV nag ardaloedd lle nad yw'r golygfeydd wedi'u cau i mewn cymaint. Gall sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad lein uwchben hefyd gael ei gynyddu gan olygfeydd helaeth o bellter agos neu ganolig oddi wrth lwybrau teithio golygfaol, golygfeydd adnabyddus neu weledfannau twristiaeth, a hefyd agosrwydd at anheddiad (Rheol Holford rhif 4).	
		Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS9: Cau i mewn / Disgrifiadau ACT / Data Arolwg Ordnans / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	

[15] Dylai coetiroedd a choedwigaeth fod yn nodweddion tymor hir os am ddibynnu ar eu heffaith yn sgrinio.

	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Tirweddau sydd wedi'u cyfyngu, eu cynnwys neu eu cau i mewn, gyda dim ond ychydig o olygfeydd at i mewn ac at allan • Poblogaeth denau • Sensitifrwydd is gan dirweddau cyfagos • Dim ond yn cyfrannu ychydig at y dirwedd ehangach • Cefndiroedd syml ar raddfa fawr • Cysylltiad gwan gydag ACT cyfagos	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Tirweddau agored neu amlwg, gyda golygfeydd pell • Poblogaeth ddwys • Golygfeydd oddi wrth lwybrau teithio golygfaol, tirnodau adnabyddus, neu olygfeydd o weledfannau ymwelwyr • Gallu gweld o'r naill i'r llall gyda thirweddau cyfagos, yn enwedig rhai • Tirweddau cyfagos o sensitifrwydd uwch, yn enwedig tirweddau wedi'u dynodi'n rhyngwladol neu genedlaethol • Cyfrannu at werthfawrogiad o dirwedd ehangach • Cefndiroedd nodedig neu gymhleth • Tirweddau sy'n bwysig i gefndir / y ffordd at / byrth i mewn i diweddau dynodedig • Cysylltiad cryf gyda ACA cyfagos
Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	Mae'n debyg y bydd tirweddau'n fwy sensitif os ydynt yn bwysig i'r golygfeydd at i mewn ac at allan ac i gefndir ardaloedd tirwedd dynodedig a threftadaeth ddiwylliannol / nodweddion canolbwynt <u>allweddol</u> (fel AHNE, Parc Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Ardaloedd o Harddwch Eithriadol, Llwybrau Cenedlaethol a Rhwydweithiau Beicio ac atyniadau ymwelwyr allweddol / dynodedig fel bryngaerau / cestyll / meindyrau eglwysi hanesyddol). Gall cefndir tirweddau dynodedig fod yn fwy sensitif lle mae'r cefndir yn cyfrannu at ansawdd olygfaol gyffredinol y dirwedd ddynodedig. Ar gyfer yr astudiaeth hon, mae Adeiladau Rhestredig a Henebion Rhestredig yn cael eu hystyried ddim ond os ydynt o werth fel atyniad neu ganolbwynt allweddol i ymwelwyr.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigyrau 4.1 a 4.2) / Disgrifiadau Ardaloedd Cymeriad Tirwedd / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Cysylltiad gwan gyda'r dirwedd • Ychydig o weledd o'r naill i'r llall gyda safleoedd	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Cysylltiad cryf gyda'r dirwedd • Gweledd o'r naill safle i'r llall
Meini Prawf Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol		

<table>
<tr><td rowspan="3">Cyflwr</td><td colspan="2">Bydd ardaloedd lle mae cyflwr a chyfanrwydd patrymau, elfennau a nodweddion y dirwedd yn gymharol dda yn tueddu i fod yn fwy sensitif i ddatblygiad lein uwchben nag ardaloedd lle mae'r dirwedd mewn cyflwr gwael. Mae ardaloedd lle mae'r dirwedd mewn cyflwr da yn debygol o gael eu gwerthfawrogi fwy a hefyd yn fwy agored i niwed o ran newid. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb o hyn, gall tirweddau gyda nodweddion lluosog mewn cyflwr da gynorthwyo i integreiddio'r peilonau a thrwy hynny leihau amlygrwydd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS27: Cyflwr a VS47: Cyfanrwydd / Disgrifiadau ACT / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
Cyflwr gwael</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
Cyflwr da</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa</td><td colspan="2">Bydd ardaloedd sydd â golygfa ddeniadol, cymeriad, ansawdd, cyfanrwydd, naws cryf am le ac yn nodedig yn lleol yn tueddu i fod yn fwy sensitif i ddatblygiad lein uwchben nag ardaloedd llai golygfaol. Mae hyn yn cynnwys tirweddau wedi'u dynodi oherwydd eu prydferthwch naturiol (fel Arfordir Treftadaeth neu AHNE ddynodedig) a hefyd ardaloedd o dirwedd heb ei dynodi, yn cynnwys ardaloedd sy'n nodedig yn lleol neu gyda chymeriad cryf, a'r math yma o ddatblygiad yn debygol o effeithio ar eu nodweddion golygfaol arbennig. (Rheolau Holford 1 a 2)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS25 Naws am Le, VS46: Ansawdd Golygfaol a VS48: Cymeriad / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai
Arfarniad LANDMAP isel neu ganolig
Ansawdd golygfaol isel (h.y. ardaloedd diwydiannol)
Teimlad gwan o naws am le</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
Arfarniad LANDMAP Neilltuol neu Uchel
Ansawdd golygfaol uchel (h.y. hefyd yn AHNE / Arfordir Treftadaeth)
Naws cryf am le</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Pellenigrwydd /Tawelwch</td><td colspan="2">Mae tirweddau sy'n gymharol bellennig a chanddynt gymeriad gwyllt / neu o lonyddwch (oherwydd rhyddid oddi wrth darfu a ffactorau fel bod yn agored neu beth welir fe naturioldeb) yn tueddu i fod yn fwy sensitif i ddatblygiad lein uwchben 400 kV. Gall dyfodiad peilonau newid y canfyddiad o fod yn wyllt ac o lonyddwch trwy ddod ag elfen fwy diwydiannol i'r tirweddau dan sylw. (Rheolau Holford 1 a 2)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP VS24: Nodweddion Canfyddiadol a Synhwyrol / Map Ardaloedd Tawel Cymru / Ymweliadau Safle</td></tr>
</table>

	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai Bygythiol; ddim yn ddeniadol; swnllyd; wedi'i anheddu Yn agos at arwyddion gweledol o weithgaredd a datblygiad gan bobl	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** Pellennig; tawel; gwyllt; ysbrydol; deniadol; heddychlon Pellennig, heddychlon neu dawel, yn ffisegol neu'n ganfyddiadol
Meini Prawf Gwerth		
Gwerth Tirwedd	Mae ardaloedd sy'n cael eu cydnabod yn bennaf gan arfarniad LANDMAP Neilltuol neu Uchel yn debygol o fod yn fwy sensitif iawn i ddatblygiad lein uwchben 400 kV. Yn ogystal â hyn, mae tirweddau sydd wedi'u dynodi'n ffurfiol oherwydd gwerth golygfaol, dyluniad neu hamdden yn debygol o fod yn fwy sensitif nag ardaloedd heb eu dynodi. Mae graddau'r sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a'r nodweddion tirwedd mae'r dynodiad yn eu cydnabod. Mae hierarchaeth y dynodiad yn dylanwadu ar sensitifrwydd y dirwedd. Ystyrir bod tirweddau gyda dynodiad rhyngwladol a chenedlaethol fel Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac AHNE yn sensitif iawn, a'r nesaf wedyn o ran sensitifrwydd yw dynodiadau rhanbarthol a lleol megis Ardaloedd o Harddwch Eithriadol ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae gwerth y dirwedd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol gan ddynodiad, ond gall gwerth hefyd gael ei ddylanwadu gan ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi, fel taflenni i dwristiaid; celf a llenyddiaeth. Nid yw Arfordiroedd Treftadaeth yn cael eu gwarchod drwy ddynodiad, ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol.	
	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS50: Arfarniad Cyffredinol, VS49: Prinder, LH45: Arfarniad Cyffredinol, LH42: Cysylltedd / Cydlyniad, GL31: Prinder / Unigrywiaeth a GL33: Arfarniad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.1)	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai • Dim safleoedd dynodedig • Arfarniad LANDMAP Isel i Ganolig	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch*** • Parc Cenedlaethol, AHNE, Arfordir Treftadaeth, Ardaloedd o Harddwch Eithriadol , ATA • Arfarniad LANDMAP Neilltuol neu Uchel
Gwerth Hanesyddol	Mae ardaloedd sy'n cael eu cydnabod yn bennaf gan arfarniadau Hanesyddol neu Ddiwylliannol Neilltuol neu Uchel yn LANDMAP yn debygol o fod o sensitifrwydd uchel iawn i ddatblygiad lein uwchben 400 kV. Mae ardaloedd sydd wedi'u dynodi am eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol, fel Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn debygol o fod yn arbennig o sensitif, yn enwedig os yw cymeriad neu'r canfyddiad o'r dirwedd maent ynddi'n debyg o gael ei newid yn sylweddol gan y datblygiad arfaethedig. Nid yw Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig yn cael eu diogelu gan ddynodiad ond credir gan lawer eu bod o werth cenedlaethol.	

	Ffynonellau Data Allweddol Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP HL38: Prinder, HL35: Cyfanrwydd a HL40: Arfarniad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.2)	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Llai	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd***
	• Dim safleoedd dynodedig • Arfarniad LANDMAP Isel i Ganolig	• Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig, Parc a Gardd Cofrestredig, Henebion Rhestredig sy'n amlwg yn yr olygfa fel bryngaerau a chestyll lle bydd twristiaid yn ymweld yn aml • Arfarniad LANDMAP Neilltuol neu Uchel

Tabl 2.04: Meini Prawf ar gyfer Asesu Sensitifrwydd Tirwedd a Gweledol i Ddatblygiad Mast Symudol

Meini Prawf Tirwedd		
Tirffurf	Mae tirffurf sy'n esmwyth, yn rheolaidd ac yn amgrwm, neu'n wastad ac yn unffurf yn llai tebygol o fod yn sensitif i ddatblygiad mast symudol na thirffurfiau dramatig a garw'r ucheldir. Mae hyn oherwydd bod gan yr olaf o'r rhain gymeriad sy'n fwy amlwg a nodedig. Gall tirffurfiau cymhleth ddarparu cyfleoedd i guddio ond mae'n rhaid cymryd gofal i beidio â dominyddu tirffurfiau cymhleth. Mae gan ddyffrynnoedd a bryniau ar lethrau isel fwy o botensial i ddarparu cefnlen a chyfyngu ar amlygrwydd mastiau symudol, ac felly ystyrir eu bod yn llai sensitif.	
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd *LANDMAP VS Lefel 2: Tirffurf a VS4: Ffurflen topograffig / ACB disgrifiadau / data OS / Dopograffig Data Ymweliadau / Safle*	
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • Tirffurf ddinodwedd syml • Tirffurf Amgrwm • Fflat a thirffurf unffurf • Cymoedd a bryniau tonnog isel	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Bryniau geirwon / ucheldir dramatig • Tirffurf afreolaidd neu gymhleth • Nodweddion tirffurf nodedig

Gorchudd tir	Nid yw'r maen prawf hwn yn ymwneud â sensitifrwydd deunydd penodol o fath o gorchudd tir, ond yr argraff o batrwm gorchudd tir. Mae tirweddau iseldirol gwledig gyda phatrymau caeau ar raddfa canolig i fawr a gorchudd coed yn aml yn llai tebygol o fod yn sensitif i ddatblygiadau mast symudol. Gall ardaloedd o goedwigaeth fasnachol, ffermio dwys a thir llwyd neu dir masnachol / trefol hefyd fynegi sensitifrwydd is. Mae tirweddau mwy cymhleth ac agos sy'n cynnwys amrywiaeth neu frithwaith o dirwedd nodweddiadol neu nodweddion sensitif gan gynnwys patrymau caeau hanesyddol neu afreolaidd yn nodweddiadol yn fwy agored i newid sy'n codi yn sgil y math hwn o ddatblygiad. Gall gorchudd coed a coetirol gynnig y potensial i sgrinio datblygiadau mewn sefyllfaoedd penodol (yn enwedig ar y cyd â thirffurf tonnog) er bod yn rhaid bod yn ofalus i beidio â chaniatáu i ddatblygiad dynnu oddi wrth neu ddominyddu nodweddion arbennig lleol megis bryncynnau coed, coed hynafol neu goed rhodfeydd. Y tirweddau lleiaf sensitif yw'r rhai sy'n cynnwys rhai coetiroedd neu goed gwregysol, a all ddarparu cyfleoedd sgrinio heb golli llawer o goed. Gall gorchudd tir megis ucheldiroedd creigiog diffrwyth agored a dyfroedd megis llynnoedd, nentydd neu byllau hefyd fod yn nodweddion sensitif a hynod werthfawr fod yn arbennig o fregus (agored i niwed) yn sgil datblygu. Yn yr un modd mae lleoliadau arfordirol agored yn aml yn sensitif iawn.	
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS Lefel 3: Gorchudd Tir ac VS5: Patrwm Gorchudd / Ddisgrifiadau ACT / data AO / Delweddaeth o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • patrwm caeau ar raddfa ganolig o orchudd tir gwledig • Tir wedi'i ddatblygu, tir diffaith neu wastraff • Coedwigaeth fasnachol • Tir fferm ar yr iseldir • Gwregysau aml o goedlannau / goed	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Patrwm cae graddfa fach / mosaig • Tirwedd gymhleth, afreolaidd neu'n agos atoch • Ucheldir moel / creigiog • Dwr / rhynglanwol / twyni / llaciau twyni / tir arfordirol

Dylanwadau a wnaed gan ddyn	Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â faint o strwythurau adeiledig ac ymyrraeth ddynol sy'n bresennol yn y dirwedd. Efallai y bydd presenoldeb adeileddau modern megis tyrbinau gwynt, trafnidiaeth, seilwaith cyfleustodau neu gyfathrebu neu ddatblygiad diwydiannol yn lleihau sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad mast symudol, fel y gall dylanwadau gweladwy chwarela neu dirlenwi. Gall amlder ffurfiau adeiledig ac ymyrraeth ddynol mewn ardaloedd setledig dwys mwy cyfoes hefyd fynegi llai o sensitifrwydd lle cyflwynir mastiau symudol. Fodd bynnag, ym mhob un o'r achosion hyn rhaid gofalu i osgoi gwrthdaro gweledol pellach a newid cronnus drwy gyflwyno strwythurau fertigol ychwanegol hefyd yn yr ardaloedd setledig mae cydbwysedd i'w daro rhwng effeithiau gweledol ac effeithiau ar gymeriad y dirwedd. Mae ardaloedd lle mae llai o bobl yn byw a / neu wedi eu nodweddu gyda chymeriad mwy sefydledig, traddodiadol neu adeiledig hanesyddol, gan gynnwys strwythurau hanesyddol yn debygol o fod yn fwy sensitif i'r math hwn o ddatblygiad. Gall coedwigaeth fasnachol hefyd gyflwyno dylanwad a wnaed gan ddyn dros dro i dirweddau ucheldirol a byddai fel arall yn ymddangos yn naturiol a gwyllt.
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS6: Aneddiadau A VS27: Disgrifiadau Cyflwr / ACT / data AO / Tir ac Eiddo Lleol data (LLPG) / Delweddaeth o'r awyr (Google Earth) / Safle
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • Isadeiledd Mawr (trafnidiaeth / cyfathrebu / tyrbinau cyfleustodau / seilwaith gwynt) • datblygiad diwydiannol cyfoes • Aneddiadau Mawr / setliadau cryno trefol / modern • coedwigaeth fasnachol ***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Ffurf adeiledig anaml / dim ffurf preswyl adeiledig • Anheddiad gwasgaredig / ychydig o bobl yn byw yn wasgaredig / ardaloedd heb boblogaeth • Presenoldeb adeiladau hanesyddol / adeileddau neu anheddiad

Meini Prawf Gweledol		
Nenlinellau a Gosodiadau	Tirweddau gyda chribau neu gorwelion nodedig yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau mast symudol na nenlinellau / gorwelion sy'n llai amlwg, neu wedi cael eu heffeithio gan adeileddau cyfoes sy'n bodoli eisoes megis seilwaith trydan neu gyfathrebu. Mae presenoldeb nodweddion tirwedd arbennig neu hanesyddol megis henebion ar fryniau, meindyrau eglwys neu bentrefi hanesyddol yn cynyddu sensitifrwydd '.	
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd Disgrifiadau ACT / Data AO / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • gorwelion / nenlinellau llai amlwg • nodweddion fertigol presennol (datblygiad modern) • ddatblygiad adeiledig presennol	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • gorwelion amlwg • gorwelion / cefnlenni nodedig • gorwelion di-dor / heb eu datblygu • Presenoldeb nodweddion tirwedd arbennig / sensitif megis dirnodau hanesyddol

Gweledegg, Golygfeydd Allweddol, Vistas a Derbynyddion Nodweddiadol (o fewn a thu allan i bob ACT)	Mae'r tebygolrwydd bod mastiau ffonau symudol yn amlwg iawn mewn tirlun arbennig yn swyddogaeth y tirffurf a phresenoldeb y gorchudd tir a all sgrinio, yn enwedig coed a choetiroedd. Mae hefyd yn un o swyddogaethau nifer y bobl o wahanol fathau sy'n debygol o ganfod y tirlun ac unrhyw newid ynddo (ee trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr). Mae'r niferoedd a'r mathau o bobl sy'n debygol o brofi newid mewn o ran golygfa o ganlyniad i ddatblygu posibl yn dylanwadu ar sensitifrwydd gweledol. Mae'r derbynyddion mwyaf sensitif yn debygol o fod yn drigolion, cymunedau, pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored lle mae tirwedd yn rhan o'r profiad, ymwelwyr â thirwedd sy'n canolbwyntio ar asedau treftadaeth naturiol ac adeiledig, atyniadau hamddena a defnyddwyr y llwybrau golygfaol. Mae pob lleoliad yn dod â rhai disgwyliadau gyda hwy. Ystyrir fod llwybrau trafnidiaeth yn gyffredinol yn dderbynyddion llai sensitif, fodd bynnag mae golygfeydd unigol a dilyniannol o lwybrau twristaidd golygfaol cydnabyddedig yn bwysig i ganfyddiad y dirwedd. Gall topograffeg neu lystyfiant ddarparu ymdeimlad o amgáu, a all helpu i leihau gweledegdd mastiau ffonau symudol ac felly fynegi llai o sensitifrwydd tirwedd. Mae tirweddau agored o bosib yn fwy gweladwy, yn enwedig pan fo trosolwg drostynt. Gallant hefyd fod yn weladwy o dirweddau cyfagos. Gall tirweddau sydd gan olygfeydd allanol a mewnol fod yn llai sensitif i ddatblygiadau mast ffôn symudol nag ardaloedd gyda golygfeydd llai cynwysedig. Gall golygfeydd eang agos neu ganolig o lwybrau golygfaol, golygfeydd adnabyddus neu olygfannau twristiaid hefyd gynyddu sensitifrwydd y dirwedd i'r math hwn o ddatblygiad, fel y gall agosrwydd at anheddiad.
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS9: Amgaeed / Disgrifiadau ACT / data AO / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle

	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • Tirweddau sydd wedi'u cyfyngu, yn gynnwysedig neu'n amgaeedig gydag ychydig o olygfeydd i mewn neu allan • Ardaloedd â phoblogaeth wasgaredig neu anhygyrch • Tirweddau cyfagos sy'n llai sensitifrwydd • Yn cyfrannu fawr ddim i'r dirwedd ehangach • Cefnlenni syml ar raddfa fawr • Cysylltiad gwan gyda Ardaloedd Cymeriad Tirwedd cyfagos	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Tirweddau sydd yn agored neu'n cael eu datgelu gyda golygfeydd pellgyrhaeddol • Poblog iawn • Golygfeydd o lwybrau golygfaol, tirnodau enwog, neu olygfeydd o olyfannau ymwelwyr • Golygfeydd i mewn neu allan, yn enwedig o'r tir uchel • Tirweddau cyfagos o sensitifrwydd uwch, yn enwedig tirweddau a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol • Yn cyfrannu tuag at y dirwedd ehangach • Cefnlenni nodedig neu gymhleth • Tirweddau sy'n bwysig i'r gosodiadau / wrth nesau / pyrth i dirweddau dynodedig • Cysylltiad cryf gydag Ardaloedd Cymeriad Tirwedd cyfagos
Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol a Derbynyddion Nodweddiadol (y tu mewn a'r tu allan i bob ACT)	Mae tirweddau sy'n bwysig i'r golygfeydd i mewn ac allan yn ogystal â lleoliad ardaloedd tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol dynodedig **<u>allweddol</u>** / canolbwynt (megis AHNE, Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Ardaloedd o Harddwch Eithriadol, Llwybrau Cenedlaethol a Rhwydweithiau Beicio ac atyniadau ymwelwyr allweddol megis bryngaerau / cestyll / meindyrau eglwysi) yn debygol o fod yn fwy sensitif. Efallai y bydd gosodiad tirweddau dynodedig yn fwy sensitif pan fo'r lleoliad yn cyfrannu at ansawdd golygfaol cyffredinol y dirwedd ddynodedig. At ddibenion yr astudiaeth hon ystyrir bod Adeiladau	
	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigurau 4.1 a 4.2) / Disgrifiadau ACT / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is	***Rhai Dangosyddion o***
	• Cysylltiad gwan â thirwedd • Ychydig iawn o ryngweledegdd rhwng safleoedd	• Cysylltiad gwan â thirwedd • Ychydig iawn o ryngweledegdd rhwng safleoedd
Meini Prawf Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol		

<table>
<tr><td rowspan="3">Ansawdd a Chymeriad Golygfaol</td><td colspan="2">Bydd ardaloedd o olygfeydd hardd, cymeriad, ansawdd, cyfanrwydd, naws cryf am le ac amlygrwydd lleol fel arfer yn fwy sensitif i ddatblygiadau mast symudol o’u cymharu ag ardaloedd llai golygfaol. Mae hyn yn cynnwys tirweddau sydd wedi’u dynodi am eu harddwch naturiol (megis yr Arfordir Treftadaeth neu AHNE ddynodedig) ond hefyd ardaloedd o dirwedd nad ydynt yn ddynodedig, gan gynnwys ardaloedd sy’n nodweddiadol yn lleol neu â chymeriad cryf.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau data allweddol sy’n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP VS25 Naws Am Le, VS46: Ansawdd Golygfaol, VS47: Cyfanrwydd a VS48: Cymeriad / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig
• Ansawdd golygfaol isel (h.y. ardaloedd diwydiannol)
• Naws gwan am le</td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pellenigrwydd / Llonyddwch</td><td colspan="2">Mae tirweddau sy’n eithaf anghysbell gyda chymeriad gwyllt a / neu dawel ac nad oes llawer o ddatblygiadau adeiledig yn cynyddu sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad mast symudol. Gall datblygiad o’r fath danseilio rhinweddau arbennig a lleoliad ardaloedd penodol. Gall cyflwyno mastiau symudol newid canfyddiadau o wylltineb a llonyddwch drwy ddod â chymeriad mwy diwydiannol i'r tirweddau yr effeithir arnynt.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau data allweddol sy’n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP VS24: Nodweddion Canfyddiadol a Synhwyrol / Map Ardaloedd Tawel Cymru / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Bygythiol; anneniadol; swnllyd; setledig
• Agos at arwyddion amlwg o weithgarwch a datblygiadau dynol</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
• Anghysbell; tawel; gwyllt; ysbrydol; deniadol; heddychol
• Anghysbell yn gorfforol neu’n ganfyddiadol, heddychol neu dawel</td></tr>
<tr><td colspan="3">Meini Prawf Gwerth</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Gwerth Tirwedd</td><td colspan="2">Mae’n debygol y bydd ardaloedd sy’n cael eu cydnabod yn bennaf fel Eithriadol neu Uchel yng ngwerthusiadau LANDMAP yn fwy sensitif i ddatblygiadau mast symudol. Yn ogystal â hyn, mae tirweddau sydd wedi'u dynodi’n ffurfiol oherwydd gwerth golygfaol, dyluniad neu hamdden yn debygol o fod yn fwy sensitif nag ardaloedd heb eu dynodi. Mae gradd y sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a rhinweddau’r dirwedd sy’n cael eu nodi yn y dynodiad. Mae hierarchaeth y dynodiad yn dylanwadu ar sensitifrwydd tirwedd. Ystyrir bod tirweddau dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol megis Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac AHNE yn hynod sensitif, gyda dynodiadau rhanbarthol a lleol megis AHE a SLAau yn dilyn hyn hefyd. Mae gwerth tirwedd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol drwy ddynodiad, ond gellir hefyd penderfynu ar werth drwy ddogfennau cyhoeddedig megis taflenni i dwristiaid; celf a llenyddiaeth. Nid yw Arfordiroedd Treftadaeth yn cael eu gwarchod drwy ddynodiad ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau data allweddol sy’n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP VS50: Gwerthusiad Cyffredinol, VS49: Prinder, LH45: Gwerthusiad Cyffredinol, LH42: Cysylltedd / Cydlyniad, GL31: Prinder / Unigrywiaeth a GL33: Gwerthusiad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.1)</td></tr>
<tr><td></td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
Dim safleoedd dynodedig
Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Uwch
Parc Cenedlaethol, AHNE, Arfordir Treftadaeth, AHN, SLA Gwerthusiad LANDMAP Eithriadol neu Uchel</td></tr>
<tr><td>Gwerth Hanesyddol</td><td colspan="2">Mae ardaloedd sy'n cael eu cydnabod yn bennaf trwy gyfrwng gwerthusiadau LANDMAP Eithriadol neu Uchel Hanesyddol neu Ddiwylliannol yn debygol o fod yn fwy sensitif iawn i ddatblygiadau mast symudol. Mae ardaloedd a ddynodwyd am eu gwerth treftadaeth hanesyddol neu ddiwylliannol rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol fel Safleoedd Treftadaeth y Byd yn debygol o fod yn fwy sensitif yn enwedig os yw'r cymeriad neu ganfyddiad y dirwedd ble maent wedi eu lleoli yn debygol o gael eu newid yn sylweddol yn sgil y datblygiad arfaethedig. Nid yw Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig a Pharciau a Gerddi</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd
LANDMAP HL38: Prinder, HL35: Integredd & HL40: Gwerthusiad yn ei Gyfanrwydd / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.2)</td></tr>
</table>

	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch***
	• Dim safleoedd dynodedig • Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig	• Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig, Parc a Gardd Gofrestredig, Henebion Rhestredig yn weledol amlwg megis bryngaerau a chestyll y mae twristiaid yn aml yn ymweld â nhw • Gwerthusiad LANDMAP eithriadol neu Uchel

Tabl 2.05: Meini prawf ar gyfer Asesu Tirwedd a Sensitifrwydd Gweledol i Feysydd Carafanau Statig / Parciau Cabanau ac Estyniadau

Meini Prawf tirwedd		
Tirffurf	Mae tirffurfiau amlwg a threigl neu dirffurfiau gyda llethrau mwy serth yn fwy sensitif i ddatblygiadau carafanau statig / cabanau gwyliau ac estyniadau oherwydd eu bod yn nodweddion tirweddol cryf sy'n tueddu i gael eu cuddio gan ddatblygiad ac sydd angen addasiad fwy helaeth yn ystod y gwaith adeiladu. Ystyrir bod y rhai mwy gwastad, gyda thirweddau symlach neu'r rhai sydd â llethrau tonnog yn llai sensitif i ddatblygiadau ac estyniadau i feysydd carafannau statig / cabanau.	
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS Tirffurf Lefel 2 & VS4: Ffurf Topographig / disgrifiadau ACT / data AO / Data Topographig / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • Tirffurf ddinodwedd syml • Tirffurf mwy gwastad ac mwy unffurf	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Bryniau garw • Tirffurf afreolaidd neu gymhleth • Cymoedd cul a chribau • Nodweddion tirffurf nodedig

Gorchudd Tir	Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â sensitifrwydd perthnasol y math o orchudd tir, a hefyd yr argraff o batrwm gorchudd tir a sut y gall datblygiad effeithio arno. Mae tirweddau iseldir gwledig gyda phatrwm caeau ar raddfa fawr yn llai tebygol o fod yn sensitif i ddatblygiadau ac estyniadau meysydd carafannau statig / cabanau. Gall ardaloedd o goedwigaeth fasnachol, tir llwyd neu fasnachol tir / trefol ac ardaloedd o ffermio dwys fod yn fynegiant o sensitifrwydd is. Mae tirweddau cymhleth, ar raddfa lai sy'n fwy agos ac yn cynnwys amrywiaeth neu frithwaith o nodweddion tirwedd nodweddiadol neu sensitif fel hen goed a choetiroedd hynafol (na ellir eu hail-greu yn y tymor byr), patrymau a gwrychoedd caeau afreolaidd yn fwy agored i newid sy'n codi yn sgil y math hwn o ddatblygiad. Mae gorchudd coed a choedlannol yn cynnig y potensial i sgrinio datblygiadau dan amgylchiadau penodol (yn enwedig ar y cyd â thirffurf tonnog) er bod yn rhaid bod yn ofalus i beidio â chaniatáu datblygiad i dynnu oddi wrth neu ddominyddu nodweddion arbennig lleol megis bryncynnau coed, neu coed hynafol a rhodfeydd coed. Fe all gorchudd tir megis rhostir ucheldirol agored ac ucheldir agored sy'n cael ei bori a chyrff dŵr megis llynnoedd, nentydd neu byllau hefyd fod yn nodweddion hynod o sensitif a gwerthfawr sy'n fregus i ddatblygu. Yn yr un modd mae lleoliadau arfordirol agored, er eu bod yn safleoedd poblogaidd ar gyfer datblygiad o'r fath, yn aml yn sensitif iawn.
	Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd LANDMAP VS Lefel 3: Gorchudd Tir a VS5: Patrwm Gorchudd Tir / Disgrifiadau ACT / data AO / Delweddaeth o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • Patrwm caeau ar raddfa ganolig o orchudd tir gwledig • Tir wedi'i ddatblygu, tir diffaith neu wastraff / tir llwyd • Coedwigaeth fasnachol • Tir fferm iseldirol ***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Bach / patrwm cae ar raddfa agos / mosaig • Tirweddau cymhleth / afreolaidd / amrywiol • Patrwm cryf / gwead • Tirwedd cyfain • Coetir Hynafol • Rhostir ucheldirol • Pori ucheldirol • Ucheldir diffrwyth / creigiog • Dwr / rhynglanwol / twyni / llaciau twyni / tir arfordirol

Dylanwadau a wnaed gan ddyn

Mae'r maen prawf hwn yn ymwneud â faint o ymyrraeth ddynol sydd yn bresennol yn y dirwedd. Gall tirweddau a wnaed gan ddyn a / neu dirweddau sy'n cynnwys arwyddion o weithgaredd a datblygiad dynol, megis aneddiadau mawr a gwasgarog, trafnidiaeth, seilwaith cyfleustodau neu gyfathrebu neu ddatblygiad diwydiannol leihau sensitifrwydd y dirwedd i garafanau sefydlog / datblygiadau cabanau ac estyniadau, fel y gall dylanwadau gweladwy chwarelydda neu dirlenwi ac amlder ffurf adeiledig ac ymyrraeth ddynol mewn ardaloedd setledig sy'n fwy cyfoes. I'r gwrthwyneb, mae'r ardaloedd sy'n llai setledig ac yn rhydd rhag gweithgarwch ac aflonyddwch dynol yn cael eu hystyried yn fwy sensitif i'r math hwn o ddatblygiad, oherwydd eu naturioldeb canfyddedig. Mae'r ardaloedd lle mae nodweddion cymeriad mwy sefydledig, adeiledig traddodiadol neu hanesyddol, gan gynnwys strwythurau hanesyddol yn debygol o fod yn fwy sensitif i ddatblygiadau ac estyniadau meysydd carafannau statig / cabanau.

Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd

LANDMAP VS6: Aneddiadau A VS27: Cyflwr /Disgrifiadau ACT / data AO / data Newyddlen Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) / Delweddaeth o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle

Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai	***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch***

Meini Prawf Gweledol

Gweledegg, Golygfeydd Allweddol a Derbynyddion Nodweddiadol (y tu mewn a'r tu allan i bob ACT)	Mae'r tebygolrwydd i ddatblygiadau a / neu estyniadau parciau carafanau statig / cabanau fod yn amlwg iawn mewn tirwedd benodol yn swyddogaeth y tirffurf a phresenoldeb gorchudd tir a allai sgrinio, yn enwedig coed a choedlannau. Mae hefyd yn un o swyddogaethau nifer y bobl o wahanol fathau sy'n debygol o ganfod y dirwedd ac unrhyw newid ynddi (e.e. trigolion, gweithwyr, ymwelwyr). Gall tirweddau sydd â golygfeydd cyfyngedig i mewn ac allan fod yn llai sensitif i ddatblygiadau ac estyniadau parciau carafanau statig / cabanau nag ardaloedd â golygfeydd llai cynwysedig. Gall topograffi a / neu lystyfiant ddarparu ymdeimlad o dir caeedig, a allai helpu i leihau gweledegd y datblygiad ac felly dangos sensitifrwydd is.[16] Mae tirweddau agored, yn enwedig arfordiroedd agored yn gallu bod yn fwy gweladwy ac felly yn fwy agored i'r mathau hyn o ddatblygiad; yn enwedig pan fyddir yn tremio drostynt. Golygfeydd allweddol yw'r rhai o leoedd sy'n agored i'r cyhoedd (sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd neu i fwynhau ansawdd golygfaol) tuag at nodweddion o ddiddordeb. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn sensitif i newidiadau a datblygiadau. Gall golygfeydd helaeth agos neu ganolig o lwybrau golygfaol, golygfeydd adnabyddus neu olygfannau twristiaid hefyd gynyddu sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiad.	
	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd LANDMAP VS9: Tir Caeedig / Disgrifiadau ACT / Data AO / Delweddau o'r Awyr (Google Earth) / Ymweliadau Safle	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is • Tirwedd â naws cryf o dir caeedig • Tirweddau sydd wedi'u hamgáu a'u hidlo yn gryf yn weledol. • Ychydig neu ddim rhyngweledegd o olygfannau dynodedig mewn tirweddau gwarchodedig • Dim tirnodau neu nodweddion topograffig amlwg.	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is*** • Tirwedd â naws cryf o dir caeedig • Tirweddau sydd wedi'u hamgáu a'u hidlo yn gryf yn weledol. • Ychydig neu ddim rhyngweledegd o olygfannau dynodedig mewn tirweddau gwarchodedig • Dim tirnodau neu nodweddion topograffig amlwg.
Meini Prawf Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol		

[16] Dylai coedlannau a choedwigaeth fod yn nodwedd hirdymor os bwriedir dibynnu ar eu heffeithiau sgrinio.

<table>
<tr><td rowspan="3">Ansawdd a Chymeriad Golygfaol</td><td colspan="2">Bydd ardaloedd o olygfeydd hardd, cymeriad, ansawdd, cyfanrwydd, naws cryf am le ac amlygrwydd lleol fel arfer yn fwy sensitif i ddatblygiadau ac estyniadau parciau carafanau statig / cabanau o'u cymharu ag ardaloedd llai golygfaol. Mae hyn yn cynnwys tirweddau sydd wedi'u dynodi am eu harddwch naturiol (megis yr Arfordir Treftadaeth neu AHNE ddynodedig) ond hefyd ardaloedd o dirwedd nad ydynt yn ddynodedig, gan gynnwys ardaloedd sy'n nodweddiadol yn lleol neu â chymeriad cryf y mae eu nodweddion golygfaol arbennig yn debygol o gael eu heffeithio gan y math hwn o ddatblygiad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP VS25 Naws Am Le, VS46: Ansawdd Golygfaol, VS47: Cyfanrwydd a VS48: Cymeriad / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig
• Ansawdd Golygfaol isel (h.y. ardaloedd diwydiannol)
• Naws gwan am le</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig
• Ansawdd Golygfaol isel (h.y. ardaloedd diwydiannol)
• Naws gwan am le</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pellenigrwydd / Llonyddwch</td><td colspan="2">Mae ardaloedd sy'n eithaf anghysbell gyda chymeriad gwyllt a / neu dawel ac nad oes llawer o ddatblygiadau adeiledig yn cynyddu sensitifrwydd tirwedd i ddatblygiadau ac estyniadau parciau carafanau statig / cabanau. Gall datblygiadau ger ardaloedd o'r fath danseilio rhinweddau arbennig a lleoliad ardaloedd penodol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd
LANDMAP VS24: Nodweddion Canfyddiadol a Synhwyrol / Map Ardaloedd Tawel Cymru / Ymweliadau Safle</td></tr>
<tr><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Bygythiol; anneniadol; swnllyd; setledig
• Ymwthiadau gweledol a chlywedol helaeth
• Presenoldeb datblygiad modern / mawr a seilwaith (ardaloedd diwydiannol, aneddiadau trefol modern mawr ac ati)</td><td>Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is
• Bygythiol; anneniadol; swnllyd; setledig
• Ymwthiadau gweledol a chlywedol helaeth
• Presenoldeb datblygiad modern / mawr a seilwaith (ardaloedd diwydiannol, aneddiadau trefol modern mawr ac ati)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Meini Prawf Gwerth</td></tr>
</table>

Gwerth Tirwedd	Mae'n debygol y bydd ardaloedd lle mae crynodiad o werthusiadau LANDMAP Eithriadol neu Uchel yn fwy sensitif i ddatblygiadau ac estyniadau parciau carafanau statig / cabanau. Yn ogystal â hyn, mae tirweddau sydd wedi'u dynodi'n ffurfiol oherwydd gwerth golygfaol, dyluniad neu hamdden yn debygol o fod yn fwy sensitif i'r math hwn o ddatblygiad nag ardaloedd heb eu dynodi. Mae gradd y sensitifrwydd yn dibynnu ar natur y cynnig a rhinweddau'r dirwedd sy'n cael eu nodi yn y dynodiad. Mae hierarchaeth y dynodiad yn dylanwadu ar sensitifrwydd tirwedd. Ystyrir bod tirweddau dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol megis Parciau Cenedlaethol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac AHNE yn hynod sensitif, gyda dynodiadau rhanbarthol a lleol megis AHE a SLAau yn dilyn hyn hefyd. Mae gwerth tirwedd yn cael ei gydnabod yn ffurfiol drwy ddynodiad, ond gellir hefyd penderfynu ar werth drwy ddogfennau cyhoeddedig megis taflenni i dwristiaid; celf a llenyddiaeth. Nid yw Arfordiroedd Treftadaeth yn cael eu gwarchod drwy ddynodiad ond ystyrir eu bod o werth cenedlaethol.	
	Ffynonellau data allweddol sy'n berthnasol i feini prawf sensitifrwydd LANDMAP VS50: Gwerthusiad Cyffredinol, VS49: Prinder, LH45: Gwerthusiad Cyffredinol, LH42: Cysylltedd / Cydlyniad, GL31: Prinder / Unigrywiaeth a GL33: Gwerthusiad Cyffredinol / Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigwr 4.1)	
	Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is • Dim safleoedd dynodedig • Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig	***Rhai Dangosyddion o Sensitifrwydd Is*** • Dim safleoedd dynodedig • Gwerthusiad LANDMAP isel i ganolig
	Mae ardaloedd sy'n cael eu cydnabod yn bennaf gan werthusiadau LANDMAP fel Eithriadol neu Hanesyddol neu Diwylliannol Uchel yn debygol o fod yn sensitif iawn i ddatblygiad meysydd carafanau statig / cabanau ac estyniadau. mae ardaloedd a ddynodwyd am eu gwerth treftadaeth hanesyddol neu ddiwylliannol rhyngwladol, cenedlaethol neu ranbarthol fel Safleoedd Treftadaeth y Byd yn debygol o fod yn fwy sensitif i'r math hwn o ddatblygiad yn enwedig os yw'r cymeriad neu'r canfyddiad o'r dirwedd ble maent wedi eu lleoli yn debygol o gael ei newid yn sylweddol. Nid yw Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig yn cael eu gwarchod gan ddynodiad ond maent yn cael eu hystyried gan lawer i fod yn werthfawr yn genedlaethol.	

Gwerth Hanesyddol	***Ffynonellau Allweddol Data Perthnasol i'r Maen Prawf Sensitifrwydd*** LANDMAP HL38: Prinder, HL35: Uniondeb & HL40: Gwerthusiad Ar y cyfan/ Data Mapio Dynodiadau Amgylcheddol (Ffigur 4.2)		
	Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Llai • Dim safleoedd dynodedig • Gwerthusiad LANDMAP isel > gweddol	• ***Rhai Dangosyddion Sensitifrwydd Uwch*** • Safle Treftadaeth y Byd, Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig, Parc a Gardd Gofrestredig, Henebion Rhestredig yn weledol amlwg megis bryngaerau a chestyll a ymwelir â nhw yn aml gan dwristiaid • LANDMAP Eithriadol neu Uchel	

Cam Dau – Asesu Sensitifrwydd Tirweddol a Gweledol

2.27 Mae'r rhan hon o'r astudiaethau yn seiliedig ar astudiaethau pen desg ac arolygon maes, gyda'r olaf yn cael ei wneud yn ystod camau (gweddau) cynnar yr astudiaeth (ymgyfarwyddo) ac yn ddiweddarach i helpu i wirio a mireinio asesiadau sensitifrwydd pen desg.

Asesiad Gwaelodlin

2.28 Y cam cyntaf yn y broses oedd:

Nodi a gwerthuso tirlun presennol yr ardal astudiaeth, gan gynnwys ei nodweddion unigryw, dynodiadau tirwedd ac effeithiau y mathau canlynol o ddatblygiadau sy'n bodoli eisoes: ynni gwynt; mastiau ffonau symudol a meysydd carafanau statig / cabanau.

- Nodi a gwerthuso golygfeydd presennol ac amwynder gweledol yr ardal astudiaeth.

2.29 Adolygwyd y wybodaeth ganlynol fel ymarfer desg:

- Mapiau Arolwg Ordnans a lluniau o'r awyr.
- Tirweddau dynodedig ac sy'n werthfawr yn genedlaethol / rhanbarthol, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, Ardaloedd o Harddwch Naturiol ac Arfordir Annatblygedig (fel y nodwyd yn y CDLlE), AoHNE Ynys Môn, AoHNE Llŷn, CLGau a'r Arfordiroedd Treftadaeth.
- Gwybodaeth o setiau data LANDMAP (pob un o'r pum Ardaloedd Agwedd).
- Data mapio GIS treftadaeth naturiol ac adeiledig.
- Asesiadau cymeriad tirwedd presennol.
- Map Ardaloedd Tawel a Llonydd Cymru.
- Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig, Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle (oedd) Treftadaeth y Byd Gwynedd, Parciau a Gerddi Cofrestredig a henebion cofrestredig yn weledol amlwg.
- Datblygiadau presennol o fewn yr ardal astudiaeth (gan gynnwys ynni gwynt, mastiau symudol, meysydd carafannau statig / cabanau a hefyd ynni hydro).

2.30 Mae canfyddiadau'r arolwg desg, a gafodd eu mireinio yn ddiweddarach yn dilyn gwaith arolygu maes, yn cael eu cyflwyno yn Adran 3. Maent yn cynnwys trosolwg o nodweddion tirwedd allweddol o ardal yr astudiaeth, disgrifiad o'r presennol a datblygiadau a ganiatawyd (perthnasol i'r rhai sy'n cael eu hystyried yn yr astudiaeth hon) a'u heffaith ar y dirwedd ynghyd â sylwadau cryno ar unrhyw faterion effeithiau cronnol presennol a phosibl.

Asesu Sensitifrwydd ACTau

2.31 Yr oedd y rhan hon o'r astudiaeth yn ymofyn fod taflenni asesu sensitifrwydd ar gyfer pob ACT yn cael eu paratoi, fel y'i cyflwynir yn Adran 4.

2.32 Mae nodweddion allweddol pob ACT yn cael eu disgrifio cyn cael eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf sensitifrwydd a ddisgrifir yn Nhablau 2.03 - 2.07, gan ddefnyddio graddio tri phwynt: uwch, canolig neu is (fel y disgrifir yn Nhabl 2.01). Yn olaf rhoddir barn ar sensitifrwydd cyffredinol pob ACT i'r newid sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fathau datblygu, yn seiliedig ar raddfa sensitifrwydd chwe phwynt mwy manwl: isel; canolig-isel; canolig; canolig-uchel, uchel ac uchel iawn.

2.33 data Cymerwyd data o LANDMAP a'i droshaenu ar ardal yr astudiaeth (a restrir yn Nhablau 2.03-2.07). Defnyddiwyd y wybodaeth hon i wneud dyfarniadau cychwynnol ar sensitifrwydd a gafodd eu hategu ac neu eu safoni yn dilyn astudiaethau pen desg pellach a'r ymweliadau safle.

Arolwg Maes

2.34 Ar ôl cwblhau'r asesiad drafft, ymgymerwyd ag arolygon maes er mwyn helpu i brofi a mireinio'r canfyddiadau a darparu'r wybodaeth ganlynol:

- Gwell dealltwriaeth ynghylch nodweddion cyffredinol y dirwedd gan gynnwys effeithiau datblygiadau tebyg sy'n bodoli eisoes ac unrhyw grymoedd dros newid a all fod yn eu profi.
- Dadansoddiad o'r dirwedd, o ran y nodweddion a rhinweddau sy'n effeithio ar ei sensitifrwydd tuag at wahanol fathau o ddatblygiad, gan gynnwys priodweddau arbennig unrhyw ddynodiadau sy'n berthnasol.
- Gwerthfawrogiad o amrywiadau o fewn Ardaloedd Cymeriad Tirwedd unigol a dealltwriaeth fanylach o ansawdd olygfaol a chyflwr tirwedd.
- Gwerthfawrogiad o natur unrhyw faterion amwynder gweledol.
- Deall graddfa'r rhyng-weledeedd, rhwng Ardaloedd Cymeriad Tirwedd o fewn Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ac gyda thirweddau mewn ardaloedd awdurdodau cyfagos.
- Cofnodwyd golygfeydd pwysig i ac o bob ACT, gan adnabod nodweddion arbennig megis golygfannau eiconig, golygfeydd i ac o dirweddau dynodedig, nenlinellau / gorwelion neu orwelion di-dor (tir a môr ill dau). Roedd yn bwysig deall sut mae'r dirwedd yn cael ei brofi safbwyntiau sefydlog a dilyniannol ill dau wrth i bobl deithio drwy ardal.
- Dealltwriaeth o sut mae nodweddion unigol naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd yn gwneud un dirwedd yn fwy sensitif na'r llall. Yr oedd hyn yn helpu i nodi unrhyw gyfyngiadau sensitifrwydd / capasiti strategol penodol a all leihau potensial ardaloedd tirwedd arbennig i ddarparu ar gyfer y gwahanol fathau o ddatblygiad.

2.35 Roedd y gwaith maes hefyd yn ystyried yn fyr goblygiadau tebygol teipolegau / graddfeydd gwahanol datblygiad mewn perthynas â gwahanol agweddau o'r dirwedd. Mae derbynioldeb datblygiad o wahanol deipolegau / raddfeydd yn amrywio ar draws yr holl Ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Mewn dyffrynnoedd cysgodol bach raddfa er enghraifft, mae cyfyngiadau technegol clir i deipolegau datblygiad ynni gwynt mawr a chanolig. Yn yr un modd, cydnabyddir y gallai ardaloedd gyda sensitifrwydd tirwedd sylweddol i ddatblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr, megis Parc Cenedlaethol Eryri a'r AoHNEau, ddim ond yn addas ar gyfer tyrbinau bach iawn sengl.

2.36 Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolygon maes, mae'r gwerthusiadau drafft o sensitifrwydd ACTau wedi cael eu mireinio ac fe baratowyd yr asesiad sensitifrwydd terfynol a thablau cryno cysylltiedig ar gyfer pob ACT.

Cam Tri – Gosod Strategaethau Tirwedd a Datblygu Canllawiau Lleoli a Dylunio

2.37 Mae'r Cynghorau ac Awdurdod y Parc yn cydnabod yr angen i gydbwyso cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu a chysylltu ynni, rhwydweithiau telathrebu a thwristiaeth â'r angen i sicrhau nad yw nodweddion pwysig y

dirwedd yn cael eu niweidio'n annerbyniol. Felly, datblygwyd strategaeth tirwedd ar gyfer pob ACT yn seiliedig ar yr ystyriaethau a ganlyn:

- Osgoi niwed sylweddol i nodweddion allweddol y ACT tra'n derbyn y gallai fod angen rhywfaint o newid mewn rhai lleoliadau.
- Yn seiliedig ar yr asesiad sensitifrwydd tirwedd blaenorol, ymateb i leoliadau lle mae datblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a thwristiaeth newydd yn cael eu gosod orau a lleoliadau lle mae'r rhinweddau pwysig gan gynnwys nodweddion arbennig unrhyw dirwedd ddynodedig yn gwneud y mathau hyn o ddatblygiad yn llai addas.
- Diogelu tirweddau sensitif rhag datblygiadau amhriodol.
- Sicrhau bod lleoliad a dyluniad y datblygiad yn ymateb i gymeriad tirwedd pob ACT.
- Sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad yn amharu ar dirweddau gerllaw y tu hwnt i ffin ardal yr astudiaeth.
- Sicrhau nad yw gwahanol fathau o ddatblygiad yn gwrthdaro naill ai o fewn neu rhwng ACT.

2.38 Roedd y cam hwn yn yr astudiaeth yn cymhwyso safbwynt proffesiynol i benderfynu'r amcan(ion) tirwedd mwyaf addas a chynhwysedd perthynol pob ACT drwy gyfuno gwerthusiad sensitifrwydd tirwedd a gweledol â materion rhyngweledded ac effeithiau cronnol posibl a all godi pe bai datblygiad pellach yn cael ei gymeradwyo.

Mathau o Ddatblygiad

2.39 Mae'r tablau canlynol wedi'u paratoi er mwyn categoreiddio'r gwahanol raddfeydd o ynni gwynt, ynni solar PV, mastiau symudol a datblygiadau parciau carafanau statig / cabanau. Mae'r rhain yn helpu i ddeall natur a graddfeydd amrywiol y gwahanol fathau o ddatblygiad sy'n cael ei ystyried. Mae'r cyfeiriadau at fathau yn cael eu defnyddio trwy'r adroddiad hwn, yn enwedig yn y gwaith o ddatblygu strategaethau tirwedd ac wrth ystyried cynhwysedd dangosol. Nid oes tabl mewn perthynas â llinell uwchben 400 kV gan fod yr astudiaeth yn tybio tyrau delltwaith dur oddeutu 46 m o uchder.

Mathau o Ddatblygiad Ynni Gwynt

2.40 Mae cynhwysedd tirwedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt nid yn unig yn adlewyrchu presenoldeb gwahanol nodweddion a gwerthoedd tirwedd, ond hefyd grŵp ac uchder y tyrbinau mewn perthynas â maint y dirwedd. Er mwyn gwerthuso hyn, nodwyd cyfres o fathau o ddatblygiad ynni gwynt yn seiliedig ar geisiadau blaenorol am ddatblygiadau ynni gwynt yn ardal yr astudiaeth ynghyd â rhagamcan o dueddiadau'r dyfodol. Mae'r mathau hyn hefyd yn cysylltu â'r rhai a gafodd eu hystyried yn Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd ar gyfer Datblygiad Ynni Gwynt Conwy a Sir Ddinbych 2013 sy'n ystyried sensitifrwydd tirweddau i ddatblygiadau ynni gwynt mewn ardaloedd Awdurdodau cyfagos.

2.41 Mae'r chwe chategori (domestig, micro, bach, canolig, mawr a mawr iawn) wedi'u cyflwyno yn Nhabl 2.08 isod ac yn Ffigwr 2 o'u cymharu â thirnodau adnabyddus eraill yng ngogledd cymru er mwyn cael syniad o'r maint.

2.42 Fel arfer bydd cynnig yn cael ei ystyried o fewn y categori sy'n cynrychioli'r math mwyaf y mae'n gymwys ar ei gyfer.

Tabl 2.08: Mathau o Ddatblygiad Ynni Gwynt

Math o Ynni Gwynt	**Allbwn Dangosol** (categori allbwn eang[17])	Meini Prawf **Atodol** (yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf) (yn penderfynu a yw'r math hwn neu fath mwy yn gymwys)

[17] Canllaw yn unig yw'r gwerthoedd hyn ac ni ddylid eu defnyddio fel maen prawf ar gyfer penderfynu ar fathau. Mae effeithlonrwydd ac allbwn ynni'n newid oherwydd datblygiad technoleg ac effeithlonrwydd gweithredu, felly cydnabyddir y gallai'r gwerthoedd hyn newid.

DOMESTIG	O dan 10kW	• Ceisiadau tyrbin sengl • Tyrbin hyd at 15m i ben y llafn • Gall tyrbin fod ar do neu bolyn
MICRO	O dan 50kW	• Ceisiadau tyrbin sengl neu bâr o dyrbinau • Tyrbin hyd at 20m i ben y llafn
BACH	O dan 5MW	• Tyrbin hyd at 3 mewn nifer • Tyrbin hyd at 50m i ben y llafn • Grŵp bychan
CANOLIG	Dros 5MW a hyd at 25MW	• Tyrbin hyd at 9 mewn nifer • Tyrbin hyd at 80 metr i ben y llafn • Grŵp mawr
MAWR	Dros 25MW	• Tyrbinau yn cynnwys 10 mewn nifer neu fwy • Tyrbin hyd at 110 metr i ben y llafn • Fferm wynt fawr
MAWR IAWN	Dros 25MW	• Tyrbinau yn cynnwys 10 mewn nifer neu fwy • Tyrbin dros 110 metr i ben y llafn • Fferm wynt enfawr

2.43 Mae ceisiadau ac ymholiadau ar gyfer prosiectau ynni gwynt bach i ganolig yn berthnasol i'r ardal astudiaeth ehangach. Yma, mae uchder y tyrbin (yn hytrach na dim ond nifer y tyrbinau) a sut y mae hyn yn berthnasol i raddfa'r dirwedd a'r tirffurf, yn ystyriaeth allweddol ynghyd â materion lleol megis gwahanu aneddiadau, golygfeydd o ymylon aneddiadau a llwybrau.

2.44 Mae ceisiadau ac ymholiadau ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt mawr ac enfawr yn ymwneud â SSA NCT 8 yn bennaf, sydd i gyd y tu allan i ardal yr astudiaeth. Mae'r mathau mawr ac enfawr wedi'u cynnwys yn Nhabl 2.08 uchod er gwybodaeth gan eu bod yn ymwneud â rhai datblygiadau gweithredol / gyda chaniatâd o fewn ardal yr astudiaeth a byffer; fodd bynnag, nid yw datblygiadau o'r maint hwn yn cael eu hystyried fel rhai priodol y tu allan i Ardal Chwilio Strategol (AChS) NCT 8 ac felly ni chawsant eu hystyried fel rhan o'r astudiaeth hon.

2.45 Er bod allbwn weithiau'n cael ei ddefnyddio i ddiffinio meintiau gwahanol ddatblygiadau ynni gwynt, mae nifer o amodau penodol (mewn perthynas â maint, diamedr y rotor neu nifer y tyrbinau), sy'n dylanwadu ar y dirwedd ac effaith weledol cynnig ac felly gall newid categori cynnig waeth beth fo'r allbwn. Mae allbynnau dangosol yn ymddangos yn Nhabl 2.08 er gwybodaeth; fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu pa fath sy'n berthnasol i ddatblygiadau ynni gwynt arfaethedig.

Teipolegau o Ddatblygiad Ynni Haul PV ar Raddfa Cae

2.46 Mae capasiti tirwedd ar gyfer datblygiad ynni haul PV ar raddfa cae yn adlewyrchu nid yn unig bresenoldeb gwahanol nodweddion a gwerthoedd y dirwedd, ond hefyd ôl troed / màs y datblygiad mewn perthynas â graddfa'r dirwedd. I gynorthwyo i arfarnu hyn, mae cyfres o deipolegau datblygiad ynni haul PV ar raddfa cae wedi cael ei hadnabod; ar sail ceisiadau datblygu diweddar tu mewn i ardal yr astudiaeth ynghyd â thueddiadau a ragwelir i'r dyfodol.

2.47 Mae'r pum categori (micro, bychan, canolig, mawr a mawr iawn) yn cael eu cyflwyno yn Nhabl 2.09 isod a'u dangos yn Ffigwr 5.2 mewn cymhariaeth gyda nodweddion lleol adnabyddus eraill, er mwyn rhoi syniad o raddfa.

Tabl 2.09: Teipolegau o Ddatblygiad Ynni Haul PV ar Raddfa Cae

Teipoleg PV Haul	**Allbwn Dangosol** (categori eang yr allbwn[18])	**Meini Prawf Dangosol**
MICRO	O dan 500kW	• Llai nag 1 hectar (2.5 erw)
BYCHAN	hyd at 2.5MW	• 1 - 5 hectar (2.5 - 12.5 erw)
CANOLIG	hyd at 5MW	• 5 - 10 hectar (12.5 – 25 erw)
MAWR	dros 5MW	• 10 - 20 hectar (25 – 50 erw)
MAWR IAWN	dros 10MW	• Dros 20 hectar (tua 50 erw)

Mathau o Ddatblygiad Mast Symudol

2.48 Mae cynhwysedd tirwedd ar gyfer datblygiad mast symudol nid yn unig yn adlewyrchu presenoldeb gwahanol nodweddion a gwerthoedd tirwedd, ond hefyd math ac uchder y mastiau mewn perthynas â maint y dirwedd. Er mwyn helpu i werthuso hyn, nodwyd cyfres o fathau o ddatblygiad mast symudol yn seiliedig ar geisiadau datblygu blaenorol yn ardal yr astudiaeth ynghyd â rhagamcan o dueddiadau'r dyfodol.

2.49 Mae'r tri chategori (delltwaith, monopolyn a chuddliw) wedi'u cyflwyno yn Nhabl 2.10 isod ac mae'r monopolyn wedi'i ddangos yn Ffigwr 2 o'u cymharu â thirnodau lleol adnabyddus eraill er mwyn cael syniad o'r maint.

Tabl 2.10: Teipolegau Datblygu Mastiau Symudol

Teipoleg Mastiau Symudol	**Disgrifiad**
DELLT	• Strwythur ffrâm ddur mwy cymhleth lle mae nifer o fathau dylunio ar gael, fel arfer hyd at 20 m o uchder
MONOPOL	• Dyluniad cymharol ddinodwedd, syml, golofnog, fel arfer hyd at 15-20 m o uchder

[18] Dim ond fel canllaw mae'r gwerthoedd hyn ac ni ddylid eu cymryd fel maen prawf ar gyfer penderfynu ar deipoleg. Bydd datblygiadau mewn technoleg ac effeithlonrwydd gweithredu'n effeithio'n barhaus ar effeithlonrwydd ac allbynnau ynni, felly mae'n cael ei gydnabod bod y gwerthoedd hyn yn debygol o newid.

CUDDLIW	• Mastiau wedi eu cuddio, er enghraifft fel polion telegraff, creigiau a choed er mwyn lleihau'r effaith weledol, gall gynnwys mastiau wedi eu gosod ar adeilad (amrywiol uchderau hyd at 15-20 m)

Teipolegau Datblygu Meysydd Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau

2.50 Mae capasiti Tirwedd ar gyfer datblygu meysydd carafanau statig / cabanau nid yn unig yn adlewyrchu presenoldeb nodweddion tirwedd a gwerthoedd gwahanol, ond hefyd yr ôl troed / màs y datblygiad mewn perthynas â maint y dirwedd. Er mwyn helpu i werthuso hyn, mae cyfres o deipolegau datblygiad wedi eu nodi; yn seiliedig ar ledaeniad graddfeydd datblygiad o fewn ardal yr astudiaeth.

2.51 Mae'r pum categori (bach iawn, bach, canolig, mawr a mawr iawn) yn cael eu cyflwyno yn Nhabl 2.11 isod ac fe'i dangosir yn Ffigur 3 er mwyn darparu ymdeimlad o raddfa.

Tabl 2.11: Typolegau Meysydd Carafanau Statig / Cabannau

Typolegau Meysydd Carafanau Statig / Cabannau	Meini Prawf Mynegol
BACH IAWN	Hyd at 10 uned (yn nodweddiadol ardal llai na 1 hectar)
BACH	11-25 uned (yn nodweddiadol ardal llai na 2 hectar)
CANOLIG	26-75 uned (yn nodweddiadol ardal llai na 10 hectar)
MAWR	76-200 uned (yn nodweddiadol ardal llai na 15 hectar)
MAWR IAWN	Over 200 uned (yn nodweddiadol ardal fwy na 15 hectar)

Strategaethau Tirwedd

2.52 Mae Comisiwn Dylunio Cymru (CDC) yn ei ddogfen 2012, Dylunio Ffermydd Gwynt yng Nghymru, wedi cymhwyso canllawiau Scottish Natural Heritage (SNH) i ddatblygu ei ganllawiau ei hun sy'n ymwneud yn benodol â datblygu ffermydd gwynt. Yn y ddogfen trafodir tri amcan sydd a wnelo'r dirwedd:

- **Gwarchod y Tirlun:** 'tirwedd heb unrhyw ffermydd gwynt neu ffermydd gwynt anaml'.
- **Cynnig Lle yn y Dirwedd:** 'tirwedd gyda ffermydd gwynt achlysurol'.
- **Newid Tirwedd:** 'tirwedd gyda ffermydd gwynt.'

2.53 Comisiynwyd yr astudiaeth gan Ynys Môn, Gwynedd â Pharc Cenedlaethol Eryri i adnabod sensitifrwydd tirweddau penodol mewn perthynas â phum math gwahanol o ddatblygiad gan gynnwys ynni adnewyddol, isadeiledd trosglwyddo a datblygiad twristiaeth (nid ynni gwynt yn unig). Er bod canllaw DCfW ddim ond yn ystyried ffermydd gwynt mae'n ddefnyddiol fel canllaw ar gyfer datblygu amcanion tirwedd ac fe'i defnyddiwyd i addasu ac i adlewyrchu amrywiaeth o ddatblygiadau sydd yn cael sylw yn yr adroddiad hwn. Mae'n bwysig nodi na ddylai'r rhain gael eu hystyried yn amcanion rhagnodol caeth.

2.54 Neilltuir un (neu fwy) o'r pedwar amcan tirlun eang fel y diffinnir isod ar gyfer pob ACT. Gall y rhain amrywio gan ddibynnu ar y math o ddatblygiad sy'n cael ei ystyried, ond yn y pen draw byddant yn cynorthwyo'r Cynghorau ac Awdurdodau'r Parciau i wneud penderfyniadau ar geisiadau newydd wrth i'r amcanion tirwedd wedyn ffurfio sail i argymhellion ar fath a maint y datblygiad a allai fod / neu efallai na fydd yn briodol ym mhob un o'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd.

Amcan 1	
Gwarchodaeth Tirwedd	*Yn nodweddiadol dim datblygiad neu ynni adnewyddadwy anaml iawn ar raddfa lai, seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygu twristiaeth.*
Mae gwarchod y dirwedd yn berthnasol i dirweddau lle mae cadwraeth adnoddau a phrofiad gweledol y dirwedd wedi cael eu hasesu fel elfennau sy'n uchel iawn o ran pwysigrwydd. Ei nod yw cadw neu atgyfnerthu cymeriad presennol, ansawdd a chyfanrwydd y dirwedd ac i osgoi niwed arwyddocaol i'w nodweddion allweddol. Er y gall datblygiad ar raddfa lai fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau o fewn ardaloedd lle mai gwarchod y tirlun yw'r prif amcan, mae cyfleoedd o'r fath yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn oherwydd sensitifrwydd y dirwedd a sensitifrwydd gweledol yr ardaloedd hyn ac yn dibynnu ar ba mor dda y mae graddfa a dyluniad y datblygiad yn ymwneud â'r dirwedd bresennol a'r cyfyngiadau gweledol. Mae presenoldeb tirweddau a warchodir yn statudol yn lleihau yn sylweddol i ba raddau y gall datblygiad gael eu cynnwys a bydd yn bwysig deall sut y gallai gwahanol fathau o ddatblygiad effeithio ar y nodweddion arbennig sydd wedi achosi iddo gael ei ddynodi. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5, 2012) yn anelu i gynnal cywirdeb ac ansawdd y dirwedd o fewn Parciau Cenedlaethol, AHNE, Safleoedd Natura 2000 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd Treftadaeth y Byd. Yn yr ardaloedd hyn, gwarchod y dirwedd fydd yr amcan tirlun mwyaf priodol, gan adlewyrchu'r lefel uchel o warchodaeth a roddir i'r ardaloedd dynodedig hyn. Yn enwedig gyda strwythurau uchel megis tyrbinau a mastiau symudol mae'n rhaid ystyried rhyngweledodd rhwng Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau tirwedd cronnus andwyol ac effeithiau gweledol andwyol sy'n deillio yn sgil datblygiadau lluosog. Efallai, fodd bynnag, fod golygfeydd pell o ddatblygiadau wedi eu lleoli mewn ACTau gerllaw, a all fod yn ganfyddadwy o dan amodau gweledodd da.	

Amcan 2	
Lle yn y Dirwedd	*Yn nodweddiadol tirwedd gydag ynni adnewyddadwy seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygu twristiaeth achlysurol.*
Mae cynnig lle yn y dirwedd yn nodweddiadol yn berthnasol i dirweddau lle mae cadwraeth cymeriad a golygfeydd tirwedd wedi cael ei asesu i fod o bwysigrwydd cymedrol i uchel. Mae'r amcan hwn yn anelu at gadw cymeriad cyffredinol, ansawdd a chyfanrwydd y dirwedd, tra'n derbyn y gall datblygiadau achlysurol bach i raddfa ganolig gael eu caniatáu. Gall datblygiadau o'r fath effeithio ar ganfyddiad y dirwedd sy'n agos, ond ni ddylai gael dylanwad eang ar y profiad cyffredinol o dirwedd yr ACNT, nac achosi newidiadau ar raddfa fawr o ran cymeriad a gwrthdaro â neu newid ei nodweddion	

diffiniol.

Amcan 3	
Newid tirwedd	*Yn nodweddiadol tirwedd lle mae yna ynni adnewyddadwy yn gymharol aml, seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygiad twristiaeth.*
Mae newid yn y dirwedd yn berthnasol i dirweddau lle derbynnir y gall cymeriad y dirwedd gynnwys rhywfaint o newid o ganlyniad i ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygiad twristiaeth. Mae'r amcan newid tirwedd yn derbyn y gallai nifer o ddatblygiadau gael eu lleoli o fewn yr ACT ac y gall y rhain gael effaith yn lleol ac ar draws ardal ehangach ac felly yn dod yn nodwedd ddiffiniol o'r dirwedd. Mewn ardaloedd o'r fath bydd yn dal yn bwysig sicrhau bod datblygiadau yn cyd-fynd â graddfa a chymeriad y dirwedd. Dylai fod yn bosibl i werthfawrogi cymeriad y dirwedd heb i ddatblygiadau dra-arglwyddiaethu ar bob golygfa.	

Amcan 4	
Tirwedd newydd	*Yn nodweddiadol tirwedd gyda swm nodedig o ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygu twristiaeth*.
Yr amcan ymhlyg yn y tirweddau hyn yw derbyn newid sylweddol yng nghymeriad y dirwedd. Mae'r holl nodweddion tirwedd arall yn cael eu gweld yng nghyd-destun ynni adnewyddadwy helaeth, seilwaith trawsyrru a / neu ddatblygu twristiaeth. Lle y derbynnir bod yr ardal yn un lle gellir caniatau i'w gymeriad tirwedd newid, mae'n dal angen dilyn egwyddorion dylunio tirwedd da i sicrhau bod y datblygiad yn briodol i raddfa a chymeriad y dirwedd.	

2.55 Gall perthynas neu drothwy newid tirwedd sy'n deillio o ddatblygiad amrywio gan ddibynnu ar y dirwedd a natur y datblygiad arfaethedig. Tybir, fodd bynnag, bod mwy o gynhwysedd cyffredinol ar gyfer datblygiad mewn ardaloedd o sensitifrwydd is lle ystyrir bod newid tirwedd yn fwy derbyniol. Ar y llaw arall, bydd ardaloedd o sensitifrwydd uwch, yn enwedig y rhai sydd wedi'u dynodi, yn fwy tebygol o fod yn gyfyngol. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd ardaloedd cymeriad tirwedd mwy yn gallu cynnwys mwy o ddatblygiadau.

Cynhwysedd Dangosol Tirwedd

2.56 Mae cynhwysedd dangosol cyffredinol tirwedd ar gyfer y gwahanol fathau o ddatblygiad wedi'i bennu ar gyfer pob ardal ACT drwy ystyried y canlynol:

- Sensitifrwydd tirwedd a gweledol cyffredinol i bob math o ddatblygiad sy'n cael ei ystyried wrth benderfynu ar amcan(ion) yr ardal.
- Sut yr ystyrir a phrofir tirwedd yr ardal a sut maent yn cyfrannu at faterion strategol a lleol.
- Datblygiadau ynni adnewyddadwy a / neu dwristiaeth gweithredol a gyda chaniatâd ym mhob ACT a gerllaw.
- Maint pob ACT. Efallai y bydd modd cynnwys mwy o ddatblygiadau mewn ACT fawr cyn cyrraedd trothwy cynhwysedd.

2.57 Er bod cynhwysedd dangosol tirwedd yn helpu i ganfod y math o ddatblygiadau y gellid eu cynnwys, nid yw'n awgrymu y bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad yn yr ardaloedd hyn yn briodol. Mae elfennau eraill megis dynodiadau amgylcheddol a chyfyngiadau technegol, lleoliad penodol y safle, gosodiad a dyluniad a'r galw am ddatblygiad y tu hwnt i gwmpas yr asesiad hwn a bydd angen eu hystyried ar gyfer pob achos unigol.

2.58 Mae'r berthynas gyffredinol rhwng sensitifrwydd tirwedd, amcanion tirwedd a chynhwysedd wedi'i ddangos isod.

Sensitifrwydd Tirwedd	Amcan Tirwedd	Cynhwysedd Tirwedd	Trothwy
Sensitifrwydd Uwch	Gwarchod Tirwedd	**Cynhwysedd Cyfyngedig**	*Fel arfer dim datblygiad neu ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth bychain yn brin*
	Cymhwysiad Tirwedd		*Fel arfer tirwedd gyda rhai datblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth*
	Newid Tirwedd		*Fel arfer tirwedd gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth eithaf aml*
Sensitifrwydd Is	Tirwedd Newydd	**Cynhwysedd Uchaf**	*Fel arfer tirwedd gyda chryn dipyn o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth*

Canllawiau Lleoli a Dylunio mewn perthynas ag Effaith posibl datblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth ar Dirwedd a Gwelededd

2.59 Mae nodiadau canllaw penodol wedi'u paratoi ar gyfer pob math o ddatblygiad er mwyn helpu i gyfeirio unrhyw ddatblygiad arfaethedig i'r lleoliadau mwyaf priodol o ran tirwedd a gwelededd ym mhob ACT. Mae'r canllawiau'n nodi'n fras pa fath(au) o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth (os o gwbl) y gellir eu hystyried yn briodol ac mae'n amlygu materion dyluniad a lleoliad penodol. Nodwyd y cyfyngiadau penodol a all leihau'r posibilrwydd y gall rhai ardaloedd gynnwys y mathau gwahanol o ddatblygiad ynghyd ag effeithiau cronnol a thraws ffiniol posibl.

2.60 Mae nodiadau canllaw lleoliad a dyluniad generig wedi'u cynnwys yn Rhan 5, ynghyd â chysylltiadau â ffynonellau perthnasol eraill o wybodaeth y gellid eu defnyddio i lywio lleoliad a dyluniad sensitif. Dylid darllen y nodiadau hyn ochr yn ochr â'r canllawiau dyluniad a lleoliad penodol sydd wedi'u cynnwys yn y strategaethau ar gyfer pob ACT.

RHAN 3: TIRWEDD GWAELODLIN YNYS MÔN, GWYNEDD A PHARC CENEDLAETHOL ERYRI

Llinell Sylfaen Cymeriad Tirwedd Ardal yr Astudiaeth

Nodweddion Allweddol Tirwedd Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri

3.1 Mae Ynys Môn, Gwynedd ac Eryri'n gymysgedd amrywiol o dirweddau, llawer ohonynt yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr am eu prydferthwch naturiol mawr a'u llonyddwch. Mae Ynys Môn yn dir cymharol isel, a chanddi arfordir prydferth sydd hefyd yn aml yn ddramatig. Mae Parc Cenedlaethol Eryri'n enwog am ei dirweddau mynyddig garw, ond hefyd yn cynnig tirweddau dyffryn ac arfordir sy'n brydferth a heb eu difetha. Yng Ngwynedd, mae gwahaniaethau dramatig rhwng y tirweddau arfordir a moryd llydan a'r mynyddoedd mawreddog sy'n codi tu cefn iddynt. Mae gan Wynedd drefi porthladd a threfi gwyliau prysur sy'n wahanol iawn i'r ardaloedd hynod o wledig yn y mewndir. Yn Atodiad 7 mae cynlluniau topograffi i ddangos tirffurf amrywiol ardal yr astudiaeth.

3.2 Mae'r asesiad cymeriad tirwedd a gynhaliwyd ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi arwain at bennu 25 ACT. Mae'r ACTau wedi'u dangos yn Ffigwr 3 (ac Atodiad 8) ac maent wedi'u nodi yn yr adroddiad canlynol:

- Papur Cefndir: Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (Diweddariad 2011). Mae'r papur cefndir hwn yn rhannu ardal yr awdurdod cynllunio lleol yn 18 Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT).
- Papur Cefndir: Strategaeth Tirwedd Gwynedd (Diweddariad 2012). Dogfen wedi'i seilio ar y Canllawiau Cynllunio Atodol - Cymeriad Tirwedd (Mabwysiadwyd Tachwedd 2009) a gynhyrchwyd ar gyfer CDU Gwynedd, sy'n rhannu ardal yr awdurdod cynllunio lleol yn 16 ACT.
- Tirweddau Eryri (Drafft Gweithio) Canllawiau Cynllunio Atodol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022 (para 3.10, tud.44). Mae'r ddogfen hon yn rhannu ardal yr awdurdod cynllunio lleol yn 25 ACT.

Tirweddau Gwarchodedig *(Statudol ac Anstatudol) yn Ardal yr Astudiaeth*

3.3 Mae tirweddau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn cael eu gwarchod gan gyfran sylweddol o ddynodiadau tirwedd statudol ac anstatudol.

3.4 Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, AHNE Ynys Môn ac AHNE Llŷn. Mae'r dynodiadau tirwedd hyn, ynghyd â chyfyngiadau tirwedd yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol, i'w gweld yn Ffigyrau 4.1 a 4.2 a gellir gweld amlinelliad isod o'r dynodiadau allweddol ar gyfer cymeriad a gwerth tirwedd.

Safleoedd Treftadaeth y Byd

Safle Treftadaeth y Byd Castell a Muriau Tref Caernarfon, Cestyll Biwmares a Harlech (Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd).

3.5 Mae cofnodion helaeth a manwl mewn dogfennau technegol, cymdeithasol ac economaidd cyfoes am y cestyll, ac oherwydd hynny a'r ffordd mae tref gaerog hynafol Caernarfon wedi goroesi, hwy yw un o'r prif ffynonellau cyfeirio ar gyfer hanes yr oesoedd canol[19]. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys pedwar castell a'r trefi caerog yn gysylltiedig â hwy, gyda thri o'r safleoedd hynny tu mewn i ardal yr astudiaeth, fel a ganlyn:

- Castell a Muriau'r Dref, Caernarfon, sydd ar derfyn arfordirol gogleddol Gwynedd, ar lan ddeheuol y Fenai.
- Castell Biwmares yn nwyrain Ynys Môn, ar lan ogleddol y Fenai.
- Castell Harlech ym Mharc Cenedlaethol Eryri, ar yr arfordir gorllewinol ac i'r de o Borthmadog.

[19] http://whc.unesco.org/en/decisions/1540

3.6 Nid oes canllawiau manwl ynghylch lleoli datblygiadau ynni gwynt, telathrebu a thwristiaeth arfaethedig mewn perthynas â'r Safle Treftadaeth y Byd hwn neu ei leoliad hanfodol, fodd bynnag mae Rhan 2 o Gynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd[20] yn trafod pwysigrwydd golygfeydd arwyddocaol/ hanesyddol i bob heneb yn Safle Treftadaeth y Byd ac ohonynt, gan nodi y byddai datblygiad amhriodol yn rhwystro neu'n ymyrryd â'r golygfeydd hyn, sydd yn gyffredinol yn ymestyn y tu hwnt i'r ardaloedd o leoliad hanfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ddatblygiadau ynni gwynt, telathrebu a thwristiaeth.

Parciau Cenedlaethol

3.7 Mae ardal yr astudiaeth yn cynnwys y cyfan o Barc Cenedlaethol Eryri. Y Parc hwn yw'r mwyaf o dri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru a bydd yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae'n cael ei weinyddu gan ei Awdurdod Parc Cenedlaethol ei hunan, sydd â'r nod o:

- Warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
- Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig.
- Meithrin lles economaidd a chymdeithasol ei chymunedau.

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

AHNE Ynys Môn

3.8 Mae AHNE Ynys Môn yn cynnwys y mwyafrif o'r 201km o arfordir Môn a'r tir tu cefn iddo (un rhan o dair o'r ynys, sef 21,500ha), yr AHNE mwyaf yng Nghymru. Er ei fod yn ddynodiad arfordirol yn bennaf, mae hefyd yn cynnwys Mynydd Twr a Mynydd Bodafon. Y weledigaeth ar gyfer yr AHNE, fel sydd i'w gweld yn y 'Cynllun Rheoli 2009 - 2014' yw tirwedd unigryw gyda chymunedau deinamig a bywiog sy'n ymwneud yn agos â'u hamgylchedd, tra bo gweithgareddau economaidd cynaliadwy'n cyfrannu'n bositif i economi wledig iach. Mae'n cael ei disgrifio fel encil wledig heddychlon a thawel a lleoliad delfrydol i ymlacio a mwynhau mathau tawel o hamdden. Yn hynny, yr amcan yw bod datblygiad tu mewn i'r AHNE ac yn agos ati'n adlewyrchu amcanion y Cynllun Rheoli a chymeriad traddodiadol yr ynys.

AHNE Llŷn

3.9 Mae'r AHNE yn cynnwys tua chwarter o Benrhyn Llŷn, sef tua 15,500 ha o dir, ac yn ei 'Gynllun Rheoli 2010-2015' mae'n cael ei ddisgrifio fel lle naturiol brydferth, heb ei ddatblygu a gyda golygfeydd sy'n estyn ymhell. Mae ei nodweddion arbennig yn cynnwys ei dirwedd arfordirol, amgylchedd glân o lonyddwch, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol cyfoethog a chymuned glòs gyda'i gwreiddiau yn yr ardal leol. Yn y Cynllun Rheoli, mae gweledigaeth a pholisïau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, gyda'r nod o arwain ac annog datblygiadau sydd o fudd i'r AHNE wrth reoli a chyfyngu ar ddatblygiadau sy'n cael eu gweld fel rhai niweidiol.

Arfordir Treftadaeth

3.10 Mae Arfordiroedd Treftadaeth yn ddarnau o arfordir neilltuol sydd heb gael eu datblygu ac sy'n cael eu rheoli er mwyn cadw eu prydferthwch naturiol a, lle bo'n briodol, gwella mynediad i ymwelwyr. Er nad yw'n ddynodiad statudol, mae'r diffiniad o'r arfordiroedd hyn, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n genedlaethol, wedi cael ei ffurfioli trwy gytundeb rhwng yr awdurdodau lleol morol perthnasol ac Adnoddau Naturiol Cymru. Yn ardal yr astudiaeth, mae pedwar darn o Arfordir Treftadaeth, gyda phob un tu mewn i naill ai AHNE Môn neu Benrhyn Llŷn.

Arfordir Treftadaeth Gogledd Môn sy'n cynnwys 28km o arfordir gogleddol Ynys Môn, o Borth Swtan yn y gorllewin hyd at Benrhyn Glas yn y dwyrain, a'r unig fwlch yn hynny yw ar gyfer Trwyn yr Wylfa (lle mae gorsaf bŵer yr Wylfa) a Phorth Amlwch.

Arfordir Treftadaeth Mynydd Twr, i'r gorllewin o Ynys Môn, sy'n cynnwys 12km o arfordir gorllewinol Ynys Cybi.

[20] http://cadw.wales.gov.uk/historicenvironment/protection/worldheritage/cstlsedward1/?lang=en

Arfordir Treftadaeth Bae Aberffraw yn ne-orllewin Ynys Môn, sy'n cynnwys 7km o Fae Aberffraw a Bae Malltraeth.

Arfordir Treftadaeth Llŷn sy'n cynnwys 88km o arfordiroedd gogledd, gorllewin a de'r penrhyn, o Aberdesach yn y gogledd i Fachroes yn y de, a hefyd yr ynysoedd bychan oddi ar yr arfordir.

Ardaloedd Tirwedd Arbennig Môn a Gwynedd

3.11 Mae nifer o rannau o Ynys Môn a Gwynedd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yn y CDU adnau adolygedig:

3.12 Yn Ynys Môn

- ATA 11 – Cors Malltraeth a'r Cyffiniau
- ATA 12 – Tir Stad Parciau
- ATA 13 – Mynydd Parys a'r Llethrau
- ATA 14 – Mynydd Mechell a'r Cyffiniau
- ATA 15 – Llethrau Coediog Biwmares a Dyffryn Llangoed
- ATA 16 – Tir Stad De Môn

3.13 Yng Ngwynedd

- ATA 01 – Gorllewin Llŷn
- ATA 02 – Bae Porthmadog a Thremadog
- ATA 03 – Tirwedd Aber Glaslyn & Dwyryd
- ATA 04 – Penllyn
- ATA 05 – Corris
- ATA 06 – Bae Abermaw
- ATA 07 - Ymylon Gogledd-orllewinol Eryri
- ATA 08 – Bae Foryd
- ATA 09 – Menai
- ATA 10 – Mynydd Bangor

3.14 Pwrpas y dynodiad rhanbarthol hwn yw sicrhau nad yw cymeriad yr ardaloedd hyn yn cael ei newid gan ffurfiau amhriodol o ddatblygiad, a chadw nodweddion sy'n cyfrannu at eu natur hynod leol.

Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) – Ardal o Harddwch Naturiol (Polisi Datblygu 2)

3.15 Adnabuwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol, fel y'i diffinnir dan Adran 3 o'r Ddeddf Diwygio Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1985, ar y Map Cynigion. Mae'r ardaloedd hyn yn aml yn cyd-ddigwydd ag ardaloedd o gefn gwlad agored (fel y'i diffinnir a'i fapio yn Neddf Crow 2000) ac ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth natur. Maent yn cynnwys rhannau estynedig o ucheldiroedd agored, rhostir grug a glaswelltir mynyddig rhannol naturiol. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i ddatblygwyr arfaethedig i gydnabod eu sensitifrwydd a'u gwerth a phrofi na fydd unrhyw ddatblygiad yn effeithio'n niweidiol ar eu cymeriad nag amwynder. (Paragraff 3.9)

Ardal o Arfordir Annatblygedig (Polisi Datblygu 2) CDLlE

3.16 *'…dim ond rhannau bychan o arfordir Eryri y gellid eu disgrifio fel meddu ar gymeriad sy'n bennaf heb ei ddifetha. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dangos ar y map Cynigion fel yr Arfordir Annatblygedig. Maent fwy neu lai yn gyfystyr â'r nodweddion arfordirol a bennir yn Adran 3 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygiad) 1985 gan eu bod yn 'ardaloedd â ……., chlogwyni neu flaendraethau (gan gynnwys glannau, rhwystrau, traethau, tir gwastad neu dir cyfagos at y blaendraeth), ac mae'r Awdurdod yn ystyried bod harddwch naturiol y mannau hynny'n deilwng o'i warchod'. At hynny, mae darnau o weundir arfordirol ar glogwyni a chyn glogwyni wedi'u cynnwys i'r de o Lwyngwril ynghyd â'r caeau caeedig bach sydd yn nodweddiadol o'r ardal hon.' (Paragraff 3.7)*

Tir Mynediad Agored

3.17 Ym mis Mai 2005 daeth Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGaHT) i rym, gan nodi tir mynediad agored (cefn gwlad agored a / neu dir comin) yng Nghymru yn glir. Mae un rhan o bump o Gymru wedi'i fapio fel 'tir mynediad' lle mae gan y cyhoedd hawl mynediad ar droed. Mae cyfran fawr o dir ar Ynys Môn, yng Gwynedd ac ym Mharc Cenedlaethol Eryri wedi cael ei fapio fel Tir Mynediad Agored.

Llwybrau Cenedlaethol

3.18 Mae'r **Llwybrau Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr** (a adwaenwyr fel Llwybrau Pellter Hir gynt) yn llwybrau troed dynodedig pellter hir ac yn lwybrau march / ceffyl a weinyddir gan Natural England a CNC. Maent yn bwysig o ran mwynhad cefn gwlad yn lleol a thwristiaeth. Felly, mae gan ddatblygiad y gellir eu gweld o'r llwybrau hyn y potensial i effeithio ar y mwynhad hwn.

3.19 Datblygwyd **Llwybr Arfordir Cymru** gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth a CNC, hyrwyddir fel llwybr pwysig ar gyfer mwynhad arfordirol ar gyfer pobl leol ynghyd ac ymwelwyr, drwy wneud hynny mae'n hwb i'r economi leol ynghyd ac iechyd cyhoeddus. Gan hynny, er nad yw'n llwybr cenedlaethol mae'n cael ei weld ac yn cael ei hyrwyddo fel un a chan hynny mae wedi ei gynnwys yn yr astudiaeth yma.

Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig (Cymru)

3.20 Mae'r Gofrestr Tirweddau Hanesyddol sy'n cael ei chynnal gan Cadw yn anelu at helpu cynllunwyr a datblygwyr i gyflwyno newidiadau a datblygiadau newydd mewn ffyrdd a fydd yn achosi'r niwed lleiaf posib i gymeriad hanesyddol y tir. Nid yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar y Gofrestr yn rhoi gwarchodaeth statudol iddynt - ond mae'n helpu i dynnu sylw at bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol rhai rhannau o'r dirwedd.

3.21 Mae Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn rhannol neu'n llawn yn cynnwys nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig a ddisgrifir yn y Gofrestr fel a ganlyn:

- **Aberglaslyn** – '*A man-made landscape occupying a reclaimed river estuary situated in south Snowdonia, the whole conceived as one man's grand scheme, probably the most ambitious of its kind in 19th century Britain*.'
- **Amlwch a Mynydd Parys** - *Tirwedd ddigyffelyb, o bwysigrwydd rhyngwladol a thrawiadol iawn yn weledol, ar Fynydd Parys yng ngogledd-ddwyrain Ynys Môn, sy'n cynnwys mwyngloddiau copr a thomennydd gwastraff anferth, wedi'u cloddio'n bennaf â llaw, o'r 18fed tan y 19eg ganrif, gyda chasgliad helaeth cysylltiedig o nodweddion a strwythurau prosesu wedi'u gosod ar ben weithfeydd cynharach o gyfnodau cynhanes ac efallai gyfnod y Rhufeiniaid a'r oesoedd canol.*
- **Ardudwy** – '*A large, exceptionally archaeologically rich and well-studied landscape situated on the western flanks of the Rhinog Mountains, containing extensive relict evidence of recurrent land use and settlement from prehistoric to recent times.'*
- **Blaenau Ffestiniog** – '*The foremost slate mining and quarrying landscape in Wales, sited in an elevated natural basin and its tributary valleys in south Snowdonia, containing an undisputed wealth of industrial archaeological remains comprising visually imposing and extensive slate quarry and mine workings, waste tips, associated buildings, transport systems and settlements dating from the late 18th to the early 20th centuries.'*
- **Bro Dolgellau (Vale of Dolgellau)** – '*A natural basin at the confluence of two valleys situated between Cader Idris, the Arenig and Rhinog Mountains, containing diverse evidence of land use and exploitation from the prehistoric, medieval and recent periods.'*
- **Bro Trawsfynydd a Chwm Prysor (Trawsfynydd Basin and Cwm Prysor)** – '*A natural upland basin and tributary valley, adjoining the east side of the Rhinog Mountains to the south of Snowdonia, containing well-preserved evidence of communications and recurrent military use from Roman to recent times*.'
- *by recent extensive and outstanding remains of the 19th and 20th centuries slate industry.'*
- **Creuddyn a Chonwy** - *Tirwedd sy'n arfordirol yn bennaf, yn cynnwys y Pen y Gogarth a Phen Trwyn y Fuwch a rhan isaf Aber Afon Conwy a'r tir tu cefn yng ngogledd Eryri, ac ynddo dystiolaeth o ddefnydd tir ac anheddiad amrywiol iawn o gyfnod cyn-hanes hyd at yr oes hon.*

- **Dinorwig** - *Llwyfandir arfordirol isel a dyffryn rhewlifol cyfagos ar ochr ogledd-orllewinol yr Wyddfa, yn cynnwys tystiolaeth o ddefnydd tir ac anheddiad o'r cyfnod cynhanes ymlaen, ac ar ben hynny olion diweddar a neilltuol o ddiwydiant llechi'r 19eg a'r 20fed ganrif.*
- **Dyffryn Dysynni (Dysynni Valley)** – '*The picturesque Dysynni Valley to the south west of the Cader Idris range in south Gwynedd contains diverse evidence of human occupation and activity from the prehistoric period to the recent past.'*
- **Dyffryn Nantlle (Nantlle Valley)** – '*A glaciated valley situated on the west side of the Snowdonian massif, having contrasting evidence of relict prehistoric and later land use, superimposed by the 19th and 20th centuries remains of the large-scale industrial exploitation of slate.'*
- **Dyffryn Ogwen (Ogwen Valley)** – *'The classic glaciated valley in north Snowdonia, containing contrasting evidence of prehistoric and later land use, superimposed by the extensive and visually dramatic remains of the recent and continuing industrial exploitation of slate.'*
- **Gogledd Arllechwedd (North Arllechwedd)** - *'A dissected, mainly upland, area situated on the northern flanks of the Carneddau ridge in north Snowdonia, containing well-preserved relict evidence of recurrent land use and settlement from the prehistoric to medieval and later periods'.*
- **Llŷn ac Ynys Enlli** – *Mae Llŷn yn benrhyn mawr gyda thopograffi amrywiol sydd i'r de-orllewin o Eryri, gyda thystiolaeth gyfansawdd ond eto integredig iawn ac wedi cadw'n dda o ddefnydd tir, yn dangos parhad ac undod tiriogaethol sydd efallai ers adegau cynhanes.*
- **Mawddach** – '*A river estuary and surrounding coastal slopes situated to the west of Cader Idris in south Gwynedd, containing extensive relict evidence of diverse land use and activity from prehistoric and later periods.'*
- **Pen Isaf Dyffryn Conwy (Lower Conwy Valley)** - *'A topographically diverse landscape, straddling the lower Conwy valley and adjacent uplands on the north eastern flanks of the Carneddau ridge in north Snowdonia, containing extensive and well-preserved relict evidence of land use, communications and defence from the prehistoric period onwards.'*
- **Penmon** - *Llwyfandir arfordirol, pentir ac ynys fechan yn ne-ddwyrain Ynys Môn, yn dangos parhad defnydd tir a gweithgaredd o gyfnod cynhanes diweddar hyd at y gorffennol diweddar.*
- **Y Bala a Glannau Tegid (Bala and Bala Lakesides)** – '*The upper Dee valley provides a natural and historically strategic and important route corridor across North Wales, the area identified here being centred on Bala Lake and its immediate catchment, where there is a succession and concentration of defensive sites and settlements from the Roman and medieval periods.'*

Parciau a Gerddi Cofrestredig

3.22 Mae nifer fawr o Barciau a Gerddi Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru i'w cael yn ardal yr astudiaeth. Er nad ydynt yn cael eu diogelu gan ddynodiad statudol maent yn cael eu gwerthfawrogi yn genedlaethol oherwydd maent yn rhan bwysig ac annatod o wead hanesyddol a diwylliannol Cymru.

Tirweddau a Ddiogelir *(Statudol ac An-statudol)* Y Tu Allan i'r Ardal Astudiaeth

Ardaloedd o Harddwch Eithriadol

3.23 Mae AOH Cynwyd a Llandrillo (APH Mynyddoedd y Berwyn gynt a ddiwygiwyd ym mis Mawrth 2013) yn gorwedd ychydig y tu allan i ardal yr astudiaeth tua'r de ddwyrain. Nod y dynodiad anstatudol hwn yw gwarchod Mynyddoedd y Berwyn, i gydnabod eu gwerth tirweddol pwysig yn genedlaethol.

Trosolwg o Ddatblygiadau Gweithredol ac a Ganiatawyd

3.24 Mae'r ffigurau a'r tablau canlynol sy'n cyd-fynd â hwy, sef A9.01 - A9.05 yn nodi ac yn dangos y llinell sylfaen datblygu yn y Parc Cenedlaetholar gyfer yr astudiaeth hon ar ddiwedd Mawrth 2014.

- Ffigur 2.1 - Datblygiadau ynni gwynt gweithredol ac a ganiatawyd a ddangosir yn ardal yr astudiaeth a byffer o 35 km; gan gynnwys datblygiadau ynni gwynt ar y môr presennol ac arfaethedig.
- Ffigwr 2.2 – Datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae sy'n weithredol neu gyda chaniatâd wedi'u dangos yn ardal yr astudiaeth a pharth rhagod 5 km.
- Ffigwr 2.3 - Datblygiadau lein uwchben 400 kV sy'n weithredol neu gyda chaniatâd wedi'u dangos yn ardal yr astudiaeth a pharth rhagod 10 km.

- Ffigwr 2.4 – Datblygiadau ffonau symudol gweithredol ac a ddangosir yn ardal yr astudiaeth ac yn y byffer 10 km.
- Ffigur 2.5 - Datblygiadau meysydd carafannau statig / cabanau gweitrhedol ac a ganiatawyd a ddangosir yn ardal yr astudiaeth a'r byffer 5 km.

3.25 Mae'r data a ddefnyddiwyd i lunio Tablau A9.01 - A9.05 a Ffigurau 2.1-2.3, wedi cael eu darparu a'u cadarnhau gan y Grŵp Llywio.

3.26 Mae pob un o'r datblygiadau gweithredol wedi cael eu hystyried fel rhan o'r llinell sylfaen ar gyfer yr asesiadau sensitifrwydd o'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd.

3.27 At ddibenion datblygu strategaethau tirlun ac i ystyried capasiti o fewn pob un o'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd, tybiwyd bod yr holl ddatblygiadau a ganiatawyd wedi cael eu hadeiladu ac fel y cyfryw cawsant eu hystyried fel rhan o'r llinell sylfaen, ynghyd â datblygiadau gweithredol.

Datblygiadau Ynni Gwynt Gweithredol a rhai a Gydsyniwyd

3.28 Mae'r crynodiadau uchaf o ddatblygiadau ynni gwynt yn ardal yr astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni gwynt i'w cael i'r gogledd o Ynys Môn lle mae tair fferm wynt yn weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â nifer o ddatblygiadau tyrbinau gwynt sengl a dwbl o wahanol uchder (mae rhai hyd at 92.5 m hyd at frig y llafn). Mae nifer o ddatblygiadau ar raddfa ddomestig yn bennaf, micro a bach wedi'u gwasgaru ledled Gwynedd; fodd bynnag, mae un datblygiad mawr (Braich Ddu) a leolir ar ymyl ddwyreiniol ACT G12. Ychydig iawn o ddatblygiadau domestig a micro sydd yna o fewn y Parc Cenedlaethol.

3.29 Mae sawl ardal nodedig o ddatblygiadau ynni gwynt y tu allan i ardal yr astudiaeth; mae'r rhain fel a ganlyn:

- Mae'r cyntaf i'r gogledd ddwyrain o ACT S07 yn ac o amgylch fferm wynt Moel Maelogen i'r dwyrain o Lanrwst yng Nghonwy; mae'r tyrbinau hyn yn weladwy o rannau o Barc Cenedlaethol Eryri.
- Yr ail yw clwstwr o ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa micro i ganolig ychydig i'r gogledd o ACT G12, i'r de o Gerrigydrudion yng Nghonwy.
- Mae'r trydydd yn cynnwys y ffermydd gwynt sy'n gysylltiedig â SSA A (Coedwig Clocaenog), sy'n gorwedd o fewn 15 km o'r ardal astudiaeth i'r dwyrain. Mae'r lleoliad, ynghyd â'r hyn a nodwyd i'r gogledd o Ynys Môn yn cynrychioli'r clwstwr dwysaf o ddatblygiadau ynni gwynt yn ardal yr astudiaeth a'r byffer. Mae rhai o'r tyrbinau i'w gweld o rannau o Barc Cenedlaethol Eryri.
- Mae'r pedwerydd yn cynnwys y ffermydd gwynt sy'n gysylltiedig â SSA B (Gogledd Carno), sy'n gorwedd yn fras o fewn 20 km o ardal yr astudiaeth. Mae rhai o'r tyrbinau i'w gweld o rannau o Barc Cenedlaethol Eryri.

3.30 Mewn rhai ardaloedd (yn enwedig yng ngogledd Ynys Môn), mae presenoldeb datblygiadau ynni gwynt fel nodwedd yn y dirwedd, braidd yn lleihau sensitifrwydd y dirwedd i'r math penodol hwnnw o ddatblygiad. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried y cynhwysedd ar gyfer datblygiadau newydd yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau tirwedd cynyddol a gweledol.

Datblygiadau Ynni Haul PV ar Raddfa Cae sy'n Weithredol neu Gyda Chaniatâd

3.31 Ar hyn o bryd, does dim ond un datblygiad ynni haul PV ar raddfa cae yn gweithredu yn ardal yr astudiaeth. Yng Ngwynedd mae hwnnw (tu mewn i faes parcio Castell Penrhyn yn Ardal Cymeriad Tirwedd G01). Does dim ohonynt ym mharth rhagod ardal yr astudiaeth.

3.32 Fe roddwyd caniatâd i un datblygiad mawr iawn yng ngogledd-ddwyrain ACT A16 yn Ynys Môn, a rhoddwyd caniatâd i ddatblygiad pellach ar raddfa micro yn ACT G07 Penrhyn Llŷn yng Ngwynedd

Datblygiadau Mastiau Symudol Gweithredol a gyda Chaniatâd

3.33 Mae datblygiadau isadeiledd telathrebu mastiau symudol gweithredol a gyda chaniatâd yn bresennol ar hyd a lled ardal yr astudiaeth ar gyfer datblygiadau mastiau symudol (mae ardal yr astudiaeth yn cwmpasu'r Parc Cenedlaethol) ond mae'r rhain fel arfer yn canolbwyntio ar hyd rhwydweithiau ffyrdd mawr ac aneddiadau. Mae crynoadau mwy nodedig o amgylch Betws-y-Coed i'r gogledd-ddwyrain a Dolgellau i'r de.

3.34 Yn ogystal â'r mastiau symudol math delltwaith a monopolyn traddodiadol mae hefyd nifer o fastiau cuddliw wedi'u crynhoi ar hyd yr arfordir ac i'r de o'r Parc Cenedlaethol.

Datblygiadau Lein Uwchben 400 kV sy'n Weithredol neu Gyda Chaniatâd

3.35 Mae nifer o leiniau 400 kV yn bodoli'n barod yn yr ardal yr astudiaeth hon ar gyfer leiniau uwchben 400 kV.

3.36 Dim ond un lein uwchben 400 kV sy'n bodoli'n barod ar Ynys Môn ei hunan, yn rhedeg o orsaf bŵer yr Wylfa ar arfordir y gogledd, i lawr heibio Llafairpwllgwyngyll a chroesi'r Fenai i gyrraedd is-orsaf ger Pentir yng Ngwynedd. Mae'r lein uwchben 400 kV arall yn ardal yr astudiaeth yn mynd trwy ran ogleddol y Parc Cenedlaethol a Gwynedd (gan redeg fwy neu lai'n gyfochrog gyda'r arfordir a thua 2 i 6 km oddi wrth y môr).

3.37 Yn ogystal â'r leiniau uwchben 400 kV yn ardal yr astudiaeth a'r parth rhagod, mae nifer o leiniau peilon foltedd is sy'n dylanwadu ar y dirwedd mewn mannau.

Datblygiadau Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gweithredol a gyda Chaniatâd

3.38 Mae datblygiadau parciau carafanau / cabanau gweithredol a gyda chaniatâd fel arfer wedi'u lleoli ar hyd arfordir ardal yr astudiaeth (gan gwmpasu Ynys Môn, Gwynedd ac Eryri i gyd).

- Ym Môn, mae'r datblygiadau hyn wedi'u crynhoi ar arfordiroedd y dwyrain a'r gorllewin. Yn y dwyrain, mae parciau carafanau / cabanau gwyliau sy'n aml yn fawr neu'n fawr iawn wedi'u lleoli ger y traethau tywod poblogaidd yn Nhraeth Coch a Thraeth Llugwy. Yn y gorllewin, mae'r fath ddatblygiadau (eto'n aml yn fawr neu'n fawr iawn) wedi'u lleoli'n agos at Drearddur a Rhosneigr.
- Yng Ngwynedd, mae gan Benrhyn Llŷn nifer fawr o ddatblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau, yn enwedig ar hyd yr arfordir deheuol ac mewn clystyrau o gwmpas yr aneddiadau a'r traethau yn Abersoch, Llanbedrog a Phorthmadog. Mae gan ACT G07 grynodiad arbennig o uchel (dros 50), gyda chyfran sylweddol o'r rheiny wedi'u dosbarthu fel mawr neu fawr iawn ac felly'n creu presenoldeb nodedig yn yr ACT. Ymhellach tua'r de ac ar hyd arfordir gorllewinol Gwynedd mae'r datblygiadau wedi'u gwasgaru rywfaint mwy, gyda chlystyrau yn Abermaw a Thywyn. Eto, mae cyfran sylweddol o'r rhain wedi'u dosbarthu fel rhai mawr neu fawr iawn.
- Yn Eryri, mae clystyrau llai, ond sy'n aml o faint mawr i fawr iawn, i'w canfod ar hyd yr arfordir, yn enwedig yn agos i Harlech a Choed Ystumgwern. Yn fewndirol, gellir dod o hyd i grwpiau o ddatblygiadau llai ar hyd glannau Afon Dysynni ym Mryncrug ac ar hyd Afon Wnion yn Nolgellau. Gellir dod o hyd i ragor o glystyrau yn Llyn Tegid ac eto yng nghyrchfan twristaidd poblogaidd Betws-y-coed.

3.39 Y tu allan i ardal yr astudiaeth, mae datblygiadau parciau carafanau / cabanau gweithredol a gyda chaniatâd yn tueddu i gael eu crynhoi i'r de ar hyd Afon Dyfi ac i'r gogledd ddwyrain o ardal yr astudiaeth ar lannau Afon Conwy, gyda chlystyrau mwy i'w canfod yn agos at drefi twristaidd poblogaidd Conwy a Llanrwst.

3.40 **Argymhellir bod APCE yn cadw cofrestr 'fyw' o'r holl geisiadau datblygu a chaniatâd yn y dyfodol.Bydd yr wybodaeth hon yn helpu â'r broses o wneud penderfyniadau wrth brosesu ceisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, seilwaith trawsyrru a / neu dwristiaeth newydd, yn enwedig wrth ystyried y capasiti dangosol a nodwyd ar gyfer pob un o'r ACT.**

RHAN 4: GWERTHUSO SENSITIFRWYDD TIRWEDD A LLUNIO STRATEGAETHAU

4.1 Mae cyfanswm o 25 o ardaloedd cymeriad tirwedd (ACT) wedi cael eu nodi ar draws Parc Cenedlaethol Eryri (fel y gwelir yn Ffigwr 3). Mae'r ACT hyn wedi'u rhestru isod yn Nhabl 4.01 ynghyd â gwerthusiad cyffredinol o'u sensitifrwydd tirwedd a gweledol mewn perthynas â datblygiadau ynni gwynt, ynni solar PV, llinell uwchben 400 kV, mastiau symudol a pharciau carafanau statig / cabanau. Mae'r gwerthusiadau sensitifrwydd cyffredinol yn cael eu dangos yn Ffigurau 6.1 – 6.5.

Allwedd o Sensitifrwydd

Uchel Iawn	Uchel	Canolig-Uchel	Canolig	Isel-Canolig	Isel	Datblygiad Ddim Yn Gymwys
UI	U	C-U	C	I-C	I	

Table 4.01: Summary of Sensitivity

Landscape Character Area		Assessed Sensitivity					
Ref	Name	Wind Energy	Field Scale Solar PV Energy	400 kV Overhead Line	Mobile Masts	Static Caravan/ Chalet Parks	Page no.
	ANGLESEY						
A01	Holyhead Mountain	VH	VH	VH		VH	
A02	Holy Island	M-H	M-H	M-H		M-H	
A03	Inland Sea	H	H	H		H	
A04	North West Coast	VH	VH	VH		VH	
A05	North West Anglesey	M	M	M		M	
A06	Amlwch and Environs	M	M	M		M	
A07	Parys Mountain	H	H	H		H	
A08	Dulas Bay Hinterland	M-H	M-H	M-H		M-H	
A09	Red Wharf Bay	M-H	M	M-H		M	
A10	Penmon and Puffin Island	H	H	H		H	
A11	Eastern Menai Strait	H	M-H	H		M-H	
A12	East Central Anglesey	M-H	M	M-H		M	
A13	Western Menai Strait	H	H	H		H	
A14	Newborough	H	H	H		H	
A15	Afon Cefni	M-H	M-H	M-H		M-H	
A16	Aberffraw	M-H	M	M-H		M	
A17	West Central Anglesey	M	L-M	M		L-M	
A18	Valley Airfield Environs	M	M	M		M	
	GWYNEDD						
G01	Bangor Coastal Plain	M-H	M	M-H		M	
G02	Penisarwaun Plateau	M-H	M-H	M-H		M-H	
G03	Llanberis - Bethesda	M-H	M-H	M-H		M-H	
G04	Caernarfon - Coast & Plateau	M-H	M	M-H		M	

Landscape Character Area		Assessed Sensitivity					
Ref	Name	Wind Energy	Field Scale Solar PV Energy	400 kV Overhead Line	Mobile Masts	Static Caravan/ Chalet Parks	Page no.
G05	Snowdon Massif	M-H	M-H	M-H		M-H	
G06	Llŷn North Coast	VH	VH			VH	
G07	Western Llŷn	H	H			H	
G08	Pwllheli - Criccieth Coast	M-H	M			M	
G09	Porthmadog	H	M-H			M-H	
G10	Central Llŷn	M-H	M			M	
G11	Blaenau Ffestiniog	M-H				M	
G12	Llandderfel	M-H	M-H			M-H	
G13	Barmouth	M-H				M-H	
G14	Corris	M-H				M-H	
G15	Tywyn	M-H				M	
G16	Menai Coast	M-H	M	M-H		M	
	SNOWDONIA NATIONAL PARK						
S01	Ucheldir y Gogledd	VH			VH	VH	
S02	Y Carneddau	VH			VH	VH	
S03	Yr Wyddfa a'r Glyderau	VH			VH	VH	
S04	Moel Hebog	VH			VH	VH	
S05	Y Moelwynion	VH			VH	VH	
S06	Coedwig Gwydyr	M-H			M-H	M-H	
S07	Dyffryn Conwy	H			H	H	
S08	Dyffryn Y Ddwyryd	M-H			M-H	M-H	
S09	Y Mignient	VH			VH	VH	
S10	Morfa Harlech	H			H	H	
S11	Morfa Dyffryn	M-H			M-H	M-H	
S12	Cefnwlad Arfordir Ardudwy	M-H			M-H	M-H	
S13	Y Rhinogau	VH			VH	VH	
S14	Dyffrynnoedd Mawddach a'r Wnion	M-H			M-H	M-H	
S15	Yr Arenig	VH			VH	VH	
S16	Llyn Tegid A Dyffryn Dyfrdwy	M-H			M-H	M-H	
S17	Aber Y Fawddach	H			H	H	
S18	Mynyddoedd Yr Aran	VH			VH	VH	
S19	Coedwig Penllyn	H			H	H	
S20	Cadair Idris	VH			VH	VH	
S21	Pen Dyffryn Dyfi	VH			VH	VH	
S22	Coedwig Dyfi	H			H	H	
S23	Dyffryn Dysynni	H			H	H	
S24	Y Tarrenau	VH			VH	VH	
S25	Aber y Ddyfi	H			H	M-H	

Agwedd at Werthuso Sensitifrwydd Ardaloedd Cymeriad Tirwedd

4.2 Mae'r testun a ganlyn (yn ogystal â'r fethodoleg) yn disgrifio sut mae'r gwerthusiadau sensitifrwydd wedi cael eu gwneud a'u cyflwyno ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT):

- Darperir cynllun allweddol a thestun yn disgrifio lleoliad, maint a nodweddion allweddol, fel cyflwyniad cryno i bob ACT.
- Mae'r gwerthusiad o sensitifrwydd pob ACT mewn perthynas â phob un o'r gwahanol ddatblygiadau yn cael ei dorri i lawr i bedwar categori meini prawf sensitifrwydd cyffredinol mewn tabl, fel a ganlyn:
    - Tirwedd
    - Gweledol
    - Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol
    - Gwerth

- Mae meini prawf manwl yn cael eu cynnwys ym mhob un o'r categorïau cyffredinol hyn a chaiff gwerthusiadau o sensitifrwydd (is, canolig ac uwch) eu gwneud yn erbyn pob un o'r rhain yn y drefn honno.
- Mae LANDMAP[21] wedi'i ddefnyddio fel erfyn ar gyfer cynorthwyo gwerthusiadau o sensitifrwydd fel yr amlinellir yn Nhablau 2.03 – 2.07 o'r fethodoleg (Rhan 2). Mae'r testun mewn *llythrennau italig llwyd* yn y golofn 'Nodweddion y ACT' yn cynrychioli gwerthusiadau LANDMAP penodol i bob ACT. Er enghraifft, mae *VS4: Lefelau/ Bryniau/ Dyffrynnoedd (52%)* yn dynodi gwerthusiadau LANDMAP gweledol a synhwyraidd ffurf topograffig. Mae'r ganran mewn cromfachau yn cynrychioli yn fras gwmpas y gwerthusiad LANDMAP mewn perthynas â'r ACT ac mae'r testun wedi'i danlinellu yn nodi'r gwerthusiad(au) sy'n ddaearyddol yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ACT.
- Yn ychwanegol at y gwerthusiadau LANDMAP defnyddiwyd ystod eang o ffynonellau data i atgyfnerthu / adeiladu ar y gwerthusiadau LANDMAP cychwynnol. Mae'r ffynonellau data hyn wedi'u nodi yn Nhablau methodoleg 2.03 – 2.07 (Rhan 2).
- Mae ymweliadau safle hefyd wedi cael eu gwneud i wirio'r gwerthusiadau.
- Mae'r testun mewn du yn cynrychioli canfyddiadau allweddol LANDMAP a gefnogir gan ymchwil ffynhonnell ddata ac ymweliadau safle ychwanegol; mae'r testun mewn print bras yn dangos y prif ganfyddiadau sydd wedi hysbysu'r sensitifrwydd a aseswyd ar gyfer pob maen prawf.
- Mae crynodeb o sensitifrwydd cyffredinol i bob un o'r gwahanol ddatblygiadau wedi'i gynnwys ar ddiwedd pob tabl.

4.3 **Mae'n bwysig nodi nad yw'r gwerthusiad cyffredinol o sensitifrwydd pob un o'r ACT yn seiliedig ar unrhyw fformiwla fathemategol** (er enghraifft - adio'r sgoriau unigol isaf, cymedrol ac uwch a'u rhannu â'r cyfanswm) ond ar farn broffesiynol dau bensaer tirwedd siartredig trwy asesiad cytbwys o'r holl nodweddion sy'n ystyried y meini prawf allweddol a phwysau'r dystiolaeth mewn perthynas â sensitifrwydd. Fel yr esboniwyd yn y fethodoleg, gwnaethpwyd yr asesiad cyffredinol o sensitifrwydd gan ddefnyddio graddfa sensitifrwydd chwe phwynt mwy manwl, isel, isel-canolig, canolig, canolig-uchel, uchel ac uchel iawn.

Agwedd at Lunio Strategaethau ar gyfer Datblygu ym mhob Ardal Cymeriad Tirwedd

4.4 **Mae'r testun a ganlyn yn disgrifio'r modd y mae'r strategaeth tirwedd a'r nodiadau canllaw yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob ACT:**

Mae'r strategaeth tirwedd a'r nodiadau canllaw yn cael eu cyflwyno ar ffurf tabl.

Dim ond y mathau o ddatblygiad sy'n berthnasol i'r ACT penodol sy'n cael eu cynnwys yn y tabl (cyfeiriwch at Ffigurau 2.1 - 2.3 ar gyfer ardaloedd yr astudiaeth).

Mae'r asesiad o sensitifrwydd cyffredinol ar gyfer pob datblygiad a ystyriwyd wedi'i gynnwys ar ddechrau'r tabl.

Fe'i dilynir gan grynodeb o ddatblygiadau gweithredol a gyda chaniatâd ar ddiwedd mis Mawrth 2014 (a ddisgrifir yn unol â'r mathau o ddatblygiadau a amlinellir yn Nhablau 2.08 - 2.11 yn Rhan 2).

[21] Dangosir y ffynonellau data LANDMAP sy'n berthnasol i'r ardal astudiaeth hon ar gynlluniau o'r ardal astudiaeth sydd wedi eu cynnwys ar CD yn Atodiad 6 er gwybodaeth.

Yna mae'r strategaeth tirwedd ar gyfer yr ardal yn cael ei nodi ac mae'n cynnwys disgrifiad o'r amcan(ion) tirwedd ar gyfer y ACT mewn perthynas â phob math o ddatblygiad, a ddilynir gan amcan o'r cyfansymiau a graddfeydd perthynol y gellir eu cynnwys (cynhwysedd dangosol cyffredinol).

Yna dilynir y strategaeth a'r tabl gan dabl arall sy'n nodi nodiadau cyfarwyddyd penodol ynglŷn â dyluniad a lleoliad y gwahanol fathau o ddatblygiad mewn perthynas â phob ACT.

4.4 Mae'n bwysig nodi y dylid darllen y strategaeth a'r tablau cyfarwyddyd gyda'r tablau gwerthuso sensitifrwydd perthnasol (gan gynnwys y rhai ar gyfer y ACT cyfagos) i sicrhau dealltwriaeth well o gyd-destun y dirwedd a phennu materion allweddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd datblygiad arfaethedig yn agos at ffin ACT a hefyd ar gyfer datblygiadau fertigol talach (tyrbinau gwynt, llinellau uwchben 400 kV a mastiau symudol) oherwydd gall eu dylanwad gweledol ymestyn yn bell.

A01 Mynydd Twr / Caergybi



1:25,000

Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron Trwydded Rhif. 100023387

Lleoliad a Graddfa

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd hon (ACT) wedi ei lleoli ar Ynys Cybi tua'r gogledd orllewin pell ar Ynys Môn ac mae'n cynnwys Mynydd Twr; y pwynt uchaf ar Ynys Môn.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd agored, ar raddfa enfawr
- Tirwedd arfordirol greigiog
- Rhostir creigiog nodedig a chopa Mynydd Twr gyda Goleudy Ynys Lawd

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn berthnasol	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Tirwedd	**Graddfa / Maint**	Tirwedd ar **raddfa eang iawn** yn nodweddiadol. VS)8: Canolig (26%) / Mawr (22%) / Eang (52%)	↓		↓		
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Mae llawer o'r ACT hon yn cynnwys ucheldir agored. Fodd bynnag, lle bo caeau yn bodoli mae'r rhain ar **raddfa ganolig** yn gyffredinol ac maent mewn **patrwm rheolaidd** gyda **waliau cerrig** fel ffiniau i'r caeau yn gyffredinol. VS7: Waliau Cerrig (52%) / Cymysgedd (24%) / Dim (24%) VS8: Canolig (26%) / Mawr (22%) / Eang (52%)		↑			
	Tirffurf	**Proffil crwn nodedig gyda chlogwyni a phentir y Staciau Goleddol a Deheuol yn dirnodau adnabyddus. Mae Mynydd Twr sy'n greigiog yn ffurfio'r pwynt uchaf ar Ynys Môn.** VS Lefel Dosbarthiad 2: Arfordirol / (24%) / Bryniau, Llwyfandir Is & Llethrau Sgarp (52%) /Iseldir Tonnog (24%)	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
	VS4: Bryniau Uchel /Mynyddoedd (52%) / Treigl / Tonnog (24%) / Bryniau/ Dyffrynnoedd (22%)					
Gorchudd Tir	Mae'r gorchudd tir yn cynnwys **llethrau rhostirol creigiog agored a llethrau sgarp** yn bennaf gyda chaeau bugeiliol tua'r de. MS Lefel Dosbarthiad 3: Clogwyni & Pen Clogwyni (22%) / Bryniau & Llethrau Sgarp (52%) / Iseldir Tonnog Mosaig (24%) VS5: Tir Agored(52%) / Patrwm Caeau / Mosaig (24%) / Cymysgedd (22%)	↑	↑	↑		↑
Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	Mae'r **ychydig o aneddiadau** sydd yma wedi'u canolbwyntio ar hyd **ffyrdd bychain** sy'n gadael llawer o'r dirwedd heb ei datblygu. Mae meysydd parcio ar gyfer twristiaid yn lleol yn cyfleu dylanwadau a wnaed gan ddyn dros y dirwedd tra bo Goleudy hanesyddol Ynys Lawd yn dirnod pwysig a wnaed gan ddyn. VS6: Llinellol (52%) / Gwledig Gwasgaredig /Fferm (24%) / Dim Aneddiadau (24%) VS27: Da (52%) / Heb ei asesu (48%)	↑	↑	↑		↑
Patrwm Anheddiad	**Mae yna ychydig o dai a ffermydd wedi eu canolbwyntio'n bennaf ar hyd ochr isffyrdd** VS6: Llinellol (52%) / Gwledig Gwasgaredig / fferm (24%) / Dim Aneddiadau (24%)			↓		
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae Mynydd Twr yn **dirnod amlwg a nodedig** gweladwy o sawl rhan o orllewin Ynys Môn ac o gychod sy'n agosáu at Gaergybi o'r Iwerddon. Mae copaon, clogwyni a phentiroedd ar hyd yr arfordir hefyd yn creu **gorwelion dramatig** yn y golygfeydd i mewn ac allan o'r ACT.	↑		↑		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Gweledol	**Symudiad**	Mae **traffig achlysurol / anaml** ar y rhwydwaith ffyrdd lleol cyfyngedig yn dod â rhywfaint o symudiad i mewn i'r dirwedd hon sydd, fel arall, yn **dawel.** VS18: Achlysurol (52%) / Anaml (48%)	↑				
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol yn **agored ac amlwg** o fewn yr ACT hon. Mae golygfeydd arfordirol dramatig ac eang yn cynnwys goleudy Ynys Lawd, sy'n ganolbwynt ar hyd yr arfordir. Ceir golygfeydd pell yn enwedig o Fynydd Twr ar draws at Eryri yn y dwyrain a Phen Llŷn ar y gorwel tua'r môr deheuol. VS9: Agored (48%) / Digysgod (52%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: : ▪ Eiddo anghysbell / pellennig ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Llwybr-ffordd hir Arfordir Cymru ▪ Atyniadau ymwelwyr gan gynnwys goleudy Ynys Lawd, Canolfan Adar Môr yr RSPB a Pharc Gwledig y Morglawdd Mawr ▪ Hawliau Tramwy Cyhoeddus Lleol ▪ Fferis a chychod ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol	↑	↑	↑		↑
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ AoHNE Ynys Môn ▪ AoHNE Llŷn ▪ Arfordir Treftadaeth Mynydd Twr ▪ Ardal Gadwraeth Y Morglawdd Mawr a Phentref Mynydd Mawr (Caergybi) ▪ Goleudy Ynys Lawd ▪ Parc Gwledig y Morglawdd ▪ Bryngaer	↑		↑		
	Cyflwr	Ystyrir bod cyflwr y dirwedd yn gyffredinol **dda** gyda rhai ardaloedd yn meddu ar uniondeb **uchel i ragorol.**			↑		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
		VS27: Da (52%) / Heb ei asesu (48%) VS47: Eithriadol (22%) / Uchel (54%) / Canolig (24%)					
Esthetig, Canfyddiadol a Thrwy Brofiad	Esthetig, Canfyddiadol a Thrwy Brofiad	Arfarniad LANDMAP nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** VS25: Cryf (100%) VS46: Eithriadol (52%) / Uchel (26%) / Heb ei asesu (22%) VS47: Eithriadol (22%) / Uchel (54%) / Canolig (24%) VS48: Eithriadol (52%) / Uchel (48%)	↑	↑	↑		↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae natur helaeth ac agored yr ACT hon yn rhoi **ymdeimlad cryf o bellenigrwydd a llonyddwch yn arbennig ar hyd yr arfordir**. Caiff hyn ei ddwysáu gan y cyferbyniad amlwg gyda thref borthladd brysur Caergybi gerllaw. VS24: Deniadol ; Llonydd ; Digysgod ; Bygythiol ; Pellennig; (52%) / Swnllyd; Deniadol ; Llonydd ; Digysgod ; Gwyllt; Arogl; (24%) / Llonydd ; Arogl; Deniadol ; Swnllyd; Setledig (wedi'i anheddu) ; Ysbrydol (24%)	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Gwerth	**Gwerth y Dirwedd** (gan gynnwys nodweddion sy'n berthnasol i'r dirwedd)	Mae'r ACT yn gorwedd bron yn gyfan gwbl o fewn AoHNE Ynys Môn. Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Tir Mynediad Agored. Mae llawer o arfordir yr ACT yn cael ei ddiffinio fel Arfordir Treftadaeth Mynydd Twr. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd ffin ogleddol, gorllewinol a ddeheuol yr ACT. Arfarniad LANDMAP nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** VS50: Eithriadol (74%) / Uchel (26%) / VS49: Eithriadol (74%) / Canolig (26%) LH45: Eithriadol (71%) / Isel (28%) LH42: Heb ei asesu (28%) / Uchel (71%) GL31: Eithriadol (8%) / Canolig (92%) GL33: Eithriadol (8%) / Uchel (92%)	↑	↑	↑		↑
	Gwerth Hanesyddol	Yn nodweddiadol arfarniad LANDMAP **Eithriadol**. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. HL38: Canolig (100%) HL35: Eithriadol (100%) HL40: Eithriadol (100%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd a Strategaeth Gyffredinol y Dirwedd

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau o ddatblygiad perthnasol[22] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arfordirol anghysbell a llonydd hon lle nad oes llawer yn byw (gwasgaredig) yn rhoi'r argraff bod yma lefel uchel o sensitifrwydd ac mae hyn wedi arwain at ei dynodi'n rhan o AoHNE Ynys Môn. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei ddwysau ymhellach trwy gyfrwng y rhyngweledded gyda thirweddau o werth uchel cyfagos ac eraill a chan ei werth treftadaeth ddiwylliannol. O'u cyfuno â rhai derbynyddion gweledol sensitif a phresenoldeb tirffurf amlwg a nodedig Mynydd Twr mae sensitifrwydd cyffredinol y dirwedd hon i ddatblygiadau ynni gwynt yn cael ei ystyried yn uchel iawn.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt presennol na chaniatâd wedi'i roi ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Yn nodweddiadol dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt **(ac eithrio datblygiad cyfyngedig / anaml iawn ar raddfa ddomestig a ddylai gysylltu'n dda gydag aneddiadau / adeiladau presennol).**

DATBLYGIADAU SOLAR PV AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arfordirol anghysbell a llonydd hon lle nad oes llawer yn byw yn rhoi'r argraff o lefel uchel o sensitifrwydd ac mae hyn wedi arwain at ei dynodi'n rhan o AOHNE Ynys Môn. Mae arfordir garw, tirffurf amlwg Mynydd Twr a natur agored yr ACT yn cynyddu'r sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni solar PV ymhellach ac mae amlygrwydd / nifer yr achosion pan fo ffiniau tir uchel heb eu hamgáu a ffiniau waliau cerrig yn lleihau'r cyfle ar gyfer sgrinio lleol.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	

[22] NODER: Mae'r ACT hon yn disgyn y tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, ac felly nid oes strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Does dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na chaniatâd wedi'i roi ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae** o fewn yr ACT hon.

Llinell Uwchben 400 kV

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arfordirol anghysbell a llonydd hon lle nad oes llawer yn byw (gwasgaredig) yn rhoi argraff o lefel uchel o sensitifrwydd ac mae hyn wedi arwain at ei dynodi'n rhan o AOHNE Ynys Môn. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei ddwysau ymhellach trwy gyfrwng y rhyngweledded gyda thirweddau o werth uchel cyfagos ac eraill a chan ei werth treftadaeth ddiwylliannol. Wrth gyfuno hyn â rhai derbynyddion gweledol sensitif a phresenoldeb tirffurf amlwg a nodedig Mynydd Twr mae sensitifrwydd cyffredinol y dirwedd hon i linell uwchben 400 kV yn cael ei ystyried yn uchel iawn.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim caniatâd presennol nac wedi ei gydsynio ar gyfer datblygiadau llinell uwchben 400kV
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau llinell 400 kV uwchben** o fewn yr ACT hon.

PARCIAU CARAFANNAU STATIG / CABANNAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU


SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arfordirol anghysbell a llonydd hon lle nad oes llawer yn byw (gwasgaredig) yn rhoi argraff o lefel uchel o sensitifrwydd ac mae hyn wedi arwain at ei dynodi'n rhan o AOHNE Ynys Môn. Mae arfordir garw, tirffurf amlwg Mynydd Twr a natur agored yr ACT yn cynyddu'r sensitifrwydd i ddatblygiadau carafanau sefydlog / cabanau gwyliau ac mae amlder ffiniau tir uchel heb eu hamgáu a waliau cerrig agored yn lleihau'r cyfle ar gyfer sgrinio lleol ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau parc carafanau sefydlog / cabanau gwyliau presennol yn bodoli nac wedi eu cydsynio
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / cabanau gwyliau** o fewn yr ACT hon.

Canllaw

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni PV Solar ar raddfa cae	Llinell Uwchben 400 kV	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Fe ddylid gwarchod harddwch naturiol AoHNE Ynys Môn, ei nodweddion arbennig a'i leoliad ehangach. Mae angen ystyried effeithiau datblygiadau o fewn a thu allan i'r AoHNE.	✓			
Gwarchod harddwch naturiol a nodweddion Arfordir Treftadaeth Caergybi sydd heb eu datblygu.	✓			
Mae'r golygfeydd tuag at frigiadau garw Mynydd Twr yn nodedig yn lleol ac fe ddylid eu gwarchod.	✓			
Fe ddylid osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad o fewn y llinellau gweledegdd o olygfannau allweddol, yn enwedig allan i'r môr.	✓			
Ni ddylai datblygiadau fertigol dorri ar draws y nenlinellau agored na dirywio graddfa'r clogwyni a'r brigiadau creigiog ar hyd yr arfordir.	✓			
Fe ddylid diogelu'r lleoliadau a'r golygfeydd allweddol i ac o fannau amlwg fel goleudy Ynys Lawd.	✓			
Dylid osgoi achosi effeithiau cronnol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru o olygfannau lleol - defnyddiwch ddelweddau i asesu golygfannau dilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓			
Dylid lleoli safleoedd datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fach yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y dirwedd ac erydu nodweddion gwledig ehangach.	✓			
Dylid cynnal rhyngweledegdd nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar ben bryniau.	✓			

A02 Ynys Cybi



1:50,000

Lleoliad a Graddfa

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd hon (ACT) wedi ei lleoli ar Ynys Cybi tua'r gogledd orllewin pell ar Ynys Môn ac mae'n cynnwys yr anheddiad mwyaf ar Ynys Môn (tref porthladd Caergybi).

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd arfordirol, ar raddfa ganolig
- Yn nodweddiadol iseldir tonnog wedi'i ffinio gan yr arfordir tua'r gogledd / de
- Mae porthladd Caergybi yn ganolfan drefol / ddiwydiannol bwysig

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math datblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Tirwedd	**Graddfa**	Tirwedd ar raddfa **ganolig** yn nodweddiadol. VS8: Canolig (93%) / Mawr (7%)	-		-		
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Mae llawer o'r ACT hon yn cynnwys tir agored; Fodd bynnag, lle mae caeau yn bodoli mae'r rhain yn gyffredinol ar **raddfa fach i ganolig**, mewn patrwm rheolaidd gyda **chymysgedd o ffiniau caeau.** VS7: Cymysgedd (89%) /Dim (7%) VS8: Canolig (93%) / Mawr (7%)		-			
	Tirffurf	**Yn nodweddiadol iseldir tonnog wedi'i ffinio gan yr arfordir tua'r gogledd / de**. VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir adeiledig (23%) / Arfordirol (7%) / Iseldir Tonnog (68%) VS4: Lefelau (14%) / Treigl / Tonnog (86%)	↓	↓	↓		↓

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron Trwydded Rhif. 100023387

Lleoliad a Graddfa

Mae'r ACT hon yn cynnwys tirwedd arfordirol Bae Dulas i'r dwyrain sy'n ymestyn i mewn i'r tir tua'r gorllewin i dirwedd fwy tonnog a threigl.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd agored, graddfa ganolig
- Tirffurf arfordirol tonnog
- Diddordeb treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math datblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Tirwedd	**Graddfa / Maint**	Tirwedd ar raddfa **ganolig** yn nodweddiadol. VS8: Canolig (93%) / Mawr (7%)	-		-		
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Yn nodweddiadol patrwm caeau **canolig i raddfa fawr, rheolaidd** gyda **chymysgedd** o ffiniau caeau. Gellir gweld caeau llai o gwmpas aneddiadau. VS7: Cymysgedd (94%) VS8: Canolig (93%) / Mawr (7%)		↓			
	Tirffurf	**Tirffurf arfordirol treigl tua'r dwyrain, tonnog tua'r tir mewndirol tua'r gorllewin gyda brigiad amlwg ym Mynydd Bodafon yn codi i 178 m AOD; yr ail bwynt uchaf yn Ynys Môn.** VS Lefel Dosbarthiad2: Bryniau, Llwyfandir is a llethrau sgarp (7%) /Iseldir Tonnog (90%) VS4: Bryniau Uchel /Mynyddoedd (6%) / Treigl / Tonnog (90%)	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Gorchudd Tir	Nodweddir gan **frithwaith o dir fferm**; sy'n borfa yn bennaf gyda rhywfaint o dir âr a nifer sylweddol o flociau coetirol a lleiniau o goed sy'n gysylltiedig â **thirweddau parcdir** tua'r dwyrain o'r ACT. VS Lefel Dosbarthiad 3: Bryniau & Llethrau Sgarp (5%) / Iseldir Tonnog Agored (89%) VS5: Patrwm Caeau / Mosaig (90%) / Cymysgedd (5%)	↑	-	↑		-
Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	Er mai gwasgaredig a thenau yw'r aneddiadau, mae'r **A5025** a'r datblygiadau ynni (gan gynnwys ffermydd gwynt, tyrbinau gwynt a llinell uwchben 400 kV) yn **cyfleu dylanwad gymedrol a wnaed gan ddyn** dros yr ardal. Mae nifer fawr o garafanau statig tua'r gogledd ddwyrain (a gwelir carafannau statig / sefydlog yn ACT A09) yn ychwanegu at y dylanwad a wnaed gan ddyn. Mae **pocedi o dir heb ei gyffwrdd** yn cael eu canfod draw oddi wrth y rhwydwaith ffyrdd. VS6: Gwledig Gwasgaredig /Fferm (96%) VS27: Good (7%) / Heb ei asesu (93%)	-	-	-		-
Patrwm Anheddiad	Eiddo **gwledig gwasgaredig nodweddiadol**. VS6: Gwledig Gwasgaredig /Fferm (96%)			↑		
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae Mynydd Bodafon yn **nodwedd amlwg ar y gorwel** yn yr ACT hon ac yn ffurfio cefndir gweledol i'r dirwedd arfordirol. Mae meindwr crwn nodedig Eglwys Dulas yn dirnod gweladwy o'r tir a'r môr. Mewn mannau eraill mae'r nenlinellau yn **symlach** ac weithiau **torri'r ar eu traws gan dyrbinau gwynt** a mastiau trosglwyddo tua'r gogledd. Mae ynys fechan Ynys Dulas gyda'i thŵr yn gorwedd ychydig oddi ar yr arfordir ac yn darparu canolbwynt yn y golygfeydd tua'r môr o'r arfordir.	-		-		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Gweledol	**Symudiad**	Mae'r traffig lleol yn dod â symudiad **anaml** i'r dirwedd. VS18: Anaml (100%)	↑				
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol agored o fewn yr ACT hon. Mynydd Bodafon yn rhoi golygfeydd pell gyrhaeddol o Fynydd Twr, y Gogarth yng Nghonwy a'r Parc Cenedlaethol. VS9: Agored (93%) / Digysgod (5%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: : ▪ Eiddo gwasgaredig ▪ Llwybrau pellter hir, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybrau RHBC 5) a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans from Llanddeusant to Newborough (llwybr beicio 566). ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol ▪ Chwaraeon dŵr a chychod	-	-	-		-
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ AoHNE Ynys Môn ▪ Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn ▪ Arfordir Treftadaeth Y Gogarth ▪ ATA Ystadir Parciau ▪ ATA Mynydd Parys & Llethrau ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Amlwch a Mynydd Parys ▪ Bryngaer ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig	↑		↑		
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd yn gyffredinol heb gael ei asesu gan LANDMAP ond ystyrir bod yr uniondeb yn **uchel**. Ystyriwyd yn yr asesiad sy'n seiliedig ar y safle bod y cyflwr yn dda. VS27: Da (7%) / Heb ei asesu (93%)			↑		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
		VS47: Uchel (81%) / Canolig (5%) / Isel (11%)					
Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad Golygfaol**	Gwerthusiadau LANDMAP yn amrywio o **Isel i Uchel**. VS25: Cryf (22%) / Gwan (73%) / Canolig (5%) VS46: Uchel (10%) / Canolig (79%) / Isel (11%) VS47: Uchel (81%) / Canolig (5%) / Isel (11%) VS48: Uchel (13%) / Canolig (10%) / Isel (73%)	-	-	-		-
	Pellennigrwydd / Llonyddwch	Draw oddi wrth goridor ffordd yr A5025, datblygiadau ynni, aneddiadau a safleoedd carafanau sefydlog, mae pocedi o'r dirwedd yn **cadw ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch.** VS24: Llonydd ; Deniadol ; Swnllyd; Setledig, Diogel (78%)	-	-	-		-
	Gwerth y Dirwedd (gan gynnwys nodweddion sy'n berthnasol i'r dirwedd)	Mae tua thraean o'r ACT hon yn dod o fewn AOHNE Ynys Môn. Mae rhannau deheuol yr ACT hon yn dod o fewn ATA Parcdir Stadau. Mae nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr RHBC 5) ac o Llanddeusant i Niwbwrch (llwybr RHBC 566). Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg trwy'r adran gogledd ddwyreiniol yr ACT. Arfarniad LANDMAP yn nodweddiadol **gymedrol**. VS50: Canolig (95%) VS49: Uchel (19%) / Isel (78%) LH45: Uchel (10%) / Canolig (30%) / Isel (58%) LH42: Heb ei asesu (66%) / Canolig (26%) GL31: Uchel (80%) / Canolig (10%) / Isel (10%) GL33: Eithriadol (10%) / Uchel (80%) / Canolig (10%)	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni PV ar Raddfa Cae**	**Llinell Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafannau Statig / Cabannau**
Gwerth	**Gwerth Hanesyddol**	Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. Arfarniad LANDMAP nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** HL38: Uchel (70%) / Canolig (11%) / Heb ei asesu (17%) HL35: Eithriadol (55%) / Uchel (9%) / Canolig (27%) / Heb ei asesu (8%) HL40: Eithriadol (55%) / Uchel (23%) / Canolig (22%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd a Strategaeth Gyffredinol y Dirwedd

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau o ddatblygiad perthnasol[29] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig-Uchel	Tua'r gorllewin mae'r dirwedd donnog hon yn cael ei dylanwadu gan strwythurau fertigol modern, gan gynnwys llinellau uwchben sy'n bodoli eisoes, tyrbinau gwynt a ffermydd gwynt; a thrwy hynny mae'n lleihau ei sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni gwynt pellach yn lleol. I wrthbwyso hyn, mae sensitifrwydd yn cynyddu o fewn y rhannau hynny o'r ACT hon sy'n dod o fewn AoHNE Ynys Môn a Thiroedd ATA Ystad Parciau oherwydd mae'r ardaloedd hyn yn fwy tawel, anghysbell a golygfaol. Mae'r AoHNE yn canolbwyntio tuag at y dwyrain ar hyd yr arfordir a thirffurf amlwg Mynydd Bodafon ac i raddau helaeth nid oes yma ddatblygiadau modern eraill (ac eithrio rhai meysydd parciau carafanau statig / cabanau gwyliau).
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATAu. **Lle yn y Dirwedd** – pob ardal sydd ddim yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau. Derbynnir rhyw gymaint o **Newid Tirwedd** lle mae datblygiad fertigol modern, gan gynnwys fferm wynt fawr yn dylanwadu ar y dirwedd tua'r gogledd-orllewin o'r ACT hon.
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 ni. fferm wynt **fawr iawn** - 2 ni. datblygiad **bach** - 1 ni. datblygiad **micro**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Nid yw pob ardal yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau. Nid oes capasiti fel arfer ar gyfer **datblygiadau ynni gwynt** (ac eithrio datblygiad anaml iawn ar raddfa ddomestig, a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau presennol) Y tu allan i'r AOHNE a'r ATAau ystyrir y gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro pellach a allai yn nodweddiadol gynnwys tyrbinau sengl hyd at 20 m hyd uchder blaen y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau gweledol o annibendod / cronnus gyda ffermydd gwynt presennol a datblygiadau modern fertigol eraill.

[29] NODER: Mae'r ACT yn disgyn y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes unrhyw strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

DATBLYGIADAU SOLAR PV AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd iseldirol dreigl hon ar raddfa ganolig yn nodweddiadol yn cynnwys caeau ar raddfa canolig i fawr ar ffurf patrwm caeau rheolaidd. Mae cymysgedd o ffiniau caeau yn cyflwyno'r posibilrwydd o gynyddu uchder llystyfiant i ddarparu sgrinio lleol pellach sy'n arwydd o lai o sensitifrwydd i ddatblygiad ynni solar ar raddfa cae. Mae'r dirwedd hon yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiad modern amlwg iawn yn y gorllewin, fel llinellau uwchben sy'n bodoli eisoes, tyrbinau gwynt a ffermydd gwynt sy'n lleihau sensitifrwydd ymhellach. I wrthbwyso hyn, mae sensitifrwydd yn cynyddu o fewn y rhannau hynny o'r ACT hon sy'n dod o fewn AoHNE Ynys Môn a Thiroedd ATA Ystad Parciau oherwydd mae'r ardaloedd hyn yn fwy tawel, anghysbell a golygfaol. Mae'r AoHNE yn canolbwyntio tuag at y dwyrain ar hyd yr arfordir a thirffurf amlwg Mynydd Bodafon ac i raddau helaeth nid oes yma ddatblygiadau modern eraill (ac eithrio rhai meysydd pariau carafanau statig / cabanau gwyliau).
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob ardal sydd o fewn neu yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATAu.** **Lle yn y Dirwedd – pob ardal sydd ddim yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau.**
Gwaelodlin Datblygiad	Does dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na chaniatâd wedi'i roi ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AoHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), **nid oes yn nodweddiadol unrhyw gapasiti ar gyfer datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae**. Y tu allan i'r AoHNE a'r ATAu fe ystyrir fe all fod rhywfaint o le / capasiti ar gyfer **rhai datblygiadau ar raddfa micro**, yn enwedig lle y gall y rhain yn ymwneud â'r amgylchedd adeiledig gorchudd tir presennol / trefol.

LLINELL 400 kV UWCHBEN

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig - Uchel	Mae'r dirwedd iseldirol dreigl hon ar raddfa ganolig **yn cael ei dylanwadu gan strwythurau fertigol modern tua'r gorllewin, megis llinellau uwchben presennol, tyrbinau gwynt a ffermydd gwynt sy'n weladwy; a thrwy hynny sy'n lleihau ymhellach ei sensitifrwydd i ddatblygiadau llinellau 400 kV uwchben yn lleol.** I wrthbwyso hyn, mae sensitifrwydd yn cynyddu o fewn y rhannau hynny o'r ACT hon sy'n dod o fewn AoHNE Ynys Môn a Thiroedd ATA Ystad Parciau oherwydd mae'r ardaloedd hyn yn fwy tawel, anghysbell a golygfaol. Mae'r AoHNE yn canolbwyntio tuag at y dwyrain ar hyd yr arfordir a thirffurf amlwg Mynydd Bodafon ac i raddau helaeth nid oes yma ddatblygiadau modern eraill (ac eithrio rhai meysydd pariau carafanau statig / cabanau gwyliau).
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATAu **Lle yn y Dirwedd** – pob ardal sydd ddim yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau. Mae rhywfaint o **Newid yn y Dirwedd** yn cael ei dderbyn lle mae datblygiad fertigol modern yn dylanwadu ar y dirwedd tua'r gogledd a'r gorllewin o'r ACT hon.
Gwaelodlin Datblygiad	- 2 ni. rhannau o linell uwchben 400 kV bresennol wedi ei lleoli i'r de-orllewin o'r ACT
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AoHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes lle fel arfer ar gyfer datblygiadau llinell 400 kV uwchben** Y tu allan i'r AoHNE a'r ATA ystyrir **y gall fod rhywfaint o le ar gyfer datblygiadau llinellau 400 kV uwchben pellach**; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael eu lleoli yn ofalus i osgoi effeithiau cronnol sylweddol gyda datblygiadau modern fertigol presennol eraill gan gynnwys y llinell uwchben 400 kV bresennol yn y gorllewin.

PARCIAU CARAFANNAU STATIG / CABANNAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU


SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd iseldirol dreigl hon ar raddfa ganolig yn nodweddiadol yn cynnwys caeaeu ar raddfa ganolig i fawr gyda phatrwm caeau rheolaidd. Mae cymysgedd o ffiniau caeau a gorchudd coed yn cyflwyno'r posibilrwydd o gynyddu uchder llystyfiant er mwyn darparu sgrinio lleol pellach sy'n arwydd o lai o sensitifrwydd i ddatblygiadau meysydd carafannau statig / cabanau gwyliau. Tua'r gorllewin mae'r dirwedd yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiad modern amlwg iawn gan gynnwys llinellau uwchben sy'n bodoli eisoes, tyrbinau gwynt a ffermydd gwynt sy'n lleihau sensitifrwydd ymhellach. Mae nifer o feysydd carafanau statig / cabanau gwyliau yn bodoli yn y dirwedd hon, ac o ganlyniad mae hynny yn lleihau sensitifrwydd lleol. I wrthbwyso hyn, mae sensitifrwydd yn cynyddu o fewn y rhannau hynny o'r ACT hon sy'n dod o fewn AoHNE Ynys Môn a Tiroedd ATA Ystad Parciau oherwydd mae'r ardaloedd hyn yn fwy tawel, anghysbell a golygfaol. Mae'r AoHNE yn canolbwyntio tuag at y dwyrain ar hyd yr arfordir a thirffurf amlwg Mynydd Bodafon ac i raddau helaeth nid oes yma ddatblygiadau ynni a datblygiadau modern eraill.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATAu. **Lle yn y Dirwedd** – pob ardal sydd ddim yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau. Derbynnir rhywfaint **o Newid Tirwedd** lle mae datblygiad yn dylanwadu ar y dirwedd tua'r gogledd a'r gorllewin o'r ACT hon.
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 ni. datblygiad **mawr iawn** (yn y rhaniad de ddwyreiniol rhwng A09 a A09) - 3 ni. o ddatblygiadau **mawr** - 6 ni. o ddatblygiadau **canolig** - 3 ni. o ddatblygiadau **bach iawn** (datblygiad wedi ei grynhoi tua'r dwyrain yn agos at yr arfordir)
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AoHNE a'r ACTau (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes capasiti fel arfer ar gyfer datblygiadau meysydd / parc carafannau statig / cabanau gwyliau pellach nac estyniadau**. Y tu allan i'r AOHNE a'r ATAu ystyrir y gall fod r**hywfaint o gapasiti ar gyfer safleoedd ddatblygiadau bach iawn i fach** wedi eu lleoli mewn modd sensitif ac wedi'n dylunio'n dda, a ddylai berthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol

Canllaw

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datbygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni PV Solar ar raddfa cae	Llinell Uwchben 400 kV	Parciau Carafannau Statig /
Fe ddylid gwarchod harddwch naturiol AoHNE Ynys Môn, ei nodweddion arbennig a'i leoliad ehangach. Mae angen ystyried effeithiau datblygiadau o fewn a thu allan i'r AoHNE.	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiad gymryd i ystyriaeth a gwarchod nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Parcdir Stad Parciau.	✓	✓	✓	✓
Dylid ceisio osgoi gosod datblygiadau fertigol ar y gorwel agored ac o fewn y llinellau gweld o olygfannau allweddol, yn enwedig tuag at Fynydd Bodafon, Ynys Dulas ac ar hyd yr arfordir.	✓		✓	
Fe ddylid osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir / morlin a'i union osodiad.	✓	✓	✓	✓
Dylid sicrhau bod y datblygiadau wedi cael eu gwahanu yn glir fel bod eu heffaith ar y ffordd y mae pobl yn dirnad y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes unrhyw ddylanwad diffiniol cyd-gasgliadol / o gynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Dylid diogelu gosodiad nodweddion treftadaeth diwylliannol bwysig dynodedig ac eraill; a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Ystyried golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai sydd eisoes â golygfeydd o dyrbinau presennol a datblygiad fertigol; Dylai lleoli datblygiad fertigol ychwanegol anelu i osgoi effeithiau gweledol cronnus.	✓		✓	
Dylid osgoi achosi effeithiau cronnol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybrau RHBC 5) a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Landdeusant i Niwbwrch (llwybr RHBC 566), a golygfannau lleol gwerthfawr eraill - defnyddiwch ddelweddau i asesu barn ddilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓	✓	✓	✓
Lleoli datblygiadau llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y rhannau llai datblygedig hynny o'r ACT hon ac erydu nodweddion gwledig.	✓	✓	✓	✓
Dylid cynnal rhyngwelededd nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar ben bryniau.	✓		✓	

A09 Traeth Coch



1:75,000

Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron Trwydded Rhif. 100023387

Lleoliad a Graddfa

Mae'r ACT hon yn cynnwys anheddiad hanesyddol Moelfre i'r gogledd ac mae'n cynnwys tirwedd ysgubol Traeth Coch tuag Llanddona yn y dwyrain.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd agored, maint bach
- Tirffurf arfordirol yn newid i fewndir treigl a thonnog
- Nifer uchel o safleoedd carafanau

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math datblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nod Nifer uchel o safleoedd carafanau weddïon yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
Tirwedd	**Graddfa / Maint**	Tirwedd gydag ymdeimlad o raddfa **gyferbyniol** iddo. Yn nodweddiadol ar raddfa fach i ganolig tua'r gorllewin a mawr o ran graddfa tua'r dwyrain. VS8: Bach (38%) / Canolig (25%) / Mawr (37%)	↑		↑		
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Yn nodweddiadol ar **raddfa fach i ganolig, yn amrywio rhwng patrwm caeau rheolaidd ac afreolaidd gyda chymysgedd** o ffiniau caeau. VS7: Cymysgedd (78%) / Dim (21%) VS8: Bach (38%) / Canolig (25%) / Mawr (37%)		↑			
	Tirffurf	Tirwedd **arfordirol lefel** tua'r dwyrain. Yn fewndirol mae'r dirwedd yn mynd yn fwy **treigl a bryniog**. VS Lefel Dosbarthiad 2: Arfordirol / (15%) / Dyffrynnoedd Iseldirol (17%) / Bryniau, Llwyfandir is a Llethrau sgarp (23%) / Iseldir	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nod Nifer uchel o safleoedd carafanau weddïon yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
		Tonnog (41%) VS4: Lefelau (15%) / Llwyfandir (23%) / Treigl / Tonnog (62%)					
	Gorchudd Tir	**Mae gorchudd tir gwledig a nodweddir gan fosäig / brithwaith cymhleth o borfeydd a gwrychoedd gyda choed a blociau o goetiroedd bach tua'r gogledd. Mae Traeth Coch tywodlyd mawr yn gorwedd tua'r dwyrain ac aneddiadau arfordirol cymharol fawr Benllech a Moelfre tua'r gogledd. Mae coedwig Pentraeth yn cwmpasu ardal fawr tua'r de.** VS Lefel Dosbarthiad 3: Bryniau & Llethrau Sgarp Mosaic (17%) / Rhynglanwol (15%) / Iseldir Tonnog Mosaig (37%) / Dyffrynnoedd Iseldirol Agored (18%) / Bryn Coediog & Llethrau Sgarp (6%) VS5: Patrwm Caeau / Mosaig (75%) / Datblygiad (04%) / Dŵr (15%) / Coedlan (6%)	↑	↑	↑		↑
	Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	Mae pentref hanesyddol Moelfre a datblygiad, modern wedi ei sylfaenu ar dwristiaeth Benllech yn cael eu cysylltu gan rwydwaith o briffyrdd, ac maent yn cyfleu argraff ddatblygedig a **dylanwad a wnaed gan ddyn** i'r gogledd o'r ACT. Mae cyfres o bentrefi llai wedi eu crynhoi ar hyd y prif ffyrdd. Mae **nifer uchel o feysydd carafanau a pharciau carafanau statig / cabanau gwyliau a datblygiadau modern** eraill yn yr ardal, gan gynnwys llinell uwchben 400 kV, mastiau ffonau symudol, tyrbinau gwynt a chwarela, yn cyfrannu ymhellach at y dylanwad a wnaed gan ddyn yn yr ACT. VS6: Gwledig Gwasgaredig /Fferm (75%) / Dim Aneddiadau (21%)	↓	↓	↓		↓

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nod Nifer uchel o safleoedd carafanau weddïon yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
		VS27: Heb ei asesu (100%)					
	Patrwm Anheddiad	Y tu allan i bentrefi Moelfre a Benllech, mae'r patrwm anheddu nodweddiadol yn cynnwys ffermydd gwasgaredig gwledig dwys.			↑		
	Nenlinellau a Chefndiroedd	**Torrir ar draws gorwelion ysgubol syml** gan gaeau a choed perthi, polion pren, ac eiddo gwledig gwasgaredig a thyrbinau gwynt achlysurol, llinellau uwchben a mastiau symudol.	↓		↓		
Gweledol	**Symudiad**	Traffig anaml ar hyd y ffyrdd lleol yn cyflwyno **rhywfaint o symudiad** drwy gydol llawer o'r ACT hon. Mae'r symudiad yn amlach o amgylch aneddiadau arfordirol **mwy o faint**. VS18: Aml (9%) / Anaml (81%) / Prin (6%)	-				
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	**Yn nodweddiadol agored eang gyda golygfeydd arfordirol helaeth ar gael o Draeth Coch; y Gogarth yn amlwg yn y golygfeydd tua'r dwyrain.** Ar hyd llawer o ffyrdd a llwybrau mewndirol, mae'r golygfannau yn cael eu **cyfyngu a'u hamgáu gan lystyfiant.** VS9: Amgaeedig (21%) / Agored (59%) / Digysgod (14%) / Cyfyngedig (6%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Nifer o eiddo gan gynnwys y rhai o fewn aneddiadau arfordirol Moelfre a Benllech ▪ Llwybrau pellter hir, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybrau RHBC 5). ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol ▪ Chwaraeon dwr a chychod	↑	↑	↑		↑
	Golygfeydd	Mae'r rhain yn cynnwys:	↑		↑		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nod Nifer uchel o safleoedd carafanau weddïon yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
	tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ AoHNE Ynys Môn ▪ Arfordir Treftadaeth Y Gogarth ▪ Llethrau Coediog Biwmares ac ATA Bro Llangoed ac Ystadir Parciau ▪ Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Penmon ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig					
	Cyflwr	Nid yw cyflwr y dirwedd wedi cael ei asesu gan LANDMAP. Fodd bynnag, ystyrir bod y cyfanrwydd / uniondeb yn **gymedrol-uchel** ac roedd yr asesiad yn seiliedig ar y safle yn ystyried fod y cyflwr yn **deg**. VS27: Heb ei asesu (100%) VS47: Uchel (45%) / Canolig (51%)			-		
Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad Golygfaol**	Yn nodweddiadol arfarniad LANDMAP **Cymedrol-uchel** gyda rhai ardaloedd **Eithriadol**. VS25: Cryf (38%) / Gwan (7%) / Canolig (55%) VS46: Eithriadol (14%) / Uchel (65%) / Canolig (19%) VS47: Uchel (81%) / Isel (11%) VS48: Eithriadol (14%) / Uchel (34%) / Canolig (46%) / Isel (7%)	-	-	-		-
	Pellennigrwydd / Llonyddwch	Mae dylanwadau a wnaed gan ddyn aml yn lleihau'r **ymdeimlad o bellenigrwydd** yn yr ardal hon. Draw oddi wrth y brif rwydwaith ffyrdd, pentrefi, gweithgaredd twristaidd a nifer fawr o safleoedd carafanau o fewn yr ACT hon mae yna **ymdeimlad o lonyddwch**. VS24: Llonydd ; Deniadol ; Setledig; Gwyllt (37%) / Deniadol ; Llonydd ; Digysgod ; Gwyllt,	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nod Nifer uchel o safleoedd carafanau weddïon yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabannau
		Ysbrydol,Arogl (17%) / Deniadol ; Llonydd ; Gwyllt; Arogl; Swnllyd; Digysgod (14%)					
Gwerth	**Gwerth y Dirwedd** (gan gynnwys nodweddion sy'n berthnasol i'r dirwedd)	Mae tua hanner yr ACT hon yn dod o fewn AOHNE Ynys Môn. Mae ymylon gogleddol y ACT yn gorwedd o fewn ATA Ystadir Parciau. Mae nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr Sustrans cenedlaethol beicio o Reading i Gaergybi (llwybrau RHBC 5). Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar draws y ffin ogleddol yr ACT. Yn nodweddiadol arfarniad LANDMAP Cymedrol-uchel gyda rhai ardaloedd Eithriadol. VS50: Eithriadol (14%) / Uchel (34%) / Canolig (50%) VS49: Uchel (20%) / Canolig (69%) / Isel (11%) LH45: Uchel (6%) / Canolig (87%) / Isel (03%) LH42: Heb ei asesu (12%) / Canolig (84%) GL31: Eithriadol (5%) / Uchel (60%) / Canolig (25%) / Isel (10%) GL33: Eithriadol (20%) / Uchel (50%) / Canolig (30%)	-	-	-		-
	Gwerth Hanesyddol	Arfarniad LANDMAP nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** HL38: Uchel (51%) / Heb ei asesu (48%) HL35: Eithriadol (28%) / Uchel (49%) / Heb ei asesu (19%) HL40: Eithriadol (28%) / Uchel (69%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd a Strategaeth Gyffredinol y Dirwedd

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau o ddatblygiad perthnasol[30] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig-uchel	Mae'r dirwedd arfordirol yn amrywio o ran maint ac yn cynnwys brithwaith o orchudd tir gwledig ynghyd â phentref hanesyddol Moelfre a phentref Benllech sy'n fwy modern, sy'n seiliedig ar dwristiaeth. Mae'r pentrefi hyn, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd sefydledig, nifer uchel o garafanau sefydlog a thyrbinau gwynt presennol a mastiau telathrebu yn dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ac yn lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch mewn mannau, gan leihau sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni gwynt. Mae'r sensitifrwydd gostyngedig yn cael ei orbwyso gan bresenoldeb derbynyddion sensitif, a golygfeydd i ac o'r nodweddion tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol pwysig hyn ac eraill, gan gynnwys AoHNE Ynys Môn. Atgyfnerthir hyn gan bresenoldeb tirluniau golygfaol a llonydd sensitif o fewn AoHNE Ynys Môn ei hun a'r golygfeydd arfordirol eang ynghyd â gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd** – pob ardal sy'n gorwedd o fewn neu sy'n cyfrannu at y rhagolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA. **Lle yn y Dirwedd** –
Gwaelodlin Datblygiad	- 3 ni. datblygiadau **bach** - 3 ni. o ddatblygiadau **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Nid yw pob ardal yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau. Nid oes capasiti yn nodweddiadol ar gyfer **datblygiadau ynni gwynt** (ac eithrio datblygiad anaml iawn ar raddfa ddomestig, a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau presennol) Y tu allan i'r AoHNE a'r ATA ystyrir y gall fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau pellach ar raddfa micro** a allai yn nodweddiadol gynnwys **tyrbinau unigol** hyd at 20 m at uchder blaen y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiadau newydd gael eu lleoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronnus gyda datblygiadau eraill.

[30] NODER: Mae'r ACT yn disgyn y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes unrhyw strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

DATBLYGIADAU SOLAR PV AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol yn amrywio o ran maint ac yn cynnwys brithwaith o orchudd tir gwledig ynghyd â phentref hanesyddol Moelfre a phentref Benllech sy'n fwy modern, ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth. Mae'r pentrefi hyn, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd sefydledig, nifer uchel o garafanau sefydlog a thyrbinau gwynt presennol a mastiau telathrebu yn dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ac yn lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch mewn mannau, gan leihau sensitifrwydd i ddatblygiadau PV solar ar raddfa cae. Mae sensitifrwydd gostyngedig yn cael ei wrthbwyso gan y ffaith bod y dirwedd arfordirol yn amrywio o ran maint, ac mae rhannau cynnwys mosäig cymhleth o gaeau bach i ganolig, yn aml yn afreolaidd o ran patrwm sydd yn arwydd o gynnydd mewn sensitifrwydd i ddatblygiad o'r fath. Atgyfnerthir hyn gan bresenoldeb tirweddau golygfaol a llonydd / tawel sensitif o fewn AoHNE Ynys Môn a'r golygfeydd arfordirol helaeth ynghyd â gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd** – pob ardal sy'n gorwedd o fewn neu sy'n cyfrannu at y rhagolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA. **Lle yn y Dirwedd** –nid yw pob ardal yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau.
Gwaelodlin Datblygiad	Does dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na chaniatâd wedi'i roi ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AoHNE a'r ATA (ac ardaloedd sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **does dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae**. Y tu allan i'r AoHNE **gall fod capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro**, yn enwedig lle mae'r rhain yn perthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.

LLINELL 400 kV UWCHBEN

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig-uchel	Mae'r dirwedd arfordirol yn amrywio o ran maint ac yn cynnwys brithwaith o orchudd tir gwledig ynghyd â phentref hanesyddol Moelfre a phentref Benllech sy'n fwy modern, ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth. Mae'r pentrefi hyn, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd sefydledig, nifer uchel o garafanau sefydlog a thyrbinau gwynt presennol a mastiau telathrebu yn dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ac yn lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch mewn mannau, gan leihau sensitifrwydd i ddatblygiad llinell uwchben 400 kV. Mae presenoldeb llinell 400 kV uwchben sy'n bresennol tua'r gorllewin pell yn lleihau'r sensitifrwydd ymhellach. Mae'r sensitifrwydd llai yn cael ei orbwyso gan natur y patrwm anheddu gwasgaredig dwys y tu allan i'r pentrefi, presenoldeb derbynyddion sensitif, a golygfeydd i ac o'r rhain a nodweddion tirwedd pwysig a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol eraill gan gynnwys AoHNE Ynys Môn. Atgyfnerthir hyn gan bresenoldeb tirweddau golygfaol a thawel sensitif o fewn AoHNE Ynys Môn ei hun a'r golygfeydd arfordirol helaeth ynghyd â gwerth treftadaeth ddiwylliannol y

	dirwedd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 ni. rhan o'r llinell uwchben 400 kV bresennol i'r gorllewin o'r ACT
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Yn nodweddiadol does dim mwy o gapasiti ar **gyfer datblygiadau llinell 400 kV uwchben**.

PARCIAU CARAFANNAU STATIG / CABANNAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD YN EI GYFANRWYDD	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol yn amrywio o ran maint ac yn cynnwys brithwaith o orchudd tir gwledig ynghyd â phentref hanesyddol Moelfre a phentref Benllech sy'n fwy modern, ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth. Mae'r pentrefi hyn, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd sefydledig, nifer uchel o garafanau sefydlog a thyrbinau gwynt presennol a mastiau telathrebu yn dylanwadu ar gymeriad y dirwedd ac yn lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch mewn mannau, gan leihau sensitifrwydd i ddatblygiadau carafanau statig / cabannau ac estyniadau. Caiff hyn ei wrthbwyso gan y ffaith bod y dirwedd arfordirol yn amrywio o ran maint, ac mae rhannau ohonynt yn cynnwys mosäig cymhleth o gaeau bach i ganolig, sy'n aml yn afreolaidd o ran patrwm sydd yn arwydd o gynnydd mewn sensitifrwydd i ddatblygiad o'r fath. Atgyfnerthir hyn gan bresenoldeb tirweddau golygfaol a llonydd / tawel sensitif o fewn AoHNE Ynys Môn a'r golygfeydd arfordirol helaeth ynghyd â gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Serch hynny mae dylanwad nifer sylweddol o garafanau sefydlog / cabanau gwyliau yn rhoi'r argraff o sensitifrwydd gostyngedig drwy gydol rhannau o'r dirwedd hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd** – pob ardal sy'n gorwedd o fewn neu sy'n cyfrannu at y rhagolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA. **Lle yn y Dirwedd** – pob ardal sydd ddim yn cyfrannu at ragolygon a lleoliad yr AoHNE a'r ATA ac maent y tu allan i'w ffiniau. **Mae Newid Tirwedd yn cael ei dderbyn pan fo datblygiadau niferus yn dylanwadu ar y dirwedd i'r gogledd o'r ACT hon.**
Gwaelodlin Datblygiad	- 2 ni. datblygiad **mawr iawn** (1 tua'r rhaniad gogledd orllewinol rhwng A09 a A09 ac 1 tuag at y rhaniad gogledd orllewinol rhwng A09 a A17) - 3 ni. datblygiad **mawr** - 6 ni. o ddatblygiadau **canolig** - 5 ni. o ddatblygiadau **bach** - 1 ni. o ddatblygiad **bach iawn** (datblygiad wedi'i ganolbwyntio o fewn hanner gogledd-orllewinol yr ACT hon)
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn AoHNE a'r ACT (a'r ardaloedd sy'n cyfrannu at eu lleoliad), nid oes fel arfer y capasiti ar gyfer datblygiadau parc carafannau statig / cabanau gwyliau nac estyniadau pellach**.** Y tu allan i'r AoHNE efallai y bydd **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau parciau carafannau statig / cabannau bach i fach iawn wedi eu lleoli yn dda, a ddylai berthnasu'n dda guda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.** **Ym mhob achos dylid osgoi datblygiad ar ymyl yr arfordir sydd heb ei ddatblygu a'i ymylon a'i union osodiad.**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiadau er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Gwarchod harddwch naturiol AHNE Ynys Môn, ei nodweddion arbennig a'i lleoliad ehangach. Mae angen ystyried effaith datblygiad y tu mewn a'r tu allan i'r AHNE.	✓	✓		✓
Dylai datblygiad gymryd i ystyriaeth a gwarchod nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Tir Stad Parciau.	✓	✓		✓
Osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y nenlinell agored ac o fewn y llinellau gweld ar gyfer golygfeydd allweddol, yn enwedig ar hyd yr arfordir.	✓			
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'r cefndir agosaf ato.	✓	✓		✓
Sicrhau bod y datblygiadau wedi'u gwahanu'n glir oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol cyfunol / cynyddol yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓		✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion dynodedig a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill, yn cynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i mewn ac allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓		✓
Ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai â golygfeydd o dyrbinau a datblygiadau fertigol sy'n bodoli'n barod; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓			
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr rhif 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), a golygfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi - defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓		✓
Lleoli datblygiad llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon ac erydiad nodweddion gwledig.	✓	✓		✓

A10 Penmon ac Ynys Seiriol



1:50,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron, Trwydded Rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Yr ACT hon yw ymyl de ddwyreiniol Ynys Môn ac mae'n estyn hyd at Ynys Seiriol, sef ynys fach sydd wedi'i lleoli ychydig oddi ar y tir mawr, ym Môr Iwerddon.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa ganolig
- Llwyfandir arfordirol agored a digysgod
- Diddordeb o ran treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math gwahanol o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa ganolig**. VS8: Canolig (85%) / Mawr (15%)	-		-		
	Patrwm, Graddfa ac Amgaead Cae	Yn gyffredinol, patrwm caeau **afreolaidd i raddau helaeth** ar **raddfa fach - ganolig** gyda **chymysgedd** o derfynau caeau. VS7: Cymysgedd (89%) / Dim (11%) VS8: Canolig (85%) / Mawr (15%)		↑			
	Tirffurf	Yn nodweddiadol yn dirwedd iseldir â **llwyfandir sy'n tonni'n ysgafn** sy'n disgyn i lawr yn serth i draethlin graeanog a chreigiog cul. Saif **Bwrdd Arthur** (bryngaer) ar fryn calchfaen â chopa gwastad. VS Lefel Dosbarthiad 2: Arfordirol / (10%) / Bryniau, Llwyfandir a Llethrau Sgarp Is (15%) / Iseldir Tonnog (75%) VS4: Lefelau (7%) / Llwyfandiroedd (15%) / Tonnog (78%) /	-	-	-		-
	Gorchudd Tir	**Gorchudd tir gwledig** wedi'i nodweddu gan fosaig o dir pori gyda rhywfaint o fannau arfordirol agored.	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		VS Lefel Dosbarthiad 3: Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (15%) / Rhynglanw (7%) / Mosaig Iseldir Tonnog (74%) VS5: Patrwm Caeau / Mosaig (90%) / Dŵr (6%)					
	Dylanwadau a wnaed gan ddyn	Mae'r dylanwadau a wnaed gan ddyn yn fwyaf amlwg yn y **gweithgareddau chwarelyddol** i'r dwyrain ar hyd yr arfordir. **Mewn mannau eraill mae'r dylanwadau hyn wedi'u cyfyngu** i bresenoldeb goleudy Penmon oddi ar drwyn Penmon, mast ffonau symudol a dau dyrbin gwynt bach sy'n gysylltiedig ag eiddo gwledig gwasgaredig sy'n cael eu cysylltu gan ychydig o lonydd bychan. VS6: Gwledig Gwasgaredig / Ffermydd (90%) / Dim Aneddiadau (10%) VS27: Heb ei asesu (100%)	-	-	-		-
	Patrwm Anheddiad	**Eiddo gwledig gwasgaredig.** VS6: Gwledig Gwasgaredig / Ffermydd (90%) / Dim Aneddiadau (10%)			-		
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r nenlinellau yn gymharol wastad a syml i mewn i'r tir gyda goleudy Penmon a brigiadau creigiog yn torri ar draws y **golygfeydd** ar hyd yr arfordir. Mae bryngaer Bwrdd Arthur ac Ynys Seiriol yn **dirffurfiau nodedig** ar y gorwel mewn golygfeydd o dir a môr.	↑		↑		
Gweledol	**Symudiad**	Mae traffig **anaml** ar hyd y ffyrdd lleol yn cyflwyno rhywfaint o **symudiad** yn y dirwedd hon sydd fel arall yn **gymharol lonydd**. VS18: Anaml (90%) / Prin (10%)	↑				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynyddion Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol yn **agored** yn yr ACT hon gyda golygfeydd helaeth o'r arfordir i'r gogledd a'r dwyrain. Mae ffurf isel, gron Ynys Seiriol yn ennill lle blaenllaw yn y morlun mewn golygfeydd i'r dwyrain, gyda'r Gogarth i'w weld y tu hwnt. Mae golygfeydd hefyd i'w cael tua'r Parc Cenedlaethol. VS9: Agored (100%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr â'r mannau a ganlyn: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Eiddo gwasgaredig ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Y Gogarth ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol ▪ Chwaraeon dŵr a chychod					
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ AHNE Ynys Môn ▪ Ardal Tirwedd Arbennig Llethrau Coediog Biwmares a Dyffryn Llangoed ▪ Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Penmon ▪ Arfordir Treftadaeth Y Gogarth ▪ Bryngaer	↑		↑		
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd heb ei asesu gan LANDMAP ac ystyrir bod y cyfanrwydd yn **gymedrol**. Roedd yr asesiad ar y safle yn ystyried bod cyflwr y dirwedd hon yn **weddol**. VS27: Heb ei asesu (100%) VS47: Uchel (22%) / Cymedrol (74%)			-		
Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yn nodweddiadol arfarniad **Uchel** yn LANDMAP a **chymeriad cryf,** efo rhai rhannau yn **Neilltuol**. VS25: Cryf (98%) VS46: Uchel (96%) VS47: Uchel (22%) / Cymedrol (74%) VS48: Neilltuol (73%) / Uchel (25%)	↑	↑	↑		↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae gan yr ardal hon ansawdd **agored ac anghysbell**, yn enwedig tuag at yr arfordir ac i ffwrdd o eiddo. Mae **ymdeimlad cryf o lonyddwch** yn llawer o'r ACT hon. VS24: Tawel; Deniadol; Wedi'i anheddu; Digysgod;	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		Ysbrydol; Pellennig (72%) / Swnllyd; Deniadol; Tawel; Digysgod; Gwyllt; Arogl; Pellennig (10%)					
Gwerth	**Gwerth Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud â'r dirwedd)	Mae llawer o'r ACT hon yn AHNE Ynys Môn. Mae rhan fechan o'r ACT yn Ardal Tirwedd Arbennig Llethrau Coediog Biwmares a Dyffryn Llangoed. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol yn cynnwys Mannau Mynediad Agored. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar draws llawer o'r ACT. Yn nodweddiadol arfarniad **Uchel** yn LANDMAP efo rhai rhannau yn **Neilltuol**. VS50: Uchel (93%) VS49: Uchel (76%) / Cymedrol (24%) LH45: Neilltuol (9%) / Uchel (17%) / Cymedrol (74%) / LH42: Heb ei asesu (73%) / Uchel (6%) / Cymedrol (21%) GL31: Neilltuol (14%) / Uchel (77%) / Isel (9%) GL33: Neilltuol (14%) / Uchel (77%) / Cymedrol (9%)	↑	↑	↑		↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r ACT gyfan yn Nhirwedd Hanesyddol Gofrestredig Penmon. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. Yn nodweddiadol arfarniad **Uchel - Neilltuol** yn LANDMAP**.** HL38: Neilltuol (20%) / Uchel (80%) HL35: Neilltuol (34%) / Heb ei asesu (66%) HL40: Neilltuol (100%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[31] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae'r llwyfandir arfordirol hwn yn yr iseldir yn cynnwys mosaig o dir pori yn gymysg efo darnau o dir wedi'u tarfu gan weithgareddau chwarelyddol y gorffennol. Mae tyrbinau gwynt bach a mastiau yn cyflwyno nifer cyfyngedig o ddatblygiadau modern, fertigol yn yr ACT hon; a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd yn lleol i ddatblygiadau ynni gwynt. Er bod y sensitifrwydd yn is, beth sy'n bwysicach na hynny yw'r golygfeydd arfordirol heb gael tarfu arnynt a'r ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch a geir drwy lawer o'r dirwedd hon sydd ag ansawdd golygfaol uchel a chymeriad cryf, sydd felly'n arwain at lawer o'r ACT yn cael ei dynodi o fewn AHNE Ynys Môn. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan bresenoldeb derbynyddion sensitif a rhyngwelededd cryf efo tirweddau hynod sensitif eraill a gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae Ynys Seiriol yn dirnod lleol ac yn hynod o sensitif i unrhyw ddatblygiad.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd**
Datblygiad Gwaelodlin	- 1 datblygiad **micro** - 1 datblygiad **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol).

[31] NODER: Mae'r ACT hon y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

DATBLYGIADAU YNNI SOLAR PV AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae'r llwyfandir arfordirol hwn yn yr iseldir yn cynnwys mosaig o dir pori yn gymysg efo darnau o dir wedi'u tarfu gan weithgareddau chwarelyddol y gorffennol; sy'n arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni solar PV ar raddfa cae. Mae cymysgedd o derfynau caeau yn cynnig cysgod o bosibl yn lleol; fodd bynnag, yn gwrthbwyso hyn ystyrir bod y patrymau caeau sy'n afreolaidd i raddau helaeth a'r systemau caeau llai yn sensitif i'r math hwn o ddatblygiad. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan y golygfeydd arfordirol heb gael tarfu arnynt a'r ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch a geir drwy lawer o'r dirwedd hon sydd ag ansawdd golygfaol uchel a chymeriad cryf, sydd felly'n arwain at lawer o'r ACT yn cael ei dynodi o fewn AHNE Ynys Môn. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan bresenoldeb derbynyddion sensitif a rhyngweledded cryf efo tirweddau hynod sensitif eraill a gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae Ynys Seiriol yn dirnod lleol ac yn hynod o sensitif i unrhyw ddatblygiad.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd**
Datblygiad Gwaelodlin	Dim datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae yn bodoli na gyda chaniatâd ar eu cyfer
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae** yn yr ACT hon.

LLINELL UWCHBEN 400 kV

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae'r llwyfandir arfordirol hwn yn yr iseldir yn cynnwys mosaig o dir pori yn gymysg efo darnau o dir wedi'u tarfu gan weithgareddau chwarelyddol y gorffennol. Mae tyrbinau gwynt bach a mastiau yn cyflwyno nifer cyfyngedig o ddatblygiadau modern, fertigol yn yr ACT hon; a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd yn lleol. Er bod y sensitifrwydd yn is, beth sy'n bwysicach na hynny yw'r golygfeydd arfordirol heb gael tarfu arnynt a'r ymdeimlad o bellenigrwydd a llonyddwch a geir drwy lawer o'r dirwedd hon sydd ag ansawdd golygfaol uchel a chymeriad cryf, sydd felly'n arwain at lawer o'r ACT yn cael ei dynodi o fewn AHNE Ynys Môn. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan bresenoldeb derbynyddion sensitif a rhyngweledded cryf efo tirweddau hynod sensitif eraill a gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae Ynys Seiriol yn dirnod lleol ac yn hynod o sensitif i unrhyw ddatblygiad.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd**
Datblygiad Gwaelodlin	Dim datblygiadau llinell uwchben 400 kV yn bodoli na gyda chaniatâd ar eu cyfer
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau llinell uwchben 400 kV** yn yr ACT hon.

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y nenlinell agored ac o fewn y llinellau gweld ar gyfer golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y môr drosodd i Benrhyn Llŷn a thuag at Eglwys St. Cwyfan.	✓			
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'r cefndir agosaf ato.	✓	✓		✓
Gwarchod harddwch naturiol a nodweddion annatblygedig Arfordir Treftadaeth Bae Aberffraw.	✓	✓		✓
Sicrhau bod y datblygiadau wedi'u gwahanu'n glir oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol cyfunol / cynyddol yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓		✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion dynodedig a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill, yn cynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i mewn ac allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓		✓
Ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai â golygfeydd o dyrbinau a datblygiadau fertigol sy'n bodoli'n barod; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓			
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓		✓
Lleoli datblygiad llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon ac erydiad nodweddion gwledig.	✓	✓		✓

A17 Gorllewin Canol Ynys Môn



Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans © ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron, Trwydded Rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT helaeth hon yn cynnwys rhan fawr o fro amaethyddol Ynys Môn sy'n cynnwys aneddiadau Gwalchmai a Llangefni.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd agored ar raddfa ganolig
- Tirffurf sy'n tonni'n ysgafn
- Bro amaethyddol helaeth Ynys Môn

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math gwahanol o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa ganolig**. VS8: Canolig (98%)	-		-		
	Patrwm, Graddfa ac Amgaead Cae	Yn gyffredinol **caeau ar raddfa ganolig - fawr**. **Yn nodweddiadol patrwm caeau rheolaidd** gyda **phatrymau caeau llai, afreolaidd a mwy cymhleth** o amgylch aneddiadau. **Cymysgedd o derfynau caeau**. VS7: Ffensys (03%) /Cymysgedd (97%) VS8: Canolig (98%)		↓			
	Tirffurf	**Yn nodweddiadol tirffurf sy'n tonni'n ysgafn gyda** nifer o frigiadau creigiau sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn lleol. VS Lefel Dosbarthiad 2: Iseldir Tonnog (90%) VS4: Tonnog (98%)	↓	↓	↓		↓
	Gorchudd Tir	Mae'r gorchudd tir yn cynnwys **patrwm unffurf yn**	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		nodweddiadol o dir fferm cymysg, tir pori yn bennaf gyda rhywfaint o dir âr a darnau bach o gynefin lled-naturiol sy'n torri unffurfedd y dirwedd ehangach. Mae gweithgareddau cloddio yn dylanwadu ar rannau o'r ACT ac mae cronfa ddŵr Cefni ychydig i'r de o'r canol. VS Lefel Dosbarthiad 3: Mosaig Iseldir Tonnog (39%) / Iseldir Tonnog Agored (53%) VS5: Patrwm Caeau / Mosaig (95%)					
	Dylanwadau a wnaed gan ddyn	Heblaw am aneddiadau Gwalchmai a Llangefni, mae'r patrwm anheddiad mewn mannau eraill wedi ei nodweddu gan **eiddo gwledig gwasgaredig.** Mae coridor yr A5 / A55 yn mynd drwy ganol - gorllewin yr ACT ac mae presenoldeb llinell uwchben 400 kV, tyrbinau gwynt a mastiau ffonau symudol yn cyflwyno **strwythurau fertigol modern** yn y dirwedd. Mae datblygiadau modern eraill yn cynnwys nifer fach o chwareli a pharciau carafanau statig a maes awyr RAF Mona sydd wedi'i leoli tua chanol yr ACT. VS6: Gwledig Gwasgaredig / Ffermydd (96%) VS27: Heb ei asesu (100%)	-	-	-		-
	Patrwm Anheddiad	Heblaw am aneddiadau Gwalchmai a Llangefni, mae'r patrwm anheddiad wedi ei nodweddu gan **eiddo gwledig gwasgaredig.** VS6: Gwledig Gwasgaredig / Ffermydd (96%)			↑		
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Nid yw'r nenlinellau yn **arbennig o amlwg** yn yr ACT hon ac weithiau mae datblygiadau modern megis **llinellau uwchben a thyrbinau gwynt yn torri ar eu traws**.	↓		↓		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Gweledol	**Symudiad**	Heblaw am draffig ar hyd y prif ffyrdd, mae symudiad yn **gymharol anaml** yn yr ACT. VS18: Anaml (97%)	↑				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynyddion Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol yn **agored** yn yr ACT hon, gyda golygfeydd pell i Benrhyn Llŷn i'r de o'r arfordir cyfagos. VS9: Wedi'i amgáu (6%) / Agored (94%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr â'r mannau a ganlyn: ▪ Pentrefi bach ac eiddo gwasgaredig ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a llwybr o Landdeusant i Niwbwrch (llwybr 566 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol megis gwarchodfa natur Nant y Pandy, Llangefni ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Llwybrau ymwelwyr yr A5, A55 ac A4080 a Rheilffordd Caer i Gaergybi ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol ▪ Chwaraeon dŵr a chychod	-	-	-		-
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ AHNE Ynys Môn ▪ AHNE Llŷn ▪ Ardal Tirwedd Arbennig Cors Malltraeth a'r Cyffiniau ▪ Ardal Tirwedd Arbennig Stad Parciau ▪ Bryngaer	-		-		
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd heb ei asesu gan LANDMAP; serch hynny ystyrir bod y cyfanrwydd yn **uchel.** Roedd yr asesiad ar y safle yn ystyried bod y cyflwr yn **weddol.**			-		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		VS27: Heb ei asesu (100%) VS47: Uchel (93%) / Cymedrol (5%)					
Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yn nodweddiadol arfarniad **Cymedrol - Uchel** yn LANDMAP VS25: Gwan (49%) / Cymedrol (48%) VS46: Cymedrol (98%) VS47: Uchel (93%) / Cymedrol (5%) VS48: Cymedrol (48%) / Isel (50%)	-	-	-		-
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae'r rhwydwaith ffyrdd prysur, maes awyr Mona a gweithgarwch yn yr aneddiadau oll yn cyfrannu at **ymdeimlad is o bellenigrwydd a llonyddwch** yn lleol yn rhan ganolog a gorllewinol yr ACT. Fodd bynnag, mewn mannau eraill i ffwrdd o'r dylanwadau hyn mae'r ACT yn **gymharol dawel a digyffro**. VS24: Tawel; Deniadol; Swnllyd; Wedi'i anheddu; Diogel (52%) / Tawel; Deniadol; Swnllyd; Wedi'i anheddu; Diogel; Ysbrydol (38%)	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Gwerth	**Gwerth Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud â'r dirwedd)	Mae rhan fach o'r ACT hon ar hyd yr arfordir gorllewinol yn AHNE Ynys Môn. Mae rhannau bach o'r ACT hon yn Ardal Tirwedd Arbennig Cors Malltraeth a'r Cyffiniau a Thir Stad Parciau. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol yn cynnwys Mannau Mynediad Agored a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a llwybr o Landdeusant i Niwbwrch (llwybr 566 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dod fymryn i mewn i'r ACT ar ei therfyn de orllewinol. Yn nodweddiadol arfarniad **Isel - Gymedrol yn** LANDMAP. VS50: Cymedrol (98%) VS49: Cymedrol (42%) / Isel (57%) LH45: Cymedrol (69%) / Isel (28%) LH42: Heb ei asesu (89%) / Cymedrol (9%) GL31: Uchel (56%) / Cymedrol (20%) / Isel (24%) GL33: Uchel (75%) / Cymedrol (22%) /	↓	↓	↓		↓
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. Yn nodweddiadol arfarniad **Uchel - Neilltuol yn** LANDMAP. HL38: Uchel (85%) / Cymedrol (10%) HL35: Neilltuol (82%) / Uchel (15%) / HL40: Neilltuol (82%) / Uchel (15%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[38] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd ar raddfa ganolig hon yn gorwedd yn isel ac yn cynnwys ardaloedd mawr o dir ffermio cymysg. Mae strwythurau fertigol modern fel llinellau uwchben, tyrbinau gwynt a mastiau ffonau symudol sy'n bodoli eisoes yn elfennau gweladwy yn yr ACT; a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd. Mae maes awyr Mona a choridor yr A5 / A55 yn tynnu oddi wrth lonyddwch y dirwedd, gan leihau'r sensitifrwydd ymhellach. Mae'r sensitifrwydd is hwn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb nifer o dderbynyddion gweledol sensitif a gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae pen mwyaf gorllewinol yr ACT yn AHNE Ynys Môn, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn yr ardal hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ar gyfer pob ardal nad yw'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn, yr amcan pennaf yw **Cymhwysiad Tirwedd**; serch hynny, gellid cynnwys rhywfaint o **Newid Tirwedd** mewn mannau.
Datblygiad Gwaelodlin	- 1 datblygiad **bach** - 3 datblygiad **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt** (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol) Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **rhywfaint o gynhwysedd ar gyfer datblygiadau pellach ar raddfa micro - fach,** a allai yn nodweddiadol gynnwys **tyrbin sengl neu glystyrau bach o dyrbinau (hyd at 3)** hyd at 50 m i flaen y llafn. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli'n ofalus er mwyn osgoi effeithiau cynyddol â'r tyrbinau a ffermydd gwynt presennol ynghyd â datblygiadau modern fertigol eraill.

[38] NODER: Mae'r ACT hon y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

DATBLYGIADAU YNNI SOLAR PV AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Isel - Canolig	Mae'r dirwedd ar raddfa ganolig hon yn gorwedd yn isel ac yn cynnwys darnau mawr o dir fferm cymysg. Mae'r systemau caeau fel arfer yn rheolaidd gyda chaeau ar raddfa ganolig - fawr wedi'u ffinio gan gymysgedd o waliau cerrig a gwrychoedd sy'n arwydd o sensitifrwydd is ac yn cyflwyno'r posibilrwydd o gynyddu uchder llystyfiant i ddarparu rhagor o gysgod yn lleol. Mae maes awyr Mona a choridor yr A5 / A55 yn tynnu oddi wrth lonyddwch y dirwedd, ac yn lleihau'r sensitifrwydd ymhellach. Mae'r sensitifrwydd is hwn yn cael ei wrthbwyso fymryn gan werth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae pen mwyaf gorllewinol yr ACT yn AHNE Ynys Môn, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn yr ardal hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ar gyfer pob ardal nad yw'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn, yr amcan pennaf yw **Cymhwysiad Tirwedd**; serch hynny, gellid cynnwys rhywfaint o **Newid Tirwedd** mewn mannau.
Datblygiad Gwaelodlin	Dim datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae yn bodoli na gyda chaniatâd ar eu cyfer
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer ynni solar PV ar raddfa cae** (ac eithrio datblygiad ar raddfa micro anaml iawn) Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **rhywfaint o gynhwysedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro - fach. Gallai hefyd fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa fwy,** yn enwedig tuag at y de orllewin lle mae isadeiledd modern eisoes yn dylanwadu ar y dirwedd; serch hynny, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli'n ofalus er mwyn osgoi effeithiau cynyddol â datblygiadau eraill.

LLINELL UWCHBEN 400 kV

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd ar raddfa ganolig hon yn gorwedd yn isel ac yn cynnwys darnau mawr o dir fferm cymysg. Mae strwythurau fertigol modern fel llinellau uwchben, tyrbinau gwynt a mastiau ffonau symudol sy'n bodoli'n barod yn weladwy; a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd. Mae maes awyr Mona a choridor yr A5 / A55 yn tynnu oddi wrth lonyddwch y dirwedd, ac yn lleihau'r sensitifrwydd ymhellach. Mae'r sensitifrwydd is hwn yn cael ei wrthbwyso gan y patrwm anheddiad gwasgaredig a phresenoldeb nifer o dderbynyddion gweledol sensitif a gwerth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae pen mwyaf gorllewinol yr ACT yn AHNE Ynys Môn, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn yr ardal hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ar gyfer pob ardal nad yw'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn, yr amcan pennaf yw **Cymhwysiad Tirwedd**; serch hynny, gellid cynnwys rhywfaint o **Newid Tirwedd** mewn mannau.
Datblygiad Gwaelodlin	- 3 rhan o linell uwchben 400 kV sy'n bodoli'n barod ym mhen pellaf yr ACT i'r dwyrain - 1 rhan o linell uwchben peilon foltedd isel presennol i'r de orllewin o'r ACT
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad llinell uwchben 400 kV.** Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **rhywfaint o gynhwysedd ar gyfer datblygiad llinell uwchben 400 kV pellach**; serch hynny dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli'n ofalus er mwyn osgoi effeithiau cynyddol â datblygiadau modern fertigol eraill sy'n bodoli'n barod gan gynnwys llinell uwchben 400 kV yn y gogledd ddwyrain.

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Isel - Canolig	Mae'r dirwedd ar raddfa ganolig hon yn gorwedd yn isel ac yn cynnwys darnau mawr o dir fferm cymysg. Mae'r systemau caeau fel arfer yn rheolaidd gyda chaeau ar raddfa ganolig - fawr wedi'u ffinio gan gymysgedd o waliau cerrig a gwrychoedd, â'r olaf o'r rhain yn cyflwyno'r posibilrwydd o gynyddu uchder llystyfiant i ddarparu rhagor o gysgod yn lleol, a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd. Mae maes awyr Mona a choridor yr A5 / A55 yn tynnu oddi wrth lonyddwch y dirwedd, ac yn lleihau'r sensitifrwydd ymhellach. Mae'r sensitifrwydd is hwn yn cael ei wrthbwyso fymryn gan werth treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd. Mae pen mwyaf gorllewinol yr ACT yn AHNE Ynys Môn, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn yr ardal hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ar gyfer pob ardal nad yw'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, ac sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn, yr amcan pennaf yw **Cymhwysiad Tirwedd**; serch hynny, gellid cynnwys rhywfaint o **Newid Tirwedd** mewn mannau.
Datblygiad Gwaelodlin	- 1 datblygiad **mawr iawn** (1 i'r gogledd ddwyrain wedi'i rannu rhwng A17 ac A09) - 2 ddatblygiad **canolig** (mae'r datblygiadau wedi'u lleoli tua chyrion yr ACT)
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau / cabanau gwyliau ac estyniadau pellach.** Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **rhywfaint o gynhwysedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach iawn - fach, a / neu gynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa fwy sydd** wedi'u dylunio'n dda a'u lleoli'n sensitif, a ddylai, ym mhob achos, berthyn yn dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir presennol.

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiadau er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Gwarchod harddwch naturiol AHNE Ynys Môn, ei nodweddion arbennig a'i lleoliad ehangach. Mae angen ystyried effaith datblygiad y tu mewn a'r tu allan i'r AHNE.	✓	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiadau sy'n bodoli'n barod a datblygiadau arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiad gymryd i ystyriaeth a gwarchod nodweddion arbennig Cors Malltraeth a'r Cyffiniau; ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig Tir Stad Parciau.	✓	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y nenlinell agored ac o fewn y llinellau gweld ar gyfer golygfeydd allweddol.	✓		✓	
Sicrhau bod y datblygiadau wedi'u gwahanu'n glir oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol cyfunol / cynyddol yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion dynodedig a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill; a'r golygfeydd allweddol i mewn ac allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Sicrhau nad yw llwybrau mynediad newydd yn niweidio patrymau caeau hanesyddol ac ailblannu unrhyw wrychoedd y bydd gwaith adeiladu yn effeithio arnynt.	✓	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai â golygfeydd o dyrbinau a datblygiadau fertigol sy'n bodoli'n barod; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓		✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr rhif 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a llwybr o Landdeusant i Niwbwrch (llwybr 566 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn yr ACT hon ac erydiad nodweddion gwledig mewn mannau llai datblygedig.	✓	✓	✓	✓
Cynnal y golygfeydd o un i'r llall rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar ben bryniau.	✓		✓	

A18 Cyffiniau Maes Awyr y Fali



1:50,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron, Trwydded Rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn cynnwys gwastadedd arfordirol sy'n estyn o Faes Awyr RAF Y Fali yn y gogledd i lawr heibio i Rosneigr yn y de.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd agored ar raddfa ganolig
- Gwastadedd arfordirol
- Maes Awyr RAF Y Fali

Arfarniad Sensitifrwydd

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math gwahanol o ddatblygiad.

Allweddol	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa ganolig**. VS8: Canolig (80%) / Mawr (20%)	-		-		
	Patrwm, Graddfa ac Amgaead Cae	Mae rhannau mawr o'r ACT hon yn cynnwys maes awyr, twyni tywod a llyn. Y tu allan i'r mannau hyn, mae'r systemau caeau yn gyffredinol **ar raddfa ganolig i fawr** ac mae ganddynt **batrwm caeau lled reolaidd** gyda **chymysgedd o derfynau caeau sy'n cynnwys ffensys, gwrychoedd a waliau cerrig**. VS7: Ffensys (20%) /Cymysgedd (65%) /Dim (15%) VS8: Canolig (80%) / Mawr (20%)		-			
	Tirffurf	**Tirwedd wastad** wedi'i ffinio gan arfordir i'r gorllewin. VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir Adeiledig (7%) / Arfordirol / (15%) / Tir Heb Adeiladu Datblygedig (20%) / Iseldir Fflat Lefelau (52%) /Iseldir Tonnog (6%)	↓	↓	↓		↓

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		VS4: Lefelau (87%) / Tonnog (13%)					
	Gorchudd Tir	**Mae Maes Awyr RAF Y Fali** i'r gogledd orllewin a, gydag anheddiad gwyliau'r 20fed ganrif yn Rhosneigr, mae'n cynrychioli **gorchudd tir trefol** yn yr ACT. Mewn mannau eraill yn nodweddiadol mae **mosaig o dir fferm** yn gymysg efo cyfres o **wlypdiroedd a chyrff dŵr**. Mae terfyn gorllewinol yr ACT yn cynnwys **twyni tywodlyd** ar hyd yr arfordir. VS Lefel Dosbarthiad 3: Tir Amwynder (20%) / Iseldir Fflat Mosaig (52%) / Rhynglanw (15%) / Iseldir Tonnog Agored (6%) VS5: Tir Agored (20%) / Patrwm Caeau / Mosaig (6%) / Datblygiad (7%) / Dŵr (15%) / Cymysgedd (52%)	-	-	-		-
	Dylanwadau a wnaed gan ddyn	Mae'r ACT yn cael ei **dylanwadu gan ddatblygiad modern**, yn fwyaf nodedig drwy Faes Awyr RAF Y Fali, sy'n cael dylanwad cryf ar olwg y dirwedd i'r gogledd orllewin ac yn cyflwyno symudiad a lefel uchel o darfu o ran sŵn sy'n effeithio ar yr ardaloedd o'i gwmpas. Mae dylanwadau eraill a wnaed gan ddyn yn cynnwys pentref twristaidd Rhosneigr i'r de orllewin, llinell reilffordd Caer i Gaergybi, sawl safle carafanau statig a nifer o fastiau ffonau symudol. VS6: Clystyrau (22%) / Gwledig Gwasgaredig / Ffermydd (59%) / Dim Aneddiadau (15%) VS27: Heb ei asesu (100%)	↓	↓	↓		↓
	Patrwm Anheddiad	Mae'r anheddiad wedi ei **grynodi** o fewn ac o amgylch pentref arfordirol Rhosneigr i'r de orllewin. **Mewn mannau eraill mae'r ACT hon yn fwy anghyfannedd**. VS6: Clystyrau (22%) / Gwledig Gwasgaredig / Ffermydd (59%) / Dim Aneddiadau (15%)			↓		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
	Nenlinellau a Chefndiroedd	**Mae'r adeiladau sy'n gysylltiedig â Maes Awyr RAF Y Fali yn torri ar draws nenlinellau syml ac ysgubol yr ACT hon.**	↓		↓		
Gweledol	**Symudiad**	Mae presenoldeb traffig ar y rhwydwaith ffyrdd a Maes Awyr RAF Y Fali yn dod â symudiad aml i rannau o'r ACT. Mewn mannau eraill, mae symudiad yn llai aml. VS18: Cyson (7%) / Aml (15%) / Anaml (78%)	↓				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynyddion Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn **agored** yn yr ACT hon gyda golygfeydd pell dros yr arfordir i Benrhyn Llŷn i'r de. VS9: Agored (100%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr â'r mannau a ganlyn: ▪ Nifer o glystyrau ac eiddo gwasgaredig ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Rheilffordd Caer i Gaergybi ▪ Llwybr ymwelwyr yr A4080 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol ▪ Chwaraeon dŵr a chychod	↑	↑	↑		↑
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ AHNE Ynys Môn ▪ AHNE Llŷn	-		-		
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd heb ei asesu gan LANDMAP; serch hynny ystyrir bod y cyfanrwydd yn **gymedrol** ac			-		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		roedd yr asesiad ar y safle yn ystyried bod y cyflwr yn **weddol.** VS27: Heb ei asesu (100%) VS47: Cymedrol (76%) / Isel (22%)					
Esthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yn nodweddiadol arfarniad **Cymedrol - Uchel** yn LANDMAP gydag amlygrwydd lleol cryf VS25: Cryf (91%) / Cymedrol (7%) VS46: Uchel (15%) / Cymedrol (62%) / Isel (22%) VS47: Cymedrol (76%) / Isel (22%) VS48: Uchel (91%) / Cymedrol (7%)	-	-	-		-
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae **lefel uchel o ymwthiad** yn gysylltiedig â Maes Awyr RAF Y Fali, anheddiad a choridorau'r prif ffyrdd yn tynnu oddi wrth lonyddwch y dirwedd. VS24: Swnllyd (52%) / Swnllyd; Deniadol; Digysgod; Gwyllt; Arogl (15%) / Anneniadol; Bygythiol; Swnllyd; Digysgod (20%)	↓	↓	↓		↓

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Gwerth	**Gwerth Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud â'r dirwedd)	Mae rhannau gogledd orllewinol a de ddwyreiniol yr ACT hon yn AHNE Ynys Môn. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol yn cynnwys Man Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd yr ACT. Yn nodweddiadol arfarniad **Cymedrol - Uchel** yn LANDMAP efo rhai rhannau yn **Neilltuol**. VS50: Uchel (15%) / Cymedrol (62%) / Isel (22%) VS49: Uchel (51%) / Cymedrol (40%) / Isel (9%) LH45: Neilltuol (8%) / Uchel (26%) / Cymedrol (44%) / Isel (22%) LH42: Heb ei asesu (24%) / Uchel (50%) / Cymedrol (20%) / Isel (7%) GL31: Cymedrol (35%) / Isel (53%) GL33: Uchel (14%) / Cymedrol (39%) / Isel (49%)	-	-	-		-
	Gwerth Hanesyddol	Yn nodweddiadol arfarniad **Neilltuol** yn LANDMAP. HL38: Neilltuol (47%) / Uchel (34%) / Cymedrol (19%) HL35: Neilltuol (81%) / Cymedrol (19%) HL40: Neilltuol (81%) / Cymedrol (19%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[39] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol ar raddfa nodweddiadol ganolig hon yn cael ei dylanwadu'n drwm gan ddatblygiad modern, yn enwedig Maes Awyr RAF Y Fali sy'n dod â graddau o ymwthio i'r olygfa a symudiad i'r ardaloedd a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad ynni gwynt. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan nifer o dderbynyddion gweledol sensitif o fewn ac o amgylch yr ACT, gan gynnwys y rhai yng nghyrchfan twristiaid Rhosneigr. Mae golygfeydd helaeth ac agored i'w cael ar hyd yr arfordir ac mae gan yr ACT hon ryngwelededd cryf efo rhannau o AHNE Ynys Môn.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE. **Cymhwysiad Tirwedd** – yr holl ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac sydd y tu allan i'w ffiniau.
Datblygiad Gwaelodlin	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na gyda chaniatâd ar eu cyfer
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad ynni gwynt** (ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai berthyn yn dda i'r anheddiad / adeiladau presennol) Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro - fach sydd wedi'u lleoli'n dda** a allai fel arfer gynnwys **tyrbinau sengl** hyd at 20 m i frig y llafn.

[39] NODER: Mae'r ACT hon y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol ar raddfa nodweddiadol ganolig hon yn cael ei dylanwadu'n drwm gan ddatblygiad modern, yn enwedig Maes Awyr RAF Y Fali sy'n dod â graddau o ymwthio i'r olygfa yn yr ardal. Mae'r tirffurf gwastad i ffwrdd o'r arfordir yn cynnwys systemau caeau ar raddfa ganolig - fawr sydd wedi'u hamgáu gan gymysgedd o derfynau yn cynnwys gwrychoedd sy'n cyflwyno'r posibilrwydd o gynyddu uchder llystyfiant i ddarparu rhagor o gysgod yn lleol, a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad ynni solar PV ar raddfa cae. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb golygfeydd helaeth ac agored sydd i'w cael ar hyd yr arfordir a'r rhyngwelededd efo rhannau o AHNE Ynys Môn sydd (ynghyd â gwerth o ran treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd) yn cynyddu'r sensitifrwydd i ddatblygiad
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE. **Cymhwysiad Tirwedd** – yr holl ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac sydd y tu allan i'w ffiniau.
Datblygiad Gwaelodlin	Dim datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae yn bodoli na gyda chaniatâd ar eu cyfer
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae.** Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro sydd wedi'u lleoli'n dda,** yn enwedig lle gallai'r rhain berthyn i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.

LLINELL UWCHBEN 400 kV

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol ar raddfa nodweddiadol ganolig hon yn cael ei dylanwadu'n drwm gan ddatblygiad modern, yn enwedig Maes Awyr RAF Y Fali sy'n dod â graddau o ymwthio i'r olygfa a symudiad i'r ardal a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad llinell uwchben 400 kV. Y tu allan i brif gyrchfan Rhosneigr mae llai o bobl yn byw yn yr ACT, sy'n lleihau'r sensitifrwydd ymhellach. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan nifer o dderbynyddion gweledol sensitif o fewn ac o amgylch yr ACT, gan gynnwys y rhai yng nghyrchfan twristiaid Rhosneigr. Mae golygfeydd helaeth ac agored i'w cael ar hyd yr arfordir; mae gan yr ACT hon ryngwelededd cryf efo rhannau o AHNE Ynys Môn.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd** – pob ardal sydd o fewn neu sy'n cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE. **Cymhwysiad Tirwedd** – yr holl ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at olygfa a lleoliad yr AHNE ac sydd y tu allan i'w ffiniau.
Datblygiad Gwaelodlin	- Dim datblygiadau llinell uwchben 400 kV yn bodoli na gyda chaniatâd ar eu cyfer yn yr ACT hon - 1 rhan o linell uwchben peilon foltedd isel presennol yn dod ychydig i mewn i'r ACT yn y pen gogleddol cyn mynd o dan y ddaear yn Llanfihangel yn Nhowyn - 1 rhan o linell uwchben peilon foltedd isel presennol ychydig y tu allan i'r terfyn gogleddol i'r gorllewin o Lanfihangel yn Nhowyn
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad), yn nodweddiadol **nid oes cynhwysedd ar gyfer datblygiad llinell uwchben 400 kV.** Y tu allan i'r AHNE a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig ystyrir y gall fod **cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiad llinell uwchben 400 kV**; serch hynny, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli'n ofalus er mwyn osgoi effeithiau cynyddol sylweddol â datblygiadau fertigol a modern eraill sy'n bodoli'n barod.

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU


SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol agored ar raddfa nodweddiadol ganolig hon yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiad modern, yn enwedig Maes Awyr RAF Y Fali sy'n dod â graddau o ymwthio i'r olygfa: a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad. Mae nifer o barciau carafanau statig / cabanau gwyliau clystyrog i'r dwyrain o Rosneigr gyda rhai ar hyd yr arfordir, sy'n lleihau'r sensitifrwydd yn lleol. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso ychydig gan bresenoldeb golygfeydd helaeth ac agored sydd i'w cael ar hyd yr arfordir a'r rhyngwelededd efo rhannau o AHNE Ynys Môn sydd (ynghyd â gwerth o ran treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd) yn cynyddu'r sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod Tirwedd**
Datblygiad Gwaelodlin	- 1 **datblygiad bach iawn** - 1 **datblygiad bach** - 2 ddatblygiad **canolig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Er y gall sensitifrwydd is i ddatblygiadau parciau carafanau / cabanau gwyliau fod yn arwydd o gynhwysedd uwch yn yr ACT hon, fe all fod **cynhwysedd cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau parciau carafanau / cabanau gwyliau ac estyniadau pellach**. Mae hyn oherwydd maint cymharol fychan yr ACT ynghyd â nifer y datblygiadau modern sydd eisoes yn dylanwadu ar y dirwedd (yn cynnwys Maes Awyr RAF Y Fali a nifer o barciau carafanau statig / cabanau gwyliau mwy)**.**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiadau er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell Uwchben 400 kV	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Gwarchod harddwch naturiol AHNE Ynys Môn, ei nodweddion arbennig a'i lleoliad ehangach. Mae angen ystyried effaith datblygiad y tu mewn a'r tu allan i'r AHNE.	✓	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y nenlinell agored ac o fewn y llinellau gweld ar gyfer golygfeydd allweddol.	✓		✓	
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'r cefndir agosaf ato.	✓	✓	✓	✓
Sicrhau bod y datblygiadau wedi'u gwahanu'n glir oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol cyfunol / cynyddol yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion dynodedig a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill, a'r golygfeydd allweddol i mewn ac allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai â golygfeydd o dyrbinau a datblygiadau fertigol sy'n bodoli'n barod; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓		✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓	✓

G01 Gwastatir Arfordirol Bangor



1:100,000

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn cynnwys anheddiad mawr Bangor sy'n wynebu'r Afon Menai ac union arfordir Gwynedd tua'r gogledd ddwyrain pell.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd maint canolig, wedi'i anheddu
- Gwastatir arfordirol cul, wedi ei ffinio'n fewndirol gan Eryri
- Coridor cludiant / cyfathrebu
- Diddordeb treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Maint / Graddfa**	Tirwedd o **faint canolig** yn nodweddiadol. VS8: Canolig (99%) / Bach (1%)	-		-		
	Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Yn gyffredinol tirwedd ar raddfa **ganolig i fawr**, patrwm caeau **rheolaidd** gyda chymysgedd o ffiniau caeau. Rhai ardaloedd lleol o batrwm caeau afreolaidd cymhleth ar raddfa fach, yn enwedig gerllaw aneddiadau. VS8: Canolig (99%) / Bach (1%) VS7: Gwrych dan reolaeth (11%) / Cymysgedd (52%) / Dim (37%)		↓			
	Tirffurf	**Gwastatir arfordirol cul,** wedi ei ffinio'n fewndirol gan Eryri. VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir Adeiledig (11%) / Arfordirol (37%) (Traeth Lafan) / Iseldir Gwastad /Lefelau (11%) / Bryniau, Llwyfandir Is & Llethrau Sgarp (8%) / Iseldir Treigl (32%) VS4: Treigl / Tonnog (51%) / Lefelau (48%)	↓	↓	↓		↓
	Gorchudd Tir	Mae patrwm gorchudd tir o amgylch ardal **drefol** Bangor yn adlewyrchu dylanwad Stad y Penrhyn i	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	raddau helaeth - **parcdir ffurfiol a gynlluniwyd**, ffermydd stad ac aneddiadau gyda nifer o nentydd sy'n llifo i'r de-gogledd mewn dyffrynnoedd coediog bach. VS Lefel 3: Fferm Iseldirol Wastad Agored (11%) / Ochr Bryniau & Llethrau Sgarp (8%) / Rhynglanwol (37%) (Traeth Lafan) / Iseldir Treigl Mosaig (Brithwaith) (6%) / Iseldir Treigl Agored (27%) / Trefol (11%) VS5: Cae Patrwm / Mosaig / Clytwaith44%) / Cymysgedd (45%) (Traeth Lafan) / Datblygiad (11%)					
Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn	Mae'r ACT hon yn cael ei **dylanwadu gan ddatblygiad modern** ym Mangor ac isadeiledd / **seilwaith trafnidiaeth mawr**, gan gynnwys yr A55 a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru. Mae llinellau uwchben yn croesi rhan ddeheuol yr ACT ac mae nifer o fastiau ffôn symudol wedi eu crynhoi yn bennaf o amgylch Bangor. VS6: Dim aneddiadau (37%) (Traeth Lafan) / Clystyrog (35%) / Trefol (11%) / Gwasgaredig /Fferm Wledig (17%) VS27: Teg (46%) / Da (43%) ((Traeth Lafan yn bennaf) / Heb Ei Asesu (12%) (ardaloedd trefol)	↓	↓	↓		↓
Patrwm Anheddiad	Mae Bangor yn **anheddiad trefol** cryno cymharol fawr sy'n gorwedd yng ngogledd yr ACT hon. Mae'r aneddiadau mewn mannau eraill yn gyffredinol wedi eu **clystyru** mewn pentrefi bychain gydag ychydig o eiddo ynysig. VS6: Dim aneddiadau (37%) (Traeth Lafan) / Clystyrog (35%) / Trefol (11%) / Gwasgaredig /Fferm Wledig (17%)			↓		
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r nenlinellau a'r gosodiadau yn cael eu dominyddu gan y ddwy Bont Menai o'r 19eg Ganrif : Pont Grog Telford, a Phont Britannia Stephenson. Mae nenlinell **ar wahanol Masif Eryri yn gorwedd yn union i'r de** o'r ardal ac mae nodwedd **tirffurf nodedig** Mynydd Bangor yn eistedd yn ganolog o	-		-		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		fewn yr ACT ac yn cyfrannu'n fawr at osodiad Bangor. Mae'r **gorwelion / nenlinellau yn cael eu hatalnodi o bryd** i'w gilydd gan linellau uwchben a datblygiadau adeiledig modern presennol.					
Gweledol	**Symudiad**	**Mae symudiad traffig ar y ffyrdd** yn dod â symudiad aml ar draws yr ACT gyfan hon, yn enwedig i'r gogledd o amgylch Bangor ac ar hyd yr A55. Yn cyferbynnu hyn mae'r symudiad ar Draeth Lafan yn gyfyngedig i symudiad y llanw a'r dŵr. VS18: Cyson (11%) / Aml (52%) / Prin (37%) (Traeth Lafan)	↓				
	Gweledegdd, Golygfannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	**Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol agored o fewn yr ACT hon. Mae cysylltiadau gweledol cryf** gyda'r Afon Menai ac ymyl ddeheuol Ynys Môn ac mae'r ardal hon hefyd yn cael ei gor-edrych gan y Parc Cenedlaethol. VS9: Agored (88%) / Amgaeedig (12%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: • Eiddo niferus (yn bennaf o fewn Bangor ac aneddiadau clystyrog bach) • Llwybrau pellter hir gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru , Llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans Arfordir Gogledd Cymru (Llwybr RhBC 5), llwybr Lôn Las Ogwen (rhan o RhBC llwybr 82) a llwybr beicio Lôn Las Cymru (RhBC llwybr 8) • Atyniadau lleol fel Castell Penrhyn • Hawliau tramwy cyhoeddus • Llwybrau twristiaeth A487, A55 a A5 a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru • Y rhwydwaith ffyrdd lleol • Chwaraewyr chwaraeon dŵr a defnyddwyr cychod	↑	↑	↑		↑
	Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol	Mae'r rhain yn cynnwys: • Parc Cenedlaethol Eryri • Castell Biwmares - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd • AoHNE Ynys Môn • Arfordir Treftadaeth Y Gogarth	↑		↑		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	Pwysig (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	• Ymylon Gogledd - Orllewinol ATA Eryri • ATA Y Fenai • ATA Mynydd Bangor • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Penmon • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Gogledd Arllechwedd • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen • Parciau a Gerddi Cofrestredig					
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd yn gyffredinol yn **deg i dda**. VS27: Teg (46%) / Da (43%) (Traeth Lafan yn bennaf) / Heb Ei Asesu (12%) (ardaloedd trefol) VS47: Uchel (55%) / Canolig (18%) / Isel (27%)			-		
Esthetig, Canfyddiadol a thrwy Brofiad	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Gwerthusiad LANDMAP **Canolig-Uchel** VS25: Cymedrol (57%) / Cryf (43%) (Traeth Lafan) VS46: Uchel (50%) (Traeth Lafan yn bennaf) / Canolig (50%) VS47: Uchel (55%) / Canolig (18%) / Isel (27%) VS48: Uchel (43%) ((Traeth Lafan yn bennaf) / Canolig (57%)	-	-	-		-
	Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch	Mae'r aneddiadau a'r llwybrau trafnidiaeth mawr yn yr ACT hon yn rhoi **ymdeimlad o weithgarwch a symudiad** i lawer o'r ardal, a thrwy hynny yn lleihau'r ymdeimlad o bellter a llonyddwch (ac eithrio Traeth Lafan sy'n cael ei ystyried yn gymharol dawel). VS24: Wedi'i anheddu (27%) / Arogl; Llonydd; Digysgod; Pellennig / Anghysbell; Gwyllt; Ysbrydol (37%) (Traeth Lafan) / Arall (8%) / Deniadol (6%) / Wedi'i anheddu; Llonydd; Swnllyd; Digysgod; Arogl (11%) / Aneniadol; Swnllyd; Wedi'i gysgodi; Diogel; Wedi'i anheddu (11%)	↓	↓	↓		↓
Gwerth	**Gwerth y Dirwedd** (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	Mae ATA Mynydd Bangor a ddynodwyd yn rhanbarthol Bangor yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn yr ACT hon. Mae rhannau o Gyrion Gogledd-Orllewinol ATA Eryri a Stad y Faenol a'r ATA o Amgylch hefyd yn gorwedd o fewn yr ACT hon. Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans Arfordir Gogledd Cymru (Llwybr RhBC 5), llwybr Lôn Las Ogwen (section RhBC llwybr 82) a llwybr beicio Lôn Las Cymru (llwybr RhBC 8).	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		Mae Llwybr Arfordir Cymru yn croesi llawer o'r ACT. Gwerthusiad LANDMAP nodweddiadol **Canolig-Uchel** gyda rhai ardaloedd yn **Eithriadol.** VS50: Uchel (43%) ((Traeth Lafan yn bennaf) / Canolig (57%) VS49: Eithriadol (37%) ((Traeth Lafan yn bennaf) / Uchel (6%) / Canolig (57%) LH45: Uchel (41%) / Canolig (39%) / Isel (20%) LH42: Uchel (20%) / Canolig (67%) / Isel (13%) GL31: Eithriadol (55%) / Uchel (10%) / Cymedrol (35%) GL33: Uchel (65%) / Canolig (35%)					
	Gwerth Hanesyddol	Mae llawer o'r ATA hon yn gorwedd o fewn Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Gogledd Arllechwedd a Dyffryn Ogwen. Mae rhan fach o'r ACT yn gorwedd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dinorwig. Mae Parc a Gardd Gofrestredig hefyd yn bresennol. Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** HL38: Eithriadol (31%) / Uchel (37%) / Canolig (25%) / Heb Ei Asesu (7%) HL35: Eithriadol (55%) / Uchel (38%) / Cymedrol (7%) HL40: Eithriadol (57%) / Uchel (36%) / Cymedrol (6%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd a Strategaeth Gyffredinol y Dirwedd

Mae'r tablau canlynol yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau o ddatblygiad perthnasol[40] (Yn seiliedig ar y tabl gwerthuso sensitifrwydd yr ACT), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL

[40] NODER: Mae'r ACT yn disgyn y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes unrhyw strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd arfordirol hon ar raddfa ganolig a gwastad yn bennaf, ac fe wneir defnydd cymysg ohoni ac mewn mannau fe'i datblygwyd yn drwm, ac mae hynny'n lleihau sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiadau ynni gwynt. Mae hyn yn cael ei oresgyn drwy gyfrwng presenoldeb nenlinellau ar wahanol wedi'i gyfuno gyda nifer uchel o dderbynyddion gweledol, llwybrau beicio wedi eu dynodi'n genedlaethol a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol, ynghyd â lefel uchel o ryngweledeedd o nodweddion tirwedd a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol bwysig (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, AoHNE Ynys Môn a Chastell Biwmares - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd). Mae Traeth Lafan yn arbennig o dawel ac nid oes yma ddylanwadau a wnaed gan ddyn, felly ystyrir bod y sensitifrwydd yn yr ardal hon yn uwch.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Datblygiad Gwaedlodlin	1 ni. datblygiad **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (Ac eithrio datblygiadau ar raddfa ddomestig anaml iawn a ddylai gysylltu'n dda gydag anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod).

DATBLYGIADAU YNNI PV SOLAR AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol hon ar raddfa ganolig a gwastad yn bennaf, ac fe wneir defnydd cymysg ohoni ac mewn mannau fe'i datblygwyd yn drwm. Mae'r systemau caeau yn nodweddiadol ganolig o ran graddfa gyda phatrwm rheolaidd gyda chymysgedd o ffiniau caeau sy'n lleihau sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad ynni solar PV ar raddfa cae. Caiff hyn ei wrthbwyso gan bresenoldeb nifer uchel o dderbynyddion gweledol sensitif mewn rhai mannau, llwybrau beicio wedi eu dynodi'n genedlaethol a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol, ynghyd â lefel uchel o ryngwelededd o nodweddion tirwedd a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol bwysig (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, AoHNE Ynys Môn a Chastell Biwmares - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd). Mae Traeth Lafan yn arbennig o dawel ac nid oes yma ddylanwadau a wnaed gan ddyn, felly ystyrir bod y sensitifrwydd yn yr ardal hon yn uwch.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd –** pob ardal sydd o fewn yr ATAu a'r ardaloedd sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ATAu. **Lle yn y dirwedd** - ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r tu allan i'r ATAu.
Datblygiad Gwaedlodlin	1 ni. datblygiad **micro**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn pob ardal sy'n cyfrannu at osodiad y Parc Cenedlaethol, yn nodweddiadol **does dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV solar ar raddfa cae**. Fodd bynnag, y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ynni solar ar raddfa cae**. Yn nodweddiadol gall hyn gynnwys **datblygiadau micro ar raddfa fach, achlysurol, wedi eu lleoli'n dda**.

LLINELL 400 Kv UWCHBEN

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd arfordirol hon ar raddfa ganolig a gwastad yn bennaf, ac fe wneir defnydd cymysg ohoni ac mewn mannau fe'i datblygwyd yn drwm ac mae'n cynnwys llinell uwchben 400 kV bresennol, sy'n lleihau'r sensitifrwydd y dirwedd yn lleol. Mae hyn yn cael ei oresgyn gan bresenoldeb nifer uchel o dderbynyddion gweledol sensitif, llwybrau beicio wedi eu dynodi'n genedlaethol a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol, ynghyd â lefel uchel o ryngwelededd o nodweddion tirwedd a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, AoHNE Ynys Môn a Chastell Biwmares - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd). Mae Traeth Lafan yn arbennig o dawel ac nid oes yma ddylanwadau a wnaed gan ddyn, felly ystyrir bod y sensitifrwydd yn yr ardal hon yn uwch.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	

Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd –** pob ardal sydd o fewn yr ATAu a'r ardaloedd sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ATAu. **Lle yn y dirwedd** - ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r tu allan i'r ATAu.
Datblygiad Gwaedlodlin	- 1 ni. rhan o linell uwchben 400 kV bresennol yn fras gyfochrog gyda ffiniau'r ACT yn y de-orllewin - 1 ni. rhan o linell uwchben 132 kV sy'n rhedeg yn fras gyfochrog gyda'r llinell 400 kV uwchben tua de orllewin yr ACT
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn pob ardal sy'n cyfrannu at osodiad y Parc Cenedlaethol, does **dim lle / capasiti ar gyfer datblygiadau llinell 400 kV uwchben.** Fodd bynnag, y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod some **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygu llinellau 400 kV uwchben pellach**.

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig	Mae'r dirwedd arfordirol hon ar raddfa ganolig a gwastad yn bennaf, ac fe wneir defnydd cymysg ohoni ac mewn mannau fe'i datblygwyd yn drwm. Draw oddi wrth yr ardaloedd trefol mae'r systemau caeau yn nodweddiadol ganolig o ran graddfa â phatrwm rheolaidd gyda chymysgedd o ffiniau caeau; mae hyn ynghyd â'r ffaith bod y dirwedd yn gymharol goediog, yn lleihau sensitifrwydd y dirwedd i barciau carafanau statig / cabanau gwyliau ac estyniadau. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb nifer uchel o dderbynyddion gweledol sensitif, llwybrau beicio a ddynodwyd yn genedlaethol a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol ar y cyd gyda lefel uchel o ryngweledeedd gyda nodweddion tirwedd a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, AoHNE Ynys Môn a Chastell Biwmares - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd). Mae Traeth Lafan yn arbennig o dawel ac nid oes yma ddylanwadau a wnaed gan ddyn, felly ystyrir bod y sensitifrwydd yn yr ardal hon yn uwch.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	


Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd –** pob ardal sydd o fewn yr ATAu a'r ardaloedd sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ATAu. **Lle yn y dirwedd** - ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r tu allan i'r ATAu.
Datblygiad Gwaedlodlin	Dim datblygiadau parc carafanau / cabanau sefydlog presennol nac wedi eu cydsynio
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn pob ardal sy'n cyfrannu at osodiad y Parc Cenedlaethol yn nodweddiadol **nid oes dim capasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau statig / cabanau gwyliau. Fodd bynnag, y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau / cabanau gwyliau bach i fach iawn, wedi'u eu dylunio a'u lleoli'n dda.**

Canllaw

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni PV Solar ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Parciau Carafanau Statig
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o Barc Cenedlaethol Eryri, ei rinweddau arbennig a'i leoliad ehangach.	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiadau barchu a diogelu gosodiad y dirwedd a ddiffinnir yn y CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig / anghysbell a gwyllt.	✓	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o AoHNE Ynys Môn.	✓	✓	✓	✓
Cynnal y gosodiad a'r golygfeydd allweddol tuag at ac o Gastell Biwmares, a Chestyll a Waliau Tref Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd.	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiad ystyried a gwarchod nodweddion arbennig Cyrion / Ymylon Gogledd Orllewinol Ardal Tirwedd Arbennig Eryri.	✓	✓	✓	✓
Gwarchod tirffurf nodedig a gwerthfawr Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Bangor, ei nodweddion arbennig a'i leoliad ehangach. Ni ddylai lleoliad na dyluniad unrhyw ddatblygiad arfaethedig amharu ar y cymeriad annatblygedig - mae rhan helaeth o'r ardal hon yn cael ei werthfawrogi yn fawr am hynny.	✓	✓	✓	✓
Ni ddylai datblygiad amharu ar harddwch naturiol a lleoliad ehangach Traeth Lafan.	✓	✓	✓	✓
Dylid osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y gorwel / nenlinell agored, ar fryniau agored ac o fewn llinellau gweld golygfeydd allweddol , yn enwedig ar hyd Glannau'r Fenai.	✓		✓	
Dylid sicrhau bod y datblygiadau wedi cael eu gwahanu yn glir fel bod eu heffaith ar y ffordd y mae pobl yn dirnad y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes unrhyw ddylanwad diffiniol cyd-gasgliadol / o gynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn ymofyn ystyriaeth arbennig o ofalus i effeithiau cronnus datblygiadau presennol ac arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Cynnal uniondeb Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Gogledd Arllechwedd; Dyffryn Ogwen; and Dinorwig.	✓	✓	✓	✓
Diogelu gosodiadau nodweddion treftadaeth ddiwylliannol dynodedig pwysig ac eraill megis Parciau a Gerddi Cofrestredig (gan gynnwys yr un lle mae Castell y Penrhyn yn gorwedd); a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Sicrhau nad yw llwybrau mynediad newydd yn niweidio patrymau caeau hanesyddol ac ail-blannu unrhyw wrychoedd a effeithir arnynt gan waith adeiladu.	✓	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai sydd eisoes â golygfeydd o'r llinellau 400 kV a 132 kV uwchben. Wrth leoli datblygiad fertigol ychwanegol dylid anelu at osgoi effeithiau gweledol cronnus ychwanegol.	✓		✓	
Osgoi effeithiau cronnol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans [Arfordir Gogledd Cymru (Llwybr RhBC 5), Lôn Las Ogwen (rhan o RhBC llwybr 82) a Lôn Las Cymru (llwybr RhBC 8)], a golygfannau lleol gwerthfawr eraill - defnyddiwch ddelweddau i asesu golygfeydd dilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cronnus ar lwybr ffordd twristiaeth yr A55 A Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru .	✓	✓	✓	✓
Dylid lleoli datblygiadau llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓		✓
Dylid osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad o fewn llinellau gweld golygfannau allweddol, yn enwedig allan i'r môr.	✓	✓	✓	✓

G02 Llwyfandir Penisarwaun



1:50,000

Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Rhif y Drwydded Hawlfraint y Goron 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn cynnwys ardal gymharol fach i'r gogledd o Wynedd o Benisarwaun i Dregarth, tua 2.5 km yn fewndirol o'r Afon Menai.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd amaethyddol ar raddfa ganolig yn nodweddiadol
- Parth canolradd rhwng yr arfordir ac Eryri
- Coedlannau a phlanhigfeydd mawr
- Diddordeb treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
Tirwedd	**Maint / Graddfa**	Tirwedd o **faint canolig** yn nodweddiadol. VS8: Canolig (98%)	-		-		
	Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Yn gyffredinol graddfa **fach i ganolig, gyda phatrwm caeau rheolaidd** gyda ffiniau waliau cerrig yn bennaf. VS8: Canolig (98%) VS7: Cymysgedd (30%) / Waliau Cerrig (68%)		↑			
	Tirffurf	Yn nodweddiadol **tirffurf tonnog / treigl** gyda **llethrau serth** tua'r de. VS Lefel Dosbarthiad 2: Bryniau, Llwyfandir Is & Llethrau Sgarp (67%) / Dyffrynnoedd Iseldirol (6%) / Iseldir Treigl (25%) VS4: Bryniau / Dyffrynnoedd (73%) / Treigl / Tonnog (26%)	-	-	-		-
	Gorchudd Tir	**Mosaig** o borfa a choedlan gydag un blanhigfa gonifferaidd gymharol fawr. VS Lefel Dosbarthiad 3: Ochr Bryniau & Llethrau Sgarp (67%) / Dyffrynnoedd Iseldirol Agored (5%) /	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		Iseldir Treigl Agored (25%) VS5: Cae Patrwm / Mosaig / Clytwaith98%)					
	Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn	Mae'r dylanwadau a wnaed gan ddyn yn yr ACT hon yn cynnwys yr **A4244** a phatrwm o **aneddiadau clystyrog bach**. Mae **llinell uwchben 400** kV yn rhedeg ar gyfeiriadedd o'r de i'r gogledd ar draws rhan ganol yr ACT a llinell uwchben 132 kV yn rhedeg gyfochrog â rhan o'i ffin gogledd orllewinol. VS6: Clystyrog (92%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (7%) VS27: Teg (26%) / Heb Ei Asesu (74%)	-	-	-		-
	Patrwm Anheddiad	Yn nodweddiadol mae patrwm yr anheddiad yn **glystyrog**. VS6: Clystyrog (92%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (7%)			↓		
	Nenlinellau a Chefndiroedd	**Anaml** y mae'r ACT hon yn cael ei gweld fel **nodwedd nenlinellol** ac eithrio'r grib lle mae Bryngaer Dinas Dinorwig wedi'i lleoli. Mae'r nenlinellau yn cael eu **hatalnodi o bryd i'w gilydd gan linellau uwchben** a datblygiad adeiledig presennol. Mae gorwel Eryri nodedig yn gorwedd tua'r de.	-		-		
Gweledol	**Symudiad**	Traffig ar y ffyrdd yn dod â **symudiad aml** ar hyd yr A4244 ac mae yna rwydwaith cymharol ddwys o ffyrdd a lonydd lleol. VS18: Aml (98%)	↓				
	Gweledodd, Golygfannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol **agored** o fewn yr ACT hon. Mae cysylltiadau gweledol cryf gydag ACTau cyfagos yn enwedig tua'r de lle mae'r tirffurf yn codi yn gyflym ar hyd cyrion Eryri. VS9: Agored (97%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: • Eiddo • Llwybrau pellter hir gan gynnwys llwybr beicio Sustrans Lôn Las Ogwen (rhan o RhBC llwybr 82) • Ardaloedd Mynediad Agored • Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
		• Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
	Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: • Parc Cenedlaethol Eryri • Ymylon Gogledd - Orllewinol ATA Eryri • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dinorwig • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen • Bryngaerau	↑		↑		
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd yn gyffredinol yn **deg** VS27: Teg (26%) / Heb Ei Asesu (74%) VS47: Uchel (13%) / Isel (45%) / Canolig (42%)			-		
Esthetig, Canfyddiadol a thrwy Brofiad	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Mae'r gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **gymedrol** VS25: Cymedrol (100%) VS46: Cymedrol (90%) / Uchel (9%) VS47: Isel (25%) / Canolig (67%) / Uchel (7%) VS48: Cymedrol (98%)	-	-	-		-
	Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch	Mae presenoldeb aneddiadau, datblygiad modern a'r prif rwydweithiau ffyrdd yn yr ardal hon yn **lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch.** VS24: Wedi'i anheddu (26%) / Arall (67%) / Wedi'i anheddu; Swnllyd (5%)	↓	↓	↓		↓
Gwerth	**Gwerth y Dirwedd** (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	Mae rhan a ddynodwyd yn rhanbarthol o Gyrion / Ymylon Gogledd-Orllewin ATA Eryri yn gorwedd o fewn yr ACT hon. Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio genedlaethol Sustrans Lôn Las Ogwen (rhan o RhBC llwybr 82). Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **Ganolig - Uchel** gyda rhai ardaloedd yn **Eithriadol.** VS50: Cymedrol (98%) VS49: Cymedrol (98%) LH45: Isel (17%) / Canolig (47%) / Uchel (34%) LH42: Isel (45%) / Canolig (38%) / Uchel (17%) GL31: Uchel (79%) / Eithriadol (18%) GL33: Uchel (97%)	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r rhan fwyaf o'r ACT hon yn gorwedd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dinorwig a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaerau. Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** HL38: Uchel ($_{71\%}$) / Eithriadol ($_{28\%}$) HL35: Uchel ($_{32\%}$) / Eithriadol ($_{67\%}$) HL40: Uchel ($_{10\%}$) / Eithriadol ($_{90\%}$)	↑	↑	↑		↑

Math o ddatblygiad	Crynodeb o Sensitifrwydd	SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL
Ynni Gwynt		
Ynni PV Solar ar Raddfa Cae		
Llinell 400 kV uwchben		
Mastiau Symudol	Math o ddatblygiad ddim yn berthnasol i'r ACT hon	
Parciau Carafanau Statig / Cabanau & Estyniadau		

Sensitifrwydd a Strategaeth Gyffredinol y Dirwedd

Mae'r tablau canlynol yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau o ddatblygiad perthnasol[41] (Yn seiliedig ar y tabl gwerthuso sensitifrwydd yr ACT), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae symudiad aml a'r rhwydwaith ffyrdd prysur yn dod â symudiad a dylanwad a wnaed gan ddyn i'r ardal (gan gynnwys llinell uwchben 400 kV bresennol sy'n atalnodi'r dirwedd mewn mannau), a thrwy hynny leihau llonyddwch yn lleol a lleihau sensitifrwydd i ddatblygiad ynni gwynt. Caiff hyn ei oresgyn gan gysylltiadau gweledol cryf gydag Ardaloedd Cymeriad Tirwedd sensitif cyfagos (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol), patrwm gorchudd tir mosäig a gwerth hanesyddol yr ACT sy'n cynyddu'r sensitifrwydd.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn.
Datblygiad Gwaedlodlin	Dim datblygiadau ynni gwynt presennol nac wedi eu cydsynio
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACTau (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol **nid oes capasiti ar gyfer datbygiad ynni gwynt** (Ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn, a ddylai gysylltu'n dda gyda'r anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod) Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro** a allai yn nodweddiadol gynnwys **tyrbinau unigol** hyd at 20 m i frig y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronnus gyda datblygiadau modern fertigol sy'n bodoli eisoes.

DATBLYGIADAU YNNI PV SOLAR AR RADDFA CAE

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae presenoldeb llinellau uwchben, aneddiadau a'r rhwydwaith ffyrdd yn lleihau naws anghysbell a llonyddwch yr ACT ac yn lleol mae'n lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad ynni solar PV ar raddfa cae. Yn ogystal, mae'r planhigfeydd conifferaidd a blociau coetir tua'r gorllewin yn cynnig cyfleoedd sgrinio dichonol ar gyfer datblygiad o'r fath. Caiff hyn ei oresgyn gan y caeau bach i ganolig ynghyd ag amlygrwydd ffiniau caeau waliau cerrig a rhyngweledeedd gydag ardaloedd dyrchafedig y Parc Cenedlaethol a gwerth hanesyddol rhagorol yr ACT sy'n cynyddu sensitifrwydd.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	

[41] NODER: Mae'r ACT yn disgyn y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes unrhyw strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn.
Datblygiad Gwaedlodlin	Dim datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae presennol na chaniatâd wedi'i roi.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACTau (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), **yn nodweddiadol does dim capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV solar ar raddfa cae** (ac eithrio datblygiad cyfyngedig / anaml iawn ar raddfa micro a ddylai gysylltu'n dda gydag aneddiadau / adeiladau presennol). Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau micro i raddfa fach wedi eu lleoli'n dda.**

LLINELL 400 Kv UWCHBEN

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae'r patrwm anheddu a dylanwadau a wnaed gan ddyn yn y dirwedd hon yn cynnwys llinell uwchben 400 kV bresennol sy'n atalnodi'r nenlinell mewn mannau ac yn lleol yn lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad llinell 400 kV uwchben. Caiff hyn ei oresgyn gan gysylltiadau gweledol cryf gydag Ardaloedd Cymeriad Tirwedd cyfagos, (gan gynnwys y Parc Cenedlaethol), patrwm gorchudd tir mosäig a gwerth hanesyddol rhagorol yr ACT sy'n cynyddu sensitifrwydd.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn. Mae rhywfaint o **Newid yn y Dirwedd** yn cael ei dderbyn lle mae llinell 400 kV bresennol yn dylanwadu ar dirwedd yr ACT hon.
Datblygiad Gwaedlodlin	- 1 ni. rhan o linell uwchben 400 kV bresennol sy'n rhannu'r ACT - 1 ni. rhan o linell uwchben 132 kV tua'r gogledd
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACTau (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol **does dim lle / capasiti ar gyfer datblygiadau llinell 400 kV uwchben.** Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **peth capasiti ar gyfer datblygiad llinell 400 kV uwchben pellach**; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronnol sylweddol gyda datblygiadau modern fertigol presennol eraill gan gynnwys llinell uwchben 400 kV bresennol yn y gogledd.

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL


Canolig-Uchel	Mae presenoldeb llinellau uwchben, aneddiadau, y rhwydwaith ffyrdd a pharc carafanau statig / cabanau gwyliau presennol mewn ardal gymharol wastad tua gorllewin yr ACT i gyd yn lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a llonyddwch yn yr ACT ac maent yn lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiadau meysydd carafanau statig / cabanau gwyliau. Yn ogystal, mae planhigfeydd conifferaidd a blociau coetir tua'r gorllewin yn cynnig cyfleoedd sgrinio dichonol ar gyfer datblygiad o'r fath. Caiff hyn ei oresgyn gan y systemau caeau bach i ganolig ynghyd ag amlygrwydd waliau cerrig a chysylltiadau gweledol cryf gyda'r ACTau cyfagos, yn enwedig golygfannau manteisiol uchaf y Parc Cenedlaethol, sydd, ynghyd â gwerth hanesyddol rhagorol yr ACT yn cynyddu sensitifrwydd.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn.
Datblygiad Gwaedlodlin	- 1 ni. datblygiad **canolig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACTau (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu lleoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol **does dim capasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau statig / cabanau gwyliau.** Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach i fach iawn wedi eu lleoli yn sensitif ac wedi eu cynllunio'n dda,** a ddylai berthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.

Canllaw

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni PV Solar ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Parciau Carafannau
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o Barc Cenedlaethol Eryri, ei rinweddau arbennig a'i leoliad ehangach.	✓	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o AoHNE Ynys Môn.	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiad ystyried a gwarchod nodweddion arbennig Ymylon / Cyrion Gogledd Orllewinol Ardal Tirwedd Arbennig Eryri.	✓	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y nenlinell / gorwel agored, ar fryniau agored ac o fewn llinellau gweld golygfeydd allweddol.	✓		✓	
Dylid sicrhau bod y datblygiadau wedi cael eu gwahanu yn glir fel bod eu heffaith ar y ffordd y mae pobl yn dirnad y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes unrhyw ddylanwad diffiniol cyd-gasgliadol / o gynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn gofyn am roi ystyriaeth arbennig o ofalus i effeithiau cronnus datblygiadau presennol ac arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Cynnal uniondeb Dyffryn Ogwen a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig Dinorwig.	✓	✓	✓	✓
Diogelu gosodiadau nodweddion treftadaeth ddiwylliannol dynodedig pwysig ac eraill megis bryngaerau; a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Sicrhau nad yw llwybrau mynediad newydd yn niweidio patrymau caeau hanesyddol ac ail-blannu unrhyw wrychoedd a effeithir arnynt gan waith adeiladu.	✓	✓	✓	✓
Dylid ystyried golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn meddu ar olygfeydd o linellau uwchben 400 kV presennol. Dylai lleoli anelu at osgoi effeithiau gweledol cronnus.	✓		✓	
Osgoi effeithiau cronnol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys Sustrans – llwybr beicio Lôn Las Ogwen (rhan o RhBC llwybr 82), a golygfannau lleol gwerthfawr eraill - defnyddiwch ddelweddau i asesu golygfeydd dilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓	✓	✓	✓
Dylid lleoli datblygiadau llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓		✓

G03 Llanberis - Bethesda



1:75,000

Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Rhif y Drwydded Hawlfraint y Goron 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn cynnwys tirwedd ucheldirol yn nodweddiadol ar gyrion Eryri; sy'n rhedeg i'r de-orllewin o Waunfawr, i Fethesda yn y gogledd ddwyrain.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd ucheldirol o faint canolig i fawr, ar gyrion Eryri
- Ardaloedd helaeth o hen weithfeydd llechi
- Diddordeb treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabanau
Tirwedd	**Maint / Graddfa**	Tirwedd **ganolig i fawr** yn nodweddiadol. VS8: Canolig (61%) / Mawr (36%)	-		-		
	Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Mae'r systemau caeau presennol (rhwng yr aneddiadau, gweithfeydd llechi a'r ucheldiroedd agored), yn nodweddiadol yn arddangos patrymau caeau cymharol reolaidd o faint **bach i ganolig**, wedi eu ffinio gan **waliau cerrig** yn bennaf. VS8: Canolig (61%) / Mawr (36%) VS7: Cymysgedd (19%) / Dim (40%) / Waliau Cerrig (39%)		↑			
	Tirffurf	tirwedd ucheldirol ymylol yn cynnwys **bryniau uchel a dyffrynnoedd** gydag ardaloedd mawr o dir wedi cael ei darfu (aflonyddu) (hen weithfeydd llechi). VS Lefel Dosbarthiad 2:Tir Datblygedig Na Fu Adeiladu Arno (12%) / Ucheldir / Llwyfandir Digysgod (28%) / Bryniau, Llwyfandir Is & Llethrau Sgarp (45%) / Dyffrynnoedd Iseldirol (5%) VS4: Bryniau Uchel / Mynyddoedd (28%) / Bryniau / Dyffrynnoedd (50%) / Wedi'i aflonyddu(12%) / Treigl / Tonnog (9%)	-	-	-		-
	Gorchudd Tir	Rhwydwaith o **gaeau pori, coed gwasgaredig a phrysgwydd** ar hyd y llethrau isaf. **Ardaloedd pori**	-	-	-		-

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabanau
	ucheldirol o laswellt garw a brigiadau creigiog gwasgaredig ar yr ymyl ddwyreiniol ger y Parc Cenedlaethol, yn gymysg ag ardaloedd helaeth o chwareli llechi diffaith. VS Lefel Dosbarthiad 3: Tir Diffaith / Gwastraff (8%) / Ochr Bryniau & Llethrau Sgarp (45%) / Iseldir Treigl Agored (13%) / Pori Ucheldirol (28%) VS5: Cae Patrwm / Mosaig / Clytwaith46%) / Cymysgedd (18%) / Tir Agored (28%)					
Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn	Y dylanwad dyn mwyaf nodedig ar y tirlun yw'r **chwareli llechi a thomenni gwastraff a adawyd (segur).** Mae'r patrwm anheddu wedi'i glystyru yn nodweddiadol. Mae'r ardaloedd o dir uwch lle mae pobl wedi setlo yn llawer mwy gwasgaredig. Mae datblygiad yn cynnwys **llinell uwchben 400 kV** sy'n rhedeg gyfochrog gyda rhan o'r terfyn gogledd orllewinol, mae nifer o **fastiau ffonau symudol** a nifer o barciau carafanau statig / cabanau gwyliau. VS6: Clystyrog (47%) / Dim aneddiadau (16%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (33%) VS27: Teg (9%) / Heb Ei Asesu (91%)	↓	↓	↓		↓
Patrwm Anheddiad	Mae'r patrwm anheddiad yn nodweddiadol **glystyrog mewn pentrefi**, yn aml cymunedau chwareli sy'n cael eu crynhoi yn y dyffrynnoedd. Mae'r ardaloedd o dir uwch yn fwy gwasgaredig o lawer o ran lle mae pobl wedi setlo. VS6: Clystyrog (47%) / Dim aneddiadau (16%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (33%)			↓		
Nenlinellau a Chefndiroedd	**Mae nenlinellau / gorwelion amlwg a nodedig Masif Yr Wyddfa yn gefndir dramatig i'r ACT hon er bod peilonau sy'n gysylltiedig â llinell uwchben 400 kV yn atalnodi'r gorwel mewn rhai mannau.**	-		-		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabanau
Gweledol	**Symudiad**	Mae symudiad yn **aml** o fewn y setliadau ac ar hyd y rhwydweithiau ffyrdd cysylltiedig; fodd bynnag mae'r ardaloedd **o dir uwch yn gymharol lonydd.** VS18: Achlysurol (8%) / Anaml (32%) / Aml (52%) / Cyson (8%)	-				
	Gweledeedd, Golygfannau Allweddol, Golygfeydd a Derbynyddion Nodweddiadol (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd yn nodweddiadol **agored ac amlwg** o fewn yr ACT hon. Mae'r ardal yn gorwedd yn union gyfagos i'r ac yn cael ei goredrych gan y Parc Cenedlaethol. VS9: Amgaeedig (9%) / Agored (50%) / Digysgod (41%) Mae'r derbynyddion nodweddiadol yn cynnwys deiliaid, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: • Eiddo • Ardaloedd Mynediad Agored • Yr Wyddfa (gan gynnwys cerddwyr a defnyddwyr Rheilffordd Yr Wyddfa) • Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus (gan gynnwys Rheilffordd Llyn Llanberis, Rheilffordd yr Wyddfa, Parc Gwledig Padarn a'r Mynydd Gwefru a Chanolfan Ymwelwyr Gorsaf Bŵer Dinorwig ac Amgueddfa Lechi Cymru) • Llwybrau pellter hir gan gynnwys llwybr beicio Sustrans Lôn Las Ogwen o Fangor i Abergwaun (llwybr RhBC 82) allwybr beicio rhanbarthol Sustrans Lon Gwyrfai (RR 61) • Llwybrau twristiaeth A5 a A4086 a rhan fach o Reilffordd Ucheldir Cymru • Y rhwydwaith ffyrdd lleol	↑	↑	↑		↑
	Golygfeydd i ac o Nodweddion Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol Pwysig (O fewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: • Parc Cenedlaethol Eryri (gan gynnwys Yr Wyddfa ei hun) • Castell Biwmares - Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd (golygfeydd pell) • AoHNE Ynys Môn • Ymylon / Cyrion Gogledd - Orllewinol ATA Eryri • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dinorwig • Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen	↑		↑		

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabanau
		• Bryngaerau • Parc a Gardd Gofrestredig • Ardaloedd Mynediad Agored • Ardal o Harddwch Naturiol y CDLlE (Polisi Datblygu 2)					
	Cyflwr	Mae cyflwr y dirwedd yn gyffredinol yn **deg** VS27: Teg (9%) / Heb Ei Asesu (91%) VS47: Isel (5%) / Canolig (48%) / Uchel (40%) / Eithriadol (8%)			-		
Esthetig, Canfyddiadol a thrwy Brofiad	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **Ganolig - Uchel** gyda rhai ardaloedd yn **Eithriadol.** VS25: Cymedrol (91%) / Cryf (9%) VS46: Cymedrol (52%) / Uchel (38%) / Eithriadol (8%) VS47: Isel (5%) / Canolig (48%) / Uchel (40%) / Eithriadol (8%) VS48: Cymedrol (54%) / Uchel (38%) / Eithriadol (8%)	-	-	-		-
	Pellenigrwydd / Anghysbell / Llonyddwch	Mae'r **naws anghysbell a'r llonyddwch yn amrywio ar draws yr ardal**. Mae'r rhinweddau hyn yn cael eu lleihau yn ac o gwmpas yr aneddiadau, hen chwareli llechi ac ar hyd coridorau ffyrdd yr A4086 a'r A5. Mewn mannau eraill ceir rhai pocedi ar wahanol o bellenigrwydd a llonyddwch. VS24: Digysgod; Deniadol; Llonydd; Anghysbell / Pellennig (21%) / Digysgod; Deniadol; Llonydd; Pellennig / Anghysbell; Gwyllt; Ysbrydol (8%) / Arall (57%)	-	-	-		-
Gwerth	**Gwerth y Dirwedd** (gan gynnwys nodweddion perthnasol i'r dirwedd)	Mae'r ACT yn ffinio'r Parc Cenedlaethol. Mae rhannau o gyrion neu ymylon Gogledd-Orllewin Eryri a ddynodwyd yn rhanbarthol yn gorwedd o fewn yr ACT hon. Mae'r nodweddion a ddynodwyd yn genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr ffordd feicio genedlaethol Sustrans Lôn Las Ogwen o Fangor i Abergwaun (llwybr RhBC 82). Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **Ganolig - Uchel** gyda rhai ardaloedd yn **Eithriadol.**	↑	↑	↑		↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafannau Statig / Cabanau
		VS50: Cymedrol (53%) / Uchel (37%) / Eithriadol (8%) VS49: Cymedrol (64%) / Uchel (25%) / Eithriadol (11%) LH45: Isel (15%) / Canolig (32%) / Uchel (35%) / Eithriadol (18%) LH42: Isel (6%) / Canolig (67%) / Uchel (23%) / GL31: Cymedrol (26%) / Uchel (41%) / Eithriadol (33%) GL33: Cymedrol (26%) / Uchel (41%) / Eithriadol ($_{33\%}$)					
	Gwerth Hanesyddol	Mae llawer o'r ATA hon yn gorwedd o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dinorwig ac mae oddeutu traean o'r ardal o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen. Mae Parc a Gardd Gofrestredig hefyd yn bresennol. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaerau. Gwerthusiad LANDMAP yn nodweddiadol **Uchel-Eithriadol.** HL38: Uchel ($_{71\%}$) / Eithriadol (28%) HL35: Uchel (32%) / Eithriadol (67%) HL40: Uchel (10%) / Eithriadol (90%)	↑	↑	↑		↑

Sensitifrwydd a Strategaeth Gyffredinol y Dirwedd

Mae'r tablau canlynol yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau o ddatblygiad perthnasol[42] (Yn seiliedig ar y tabl gwerthuso sensitifrwydd yr ACT), ynghyd â'r strategaeth tirwedd arfaethedig:

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd ucheldirol ymylol hon ar raddfa fawr yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiad o fewn aneddiadau wedi'u clystyru a chwareli a thomenni segur sydd yn lleol yn lleihau sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni gwynt. Mae symudiad aml mewn rhai ardaloedd penodol yn lleihau'r sensitifrwydd. Caiff hyn ei orbwyso gan nifer o dderbynyddion sensitif, golygfeydd agored a digysgod a chysylltiadau a rhyngwelededd cryf yr ardal gyda'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys masif Yr Wyddfa sy'n cynyddu'r sensitifrwydd i ddatblygiad ynni gwynt. Mae sensitifrwydd y dirwedd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod llawer o'r ACT wedi cael ei dynodi'n rhanbarthol fel Ardal Tirwedd Arbennig a bod yr ardal gyfan bron yn gorwedd o fewn Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. Lle yn y dirwedd – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn.
Datblygiad Gwaedlodlin	Dim datblygiadau ynni gwynt presennol nac wedi eu cydsynio
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACT (a phob ardal sy'n cyfrannu at ei leoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol **does dim capasiti ar gyfer datblygiad ynni gwynt** (Ac eithrio datblygiad ar raddfa ddomestig anaml iawn, a ddylai gysylltu'n dda gyda'r anheddiad / adeiladau sy'n bodoli'n barod) Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro** a allai yn nodweddiadol gynnwys **tyrbinau unigol** hyd at 20 m i frig y llafn; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronnus gyda datblygiadau modern fertigol sy'n bodoli eisoes.

[42] NODER: Mae'r ACT yn disgyn y tu allan i ardal yr astudiaeth ar gyfer mastiau ffonau symudol, felly nid oes unrhyw strategaeth ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig - Uchel	Mae'r dirwedd ucheldirol ymylol hon ar raddfa ganolig i fawr yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiad o fewn aneddiadau wedi'u clystyru a chwareli a thomenni segur sydd yn lleol yn lleihau sensitifrwydd i ddatblygiad ynni PV solar ar raddfa cae. Caiff hyn ei oresgyn o ganlyniad i'r caeau bach i ganolig yma ac acw gyda ffiniau caeau waliau cerrig yn bennaf sy'n cynyddu'r sensitifrwydd i ddatblygiad ynni solar PV ar raddfa cae. Mae sensitifrwydd y dirwedd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod llawer o'r ACT wedi cael ei dynodi'n rhanbarthol fel Ardal Tirwedd Arbennig a bod yr ardal gyfan bron yn gorwedd o fewn Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn.
Datblygiad Gwaedlodlin	Dim datblygiadau ynni solar PV ar raddfa cae presennol na chaniatâd wedi'i roi ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACT (a phob ardal sy'n cyfrannu at ei leoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn **nodweddiadol nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau ynni PV ar raddfa cae.** Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ar raddfa micro wedi eu lleoli'n dda.**

LLINELL 400 Kv UWCHBEN

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL	
Canolig - Uchel	Mae'r dirwedd ucheldirol ymylol hon ar raddfa fawr yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiad o fewn aneddiadau wedi'u clystyru a chwareli a thomenni segur sydd yn lleol yn lleihau sensitifrwydd i ddatblygiad llinell uwchben 400kv. Caiff hyn ei orbwyso gan nifer o dderbynyddion sensitif, golygfeydd agored a digysgod a chysylltiadau a rhyngweledd cryf yr ardal gyda'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys Masif Yr Wyddfa. Mae sensitifrwydd y dirwedd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod llawer o'r ACT wedi cael ei dynodi'n rhanbarthol fel Ardal Tirwedd Arbennig a bod yr ardal gyfan bron yn gorwedd o fewn Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn. Mae rhywfaint o Newid yn y Dirwedd yn cael ei dderbyn lle mae llinell 400 kV bresennol yn dylanwadu ar y dirwedd i'r gorllewin o'r ACT hon.
Datblygiad Gwaedlodlin	- 1 ni. rhan o linell uwchben 400 kV bresennol tua'r gorllewin - **1 ni. rhan o linell uwchben 400 kV bresennol tua'r gogledd ddwyrain pell** - **1 ni. rhan o linell uwchben 132 kV yn union y tu allan i'r ffin tua'r gogledd ddwyrain.**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACT (a phob ardal sy'n cyfrannu at ei leoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol **does dim lle / capasiti ar gyfer datblygiadau llinell 400 kV uwchben.** Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **capasiti cyfyngedig ar gyfer datblygu llinellau 400 kV uwchben pellach**; Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatblygiad newydd gael ei leoli yn ofalus er mwyn osgoi effeithiau cronnol sylweddol gyda datblygiadau modern fertigol presennol eraill gan gynnwys llinell uwchben 400 kV bresennol yn y gorllewin.

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD YN GYFFREDINOL

Canolig - Uchel	Mae'r dirwedd ucheldirol ymylol hon ar raddfa fawr yn cael ei dylanwadu gan ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â hen chwareli a thomenni a'r hyn sydd o fewn aneddiadau wedi'u clystyru gan gynnwys un neu ddau o barciau carafanau statig / cabanau gwyliau mawr yn agos at y prif ffyrdd ar hyd y ffin orllewinol. Er bod y rhain yn cael eu sgrinio'n gymharol dda gan lystyfiant, maent yn lleol yn lleihau sensitifrwydd i ddatblygiadau pellach ac estyniadau. Mae'r planhigfeydd conifferaidd a blociau coetiroedd mewn mannau eraill i'r gogledd a'r gorllewin hefyd yn cynnig cyfleoedd sgrinio dichonol ar gyfer datblygiad o'r fath. Mae'r sensitifrwydd gostyngedig yn cael ei oresgyn o ganlyniad i'r caeau bach i ganolig gyda nifer yr achosion o ffiniau caeau waliau gerrig sy'n cynyddu'r sensitifrwydd ynghyd â lefel uchel o ryngwelededd gydag ardaloedd dyrchafedig o'r Parc Cenedlaethol. Mae sensitifrwydd y dirwedd hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod llawer o'r ACT wedi cael ei dynodi'n rhanbarthol fel Ardal Tirwedd Arbennig a bod yr ardal gyfan bron yn gorwedd o fewn Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n bwysig yn genedlaethol.
STRATEGAETH Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd – pob** un o'r ardaloedd sy'n gorwedd yr ACTau neu sy'n cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau. **Lle yn y dirwedd** – ardaloedd nad ydynt yn cyfrannu at ragolygon a gosodiad y Parc Cenedlaethol a'r ACTau ac maent y tu allan i'r ardaloedd hyn.
Datblygiad Gwaedlodlin	- 1 ni. datblygiad **mawr iawn** - 1 ni. datblygiad **bach iawn**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ACT (a phob ardal sy'n cyfrannu at ei leoliad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), yn nodweddiadol **typically dim capasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau statig / cabanau gwyliau.** Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach i fach iawn wedi eu lleoli yn sensitif ac wedi eu cynllunio'n dda,** a ddylai berthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.

Canllaw

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni PV Solar ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Parciau Carafanau Statig
Gwarchod harddwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei rinweddau arbennig a'i leoliad ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu ymdeimlad o fod yn ymwthio / o lechfeddiannu annerbyniol, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol / gronnol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiadau barchu a diogelu gosodiad y dirwedd a ddiffinnir yn y CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig / anghysbell a gwyllt.	✓	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o AoHNE Ynys Môn.			✓	
Ystyried effeithiau'r datblygiad ar olygfeydd tuag at ac o Gastell Biwmares, a Chestyll a Waliau Tref Brenin Edward yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd.			✓	
Dylai datblygiad ystyried a gwarchod nodweddion arbennig Ymylon / Cyrion Gogledd Orllewinol Ardal Tirwedd Arbennig Eryri.	✓	✓	✓	✓
Dylid osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y gorwel / nenlinell agored, ar fryniau agored ac o fewn llinellau gweld golygfannau allweddol, yn enwedig tuag at ucheldiroedd y Parc Cenedlaethol.	✓		✓	
Dylid sicrhau bod y datblygiadau wedi cael eu gwahanu yn glir fel bod eu heffaith ar y ffordd y mae pobl yn dirnad y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes unrhyw ddylanwad diffiniol cyd-gasgliadol / o gynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn gofyn am roi ystyriaeth arbennig o ofalus i effeithiau cronnus datblygiadau presennol ac arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Cynnal uniondeb Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen; a Dinorwig.	✓	✓	✓	✓
Dylid gwarchod y gosodiadau dynodedig a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Sicrhau nad yw llwybrau mynediad newydd yn niweidio patrymau caeau hanesyddol ac ail-blannu unrhyw wrychoedd a effeithir arnynt gan waith adeiladu.	✓	✓	✓	✓
Dylid ystyried golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn meddu ar olygfeydd o linellau uwchben 400 kV presennol. Dylai lleoli datblygiad fertigol ychwanegol anelu at osgoi effeithiau gweledol cronnus.	✓		✓	
Osgoi effeithiau cronnol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Ogwen o Fangor i Abergwaun (llwybr RhBC 82) a llwybr beicio rhanbarthol Sustrans Lon Gwyrfai (RR 61) a golygfannau lleol gwerthfawr eraill - defnyddiwch ddelweddau i asesu golygfeydd dilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓	✓	✓	✓
Dylid ystyried golygfeydd o dderbynyddion hamdden, yn enwedig y derbynyddion mwy sensitif megis ymwelwyr â'r Wyddfa sy'n defnyddio Rheilffordd Yr Wyddfa.				
Osgoi effeithiau cronnus ar lwybr ffordd twristiaeth yr A4086 Rheilffordd Ucheldir Cymru.	✓	✓	✓	✓
Dylid lleoli datblygiadau llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓		✓

Dylid osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad o fewn llinellau gweld golygfannau allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓	✓
Dylid cynnal rhyngweledd rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar ben bryniau.	✓		✓	

G04 Llwyfandir & Arfordir Caernarfon



1:100,000

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon wedi ei lleoli i'r gogledd o Wynedd ac mae'n cynnwys tref hanesyddol Caernarfon. Mae'r ardal yn ymestyn i lawr o Bentir i arfordir Bae Caernarfon ac ymylon /cyrion ucheldirol y Parc Cenedlaethol.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd nodweddiadol o faint canolig ar ymylon yr arfordir
- Iseldir treigl
- Diddordeb treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos y gwerthusiad Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hwn yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi cael eu penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad gwahanol.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Maint / Graddfa**	Tirwedd o **faint canolig** yn nodweddiadol. VS8: Canolig (81%) / Mawr (18%)	-		-		
	Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Mae patrwm a maint y caeau yn **amrywio** ar draws yr ACT hon. **Caeau ar raddfa fach** sydd yma yn bennaf, a hynny mewn patrwm o gaeau rheolaidd ac afreolaidd gyda **chymysgedd** o fathau o ffiniau mewndirol ac tua'r dwyrain o'r A487 gyda waliau cerrig yn dod yn fwy cyffredin tuag at ardaloedd yr ucheldir. Mewn mannau eraill, ar hyd yr arfordir yn y gorllewin, mae maint / graddfa'r caeau yn **ganolig i fawr** yn gyffredinol, maent yn fwy **rheolaidd** o ran patrwm ac yn cael eu ffinio gan wrychoedd isel a waliau cerrig. Mae ardaloedd o ucheldir agored ar raddfa fawr yn gorwedd tua'r dwyrain. VS8: Canolig (81%) / Mawr (18%) VS7: Cymysgedd (65%) / Dim (9%) / Waliau Cerrig (22%)		-			
	Tirffurf	Mae'r tirffurf **treigl** yn cael ei nodweddu gan **iseldir** sy'n ymestyn tuag at ymylon ucheldir Moel Tryfan a Mynydd y Cilgwyn. VS Lefel Dosbarthiad 2: Tir Adeiledig (5%) / Ucheldir /	-	-	-		-

Atgynhyrchwyd o fap Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Rhif y Drwydded Hawlfraint y Goron 100023387

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i bob un o'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Datblygiadau Solar PV ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Mastiau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	Llwyfandir Digysgod (5%) / Iseldir Gwastad /Lefelau (12%) / Bryniau, Llwyfandir Is & Llethrau Sgarp (20%) / Dyffrynnoedd Iseldirol (6%) / Iseldir Treigl (48%) VS4: Bryniau / Dyffrynnoedd (24%) / Uchel; Bryniau;/Mynyddoedd (5%) / Lefelau (13%) / Treigl / Tonnog (55%)					
Gorchudd Tir	**Gorchudd tir amaethyddol** yn bennaf sy'n cynnwys **brithwaith** o gaeau gyda rhai planhigfeydd conifferaidd mawr a choetiroedd llydanddail tuag at ganol yr ardal ac ucheldiroedd agored tua'r dwyrain. VS Lefel Dosbarthiad 3: Fferm Iseldirol Wastad Agored (12%) / Ochr Bryniau & Llethrau Sgarp (20%) / Iseldir Treigl Agored (44%) / Pori Ucheldirol (5%) VS5: Datblygiad (5%) / Cae Patrwm / Mosaig / Clytwaith84%) / Cymysgedd (5%) / Tir Agored (6%)	↑	↑	↑		↑
Dylanwadau a Wnaed gan Ddyn	**Patrwm anheddu clystyrog yn amrywio o grwpiau bach o eiddo i drefi mawr.** Mae'r dirwedd yn cael ei dylanwadu gan yr amgylchedd adeiledig yng Nghaernarfon, sydd â chraidd tref hanesyddol fawr gyda chymysgedd o ymylon o aneddiadau mwy modern. Mae datblygiadau modern eraill yn cynnwys **chwareli llechi a thomenni gwastraff a adawyd.** Mae dwy ran o **linell uwchben 400 kV**, ac un rhan o linell uwchben 132 kV wedi eu lleoli i'r de a'r dwyrain. Mae yna nifer o barciau carafanau sefydlog wedi eu lleoli yn bennaf ar hyd y ffin orllewinol. Mae yna hefyd nifer fawr o fastiau ffonau symudol, llawer ohonynt wedi eu crynhoi o gwmpas rhai **tyrbinau gwynt** gweithredol Caernarfon. VS6: Clystyrog (62%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (29%) VS27: Teg (48%) / Heb Ei Asesu (48%)	↓	↓	↓		↓
Patrwm Anheddiad	Patrwm wedi'i anheddu ac yn nodweddiadol **glystyrog**. VS6: Clystyrog (62%) / Gwasgaredig Gwledig / Fferm (29%)			↓		
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r ddwy bont ar draws y Fenai o'r 19eg ganrif; Pont Grog Telford, a Phont Britannia Stephenson yn creu **gosodiadau a nenlinellau ar wahanol** tua'r	-		-		

Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	O fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at ei leoliad a lleoliad y Parc Cenedlaethol, STyB ac AoHNEau), yn nodweddiadol **does dim capasiti ar gyfer datblygiadau parc carafanau statig / cabanau gwyliau**. Y tu allan i'r ardaloedd hyn fe all fod **rhywfaint o gapasiti ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach i fach iawn wedi eu lleoli yn sensitif ac wedi eu cynllunio'n dda,** a ddylai berthnasu'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.

Canllaw

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn sicrhau bod yna gyn lleied ag y bo modd o effeithiau andwyol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Ynni PV Solar ar Raddfa Cae	Llinell 400 kV uwchben	Parciau Carafannau
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o Barc Cenedlaethol Eryri, ei rinweddau arbennig a'i leoliad ehangach.	✓	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd i ac o AoHNE Ynys Môn.	✓	✓	✓	✓
Cynnal y gosodiad a'r golygfeydd allweddol tuag at ac o Gastell Caernarfon, a Chestyll a Waliau Tref Brenin Edwad yn Safle Treftadaeth y Byd Gwynedd	✓	✓	✓	✓
Dylai datblygiad ystyried a gwarchod rhinweddau arbennig Bae'r Foryd; Stad y Faenol a'r hyn sydd o'i Gwmpas, Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	✓	✓	✓	✓
Dyld osgoi lleoli datblygiadau fertigol ar y gorwel / nenlinell agored, ar fryniau agored ac o fewn llinellau gweld golygfeydd allweddol, yn enwedig ar hyd Y Fenai ac allan i'r môr.	✓		✓	
Ni ddylai datblygiad amharu ar leoliad nodweddion a wnaed gan ddyn nodedig megis Pont Menai, Pont Britannia a Pier Bangor.	✓		✓	
Dylid sicrhau bod y datblygiadau wedi cael eu gwahanu yn glir fel bod eu heffaith ar y ffordd y mae pobl yn dirnad y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes unrhyw ddylanwad diffiniol cyd-gasgliadol / o gynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn gofyn am roi ystyriaeth arbennig o ofalus i effeithiau cronnus datblygiadau presennol ac arfaethedig.	✓	✓	✓	✓
Cynnal uniondeb Dyffryn Ogwen; a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig Dinorwig.	✓	✓	✓	✓
Diogelu gosodiadau nodweddion treftadaeth ddiwylliannol dynodedig pwysig ac eraill megis Dinas Dinlle (Bryngaer Oes yr Haearn) a Pharciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i ac o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓	✓
Sicrhau nad yw llwybrau mynediad newydd yn niweidio patrymau caeau hanesyddol ac ail-blannu unrhyw wrychoedd a effeithir arnynt gan waith adeiladu.	✓	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd o dderbynyddion preswyl, yn enwedig y rhai sydd eisoes â golygfeydd o'r llinellau 400 kV a 132 kV uwchben. Wrth leoli datblygiad fertigol ychwanegol dylid anelu at osgoi effeithiau gweledol cronnus ychwanegol.	✓		✓	
Osgoi effeithiau cronnol ar lwybrau poblogaidd gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru (llwybr RhBC 8) a'r llwybr o Reading i Gaergybi (llwybrau RhBC 5), a golygfannau lleol gwerthfawr eraill - defnyddiwch ddelweddau i asesu golygfeydd dilyniannol (gan gynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad presennol).	✓	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cronnus ar lwybr twristiaeth yr A487 Rheilffordd Ucheldir Cymru.	✓	✓	✓	✓
Dylid lleoli datblygiadau llai yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes er mwyn osgoi gormodedd o ddatblygiad o fewn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓		✓

S01 Ucheldir y Gogledd



1:100,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg
Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg

Lleoliad a Maint

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) yma'n gyfres o gopaon sy'n estyn o Fethesda yn y gorllewin i ddyffryn Conwy yn y dwyrain. Mae'r ffin yn estyn hyd at gyrion Conwy yn y gogledd, lle mae'r ACT yma'n gefndir agos a dramatig i'r arfordir.

Nodweddion Allweddol

- *Graddfa anferth, tirwedd ddigysgod*
- *Tirwedd ucheldir efo cyfres o gopaon*
- *Diddordeb o ran treftadaeth ddiwylliannol*

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	*Sensitifrwydd Uwch*	↑	*Sensitifrwydd Canolig*	-	*Sensitifrwydd Isel*	↓	*Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys*	

Meini Prawf Sensitifrwydd		*Nodweddion yr ACT*	*Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad*				
			Ynni Gwynt	***Ynni Haul PV arRaddfa Cae***	***Lein Uwchben 400 kV***	***Mastiau Ffonau Symudol***	***Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau***
Tirwedd	***Graddfa***	*Yn nodweddiadol yn dirwedd ar* ***raddfa anferth****.* *VS8: Canolig (23%)/ Anferth (75%)*	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	*Ddim yn gymwys*					
	Tirffurf	***Tirwedd ucheldir digysgod*** *efo* ***cyfres o gopaon uchel.*** *VS Lefel Dosbarthiad 2: Ucheldir Digysgod (77%)/ Bryniau, Llwyfandir a Llethrau Sgarp Is (22%)* *VS4: Bryniau/Mynyddoedd Uchel (77%)/ Bryniau/Dyffrynnoedd (16%) /Tonnog (7%)* *VS8: Canolig (23%)/ Anferth (75%)*	↑			↑	↑

	Gorchudd Tir	*Mae tir mynydd heb ei gau yn darparu **tir pori garw** sy'n wrthgyferbyniad i'r **systemau caeau hanesyddol** mwy cymhleth ar y godreon. Mae'r ardal sydd rhwng y ddau yma wedi'i diffinio gan **ffridd wedi'i chau mewn trefn reolaidd**[56].* *VS Lefel Dosbarthiad 3: Mosaig o Lethrau a Sgarp (16%)/ Tir Pori Ucheldir (75%)* *VS5: Tir Agored (77%)/ Cymysgedd (22%)*	↓			-	↑
	Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	*Mae'r **dylanwad modern sydd wedi'i greu gan bobl wedi'i gyfyngu i ymylon gogleddol a dwyreiniol** yr ACT yma ac yn cynnwys meysydd carafanau statig ac un tyrbin bychan. Aneddiadau mewn clystyrau ar hyd rhwydwaith o lonydd bychan ar lethrau uchaf dyffryn Conwy. Llinellau uwchben 400 kV a 132 kV yn gyfochrog efo'i gilydd yn rhan ogleddol yr ACT.* ***Yn y rhannau eraill a'r cyfan o weddill yr ACT yma does dim ond ychydig iawn o ddylanwad pobl** heblaw am weddillion chwareli llechi o'r gorffennol.* *VS6: Aneddiadau mewn Clystyrau (22%)/ Dim Aneddiadau (77%) VS27: Gweddol (100%)*	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	*Ddim yn gymwys*					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	*Mae'r nenlinellau wedi'u ffurfio gan **gyfres o gopaon amlwg a nodedig** yn cynnwys Moel Wnion, Drosgl, Foel Ganol, Pen y Castell, Drum, Carnedd Gwenllïan, Tal y Fan a Mynydd y Dref, Conwy.*	↑			↑	
Gweledol	***Symudiad***	*Mae traffig cyfyngedig ar y ffyrdd yn dod â **symudiadau achlysurol** i'r dirwedd, a heblaw am hynny mae ganddi gymeriad o lonyddwch.* *VS18: Achlysurol (75%)/ Aml (16%) / Anaml (8%)/*	↑				
	***Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol** (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	*Mae'r golygfeydd tua'r gogledd yn nodweddiadol yn rhai i'r **pellter hir**, efo golygfeydd at allan tuag at Ynys Môn, y Fenai ac arfordir Conwy. Mae coridor prif ffordd yr A55 a ffermydd gwynt allan yn y môr ac ar y tir hefyd i'w gweld o rai mannau tua'r gogledd a'r dwyrain o'r ACT.* *Mae'r golygfeydd tua'r de wedi'u **cyfyngu** gan Gadwyn Mynyddoedd y Carneddau.*	↑			↑	↑

[56] Mae'r gair Ffridd yn disgrifio cymysgedd amrywiol o lystyfiant glaswelltir a rhos efo rhedyn a phrysgwydd sydd yn aml i'w weld ar ochrau dyffrynnoedd rhwng ucheldir ac iseldir yng Nghymru. Does dim cyfieithiad uniongyrchol o Saesneg i Gymraeg ar gyfer y term yma.

		VS9: Agored (24%)/ *Digysgod* (75%) *Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn:* ▪ *Eiddo preswyl* ▪ *Parc Cenedlaethol Eryri* ▪ *Mannau Mynediad Agored* ▪ *Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus* ▪ *Atyniadau cyfagos yn cynnwys Castell Conwy, Castell Biwmares a'r Gogarth* ▪ *Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a Bangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol)* ▪ *Llwybr ymwelwyr yr A5* ▪ *Y rhwydwaith ffyrdd lleol* ▪ *Chwaraeon dŵr a chychod*					
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	*Mae'r rhain yn cynnwys:* ▪ *Parc Cenedlaethol Eryri (yn cynnwys yr Wyddfa)* ▪ *Arfordir Treftadaeth y Gogarth* ▪ *AHNE Môn* ▪ *AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy* ▪ *Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Pen Isaf Dyffryn Conwy* ▪ *Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Creuddyn a Chonwy* ▪ *Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Gogledd Arllechwedd* ▪ *Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Dyffryn Ogwen* ▪ *Ymylon Gogledd-orllewinol Ardal Tirwedd Arbennig Eryri* ▪ *Bryngaerau* ▪ *Parciau a Gerddi Cofrestredig* ▪ *Ardal o Harddwch Naturiol Cynllun Datblygu Lleol Eryri (Polisi Datblygu 2)*	↑			↑	
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio tu mewn i Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) fel Ardal o Harddwch Naturiol. Arfarniad nodweddiadol **uchel** yn LANDMAP. VS25: Cryf (6%)/ Canolig (94%) VS46: Uchel (86%)/ Canolig (11%) VS47: Uchel (88%)/ Canolig (11%) VS48: Uchel (88%)/ Canolig (12%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	**Llawer o lonyddwch** a **digysgod** efo ychydig o ymwthiadau modern. VS24: Digysgod (77%)/ Wedi'i Anheddu; Deniadol; Digysgod; Gwyllt; Ysbrydol (5%)/ Wedi'i Anheddu; Deniadol; Cysgodol; (11%) / Arall (6%)	↑			↑	↑

Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr rhif 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaerau. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** VS50: Uchel (88%)/Canolig (11%) VS49: Uchel (77%)/Canolig (22%) LH45: Uchel (9%)/ Canolig (23%)/ Neilltuol (65%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (20%)/ Neilltuol (80%) GL33: Uchel (20%)/ Neilltuol (80%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae llawer o'r ACT yma yn y Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig a ganlyn: Pen Isaf Dyffryn Conwy; Creuddyn a Chonwy; Gogledd Arllechwedd; a Dyffryn Ogwen. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** HL38: Uchel (64%)/ Neilltuol (30%) HL35: Uchel (34%)/ Neilltuol (65%) HL40: Uchel (37%)/ Neilltuol (62%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[57] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Er y gallai graddfa anferth a gorchudd tir cymharol syml yr ACT fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, beth sy'n llawer pwysicach na hynny ydi nodweddion naturiol y dirwedd ucheldir fynyddig arbennig o nodedig a golygfaol hon, sy'n rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau sy'n adnabyddus ar unwaith, wedi'u creu gan dopograffi dramatig ac amrywiol, ynghyd â phrinder cymharol o ddylanwad pobl, sy'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Fodd bynnag, er eu bod gryn bellter i ffwrdd, mae'r ffaith bod modd gweld tyrbinau gwynt yn y môr ac ar y tir o'r rhannau gogleddol a dwyreiniol yn cael effaith leol ar y llonyddwch a'r natur bellennig yn y rhan hon o'r dirwedd, fel hefyd mae'r llinellau uwchben 400 kV a 132 kV yn y gogledd. Mae golygfeydd helaeth i'w cael tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth y Gogarth a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Oherwydd ei leoliad yng nghornel ogleddol y Parc Cenedlaethol, gellir barnu bod yr ACT yma'n borth pwysig i mewn i'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig i lawer o ymwelwyr sy'n teithio ar hyd ffordd brysur yr A55. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 ar gyfer d**atblygiad domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (efo eithriad ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau gwynt ar raddfa ddomestig hyd at ficro, y dylent fod wedi'u cysylltu'n dda efo'r anheddiad/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.)

[57] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arbennig o nodedig a golygfaol hon o ucheldir mynydd yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau sy'n adnabyddus ar unwaith, wedi'u creu gan dopograffi dramatig ac amrywiol, ynghyd â phrinder cymharol o ddylanwad pobl, sy'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT hon. Fodd bynnag, er nad oes dim mastiau tu mewn i'r ACT ei hunan ar hyn o bryd, mae nifer o fastiau i'w gweld ar ymylon yr ACT hon. Mae rheiny, ynghyd â phresenoldeb llinellau uwchben 400 kV a 132 kV yn y gogledd, wedi cael effaith leol ar y llonyddwch a'r natur bellennig ac wedi tynnu oddi wrth ansawdd yr olygfa, a thrwy hynny leihau sensitifrwydd i ddatblygiad mastiau ffonau symudol mewn rhai ardaloedd. Mae golygfeydd helaeth i'w cael tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth y Gogarth a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Oherwydd ei lleoliad yng nghornel ogleddol y Parc Cenedlaethol, gellir barnu bod yr ACT yma'n borth pwysig i mewn i'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig i lawer o ymwelwyr sy'n teithio ar hyd ffordd brysur yr A55. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Does dim datblygiadau mastiau ffonau symudol yn bodoli na gyda chaniatâd iddynt tu mewn i'r ACT. Mae nifer o fastiau ffonau symudol tu allan i'r ffiniau gorllewinol, gogleddol a dwyreiniol.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda**.)

PARCIAU CARAFANAU STATIG/CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arbennig o nodedig a golygfaol hon o ucheldir mynydd yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan yr ardaloedd anferth o dir pori yn yr ucheldir sydd heb gael ei gau, a'r topograffi dramatig ac amrywiol sy'n nodweddiadol o'r ACT hon. Mae prinder cymharol dylanwad pobl yn rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch, ac ar adegau o dir gwyllt, mewn rhan helaeth o'r ACT hon, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach. Fodd bynnag, mae parciau carafanau statig/cabanau gwyliau'n bodoli tu mewn i ymylon gogleddol a dwyreiniol yr ACT hon ac o'u cwmpas, a rheiny i'w gweld o'r mannau uwch, yn enwedig o lwybrau troed a thrwy hynny'n cael effaith leol ar lonyddwch a phellenigrwydd ac yn tynnu oddi wrth ansawdd yr olygfa, a thrwy hynny'n lleihau sensitifrwydd mewn rhai rhannau.

	Mae gwerth y dirwedd hon o ran treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei gydnabod gan y nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig sy'n cynnwys llawer o'r ACT hon. Oherwydd ei lleoliad yng nghornel ogleddol y Parc Cenedlaethol, gellir barnu bod yr ACT yma'n borth pwysig i mewn i'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig i lawer o ymwelwyr sy'n teithio ar hyd ffordd brysur yr A55. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 ar gyfer **datblygiad mawr iawn** - 1 ar gyfer datblygiad **canolig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau carafanau statig/cabanau gwyliau tu mewn i'r Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE a'r ardaloedd digysgod tua'r gogledd. Fodd bynnag, gallai fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau tua'r dwyrain ac ar ymyl y Parc Cenedlaethol.**


Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig/Cabanau Gwyliau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Cadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.	✓	✓	✓
Cadw nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Ymylon Gogledd-orllewinol Eryri.	✓	✓	✓
Cadw tirffurf Ardal Tirwedd Arbennig Mynydd Bangor, sy'n nodedig ac yn cael ei werthfawrogi, ei nodweddion arbennig a'r cefndir ehangach. Ni ddylai lleoliad a dyluniad unrhyw ddatblygiad fod yn cyfaddawdu'n sylweddol y cymeriad o le heb ei ddatblygu, sy'n fater yn cael ei werthfawrogi ar gyfer rhan fawr o'r ardal hon.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau a diogelu golygfeydd allweddol, yn enwedig rhai tua'r môr a thuag at ucheldiroedd y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Pen Isaf Dyffryn Conwy, Gogledd Arllechwedd, Creuddyn a Chonwy a Dyffryn Ogwen.	✓	✓	✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau modern fertigol sy'n bodoli'n barod, fel lein uwchben 400 kV. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Reading i Gaergybi (llwybr rhif 5 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), Bangor i Abergwaun (llwybr rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybr ymwelwyr yr A55 a Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'r cefndir agosaf ato.	✓	✓	✓

Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Parhau i gadw'r golygfeydd o un i'r llall rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar bennau bryniau.	✓	✓	

S02 Y Carneddau



Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg
Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg

1:75,000

Lleoliad a Maint

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn cynnwys mynyddoedd y Carneddau, wedi'i ffinio yn y gorllewin gan ddyffryn ffurf U Nant Ffrancon ac yn y de gan Afon Llugwy a'r A5.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd ddigysgod ar raddfa anferth
- Bryniau a mynyddoedd uchel efo lonydd a dyffrynnoedd ar eu terfynau
- Mae'n cynnwys y copa ail uchaf yng Nghymru (Carnedd Llywelyn)

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Isel	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa anferth**. VS8: Canolig (23%)/ Anferth (75%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	**Bryniau a mynyddoedd uchel** yn cynnwys llinell ymyl uchel cadwyn mynyddoedd y Carneddau, efo dyffryn ffurf U Nant Ffrancon ar y terfyn gorllewinol a'r A5 a dyffryn Afon Llugwy tua'r de. VS Dosbarthiad Lefel 2: Ucheldir / Llwyfandir Digysgod (77%)/ Bryniau, Llwyfandir Is a Llethrau Sgarp (22%) VS4: Bryniau/Mynyddoedd Uchel (77%)/ Tonnog (7%)/	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
		Bryniau/Dyffrynnoedd (16%)					
	Gorchudd Tir	**Copaon mynyddoedd creigiog,** tir pori garw ar ucheldir, **llethrau sgarp** a thir ffridd wedi'i gau mewn ffurfiau mawr petryalog yn gymysg efo llynnoedd mawr. VS Dosbarthiad Lefel 3: Tir Pori Ucheldir (75%)/ Mosaig o Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (16%)/ Pori ar Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (6%) VS5: Tir Agored (77%)/ Cymysgedd (22%)	↑			↑	↑
	Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	**Yn bennaf yn dir heb ei anheddu,** efo ychydig o eiddo sy'n nodweddiadol o'r ardal mewn clystyrau ar hyd yr A5. **Ychydig o ddylanwadau amlwg wedi'u creu gan bobl** heblaw am lonydd bychain a mastiau ffonau symudol yn y gorllewin a'r de. VS6: Clystyrau (22%) / Dim anheddiad (77%) VS27: Gweddol (100%)	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae **llinell ymyl** amlwg ac uchel mynyddoedd y Carneddau a **chopa uchel** Carnedd Llywelyn (yr ail uchaf yn Eryri) yn ffurfio **nenlinellau nodedig iawn** yn yr ACT yma.	↑			↑	
Gweledol	**Symudiad**	Mae traffig cyfyngedig ar y ffyrdd yn dod â **symudiadau achlysurol** i'r dirwedd, a heblaw am hynny mae cymeriad o lonyddwch. VS18: Achlysurol (75%)/ Aml (16%) / Anaml (8%)	↑				
	Gweledodd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr	**Golygfeydd panoramig** o'r mynyddoedd yn edrych tuag at forluniau Conwy ac Ynys Môn tua'r gogledd. Tua'r de, mae'r dirwedd agored a digysgod yn caniatáu **golygfeydd helaeth** dros gadwyn	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
	Nodweddiadol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	mynyddoedd y Carneddau. VS9: Agored (24%)/ Digysgod (75%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo preswyl mewn clystyrau ▪ Parc Cenedlaethol Eryri (yn cynnwys yr Wyddfa) ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Fangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Llwybr ymwelwyr yr A5 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri (yn cynnwys yr Wyddfa) ▪ AHNE Môn ▪ AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Dyffryn Ogwen ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal o Brydferthwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Arfarniad nodweddiadol **Uchel** yn LANDMAP VS25: Canolig (94%)/ Cryf (6%) VS46: Uchel (86%)/ Canolig (11%) VS47: Uchel (88%)/ Canolig (11%) VS48: Uchel (88%)/ Canolig(12%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	**Cadwyn o fynyddoedd digysgod, pellennig a gwyllt heb unrhyw fynediad ffordd i'r mynyddoedd uwch.** Mae'r A5 tua'r de a'r gorllewin yn dod â graddau o ymwthio i'r olygfa a tharfu o ran sŵn, sy'n lleihau ychydig ar y llonyddwch mae pobl yn ei ganfod. VS24: Digysgod (77%)/ Wedi'i anheddu; Deniadol; Cysgodol (11%)/ Arall (6%)/ Wedi'i anheddu; Deniadol; Digysgod; Gwyllt; Ysbrydol (5%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo tirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Nodweddion wedi'u dynodi'n genedlaethol fel Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Bangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** VS50: Uchel (88%)/ Canolig (11%) VS49: Uchel (77%)/ Canolig (22%) LH45: Uchel (9%)/ Canolig (23%)/ Neilltuol (65%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (20%)/ Neilltuol (80%) GL33: Uchel (20%)/ Neilltuol (80%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae ymylon gorllewinol yr ACT hon tu mewn i Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig Dyffryn Ogwen. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** HL38: Uchel (65%)/ Neilltuol (30%) HL35: Uchel(35%)/ Neilltuol (65%) HL40: Uchel (37%)/ Neilltuol (62%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[58] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Er y gallai graddfa anferth y dirwedd hon fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, beth sy'n llawer pwysicach na hynny ydi ei nodweddion naturiol, sef ucheldir mynydd creigiog arbennig o nodedig a golygfaol. Mae hynny'n rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau sy'n adnabyddus ar unwaith, wedi'u creu gan dopograffi dramatig ac amrywiol cadwyn mynyddoedd y Carneddau, ynghyd â phrinder cymharol o ddylanwad pobl. Mae hynny'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Fodd bynnag, yn lleol mae'r teimlad o lonyddwch yn cael ei effeithio ar hyd coridor ffordd yr A5 tua'r de ac ymylon gorllewinol yr ACT hon. Mae golygfeydd helaeth i'w cael tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth y Gogarth a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na chaniatâd ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt**

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arbennig o nodedig a golygfaol hon o ucheldir mynydd creigiog yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau sy'n adnabyddus ar unwaith, wedi'u creu gan dopograffi dramatig ac amrywiol cadwyn mynyddoedd y Carneddau, ynghyd â phrinder cymharol o ddylanwad pobl. Mae hynny'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Fodd bynnag, yn lleol mae coridor ffordd yr A5 tua'r de ac ar ymylon gorllewinol yr ACT hon yn effeithio ar y teimlad o lonyddwch. Mae presenoldeb mast ffôn symudol yn barod ar hyd y coridor hwn yn lleihau ymhellach y sensitifrwydd i'r math yma o ddatblygiad yn y

[58] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

	de-ddwyrain. Mae golygfeydd helaeth i'w cael tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth y Gogarth a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	6 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol.**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda**.)

PARCIAU CARAFANAU STATIG/CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT


SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arbennig o nodedig a golygfaol hon o ucheldir mynydd creigiog yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan natur arbennig o ddigysgod topograffi dramatig ac amrywiol cadwyn mynyddoedd y Carneddau (yn cynnwys y copa ail uchaf yn y Parc Cenedlaethol). Mae hynny, ynghyd â phrinder cymharol o ddylanwad pobl, yn rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Er bod y teimlad o lonyddwch yn cael ei effeithio'n lleol ar hyd coridor ffordd yr A5 tua'r de ac ymylon gorllewinol yr ACT hon, mae'r ardal ar y cyfan yn un sydd heb gael ei anheddu ac mae hi'n amlwg iawn o fynyddoedd oddi amgylch a hynny'n cynyddu llawer ar y sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau parciau carafanau statig / cabanau gwyliau yn bodoli na chaniatâd ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig / cabanau gwyliau**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddu. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad gadw a pharchu cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o AHNE Ynys Môn ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau, a diogelu golygfeydd allweddol, yn enwedig rhai tuag at yr Wyddfa a chanolbwyntiau eraill tu mewn i'r Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Dyffryn Ogwen.	✓	✓	✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau modern fertigol sy'n bodoli'n barod; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd, fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Osgoi cynyddu effeithiau ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Fangor i Abergwaun (rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓

S03 Yr Wyddfa a'r Glyderau



1:125,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg
Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT yn cynnwys yr Wyddfa a nifer o gopaon mynyddoedd geirwon eraill, yn cynnwys cadwyn mynyddoedd y Glyderau. Mae wedi'i hamgylchynu yn fras gan rwydwaith o brif ffyrdd twristiaeth.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa anferth, tirwedd digysgod
- Bryniau a mynyddoedd uchel, yn cynnwys copa nodedig iawn yr Wyddfa
- Calon y Parc Cenedlaethol o ran golygfa a hanes

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa anferth**. VS8: Canolig (6%) / Anferth (92%)	↓				
	Patrwm, Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Tir mynydd garw, efo cribau a chopaon creigiog yn cynnwys yr Wyddfa, y mynydd uchaf yng Nghymru (sy'n codi i 1,086 metr). VS Dosbarthiad Lefel 2: Ucheldir / Llwyfandir Digysgod (92) VS4: Bryniau Uchel / Mynyddoedd (92%) / Bryniau / Dyffrynnoedd (7%)	↑			↑	↑
	Gorchudd Tir	Mae tir mynydd heb ei gau yn darparu **tir pori garw**,	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		sy'n wahanol i'r **systemau cae** mwy cymhleth ar lethrau is y dyffrynnoedd a lloriau'r dyffrynnoedd. Mae'r ardal rhwng y ddau fath yma'n cael ei diffinio gan drefn o **gau tir efo waliau cerrig mewn ffurfiau mawr rheolaidd o ffridd**. VS Lefel Dosbarthiad 3: Ucheldir Llwm/Creigiog (49%) / Gweundir yn yr Ucheldir (44%) VS5: Tir Agored (96%)					
	Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	Yn bennaf **heb ei anheddu ac efo cymharol ychydig o ddylanwad pobl.** Mae'r rhwydwaith ffyrdd sy'n rhedeg o gwmpas yr ACT a thrwyddi yn achosi cynnydd lleol mewn dylanwad pobl tuag at ganol ac ymylon allanol yr ACT hon. Mae dylanwadau eraill wedi'u creu gan bobl yn cynnwys Rheilffordd yr Wyddfa, Hafod Eryri (y ganolfan Ymwelwyr ar Gopa'r Wyddfa) a nifer fechan o fastiau ffonau symudol, tyrbinau gwynt a pharc carafanau statig. Mae pob un o'r rhain yn dylanwadu'n lleol ar y dirwedd. VS6: Dim Aneddiadau (92%) VS27: Da (18%) / Gweddol (82%)	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r Wyddfa a chyfres o gopaon eiconig yn ffurfio **nenlinell nodedig, arw** efo cribau a chopaon creigiog amlwg.	↑			↑	
Gweledol	**Symudiad**	Mae'r rhwydwaith o ffyrdd bychain a Rheilffordd yr Wyddfa yn dod â **symudiad achlysurol ac anaml** o gwmpas yr ymylon a thrwy ganol yr ACT ond mewn mannau eraill **mae llawer o'r dirwedd yn llonydd.** VS18: Achlysurol (44%)/ Anaml (49%)	↑				
	Gweledd,	**Golygfeydd panoramig digysgod** o'r Wyddfa a	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	chopaon eraill, at yr arfordir tua'r gogledd ac ar draws cadwyni cyfagos o fynyddoedd i bob cyfeiriad arall. Mae gwaelodion y dyffrynnoedd yn cynnig golygfeydd wedi'u hamgáu gan y copaon o'u cwmpas. VS9: Wedi'i Amgáu (6%)/ Digysgod (92%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo gwasgaredig a phentrefi bychain ▪ Parc Cenedlaethol Eryri (yn cynnwys yr Wyddfa) ▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Llwybr pellter hir llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Fangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) ▪ Atyniadau lleol fel Rheilffordd yr Wyddfa a Rheilffordd Eryri ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Llwybrau ymwelwyr yr A5, A4085 a'r A498 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri (yn cynnwys yr Wyddfa) ▪ AHNE Môn ▪ AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ▪ ATA Ymylon Gogledd-orllewin Eryri ▪ Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Dinorwig a Dyffryn Ogwen ▪ Bryngaer ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Arfarniad nodweddiadol LANDMAP ydi **neilltuol**. VS25: Cryf (96%) VS46: Neilltuol (95%)/ Uchel (5%) VS47: Uchel (97%) VS48: Neilltuol (95%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd /Tawelwch	Yn y rhan fwyaf o'r ACT yma, **y teimlad pennaf ydi o lonyddwch a thir gwyllt.** VS24: Digysgod; Gwyllt (49%) / Digysgod (44%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran y Dirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol . Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Fangor i Abergwaun (rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri fel Ardal o Harddwch Naturiol. Arfarniad nodweddiadol LANDMAP ydi N**eilltuol**. VS50: Neilltuol (95%) VS49: Neilltuol (50%)/ Uchel (47%) LH45: Uchel (16%)/ Canolig (23%)/ Neilltuol (60%) LH42: Heb ei asesu (99%) GL31: Neilltuol (100%) GL33: Neilltuol (100%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae rhannau mawrion o'r ACT hon tu mewn i Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dinorwig a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Ogwen. Mae Parc a Gardd Cofrestredig tua'r de a thu mewn i'r ACT hon. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. Arfarniad nodweddiadol **Uchel-Neilltuol** yn LANDMAP. HL38: Uchel (72%)/ Canolig (24%) HL35: Uchel (28%)/ Neilltuol (72%) HL40: Uchel (36%)/ Neilltuol (64%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[59] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Er y gallai graddfa anferth y dirwedd hon fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, beth sy'n llawer pwysicach na hynny ydi ei nodweddion naturiol o dirwedd ucheldir mynyddig creigiog arbennig o nodedig a golygfaol. Mae hynny'n rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau sy'n adnabyddus ar unwaith, wedi'u creu gan dopograffi dramatig ac amrywiol cadwyn mynyddoedd yr Wyddfa a'r Glyderau. Mae hyn yn cael ei gynyddu ymhellach gan brinder cymharol dylanwad pobl, sy'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac ar adegau o dir gwyllt, mewn rhan helaeth o'r ACT hon. Fodd bynnag, mae'r teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridorau ffyrdd sy'n rhedeg o gwmpas ymylon a thrwy ganol yr ACT. Mae golygfeydd helaeth i'w cael tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth y Gogarth a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	2 ar gyfer datblygiadau **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (efo eithriad ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau gwynt ar raddfa ddomestig hyd at ficro, y dylent fod wedi'u cysylltu'n dda efo'r anheddiad/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.)

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL

[59] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd hon o ucheldir mynyddig creigiog arbennig o nodedig a golygfaol yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau sy'n adnabyddus ar unwaith, wedi'u creu gan dopograffi dramatig ac amrywiol cadwyn mynyddoedd yr Wyddfa a'r Glyderau. Mae hyn yn cael ei gynyddu ymhellach gan brinder cymharol dylanwad pobl, sy'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac ar adegau o dir gwyllt, mewn rhan helaeth o'r ACT hon. Fodd bynnag, mae'r teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridorau ffyrdd sy'n rhedeg o gwmpas ymylon a thrwy ganol yr ACT. Mae golygfeydd helaeth i'w cael tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth y Gogarth a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae hynny, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr sensitif i'r olygfa, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 2 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol** - 2 o ddatblygiadau **mastiau wedi'u cuddio**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda**.)

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU


SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd hon o ucheldir mynyddig creigiog arbennig o nodedig a golygfaol yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan natur hynod o ddigysgod topograffi dramatig ac amrywiol yr Wyddfa (mynydd uchaf Cymru) a chadwyn mynyddoedd y Glyderau. Mae hyn, ynghyd â phrinder cymharol dylanwad pobl, yn rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac ar adegau o dir gwyllt, mewn rhan helaeth o'r ACT hon. Er bod y teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridorau ffyrdd sy'n rhedeg o gwmpas ymylon a thrwy ganol yr ACT, mae'r coridorau hyn yn parhau i fod ar y cyfan heb eu haneddu ac maen nhw'n amlwg iawn o'r mynyddoedd o gwmpas ac felly'n cynyddu llawer iawn ar y sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 datblygiad **bychan**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig / cabanau gwyliau**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau Iddynt
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddu. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am nodweddion sy'n eu gwneud yn bellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad gymryd i ystyriaeth a chadw nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Ymylon Gogledd-orllewin Eryri.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau a diogelu golygfeydd allweddol.	✓	✓	✓
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasgu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Pen Isaf Dyffryn Ogwen; a Dinorwig	✓	✓	✓
Diogelu cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o lein uwchben 400 kV sy'n bodoli'n barod. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr hamdden, yn enwedig y derbynwyr mwy sensitif fel ymwelwyr â'r Wyddfa sy'n defnyddio Rheilffordd yr Wyddfa.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybr twristiaid yr A4086 a Rheilffordd Eryri.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Parhau i gadw'r golygfeydd o un i'r llall rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar bennau bryniau.	✓	✓	

S04 Moel Hebog



Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn cynnwys cyfres o gopaon nodedig a llynnoedd rhewlifol sy'n ffurfio terfyn gorllewinol y Parc Cenedlaethol, efo'r A4085 ar y terfyn dwyreiniol.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa anferth, tirwedd ddigysgod.
- Cyfres o ddyffrynnoedd rhwng copaon mynyddoedd creigiog.
- Diddordeb o ran treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa fawr**. VS8: Canolig (31%)/ Mawr (69%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Mae **bryniau uchel a dyffrynnoedd yn** nodweddiadol; cyfres o gopaon nodedig a dyffrynnoedd rhewlifol efo llynnoedd rhewlifol ym mhennau'r dyffrynnoedd. VS Dosbarthiad Lefel 2: Ucheldir/Llwyfandir Digysgod (64%)/ Bryniau, Llwyfandir Is a Llethrau Sgarp (21%) / Dyffrynnoedd Iseldir (15%) VS4: Bryniau Uchel/Mynyddoedd (69%)/ Bryniau/Dyffrynnoedd (15% / Tonnog (16%)	↑			↑	↑
	Gorchudd Tir	**Copaon mynydd creigiog** agored, **tir pori garw yn yr ucheldir** a **llethrau sgarp** a threfn o dir ffridd wedi'i	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		gau mewn ffurfiau petryalog mawr efo **llynnoedd mawr** yn gymysg efo hynny. Tir pori wedi'i wella'n rhannol a chaeau o laswelltir garw ar y llethrau is ac yn y dyffrynnoedd, wedi'u diffinio gan batrwm caeau hanesyddol ar raddfa fechan. VS Dosbarthiad Lefel 3: Gweundir Ucheldir (56%)/ Dyffrynnoedd Agored Iseldir (11%) / Mosaig o Lethrau a Llethrau Sgarp (15%) / Mosaig o Lethrau a Llethrau Sgarp (15%) /Llethrau a Llethrau Sgarp Coediog (5%) VS5: Tir Agored (64%)/ Patrwm Caeau/ Mosaig (23%)/ Coetir (5%)/ Cymysgedd (6%)					
	Dylanwadau wedi'u chreu gan bobl	Yn y rhan ganolog, mae'r ACT **heb ei haneddu** ac efo **ychydig o ddylanwad pobl.** Mae dylanwad pobl yn **cynyddu rywfaint** o gwmpas ymylon yr ACT, efo **ychydig o anheddau mewn clystyrau** ar hyd **lonydd bychain** a'r **A4085** tua'r dwyrain. Mae hefyd un parc carafanau tua'r de. VS6: Gwledig Gwasgaredig/Ffermydd (9%)/ Clystyrau (20%) / Dim Aneddiadau (70%) VS27: Da (9%)/ Gweddol (90%)	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae cyfres o **gopaon amlwg** a golygfeydd tuag at **gopa'r Wyddfa** tua'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, sy'n ffurfio nenlinellau nodedig ar gyfer yr ACT hon.	↑			↑	
Gweledol	**Symudiad**	Symudiad yn digwydd yn **anaml**, yn enwedig yn y rhan ganolog. Bydd symudiad achlysurol yn dod oddi wrth y rhwydwaith ffyrdd mwy ymylol. VS18: Achlysurol (14%) / Aml (13%) / Anaml (72%)	↑				
	Gweledegd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a	Mae'r golygfeydd nodweddiadol yn rhai **agored a digysgod**, yn enwedig oddi wrth y mannau uwch. Mae'r golygfeydd nodweddiadol o waelod y	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	dyffrynnoedd yn rhai wedi'u **cau i mewn a'u cyfyngu** gan y tirffurf oddi amgylch. VS9: Wedi'i gau i mewn (15%)/ Agored (16%)/ Digysgod (64%) / Cyfyngedig (5%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo mewn clystyrau a ffermydd gwasgaredig ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a chysylltiad pellach i lwybr beicio cenedlaethol 8. ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol fel Rheilffordd Eryri ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Llwybrau twristiaeth yr A4085 a'r A498 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol *(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)*	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri (yn cynnwys yr Wyddfa) ▪ Tirweddau Aberoedd Glaslyn a Dwyryd, Ardaloedd Tirwedd Arbennig Cyrion Gogledd-orllewin Eryri a Phorthmadog a Bae Tremadog ▪ Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn a Dyffryn Nantlle ▪ Bryngaerau ▪ Parc a Gardd Cofrestredig ▪ Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Arfarniad nodweddiadol **Uchel** yn LANDMAP efo rhai ardaloedd yn **Neilltuol.** VS25: Cryf (63%)/ Canolig (20%)/ Gwan (17%) VS46: Uchel (67%)/ Canolig (18%)/ Neilltuol (10%)/ Isel (5%) VS47: Uchel (73%)/ Canolig (27%) VS48: Uchel (73%)/ Canolig (19%)/ Neilltuol (9%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Yn nodweddiadol yn dirlun efo **lefel uchel o lonyddwch**. Mae rhannau o'r ACT yn **ddigysgod a gwyllt** mewn mannau. Mae'r A4085 ar ymyl dwyreiniol yr ACT yn dod â **rhywfaint o fân darfu ac ymyrraeth sŵn.** VS24: Digysgod; Gwyllt (56%)/ Cysgodol (15%)/ Arall (12%) / Digysgod (8%)/ Arall; Deniadol; Wedi'i anheddu; Ysbrydol (5%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT cyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Nodweddion wedi'u dynodi'n genedlaethol, fel Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru rhwng Caerdydd a Chaergybi (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a chysylltiad pellach i lwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol. Mae llawer o'r ardal wedi'i dosbarthu yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Uchel i Neilltuol.** VS50: Uchel (69%)/ Canolig (22%)/ Neilltuol (9%) VS49: Uchel (64%)/ Canolig (30%)/ Isel (5%) LH45: Uchel (43%)/ Canolig (20%)/ Isel (11%)/ Neilltuol (27%) LH42: Heb ei asesu (98%) GL31: Neilltuol (99%) GL33: Neilltuol (99%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae rhannau gogleddol o'r ACT hon yn Nhirwedd Hanesyddol Gofrestredig Dyffryn Nantlle a rhannau deheuol yn Nhirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaerau. Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** HL38: Uchel (43%)/ Canolig (35%)/ Heb ei asesu (22%) HL35: Uchel (57%)/ Canolig (9%)/ Neilltuol (34%) HL40: Uchel (62%)/ Canolig (6%)/ Neilltuol (32%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[60] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Er y gallai'r raddfa fawr fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, beth sy'n llawer pwysicach na hynny ydi nodweddion naturiol y dirwedd ucheldir fynyddig arbennig o nodedig a golygfaol hon. Mae rheiny'n rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan gopaon amlwg a golygfeydd tuag at ac oddi wrth gopa'r Wyddfa a nodweddion eraill pwysig o ran y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Llŷn, AHNE Ynys Môn a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae prinder cymharol o ddylanwad pobl, sy'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Mae hyn, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr gweledol sensitif, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach. Mae'r teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridor ffordd tua'r dwyrain.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli nac efo caniatâd ar eu cyfer.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (efo eithriad ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau gwynt ar raddfa ddomestig hyd at ficro, y dylent fod wedi'u cysylltu'n dda efo'r anheddiad/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.)

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arbennig o nodedig a golygfaol hon o ucheldir mynydd yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd i ddatblygiadau mastiau ffonau symudol yn cael ei gynyddu ymhellach gan ardaloedd o ucheldir agored, copaon creigiog a golygfeydd tuag at

[60] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

	ac oddi wrth gopa'r Wyddfa a nodweddion eraill pwysig o ran y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys AHNE Llŷn, AHNE Ynys Môn a nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig. Mae prinder cymharol o ddylanwad pobl, sy'n rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Mae hyn, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr gweledol sensitif, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach. Mae sensitifrwydd i ddatblygiadau mastiau ffonau symudol yn cael ei leihau'n lleol lle mae'r teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridor ffordd tua'r dwyrain, lle mae blociau mawr o blanhigfeydd coed conwydd a hefyd ym Meddgelert lle mae nifer fechan o fastiau ffonau symudol yn barod.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad **mast ffonau symudol** - 1 datblygiad **mast ffonau symudol wedi'i guddio**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda**.)

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae nodweddion naturiol y dirwedd arbennig o nodedig a golygfaol hon o ucheldir mynydd yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd i ddatblygiad parciau carfanau statig / cabanau gwyliau ac estyniadau iddynt yn cael ei gynyddu ymhellach gan yr ardaloedd agored arbennig o ddigysgod ac amlwg a chopaon creigiog. Mae hynny, ynghyd â phrinder cymharol dylanwad pobl, yn rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o dawelwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT hon. Er bod y teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridorau ffyrdd o gwmpas ymylon yr ACT, mae'r coridorau hyn yn parhau i fod, yn gymharol, heb eu haneddu ac i'w gweld yn amlwg iawn o'r mynyddoedd o gwmpas, a thrwy hynny'n cynyddu llawer ar y sensitifrwydd. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei leihau'n lleol lle mae parciau carafanau statig / cabanau gwyliau, sydd wedi'u lleoli ymhell tua'r gogledd a'r de o'r ACT hon, a lle mae blociau mawrion o blanhigfeydd coed conwydd tua'r gogledd a'r gogledd-orllewin o Feddgelert.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad **mawr** - 2 ddatblygiad **bychan iawn**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau tu mewn i'r Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE. Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd ar gyfer nifer cyfyngedig o ddatblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau wedi'u lleoli'n sensitif, eu dylunio'n dda ac ar raddfa fechan neu fechan iawn.**


Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad mewn perthynas â'r gweledegdd cryf, o un i'r llall, rhwng AHNE Ynys Môn, AHNE Llŷn a Pharc Cenedlaethol Eryri.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac oddi wrth AHNE Llŷn.	✓	✓	✓
Cadw nodweddion arbennig Tirweddau Aberoedd Glaslyn a Dwyryd, Ardaloedd Tirwedd Arbennig Ymylon Gogledd-orllewin Eryri a Porthmadog a Bae Tremadog.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddu datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn a Dyffryn Nantlle.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion pwysig eraill o ran treftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i mewn i'r nodweddion hyn ac at allan ohonynt.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau modern fertigol sy'n bodoli'n barod, fel lein uwchben 400 kV. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys llwybr beicio cenedlaethol Lôn Las Cymru Sustrans o Gaerdydd i Gaergybi (llwybr rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), cysylltiad pellach i lwybr rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybr ymwelwyr yr A487 a Rheilffordd Eryri.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓

Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Parhau i gadw'r golygfeydd o un i'r llall rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar bennau bryniau.			

S05 Y Moelwynion



1:125,000

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon tua'r gogledd o Flaenau Ffestiniog ac yn cynnwys llethrau dyffrynnoedd serth wedi'u gorchuddio gan blanhigfeydd coed conwydd ynghyd â llawr dyffryn lle mai'r nodweddion pennaf ydi cyrff mawr o ddŵr.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa anferth, tirwedd ddigysgod
- Bryniau uchel a dyffrynnoedd
- Diddordeb o ran treftadaeth ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar raddfa anferth. VS8: Canolig (7%)/ Anferth (90%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Tirffurf o **fryniau uchel a mynyddoedd efo dyffrynnoedd** cysylltiedig. VS Lefel Dosbarthiad 2: Ucheldir/Llwyfandir Digysgod (90%)/ Dyffrynnoedd Iseldir (8%) VS4: Bryniau Uchel/Mynyddoedd (81%)/	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		Bryniau/Dyffrynnoedd (14%)					
	Gorchudd Tir	**Pennau mynyddoedd agored, creigiog ac o'u cwmpas dir wedi'u gau mewn darnau mawr, rheolaidd, o ffridd a rhostir ucheldir. Llethrau'r dyffrynnoedd a'u gwaelodion wedi'u diffinio gan batrwm o gaeau bychain mewn ffurfiau afreolaidd. Planhigfeydd conwydd ar raddfa ganolig ar lethrau amlwg.** VS Lefel Dosbarthiad 3: Ucheldir Llwm/Creigiog (9%)/ Rhostir Ucheldir (80%)/ Mosaig o Ddyffrynnoedd Iseldir (5%) VS5: Tir Agored (92%)/ Cymysgedd (6%)	-			↑	↑
	Dylanwadau wedi'u creu gan bobl	**Cymeriad pennaf o dir heb ei anheddu ac wedi'i dan ddatblygu** mewn rhan helaeth o'r ACT hon. **Dylanwad pobl mewn mannau,** yn dod oddi wrth greiriau diwydiannol (wedi'u cysylltu efo mwyngloddio/chwareli) a **gorsaf cronfa bwmpio trydan dŵr** Tanygrisiau a **lein uwchben 400 kV yn gysylltiedig efo hi.** Prif ffyrdd yn cynnwys yr A498 a'r A470 sy'n rhedeg ar hyd ymylon gogledd-ddwyrain a de-ddwyrain yr ACT. Mae ffermydd gwledig gwasgaredig, mastiau ffonau symudol, cynlluniau trydan dŵr a golygfeydd tua'r dwyrain i gyfeiriad Blaenau Ffestiniog hefyd yn cynyddu'n lleol y teimlad o ddylanwad pobl. VS6: Gwledig Gwasgaredig/Ffermydd (5%)/ Dim Aneddiadau (90%) VS27: Gweddol (99%)	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	**Copaon a nenlinellau yn dilyn ei gilydd efo nenlinellau nodedig a chefndiroedd.**	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gweledol	**Symudiad**	Mae prinder cymharol o symudiad yn rhoi **cymeriad llonydd i'r dirwedd hon.** VS18: Achlysurol (90%)/ Aml (9%)	↑				
	Gwelededd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd nodweddiadol yn yr ACT hon yn rhai **agored**, efo **golygfeydd helaeth**, yn enwedig o'r mannau uwch ar y gadwyn o fynyddoedd. VS9: Wedi'i Gau i Mewn (8%)/ Amlwg (90%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo gwasgaredig ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Llwybr beicio cenedlaethol pellter hir Sustrans o Fangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) ▪ Atyniadau lleol yn cynnwys Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Eryri ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Llwybrau twristiaeth yr A470 a'r A498 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol	↑			↑	↑
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ ATA Tirweddau Morydau Glaslyn a Dwyryd ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn a Blaenau Ffestiniog ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Neilltuol.** VS25: Cryf (93%) VS46: Neilltuol (92%) VS47: Uchel (97%) VS48: Neilltuol (92%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae gan yr ACT hon **gymeriad o fod yn arbennig o bellennig a thawel** yn y rhannau ymhellach i ffwrdd oddi wrth yr aneddiadau bychain a'r tarfu lleol gan ffyrdd. VS24: Amlwg (80%)/ Gwyllt (9%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored. Mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Uchel-Neilltuol.** VS50: Uchel (13%)/ Neilltuol (83%) VS49: Uchel (95%)/ Canolig (5%) LH45: Uchel (17%)/ Canolig (13%)/ Isel (8%) / Neilltuol (61%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (30%)/ Neilltuol (69%) GL33: Neilltuol (100%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae rhannau deheuol yr ACT hon tu mewn i Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig Blaenau Ffestiniog ac mae'r ACT yn ffinio efo Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn tua'r dwyrain pell. Mae'r ACT hon hefyd yn cynnwys nifer o Barciau a Gerddi Cofrestredig. Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** HL38: Uchel (20%)/ Heb ei asesu (70%)/ Neilltuol (5%) HL35: Uchel (75%)/ Canolig (5%)/ Neilltuol (20%) HL40: Uchel (77%)/ Canolig (5%)/ Neilltuol (18%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[61] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Er y gallai'r raddfa fawr fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, beth sy'n llawer pwysicach na hynny ydi nodweddion naturiol y dirwedd ucheldir fynyddig arbennig o nodedig a golygfaol hon. Mae'r rheiny'n rhoi graddau uchel o sensitifrwydd ac wedi arwain at ei dynodi tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r ardal hon hefyd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol . Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan nenlinellau nodedig sydd wedi'u ffurfio gan gyfres o gopaon a llinellau ymyl a golygfeydd tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys nifer o Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig a Pharciau a Gerddi Cofrestredig. Mae prinder cymharol o ddylanwad pobl yn rhoi teimlad cryf o fod yn bellennig ac o lonyddwch ac, ar adegau, o dir gwyllt mewn rhan helaeth o'r ACT yma. Mae hyn, wedi'i gyfuno efo nifer uchel o dderbynwyr gweledol sensitif, yn cynyddu'r sensitifrwydd ymhellach. Ond mae'r teimlad o lonyddwch yn cael ei erydu'n lleol ar hyd y coridorau ffyrdd ar ymylon allanol yr ACT hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli nac efo caniatâd ar eu cyfer
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (efo eithriad ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau gwynt ar raddfa ddomestig hyd at ficro, y dylent fod wedi'u cysylltu'n dda efo'r anheddiad/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.)

[61] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae'r nodweddion naturiol, ansawdd golygfaol neilltuol a'r teimlad o fod yn bellennig yn yr ACT hon yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod yr ACT gyfan wedi'i dynodi tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a bod llawer o'r ardal wedi'i chydnabod fel Ardal o Harddwch Naturiol yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae'r nenlinellau nodedig, sydd wedi'u ffurfio gan gyfres o gopaon a llinellau ymyl yn dilyn ei gilydd, yn cynyddu mwy ar y sensitifrwydd i fastiau ffonau symudol. Mae'r ACT yn cynnwys nifer o fastiau ffonau symudol, efo'r rhan fwyaf wedi'u clystyru tu mewn i'r planhigfeydd conwydd wrth ochr y rhwydwaith ffyrdd tuag at y gogledd-ddwyrain; a thrwy hynny'n lleihau'r sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	13 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLlE (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda**.) Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer **mastiau ffonau symudol wedi'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU


SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae'r nodweddion naturiol, ansawdd neilltuol y golygfeydd a'r teimlad o fod yn bellennig sy'n perthyn i'r ACT hon yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd iddi. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y ffaith fod yr ACT gyfan wedi'i dynodi tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a bod llawer o'r ardal wedi'i chydnabod fel Ardal o Harddwch Naturiol yng Nghynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae natur anferth a digysgod y dirwedd hon yn cynyddu ymhellach y sensitifrwydd i ddatblygiad parciau carafanau statig/cabanau gwyliau; er bod gan rai mannau blanhigfeydd conwydd cymharol fawr wrth ochr y rhwydwaith ffyrdd, sy'n lleihau'r sensitifrwydd yn lleol.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 datblygiad **bychan iawn**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau carafanau statig/cabanau gwyliau tu mewn i'r Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE. Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd ar gyfer nifer cyfyngedig o ddatblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau wedi'u lleoli'n sensitif, eu dylunio'n dda ac ar raddfa fechan iawn.**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Cadw nodweddion arbennig Ardaloedd Tirwedd Arbennig Aberoedd Glaslyn a Dwyryd.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn a Blaenau Ffestiniog.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau modern sy'n bodoli'n barod, fel lein uwchben 400 kV. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys Sustrans Bangor i Abergwaun (llwybr rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd i ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau twristiaeth yr A498 ac A470, Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Eryri.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓

S06 Coedwig Gwydyr



1:75,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg
Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg

Lleoliad a Maint

Mae Dyffryn Conwy ar derfyn dwyreiniol y dirwedd hon, a thir uwch y Parc Cenedlaethol tua'r gorllewin. Mae'r ACT hon yn cynnwys cyrchfan ymwelwyr boblogaidd Betws-y-Coed.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa fawr, tirwedd wedi'i chyfyngu
- Bryniau uchel a dyffrynnoedd
- Planhigfeydd helaeth o goed conwydd

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa fawr**. VS8: Canolig (14%)/ Mawr (74%)/ Anferth (7%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	**Tirffurf sy'n tonni'n gryf, copaon crwn ar y bryniau, cyfres o ddyffrynnoedd yn eu gwahanu, bryniau uwch tua'r de.** VS Lefel Dosbarthiad 2: Bryniau, Llwyfandir Is a	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
	Llethrau Sgarp (74%)/ Dyffrynnoedd Tir Isel (17%) / Ucheldir /Llwyfandir Digysgod (7%) VS4: Bryniau Uchel/Mynyddoedd (81%)/ Bryniau/ Dyffrynnoedd (14%)					
Gorchudd Tir	**Planhigfeydd coed conwydd helaeth ar lethrau bryniau, sy'n wahanol i'r copaon efo tir pori garw agored ar rai ohonynt, a phocedi o dir is o ffermydd tir pori, glaswelltir corsiog a dolydd ar hyd loriau'r dyffrynnoedd.** VS Lefel Dosbarthiad 3: Bryniau a Llethrau Sgarp Coediog (74%) / Mosaig Dyffrynnoedd Tir Isel (9%) / Dyffrynnoedd Agored Tir Isel (6%) / Rhostir Ucheldir (6%) VS5: Tir Agored (7%)/ Patrwm Caeau/ Mosaig (7%)/ Coetir (76%)/ Cymysgedd (10%)	↓			↓	↓
Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	**Mae planhigfeydd conwydd helaeth yn gorchuddio llawer o'r ACT hon**. Mae Betws-y-Coed yn dref gnewyllol sy'n **boblogaidd efo ymwelwyr** ac yn gorwedd tua'r dwyrain o'r ACT. Mae **datblygiadau'n ymwneud efo twristiaeth** fel parciau carafanau statig/cabanau gwyliau'n dod â **dylanwad wedi'i greu gan bobl** i'r rhan hon o'r ACT. Mae'r dylanwad yma'n estyn tua'r gorllewin ar hyn brif goridor yr A5, lle mae nifer o fastiau ffonau symudol yn sefyll, ac eiddo a gwestai. Mae **cefndir diwydiannol** yr ACT yma'n amlwg yn yr hyn sy'n weddill, fel mwyngloddiau, tomennydd gwastraff a siafftiau. VS6: Pentref (9%) / Gwledig /Ffermydd Gwasgaredig (5%)/ Dim Aneddiadau (81%) VS27: Gweddol (100%)	↓			↓	↓
Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r topograffi cymhleth a'r llethrau coediog yn **creu nenlinellau amrywiol a nodedig.** Tua'r de mae tir uwch a chyfres o gopaon yn creu **nenlinellau mwy dramatig.**	↑			↑	
Gweledol	**Symudiad**	I ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith ffyrdd a'r datblygiad yn ymwneud efo twristiaeth o gwmpas Betws-y-Coed, mae prinder symudiad yn rhoi **cymeriad llonydd** i'r dirwedd hon. VS18: Cyson (5%) / Achlysurol (81%) / Aml (13%)	↑				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd tu mewn i'r ACT hon **yn nodweddiadol wedi'u cyfyngu gan y topograffi a'r llystyfiant**; fodd bynnag mae rhai **golygfeydd panoramig** golygfaol i'w cael o weledfannau poblogaidd ar y tir uwch. VS9: Wedi'i Gau i Mewn (18%)/ Cyfyngedig (74%)/ Digysgod (7%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Nifer o eiddo ar lawr y dyffryn ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Betws-y-Coed, sy'n gyrchfan ymwelwyr boblogaidd ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Rheilffordd Dyffryn Conwy ▪ Llwybrau twristiaeth yr A5 a'r A470 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd leol	-			-	-
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Blaenau Ffestiniog ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
	allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)						
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Mae'r dirwedd hon yn cyfleu **cymeriad cryf** a naws am le efo cryfderau **uchel** o ran yr olygfa. VS25: Cryf (81%)/ Cymedrol (19%) VS46: Uchel (13%)/ Cymedrol (6%)/ Isel (74%)/ Neilltuol (6%) VS47: Uchel (94%)/ Cymedrol (6%) VS48: Uchel (89%)/ Cymedrol (5%)/ Isel (6%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae gan yr ACT hon deimlad o fod yn **hynod o bellennig a thawel** yn y mannau sydd i ffwrdd oddi wrth aneddiadau a tharfu lleol oherwydd ffyrdd. VS24: Cysgodol (82%)/ Wedi'i Anheddu (10%)/ Digysgod (6%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol . Mae nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Mannau Mynediad Agored. Rhannau bychain wedi'u diffinio fel Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** VS50: Uchel (56%)/ Cymedrol (38%)/ Neilltuol (6%) VS49: Uchel (9%)/ Cymedrol (16%)/ Isel (74%) LH45: Uchel (9%)/ Cymedrol (21%)/ Isel (37%) / Neilltuol (33%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (18%)/ Neilltuol (78%) GL33: Neilltuol (97%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** HL38: Uchel (41%)/ Cymedrol 56%) HL35: Uchel (26%)/ Cymedrol (14%)/ Neilltuol (60%) HL40: Uchel (61%)/ Cymedrol (9%)/ Neilltuol (30%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[62] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae planhigfeydd conwydd helaeth yn cael dylanwad cryf ar olwg y dirwedd ac yn rheoli'r golygfeydd ym mhob rhan o'r ACT. Mae hyn yn lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad ynni gwynt. Er y gallai graddfa fawr y dirwedd hon fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, mae hynny'n cael ei gydbwyso gan gymeriad cryf y dirwedd a'r nenlinellau amrywiol a nodedig wedi'u creu gan y llethrau coediog. Mae gan lawer o'r dirwedd, yn enwedig y rhannau uwch, gymeriad llonydd a phellennig. Mae Betws-y-Coed yn gyrchfan bwysig i dwristiaid ac yn denu nifer uchel o dderbynwyr gweledol sensitif, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn y rhan hon o'r ACT. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach mewn rhai rhannau o dir uchel gan olygfeydd tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys cadwyni mynyddoedd y Glyderau, y Carneddau, yr Wyddfa a'i chriw ei hunan a Pharciau a Gerddi Cofrestredig . Mae dynodiad yr ACT hon tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a rhai rhannau tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol yn atgyfnerthu sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 datblygiad **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar raddfa ddomestig i ficro sy'n ymwneud yn dda efo aneddiadau/adeiladau sy'n bodoli'n barod a thu allan i** Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae planhigfeydd conwydd helaeth yn cael dylanwad cryf ar y dirwedd ac yn cyfyngu ar y golygfeydd ym mhob rhan o'r ACT. Mae hyn yn lleihau'r sensitifrwydd i ddatblygiad mastiau ffonau symudol. Mae presenoldeb nifer o fastiau ffonau symudol yn barod ar hyd y rhwydwaith ffyrdd yn lleihau'r sensitifrwydd yn lleol i'r math hwn o ddatblygiad, er bod rhai

[62] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

	o'r rhain wedi'u cuddio er mwyn gweddu'n well i'r dirwedd mewn lleoliadau arbennig o sensitif. Er bod y sensitifrwydd yn is, beth sy'n bwysicach na hynny ydi cymeriad cryf y dirwedd a nenlinellau amrywiol a nodedig wedi'u creu gan y llethrau coediog. Mae llawer o'r dirwedd yn cael ei hystyried yn llonydd a phellennig, yn enwedig yn y rhannau uwch. Mae Betws-y-Coed yn gyrchfan bwysig i dwristiaid ac yn denu nifer uchel o dderbynwyr gweledol sensitif, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn y rhan hon o'r ACT. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach mewn rhai rhannau o dir uchel gan olygfeydd tuag at ac oddi wrth nodweddion pwysig o ran y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys cadwyni mynyddoedd y Glyderau, y Carneddau, yr Wyddfa a'i chriw ei hunan a Pharciau a Gerddi Cofrestredig . Mae dynodiad yr ACT hon tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a rhai rhannau tu mewn i CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol yn atgyfnerthu sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 8 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol** - 2 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudo wedi'u cuddio**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol tu mewn i Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol CDLlE (efo eithriad ar gyfer mastiau ffonau symudol cyfyngedig wedi'u lleoli a'u dylunio'n dda ac wedi'u cuddio). Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol wedi'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae planhigfeydd conwydd helaeth yn dylanwadu ar gymeriad llawer o'r dirwedd ac, ynghyd â'r tirffurf tonnog, yn cyfyngu ar olygfeydd ym mhob rhan o'r ACT. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd posibl ar gyfer sgrinio, sy'n arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau. Mae presenoldeb parciau carafanau statig/cabanau gwyliau ar hyd prif ffyrdd tua'r dwyrain ger Betws-y-Coed yn lleihau mwy ar y sensitifrwydd i'r math yma o ddatblygiad. Er bod y sensitifrwydd yn is, beth sy'n bwysicach na hynny ydi cymeriad cryf y dirwedd, presenoldeb coetir collddail rhannol naturiol, sy'n cael ei werthfawrogi, ar hyd llethrau'r dyffryn/ceunentydd a'r ffaith fod y dirwedd yn cael ei hystyried yn llonydd a phellennig, yn enwedig yn y rhannau uwch. Mae Betws-y-Coed yn gyrchfan bwysig i dwristiaid ac yn denu nifer uchel o dderbynwyr gweledol sensitif, sy'n cynyddu'r sensitifrwydd yn y rhan hon o'r ACT. Mae dynodiad yr ACT hon tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a rhai rhannau yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol yn atgyfnerthu sensitifrwydd y dirwedd i ddatblygiad.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	


Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad o faint **canolig** - 3 datblygiad **bychan**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd yn Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE ar gyfer datblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau. Fodd bynnag, tu allan i'r rhannau hyn, gallai fod cynhwysedd ar gyfer nifer cyfyngedig o ddatblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau ar raddfa fechan i fechan iawn wedi'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddu datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Blaenau Ffestiniog.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion pwysig eraill o ran treftadaeth ddiwylliannol, fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i mewn i'r nodweddion hyn ac at allan ohonynt.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau modern fertigol sy'n bodoli'n barod. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd tuag at ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau ymwelwyr yr A5 a'r A470 a Rheilffordd Dyffryn Conwy.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Yn ogystal ag ystyried golygfeydd oddi wrth adeiladau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain mewn mannau uwch, dylai'r gwaith o leoli hefyd ystyried golygfeydd pwysig oddi wrth anheddiad Betws-y-Coed a'r boblogaeth ddwysach yno. Mae'r dref yn gyrchfan boblogaidd gan ymwelwyr, efo'i hatyniadau ymwelwyr ei hunan, a chanddi gysylltiad cryf efo'r dirwedd mae wedi'i lleoli ynddi.	✓	✓	✓

S07 Dyffryn Conwy



Lleoliad a Maint

Mae'r Ardal Cymeriad Tirwedd hon yn cael ei hystyried yn borth dwyreiniol i'r Parc Cenedlaethol ac wedi'i chanoli ar Afon Conwy wrth i honno lifo trwy ymyl dwyreiniol y Parc Cenedlaethol.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa fawr, tirwedd agored, wledig
- Tirffurf tonnog wedi'i diffinio gan Afon Conwy a'i isafonydd

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa fawr**. VS8: Mawr (79%)/ Anferth (15%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Tirwedd o ddyffryn tonnog efo rhai copaon bryniau crwn. VS Dosbarthiad Lefel 2: Bryniau, Llwyfandir Is a Llethrau Sgarp (79%)/ Ucheldir Digysgod/Llwyfandir (15%)/ Dyffrynnoedd Iseldir (6%) VS4: Llwyfandiroedd (15%) /Tonnog (50%)/ Bryniau/Dyffrynnoedd (34%)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	Gorchudd Tir	**Mosaig amrywiol** o gaeau hanesyddol ac afreolaidd o faint canolig, tir pori'n bennaf efo dyffrynnoedd coediog a glannau afonydd, planhigfeydd mawr o goed conwydd a chymysg yn bennaf yng ngogledd yr ACT. Pocedi o dir pori agored garw ar gopaon llawer o'r bryniau. VS Dosbarthiad Lefel 3: Tir Pori Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (31%)/ Mosaig Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (48%)/ Rhostir Ucheldir(15%) VS5: Tir Agored (15%)/ Patrwm Caeau/Mosaig (80%)	↑			↑	↑
	Dylanwadau wedi'i Creu gan Bobl	Mae'r dylanwadau modern wedi'u creu gan bobl yn nodweddiadol wedi'u cronni ar hyd cefnffordd/llwybr twristiaeth yr A5 a'r B4406, efo dim ond eiddo gwledig gwasgaredig yn y rhannau eraill. Mae'r datblygiad yn cynnwys nifer o fastiau ffonau symudol wedi'u lleoli'n ganolog a thua'r gorllewin a nifer fechan o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau tua'r gogledd-ddwyrain. VS6: Cystyrau (31%)/ Gwasgaredig Gwledig/Ffermydd (66%) VS27: Gweddol (100%)	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r nenlinellau yn yr ACT hon yn gymharol **syml ac ysgubol**, efo coed aeddfed gwasgaredig a blociau a stribedi bychan o goetir. Mae mynyddoedd uwch Eryri'n creu **nenlinellau nodedig** sy'n gefndir i'r golygfeydd tua'r gorllewin.	-			-	
Gweledol	**Symudiad**	**Anaml y bydd symudiad yn digwydd yn y rhannau nad ydynt yn agos at y prif goridorau ffyrdd.** VS18: Anaml (94%)	↑				
	Gweledegd, Golygfeydd	Mae'r golygfeydd nodweddiadol yn yr ACT hon yn rhai **agored** efo gweledfannau uwch o'r tir uwch, lle	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	mae golygfeydd golygfaol panoramig o'r cadwyni mynyddoedd cyfagos tua'r gorllewin. VS9: Wedi'i Chau i Mewn (6%)/ Agored (79%)/ Digysgod (15%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo preswyl ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Mannau Mynediad Agored ▪ Atyniadau a hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Llwybrau twristiaeth yr A5 a'r A470 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Mynydd Hiraethog ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Canolig-Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol**. VS25: Gwan (31%)/ Canolig (53%)/ Cryf (15%) VS46: Uchel (51%)/ Canolig (34%)/ Neilltuol (15%) VS47: Uchel (52%)/ Canolig (48%) VS48: Uchel (6%)/ Canolig (79%)/ Neilltuol (15%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae'r rhwydwaith ffyrdd a'r pentrefi bychan yn rhoi **lefel leol o darfu** yn yr ACT. Yn y rhannau i ffwrdd oddi wrth y rhain, mae'r dirwedd yn aml yn **dawel ac weithiau'n bellennig.** VS24: Digysgod; Pellennig 15%)/ Arall (48%)/ Wedi'i Anheddu (35%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored. Ardaloedd bychan wedi'u diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Canolig-Uchel** efo rhai ardaloedd yn **Neilltuol**. VS50: Uchel (6%)/ Canolig (79%)/ Neilltuol (15%) VS49: Uchel (17%)/ Canolig (83%) LH45: Uchel (15%)/ Canolig (81%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (56%)/ Neilltuol (43%) GL33: Uchel (49%)/ Neilltuol (50%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Canolig-Uchel** efo rhai ardaloedd yn **Neilltuol**. HL38: Uchel (79%)/ Canolig (5%)/ Heb ei asesu (16%) HL35: Uchel (21%)/ Canolig (78%) HL40: Uchel (99%)/ Neilltuol (1%)	-			-	-

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[63] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

[63] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae presenoldeb rhai planhigfeydd conwydd mawr tua'r gogledd yn lleihau'r sensitifrwydd yn lleol i'r math yma o ddatblygiad. Er y gallai graddfa fawr y dirwedd donnog hon hefyd fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, mae hynny'n cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb patrymau cae cymhleth a glannau afonydd coediog rhannol naturiol mewn rhannau o'r ardal hon. Gan mai anaml y bydd symudiad yn digwydd a bod diffyg datblygiad modern, mae hynny'n cynyddu'r teimlad o lonyddwch, ac ynghyd â natur agored y dirwedd a'r graddau uchel o welededd o un i'r llall rhwng yma ac ACT sensitif eraill, mae'n cynyddu'r sensitifrwydd cyffredinol i ddatblygiad ynni gwynt. Yn ychwanegol, mae dynodiad yr ACT fel Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Does dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na chaniatâd wedi'i roi ar gyfer rhai.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (efo eithriad ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau gwynt ar raddfa ddomestig hyd at ficro, y dylent fod yn ymwneud yn dda efo'r anheddiad/adeiladau sy'n bodoli'n barod a thu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.)

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae presenoldeb rhai planhigfeydd conwydd mawr tua'r gogledd a nifer o fastiau ffonau symudol ar hyd yr A5 a ffyrdd eraill ar gyrion yr ACT hon yn lleihau'n lleol y sensitifrwydd i'r math yma o ddatblygiad. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb patrymau cae cymhleth a glannau afonydd coediog rhannol naturiol mewn rhannau eraill o'r ardal hon. Mae hefyd deimlad cryf o lonyddwch mewn llawer o'r ACT hon ac mae hynny, ynghyd â natur agored y dirwedd a'r graddau uchel o welededd o un i'r llall rhwng yma ac ACT sensitif eraill, yn cynyddu'r sensitifrwydd cyffredinol. Yn ychwanegol, mae dynodiad yr ACT fel Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd.
SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	5 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol yn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLlE (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli a'u dylunio'n dda**.) **Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol wedi'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT


SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae presenoldeb rhai planhigfeydd conwydd mawr tua'r gogledd yn lleihau'r sensitifrwydd yn lleol i'r math yma o ddatblygiad. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb patrymau cae cymhleth a glannau afonydd coediog rhannol naturiol mewn rhannau eraill o'r ardal hon. Mae hefyd deimlad cryf o lonyddwch mewn llawer o'r ACT hon ac mae hynny, ynghyd â natur agored y dirwedd a'r graddau uchel o weledigedd o un i'r llall rhwng yma ac ACT sensitif eraill, yn cynyddu'r sensitifrwydd cyffredinol. Yn ychwanegol, mae dynodiad yr ACT fel Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd.
SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	2 o ddatblygiadau **bychan iawn**.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig / cabanau gwyliau tu mewn i'r Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE. Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer nifer cyfyngedig o ddatblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau wedi'u lleoli'n sensitif, eu dylunio'n dda ac ar raddfa fechan neu fechan iawn.**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddu datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Mynydd Hiraethog.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion pwysig eraill o ran treftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol i mewn i'r nodweddion hyn ac at allan ohonynt.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau modern fertigol sy'n bodoli'n barod. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau twristiaeth yr A5 a'r A470.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Yn ogystal â chymryd i ystyriaeth yr olygfa oddi wrth eiddo ar eu pennau eu hunain mewn lleoliadau uwch, dylai'r gwaith o leoli gymryd i ystyriaeth olygfeydd pwysig o anheddiad Betws-y-Coed â'i phoblogaeth ddwysach. Mae'r dref hon yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr, efo'i hatyniadau ymwelwyr ei hunan, a chanddi gysylltiad cryf efo'r dirwedd mae wedi'i lleoli ynddi.	✓	✓	✓

S08 Dyffryn y Ddwyryd



Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn estyn o fan tua'r gogledd o Lan Ffestiniog i lawr i Benrhyndeudraeth, gan ffurfio dyffryn llydan a chymharol wastad.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd ar raddfa ganolig i fawr
- Topograffi cymhleth
- Coetiroedd hynafol o bwysigrwydd cenedlaethol efo derw'n rhywogaeth pennaf

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa ganolig i fawr**. VS8: Canolig (36%)/ Mawr (60%)/	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	**Topograffi cymhleth,** llawr dyffryn llydan ac o'i gwmpas dirwedd amrywiol sy'n tonni'n ysgafn, a cheunant serth yn union tu cefn. VS Dosbarthiad Lefel 2: Bryniau, Llwyfandir Is a	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		Llethrau Sgarp (48%)/ Dyffrynnoedd Iseldir (16%)/ Iseldir Tonnog (32%) VS4: Bryniau Uchel/Mynyddoedd (30%)/ Tonnog (52%) / Bryniau/Dyffrynnoedd (8%)					
	Gorchudd Tir	Mae **amrywiaeth o orchudd tir** yn bresennol, ochrau dyffryn serth wedi'u gorchuddio gan goetir; conwydd yn bennaf a rhai ardaloedd sylweddol o goetir hynafol efo derw'n rhywogaeth pennaf. Mosaigau o gorsydd a thir pori afreolaidd ar raddfa fechan yn dilyn lloriau'r dyffrynnoedd. Pocedi o dir pori garw agored ar gopaon rhai bryniau. VS Dosbarthiad Lefel 3: Tir Pori Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (14%)/ Mosaig Ochrau Bryniau a Llethrau Sgarp (6%)/ Mosaig Iseldir Tonnog (29%)/ Dyffrynnoedd Iseldir Agored (8%)/ Ochrau Bryniau Coediog a Llethrau Sgarp (28%)/ Dyffrynnoedd Iseldir Coediog (6%) VS5: Cymysgedd (43%)/ Coetir (42%)/Tir Agored (10%)/Patrwm Caeau/Mosaig (5%)/	↑			↑	↑
	Dylanwadau wedi'u creu gan bobl	Mae pentrefi Maentwrog, Gellilydan a Ffestiniog wedi'u cysylltu gan yr A470, A487 a'r A496 ac yn **dod â dylanwad cymedrol wedi'i greu gan bobl** ar y dirwedd. Mewn rhai rhannau o'r ACT mae dylanwad i'w weld oddi wrth strwythurau fertigol modern fel y llinellau uwchben 400 kV ac 132 kV, mastiau ffonau symudol a pharciau carafanau statig/cabanau gwyliau sy'n bodoli'n barod. I ffwrdd oddi wrth lonydd ac aneddiadau mae rhai pocedi o'r dirwedd yn **parhau heb gael tarfu arnynt**. VS6: Clystyrau (16%)/ Cymysg (14%)/ Dim Aneddiadau	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		(44%)/ Gwledig Gwasgaredig/Fferm (16%)/ Pentref (17%) VS27: Gweddol (100%)					
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r topograffi cymhleth efo ceunant serth tu cefn ac ochrau dyffryn coediog yn rhoi **nenlinellau amlwg** ym mhob rhan o'r ACT. **Mae llinellau uwchben a rhai mastiau'n torri ar draws y nenlinellau.**	-			-	
Gweledol	**Symudiad**	**Mae traffig aml ar ffyrdd yr** A470, A487 a'r A496 yn dod â symudiad, yn enwedig i ganol yr ACT. Mae symudiad yn llai aml yn y rhannau eraill. VS18: Cyson (14%)/ Aml (39%) / Anaml (17%)/ Achlysurol (30%)	-				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd nodweddiadol yn rhai **agored tuag at y dwyrain,** yn enwedig o'r mannau uwch. Mae'r golygfeydd **yn y gorllewin wedi'u cyfyngu fwy gan goetir trwchus;** fodd bynnag mae modd cael golygfeydd tua'r arfordir o rai mannau uwch. VS9: Cyfyngedig (42%)/ Agored (40%)/ Wedi'i Chau i Mewn (14%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo niferus, yn enwedig yn y pentrefi ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans o Fangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a Lôn Las Cymru (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol fel Rheilffordd Ffestiniog ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Llwybrau twristiaeth yr A487 a'r A470 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ ATA Tirweddau Aberoedd Glaslyn a Dwyryd ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Blaenau Ffestiniog ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Arfordir Heb ei Ddatblygu CDLlE Morfa Harlech a Morfa Dyffryn ▪ Ardal Prydferthwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Canolig-Uchel.** Mae rhannau bychan o'r ardal wedi'u diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol VS25: Cryf (46%)/ Canolig (32%)/ Gwan (22%) VS46: Isel (28%)/ Canolig (65%) VS47: Uchel (60%)/ Canolig (25%)/ Isel (15%) VS48: Uchel (50%)/ Canolig (46%)	-			-	-
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	**Yn y rhannau i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith ffyrdd,** ac aneddiadau mae llawer o'r dirwedd hon yn gymharol **dawel.** VS24: Arall; Tawel; Cysgodol; Pellennig; Ysbrydol (14%)/ Cysgodol(42%)/ Arall (38%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Bangor i Abergwaun (rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae rhannau bychan o'r dirwedd wedi'u diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n dilyn rhan o lannau Afon Dwyryd tua'r gorllewin. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Canolig** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** VS50: Uchel (22%)/ Canolig (74%) VS49: Uchel (12%)/ Canolig (60%)/ Isel (28%) LH45: Uchel (17%)/ Canolig (56%)/ Neilltuol (23%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (31%)/ Neilltuol (61%)/ Isel (7%) GL33: Uchel (31%)/ Neilltuol (61%)/ Isel (7%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae rhan ddeheuol yr ACT hon yn Nhirwedd Hanesyddol Cofrestredig Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor. Mae'r ACT hefyd yn cynnwys Parc a Gardd Cofrestredig. Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Uchel-Neilltuol**. HL38: Uchel (60%)/ Canolig (27%)/ Heb ei asesu (12%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		HL35: Uchel (36%)/ Canolig (13%)/ Neilltuol (50%) HL40: Uchel (56%)/ Neilltuol (42%)					

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[64] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd hon ar raddfa ganolig i fawr, yn gymhleth ac yn cael ei dylanwadu'n arbennig gan bentrefi Maentwrog, Gellilydan a Ffestiniog sydd, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd sydd wedi'i sefydlu, yn dod â symudiad a gweithgaredd i rannau canolog a deheuol yr ACT. Mae'r golygfeydd tuag at y gorllewin ac o'r cyfeiriad hwnnw wedi'u cyfyngu'n helaeth gan goetir trwchus. Tua'r de a'r dwyrain, mae strwythurau fertigol i'w gweld yn bodoli'n barod ar y nenlinellau, strwythurau fel **linellau uwchben**, sy'n lleihau ymhellach y sensitifrwydd i ddatblygiad ynni gwynt. Yn gwrthbwyso hyn, mae'r ffaith fod gan rai rhannau o'r ACT olygfeydd cryf yn ôl a blaen, o'r naill i'r llall, efo rhannau uwch o'r Parc Cenedlaethol o gwmpas ac efo'r arfordir. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gryfhau ymhellach gan y mosaig cymhleth o dirweddau o batrymau caeau, coetir (yn cynnwys coetir hynafol) a thir parc, efo rhai o'r rheiny'n cael eu hystyried yn olygfaol iawn. Mae'r dirwedd yn gymharol dawel yn y rhannau sydd i ffwrdd oddi wrth yr aneddiadau a'r ffyrdd. Mae ei dynodiad fel rhan o'r Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd.

[64] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na rhai efo caniatâd ar eu cyfer.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt** (efo eithriad ar gyfer nifer gyfyngedig o ddatblygiadau gwynt ar raddfa ddomestig hyd at ficro, y dylent fod wedi'u cysylltu'n dda efo'r anheddiad/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE ac Arfordir Heb ei Ddatblygu CDLlE).

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd hon ar raddfa ganolig i fawr, yn gymhleth ac yn cael ei dylanwadu'n arbennig gan bentrefi Maentwrog, Gellilydan a Ffestiniog sydd, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd, yn dod â symudiad a gweithgaredd i rannau canolog a deheuol yr ACT. Mae'r golygfeydd tuag at y gorllewin ac o'r cyfeiriad hwnnw wedi'u cyfyngu'n helaeth gan goetir trwchus. Tua'r de a'r dwyrain mae strwythurau fertigol i'w gweld yn bodoli'n barod ar y nenlinellau, strwythurau fel **linellau uwchben**, sy'n lleihau ymhellach y sensitifrwydd i ddatblygiad mastiau ffonau symudol. Yn gwrthbwyso hyn, mae'r ffaith fod gan rai rhannau o'r ACT olygfeydd cryf yn ôl a blaen o'r naill i'r llall efo rhannau uwch o'r Parc Cenedlaethol o gwmpas ac efo'r arfordir. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gryfhau ymhellach gan y mosaig cymhleth o dirweddau o batrymau caeau, coetir (yn cynnwys coetir hynafol) a thir parc yn yr ACT hon, efo rhai o'r rheiny'n cael eu hystyried yn olygfaol iawn. Mae'r dirwedd yn gymharol dawel yn y rhannau sydd i ffwrdd oddi wrth yr aneddiadau a'r ffyrdd. Mae ei dynodiad fel rhan o'r Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 10 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol** - 2 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol wedi'u cuddio**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol, dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol CDLlE (heblaw am nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda**.) **Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, mae'n cael ei ystyried y gallai fod cynhwysedd cyfyngedig ar gyfer mastiau ffonau symudol wedi'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae'r dirwedd hon ar raddfa ganolig i fawr, yn gymhleth ac yn cael ei dylanwadu'n arbennig gan bentrefi Maentwrog, Gellilydan a Ffestiniog sydd, ynghyd â'r rhwydwaith ffyrdd, yn dod â datblygiad a gweithgaredd i rannau canolog a deheuol yr ACT. Mae hefyd rai parciau carafanau statig/cabanau gwyliau yn bodoli'n barod yn yr ACT hon. Mae'r golygfeydd tuag at y dwyrain ac o'r cyfeiriad hwnnw wedi'u cyfyngu gan goetir trwchus, yn cynnwys planhigfeydd coed conwydd, sy'n cynnig


	cyfleoedd posibl ar gyfer sgrinio ac yn arwydd o sensitifrwydd is o ran yr olygfa. Yn gwrthbwyso hyn, mae'r mosaig cymhleth o dirweddau o batrymau caeau, coetir (yn cynnwys coetir hynafol) a thir parc yn yr ACT hon, efo rhai o'r rheiny'n cael eu hystyried yn olygfaol iawn. Mae'r dirwedd yn gymharol dawel yn y rhannau sydd i ffwrdd oddi wrth yr aneddiadau a'r ffyrdd. Mae ei dynodiad fel rhan o'r Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad **bychan**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau carafanau statig/cabanau gwyliau tu mewn i'r Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE na'r Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE. Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd ar gyfer nifer cyfyngedig o ddatblygiadau parciau carafanau/cabanau gwyliau wedi'u lleoli'n sensitif, eu dylunio'n dda ac ar raddfa fechan i fechan iawn.**

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad ystyried a chadw nodweddion arbennig Tirweddau Ardal Tirwedd Arbennig Moryd Glaslyn a Dwyryd.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirwedd Cofrestredig Aberglaslyn a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig Blaenau Ffestiniog a Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o linellau uwchben 400 kV. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys llwybr beicio cenedlaethol Bangor i Abergwaun (rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol), llwybr Lôn Las Cymru (rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd i ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar Reilffordd Ffestiniog.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau ar gefndiroedd ardaloedd sydd wedi'u diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu.	✓	✓	✓

S09 Y Migneint



Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn estyn o ddyffrynnoedd Prysor a Thryweryn yn y de hyd at ddyffryn Machno yn y gogledd. Mae'r terfyn gorllewinol ar yr A470 a'r terfyn dwyreiniol yn ffinio efo ardal G12 ardal cymeriad tirwedd Gwynedd, lle mae terfyn y Parc Cenedlaethol.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa anferth, tirwedd ddigysgod
- Tir tonnog yn yr ucheldir
- Yn bennaf yn rostir di-goed yn yr ucheldir

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd **ar raddfa anferth**. VS8: Canolig (11%)/ Mawr (7%)/ Anferth (82%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	**Llwyfandir tonnog yn yr ucheldir**, efo rhai copaon ar wahân ynddo a dyffrynnoedd ffurf U. VS Dosbarthiad Lefel 2: Ucheldir/Llwyfandir Digysgod (86%)/ Dyffrynnoedd Ucheldir (10%) VS4: Bryniau Uchel/Mynyddoedd(6%)/ Llwyfandiroedd(81%) / Bryniau/ Dyffrynnoedd (12%)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	Gorchudd Tir	Y gorchudd tir pennaf ydi **rhostir di-goed yn yr ucheldir** efo gwlypdir a chyrff dŵr yma ac acw ynddo. Blociau o blanhigfeydd coed conwydd ar yr ymylon. Mae'r ochrau dyffrynnoedd is yn nodweddiadol yn fosaig o ffermdir pori. VS Dosbarthiad Lefel 3: Ucheldir Agored Dyffrynnoedd (10%)/ Rhostir Ucheldir (86%) VS5: Patrwm Caeau/Mosaig (9%)/ Tir Agored (87%)	↓			-	↑
	Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	Mae'r ACT hon **ar y cyfan heb ei anheddu. Yn nodweddiadol, mae'r dylanwadau sydd wedi'u creu gan bobl wedi'u cyfyngu** i'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Mae ychydig o aneddiadau fferm a chwareli llechi gwasgaredig i'w gweld ym mhob rhan o'r ardal. Mae **lein uwchben** 400 kV yn **nodwedd leol amlwg** ar ymyl deheuol yr ACT ar hyd yr A4212. Mae nifer fechan o fastiau ffonau symudol hefyd yn bresennol. VS6: Gwledig Gwasgaredig/Fferm (91%)/ Dim Aneddiadau (7%) VS27: Gweddol (95%)	↑			↑	↑
	Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
	Nenlinellau a Chefndiroedd	Er bod y nenlinellau yn yr ACT hon yn **syml ac ysgubol** mewn mannau, mae **copaon nodedig unigol wedi'u gwasgaru ar draws llawer ohonynt,** a blociau mawr o blanhigfeydd coed conwydd a golygfeydd o gadwyni o fynyddoedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd cyfagos a phell. Tua'r de, mae **peilonau tal mewn mannau** ar y nenlinellau.	↑			↑	
Gweledol	**Symudiad**	**Anaml y bydd symudiad yn digwydd mewn unrhyw ran o'r dirwedd.** VS18: Achlysurol (6%) / Anaml (91%)	↑				
	Gweledeedd, Golygfeydd Allweddol,	Golygfeydd nodweddiadol yr ACT hon ydi rhai **digysgod**, efo golygfeydd panoramig am bellter hir i'w cael o'r tir uwch.	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	VS9: Wedi'i gau i mewn (7%)/ Agored (6%)/ Digysgod (86%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo gwasgaredig ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Llwybr beicio cenedlaethol pellter hir Sustrans o Fangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) sy'n rhedeg ar hyd rhan fechan o derfyn gorllewinol yr ACT ▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol a hawliau tramwy cyhoeddus ▪ Llwybrau twristiaeth yr A487, A470 a'r A4212 ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol					
Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Ardal Tirwedd Arbennig Cefnwlad y Bala ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Blaenau Ffestiniog ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor ▪ Bryngaer ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal Harddwch Naturiol CDLIE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Neilltuol**. VS25: Cryf (87%)/ Cymedrol (11%) VS46: Uchel (10%)/ Cymedrol (7%)/ Neilltuol (82%) VS47: Uchel (96%) VS48: Uchel (10%)/ Cymedrol (8%)/ Neilltuol (82%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	I ffwrdd oddi wrth aneddiadau a ffyrdd, mae gan yr ACT hon gymeriad **arbennig o dawel a phellennig**. VS24: Digysgod; Pellennig (81%)/ Digysgod (6%)/ Arall (11%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT cyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol pellter hir Sustrans o Fangor i Abergwaun (llwybr 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae llawer o'r dirwedd hon wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel-Neilltuol.** VS50: Uchel (9%)/ Canolig (8%)/ Neilltuol (82%) VS49: Uchel (86%)/ Canolig (13%) LH45: Neilltuol (78%)/Canolig (11%)/ Isel (11%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (13%)/ Neilltuol (71%)/ Heb ei asesu (15%) GL33: Uchel (8%)/ Neilltuol (92%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. Yr arfarniad LANDMAP nodweddiadol ydi **Canolig-Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** HL38: Uchel (20%)/ Canolig (72%)/ Heb ei asesu (5%) HL35: Uchel (79%)/ Canolig (9%)/ Neilltuol (12%) HL40: Uchel (89%)/ Neilltuol (8%)	-			-	-

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[65] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Er y gallai'r raddfa anferth a gorchudd tir cyson fod yn arwydd o sensitifrwydd is i ddatblygiad ynni gwynt, beth sy'n llawer pwysicach na hynny ydi nodweddion naturiol y dirwedd ucheldir hon, sy'n olygfaol iawn, yn bellennig a thawel ac yn cael ei hystyried yn un o'r tirweddau canolog tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae gwerth golygfaol y dirwedd yn cael ei adlewyrchu mewn bod llawer ohoni wedi'i ddiffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r golygfeydd yn agored a digysgod mewn rhan helaeth o'r ACT hon efo golygfeydd yn ôl a blaen, o un i'r llall, rhwng hon a rhannau eraill o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni gwynt wedi cael ei leihau yn lleol lle mae lein **uwchben** 400 kV yn rhedeg o'r dwyrain tua'r gorllewin ar draws pen deheuol yr ACT hon.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na rhai efo caniatâd ar eu cyfer.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysiant ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (heblaw am nifer cyfyngedig o ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa ddomestig y dylent ymwneud yn dda efo aneddiadau/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE.)**

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae'r ACT hon yn cael ei hystyried yn un o'r tirweddau canolog tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r dirwedd hon yn olygfaol iawn, yn bellennig a llonydd, a'r nodweddion naturiol yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd i ddatblygiad mastiau ffonau symudol. Mae gwerth golygfaol y dirwedd yn cael ei adlewyrchu mewn bod llawer ohoni wedi'i ddiffinio yn CDLlE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r golygfeydd yn agored a digysgod mewn rhan helaeth o'r ACT hon, efo golygfeydd yn ôl a blaen, o un i'r llall, rhwng hon a rhannau eraill o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r sensitifrwydd i ddatblygiadau mastiau ffonau symudol wedi cael ei leihau yn lleol lle mae lein **uwchben** 400 kV yn rhedeg o'r dwyrain tua'r gorllewin ar draws pen deheuol yr ACT hon.

[65] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	3 o ddatblygiadau **mastiau ffonau symudol**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysiant ar gyfer datblygiadau ffonau symudol (heblaw am ar gyfer nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.)**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel Iawn	Mae'r ACT hon yn cael ei hystyried yn un o'r tirweddau canolog yn y Parc Cenedlaethol. Mae nodweddion naturiol y dirwedd rhostir ucheldir hon, sy'n olygfaol iawn, yn bellennig a llonydd, yn rhoi graddau uchel o sensitifrwydd i ddatblygiad parciau carafanau statig/cabanau gwyliau. Mae gwerth golygfaol y dirwedd yn cael ei adlewyrchu mewn bod llawer ohoni wedi'i ddiffinio yn CDLIE fel Ardal o Harddwch Naturiol. Mae'r golygfeydd yn agored a digysgod mewn rhan helaeth o'r ACT hon efo golygfeydd yn ôl a blaen, o un i'r llall, rhwng hon a rhannau eraill o'r Parc Cenedlaethol.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau'n bodoli'n barod na chaniatâd yn bodoli ar eu cyfer.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Yn nodweddiadol dim cynhwysiant ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau.

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad ystyried a chadw nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Cefnwlad y Bala.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o linellau uwchben 400 kV. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Bangor i Abergwaun (rhif 82 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd i ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybr twristiaeth yr A470.	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Cynnal y golygfeydd o un i'r llall rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar bennau bryniau.	✓	✓	

S10 Morfa Harlech



1:50,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Swyddfa Ei Mawrhydi, © hawlfraint y Goron, Trwydded rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn estyn o Aber Afon Dwyryd yn y gogledd hyd at dref Harlech yn y de. Mae'r B4573 ar ffin dwyreiniol yr ACT hon, a'r arfordir yn y gorllewin.

Nodweddion Allweddol

- Ar raddfa ganolig, tirwedd agored
- Tirffurf arfordirol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa ganolig**. VS8: Canolig (99%)	-				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Mae'r tirffurf yma yn bennaf yn **dir isel** parth arfordirol tua'r gogledd a'r gorllewin, yn codi ychydig tuag at y mewndir tua'r dwyrain lle mae'n **tonni'n ysgafn**. VS Dosbarthiad Lefel 2: Arfordirol (96%) VS4: Gwastadeddau (80%)/ Ymdonni (20%)	↓			↓	↓
	Gorchudd Tir	Tua'r gogledd a'r gorllewin yr elfen bennaf o ran gorchudd tir ydi **twyni a llaciau** Aber Dwyryd a'r arfordir.	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	Yn y mewndir, y gorchudd tir pennaf ydi **corsydd wedi'u hadennill** a ffermdir a **phlanhigfeydd coed conwydd** yn gymysg efo hynny. VS Dosbarthiad Lefel 3: Twyni a Llaciau Twyni (80%)/ Twyni a Llaciau Twyni (17%) VS5: Tir Agored (28%)/Cymysgedd (71%)					
Dylanwadau wedi'u creu gan bobl	Mae'r ACT yn bennaf heb ei anheddu, heblaw am Harlech yn ne orllewin yr ACT a dau o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau. **Mae'r brif seilwaith cludiant yn cynnwys** yr A496 a Rheilffordd y Cambrian, sy'n croesi'r ACT i gyfeiriad gogledd-de. **Mae llinellau uwchben 400 kV a 132 kV yn dod â datblygiad modern fertigol** i'r ACT, gan groesi Aber Dwyryd ym mhen gogledd-ddwyreiniol yr ACT. Mae tyrbin gwynt a mast ffonau symudol tua'r de-ddwyrain. VS6: Clystyrau (13%)/ Pentref (7%) / Dim Aneddiadau (77%) VS27: Gweddol (83%)/ Heb ei asesu (17%)	-			-	-
Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
Nenlinellau a Chefndiroedd	Er nad ydi nenlinellau'n amlwg yn yr ACT hon, mae amlinell greigiog Moel-y-Gest yn ACT G09 yn rhan **nodedig** o'r dirwedd yn y golygfeydd wrth edrych o'r ACT hon, ac mae gan Foel-y-Gest **nenlinellau dramatig yn gefndir** iddi, wedi'u creu gan fynyddoedd Eryri, yn enwedig cadwyn mynyddoedd y Rhinogau.	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gweledol	**Symudiad**	**Mae'r symudiad sy'n digwydd yn aml wedi'i ganolbwyntio ar hyd yr** A496, sy'n llwybr prysur i dwristiaeth. Yn y rhannau eraill, anaml bydd symudiad yn digwydd, a chychod weithiau yn Aber Dwyryd. VS18: Aml (59%) / Anaml (22%) / Prin (17%)	-				
	Gweledigedd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd ar y cyfan yn agored yn yr ACT hon, efo golygfeydd pellter hir tuag at yr arfordir a Phenrhyn Llŷn a golygfeydd panoramig trawiadol tuag ar y tir wrth edrych tuag at yr ucheldir sy'n galon i'r Parc Cenedlaethol. Mae Ynys Gifftan yn nodwedd yng nghanol yr aber. VS9: Agored (100%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo niferus mewn clystyrau ac ar wasgar ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Castell Harlech ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) ▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol fel Portmeirion ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol, yn cynnwys llwybrau twristiaeth prysur ▪ Rheilffordd y Cambrian, Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Eryri ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol	↑			↑	↑
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd ▪ ATA Aberoedd Glaslyn a Dywryd ▪ ATA Porthmadog a Bae Tremadog ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Ardudwy	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
	(tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2) ▪ Arfordir Heb ei Ddatblygu Morfa Harlech a Morfa Dyffryn CDLlE (Polisi Datblygu 2)					
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel.** VS25: Cryf (96%) VS46: Uchel (58%)/ Canolig (42%) VS47: Canolig (83%)/ Uchel (17%) VS48: Uchel (96%)	↑			↑	↑
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	Mae'r A496 a Rheilffordd y Cambrian yn croesi'r ACT ac yn **lleihau'r teimlad o bellenigrwydd a thawelwch.** Er hynny, i ffwrdd oddi wrth y seilwaith cludiant mae'r ACT yn parhau i gadw **teimlad o fod yn bellennig ac o lonyddwch,** yn enwedig tu allan i'r tymor ymwelwyr ar hyd y lan yn agos at y môr ym Morfa Harlech. VS24: Arogl; Swnllyd; Cysgodol; Pellennig (40%)/ Arogl; Deniadol; Digysgod; Gwyllt; Ysbrydol (21%)/ Arogl (11%) / Arogl; Digysgod (7%)/ Llonydd; Arogl (17%)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru (rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae llawer o'r dirwedd wedi'i ddiffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n rhedeg ar hyd y cyfan o'r ACT. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol**. VS50: Uchel (56%)/ Canolig (41%) VS49: Uchel (56%)/ Canolig (44%) LH45: Canolig (53%)/ Neilltuol (46%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Neilltuol (31%)/ Canolig (10%)/ Isel (59%) GL33: Neilltuol (31%)/ Canolig (10%)/ Isel (59%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r ACT hon tu mewn i Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig Ardudwy. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Canolig-Uchel** efo rhai rhannau'n **Neilltuol**. HL38: Uchel (51%)/ Canolig (48%) HL35: Uchel (50%)/ Canolig (40%)/ Neilltuol (10%) HL40: Uchel (57%)/ Canolig (41%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[66] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae hon yn dirwedd arfordirol ar raddfa ganolig sy'n cael ei dylanwadu gan y datblygiad modern a symudiad yn gysylltiedig efo'r A496 a Rheilffordd y Cambrian. Mae hynny, ynghyd â dylanwad y **llinellau uwchben** 400 kV tua'r gogledd-ddwyrain, yn lleihau'r sensitifrwydd yn lleol. Beth sy'n bwysicach na'r sensitifrwydd is yma ydi'r teimlad o fod yn bellennig ac o lonyddwch (yn enwedig tu allan i'r tymor ymwelwyr) sydd i'w gael wrth fynd i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith cludiant. Mae hefyd raddau uchel o weledded yn ôl a blaen o un lle i'r llall ar hyd yr arfordir ac mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Yn ogystal, mae nifer o dderbynwyr sensitif, yn cynnwys golygfeydd tuag at ac oddi wrth Gastell Harlech - Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, sy'n cynyddu sensitifrwydd cyffredinol yr ACT. Mae'r sensitifrwydd uchel yn cael ei atgyfnerthu gan bwysigrwydd y dirwedd o ran treftadaeth ddiwylliannol a'i dynodiad tu mewn i'r Parc Cenedlaethol.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 datblygiad ar raddfa **ficro**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (heblaw am nifer cyfyngedig o ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa ddomestig y dylent ymwneud yn dda efo aneddiadau/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE ac Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE .)**

[66] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae hon yn dirwedd arfordirol ar raddfa ganolig sy'n cael ei dylanwadu gan y datblygiad modern a symudiad yn gysylltiedig efo'r A496 a Rheilffordd y Cambrian. Mae hynny, ynghyd â dylanwad y **llinellau uwchben** 400 kV tua'r gogledd-ddwyrain, yn lleihau'r sensitifrwydd yn lleol i ddatblygiad. Beth sy'n bwysicach na'r sensitifrwydd is yma ydi'r teimlad o fod yn bellennig ac o lonyddwch (yn enwedig tu allan i'r tymor ymwelwyr) sydd i'w gael wrth fynd i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith cludiant. Mae hefyd raddau uchel o weledded yn ôl a blaen o un lle i'r llall ar hyd yr arfordir ac mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Mae nifer o dderbynwyr sensitif, yn cynnwys golygfeydd tuag at ac oddi wrth Gastell Harlech - Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, sy'n cynyddu sensitifrwydd cyffredinol yr ACT. Mae'r sensitifrwydd uchel yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan bwysigrwydd y dirwedd o ran treftadaeth ddiwylliannol a'i dynodiad tu mewn i'r Parc Cenedlaethol.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 datblygiad **mast ffonau symudol**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am ar gyfer nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.)**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Uchel	Mae hon yn dirwedd arfordirol ar raddfa ganolig sy'n cael ei dylanwadu gan y datblygiad modern a symudiad yn gysylltiedig efo'r A496 a Rheilffordd y Cambrian. Mae hynny, ynghyd â dylanwad y parciau carafanau statig/cabanau gwyliau sy'n bodoli'n barod tua'r de-orllewin a'r **llinellau uwchben** 400 kV tua'r gogledd-ddwyrain, yn lleihau'r sensitifrwydd yn lleol i ddatblygiad. Beth sy'n bwysicach na'r sensitifrwydd is yma ydi'r teimlad o fod yn bellennig ac o lonyddwch (yn enwedig tu allan i'r tymor ymwelwyr) sydd i'w gael wrth fynd i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith cludiant. Mae hefyd raddau uchel o weledded yn ôl a blaen o un lle i'r llall ar hyd yr arfordir ac mae llawer o'r dirwedd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Yn ogystal, mae nifer o dderbynwyr sensitif, yn cynnwys golygfeydd tuag at ac oddi wrth Gastell Harlech - Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, sy'n cynyddu sensitifrwydd cyffredinol yr ACT. Mae'r sensitifrwydd uchel yn cael ei atgyfnerthu gan bwysigrwydd y dirwedd o ran treftadaeth ddiwylliannol a'i dynodiad tu mewn i'r Parc Cenedlaethol.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	

Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad **mawr** - 1 datblygiad **canolig** - 1 datblygiad **bychan iawn**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	Yn nodweddiadol does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau.


Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac oddi wrth AHNE Llŷn.	✓	✓	✓
Cadw nodweddion arbennig Aber Glaslyn a Dwyryd ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig Porthmadog a Bae Tremadog.	✓	✓	✓
Cynnal cefndir a'r golygfeydd allweddol tuag at ac oddi wrth Gastell Harlech - Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd .	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Cofrestredig Hanesyddol Ardudwy ac Aberglaslyn.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig ac atyniadau lleol pwysig fel Portmeirion; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau fertigol modern fel llinellau uwchben 400 kV. Dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, llwybr beicio cenedlaethol Lôn Las Cymru Sustrans (rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd i ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad o fewn y llinellau gweld ar gyfer golygfeydd allweddol, yn enwedig allan i'r môr.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'i gefndir uniongyrchol, ac yn enwedig osgoi mannau sydd wedi'u diffinio fel Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE.	✓	✓	✓

Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau twristiaeth prysur fel yr A496, Rheilffordd y Cambrian, Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Eryri.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Yn ogystal â chymryd i ystyriaeth yr olygfa oddi wrth eiddo ar eu pennau eu hunain mewn lleoliadau uwch, dylai'r gwaith o leoli gymryd i ystyriaeth olygfeydd pwysig o anheddiad Porthmadog â'i phoblogaeth ddwysach. Mae nifer o gyrchfannau ymwelwyr yn gysylltiedig efo'r dref hon, a chanddi gysylltiad cryf efo'r dirwedd mae wedi'i lleoli ynddi.	✓	✓	✓

S11 Morfa Dyffryn



1:50,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Swyddfa Ei Mawrhydi, © hawlfraint y Goron, Trwydded rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn estyn o aber Afon Artro yn y gogledd, yn cynnwys yr arfordir a'r tir tu cefn iddi ac yn gorffen ychydig i'r gogledd o Abermaw. Y tir hwn sy'n wyneb gorllewinol i ran o'r Parc Cenedlaethol.

Nodweddion Allweddol

- Graddfa ganolig, tirwedd agored
- Tirwedd arfordirol wastad
- ACT sy'n cynnwys ardal fawr o dwyni, yr ardal a elwir ym Mochras a Maes Awyr Llanbedr

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd **ar raddfa ganolig**. VS8: Canolig (97%)	-				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Yn gyffredinol yn **wastadedd arfordirol isel.** VS Dosbarthiad Lefel 2: Arfordirol (90%)/ Ffurf Adeiledig (6%) VS4: Gwastadeddau (97%)	-			-	-
	Gorchudd Tir	Mae'r gorchudd tir yn bennaf yn **system twyni fawr**, efo twyni a slaciau twyni tuag at yr arfordir a pharth	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	rhynglanw llydan ym Morfa Dyffryn tua'r gogledd. **Mae Maes Awyr Llanbedr** a'r adeiladau cysylltiedig yn creu gorchudd tir trefol yn lleol tuag at ganol yr ACT. Ymhellach i mewn i'r tir, mae **tir pori** sy'n ffurfio patrwm afreolaidd o gaeau ar raddfa fechan. VS Dosbarthiad Lefel 3: Twyni a Slaciau Twyni (90%)/ Trefol (6%) VS5: Cymysgedd (97%)					
Dylanwadau wedi'u Creu gan Bobl	**Isadeiledd cludiant,** yn cynnwys yr A496 a Rheilffordd y Cambrian sy'n croesi'r ACT o gyfeiriad y gogledd i'r de ac yn diffinio ymyl dwyreiniol yr ACT. Mae datblygiadau modern hefyd yn cynnwys Maes Awyr Llanbedr ac adeiladau cysylltiedig, a nifer o aneddiadau bychan fel Llanfair, Coed Ystumgwern a Llanbedr. Mae nifer o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau'n dylanwadu ar gymeriad yr ACT hon. VS6: Gwledig Gwasgaredig/Fferm (90%)/ Trefol (6%) VS27: Gweddol (100%)	↓			↓	↓
Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r dirwedd tu mewn i'r ACT yn dir isel efo **prinder tirffurfiau amlwg**. Mae'r cefndir o fynyddoedd Eryri'n creu **nenlinellau a chefndiroedd dramatig**, yn enwedig cadwyn mynyddoedd y Rhinogau.	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gweledol	**Symudiad**	Mae presenoldeb traffig ffordd a rheilffordd yn dod â **symudiad aml** i rannau o'r ACT hon, yn enwedig yn ystod misoedd prysur yr haf. VS18: Cyson (6%) / Aml (90%)	-				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd nodweddiadol yn yr ACT hon yn rhai **agored**, efo **golygfeydd panoramig pellter hir** i'w cael ar hyd yr arfordir a thuag at Benrhyn Llŷn tua'r gogledd-orllewin a'r ucheldir sy'n galon i'r Parc Cenedlaethol tua'r dwyrain, yn enwedig cadwyn mynyddoedd y Rhinogau. VS9: Agored (100%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo gwasgaredig ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio Sustrans Lôn Las Cymru (rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) ▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Atyniadau lleol fel Mochras (Shell Island) ▪ Hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Rheilffordd y Cambrian ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn cynnwys llwybrau twristiaeth pwysig.	↑			↑	↑
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd ▪ ATA Abermaw ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Ardudwy ▪ Parc a Gardd Gofrestredig Cors-y-Gedol ▪ Arfordir heb ei Ddatblygu Morfa Harlech a Morfa Dyffryn CDLlE (Polisi Datblygu 2)	↑			↑	
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **canolig**. VS25: Canolig (100%) VS46: Uchel (33%)/ Canolig (67%) VS47: Uchel (17%)/ Canolig (83%) VS48: Uchel (30%)/ Canolig (70%)	-			-	-
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	I ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith cludiant ymhellach i mewn yn y tir, mae'r dirwedd hon yn gymharol dawel, yn enwedig tu allan i'r tymor twristiaeth yn nhirwedd twyni arfordirol Mochras (Shell Island). VS24: Arogl (30%) / Arogl; Annymunol; Digysgod; Ysbrydol (61%)/ Arogl; Annymunol; Swnllyd; Cysgodol; Wedi ei Anheddu (6%)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT cyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol hefyd yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol pellter hir Sustrans Lôn Las Cymru (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Mae'n cynnwys ardal wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardal o Arfordir heb ei Ddatblygu. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n rhedeg ar hyd y terfyn gogleddol a gorllewinol. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **canolig** efo rhai rhannau'n **Neilltuol.** VS50: Uchel (30%)/ Canolig (64%)/ Isel (6%) VS49: Uchel (30%)/ Canolig (70%) LH45: Canolig (69%)/ Neilltuol (29%) LH42: Heb ei Asesu(100%) GL31: Neilltuol (100%) GL33: Neilltuol (100%)	-			-	-
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r ACT hon tu mewn i Dirwedd Hanesyddol Gofrestredig Ardudwy. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Uchel**. HL38: Uchel (64%)/ Canolig (32%) HL35: Uchel (77%)/ Canolig (18%) HL40: Canolig (95%)	↑			↑	↑

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[67] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae hon yn dirwedd arfordirol gymharol wastad ar raddfa ganolig sy'n cael ei dylanwadu gan wahanol ffurfiau o ddatblygiad modern yn cynnwys seilwaith cludiant, Maes Awyr Llanbedr, aneddiadau bychan a nifer cymharol uchel o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau. Mae maint a natur ddiwydiannol yr adeiladau yn y maes awyr yn cael effaith negyddol arbennig ar yr olygfa; a hyn, wedi'i gyfuno efo'r dylanwad wedi'i greu gan bobl oddi wrth ddatblygiadau eraill, yn achosi sensitifrwydd is. Yn gwrthbwyso hyn, mae'r ACT gyfan tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri ac mae ganddi bwysigrwydd uchel o ran treftadaeth ddiwylliannol. Hefyd mae gan y rhannau gorllewinol lefel gymharol isel o ddatblygiad ac yn hynny maen nhw wedi'u diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan y nifer uchel o dderbynwyr sensitif, ynghyd â'r lefel uchel o allu gweld o un i'r llall efo tirweddau arfordirol eraill yn cynnwys AHNE Llŷn a hefyd calon y Parc Cenedlaethol yn y mewndir.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	Dim datblygiadau ynni gwynt yn bodoli na chaniatâd ar eu cyfer.
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (heblaw am nifer cyfyngedig o ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa ddomestig i ficro y dylent ymwneud yn dda efo aneddiadau/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE.)**

[67] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae hon yn dirwedd arfordirol gymharol wastad ar raddfa ganolig sy'n cael ei dylanwadu gan wahanol ffurfiau o ddatblygiad modern yn cynnwys seilwaith cludiant, Maes Awyr Llanbedr, aneddiadau bychan a nifer cymharol uchel o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau. Mae maint a natur ddiwydiannol yr adeiladau yn y maes awyr yn cael effaith negyddol arbennig ar yr olygfa; a hyn wedi'i gyfuno efo'r dylanwad wedi'i greu gan bobl oddi wrth ddatblygiadau eraill yn achosi sensitifrwydd is. Yn gwrthbwyso hyn, mae'r ACT gyfan tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri ac mae ganddi bwysigrwydd uchel o ran treftadaeth ddiwylliannol. Hefyd mae gan y rhannau gorllewinol lefel gymharol isel o ddatblygiad ac yn hynny maen nhw wedi'u diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan y nifer uchel o dderbynwyr sensitif, ynghyd â'r lefel uchel o allu gweld o un i'r llall efo tirweddau arfordirol eraill yn cynnwys AHNE Llŷn a hefyd calon y Parc Cenedlaethol yn y mewndir.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	1 datblygiad **mast ffonau symudol**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am ar gyfer nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.)**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae hon yn dirwedd arfordirol gymharol wastad ar raddfa ganolig sy'n cael ei dylanwadu gan wahanol ffurfiau o ddatblygiad modern yn cynnwys seilwaith cludiant, Maes Awyr Llanbedr, aneddiadau bychan a nifer cymharol uchel o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau. Mae hynny'n gostwng y sensitifrwydd i ddatblygiadau pellach o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau ac estyniadau iddynt. Mae maint a natur ddiwydiannol yr adeiladau yn y maes awyr yn cael effaith negyddol arbennig ar yr olygfa, ac felly hefyd y nifer gymharol uchel o garafanau statig yn yr ACT hon. Yn gwrthbwyso hyn, mae'r ACT gyfan tu mewn i Barc Cenedlaethol Eryri ac mae ganddi bwysigrwydd uchel o ran treftadaeth ddiwylliannol. Hefyd mae gan y rhannau gorllewinol lefel gymharol isel o ddatblygiad ac yn hynny maen nhw wedi'u diffinio yn CDLlE fel Arfordir heb ei Ddatblygu. Mae'r sensitifrwydd yn cael ei gynyddu ymhellach gan y nifer uchel o dderbynwyr sensitif, ynghyd â'r lefel uchel o allu gweld o un i'r llall efo tirweddau arfordirol eraill yn cynnwys AHNE Llŷn a hefyd calon y Parc Cenedlaethol yn y mewndir.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	


Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Er ei fod yn cael ei gydnabod bod Newid Tirwedd wedi digwydd lle mae datblygiadau niferus yn dylanwadu ar y dirwedd, yn enwedig ar yr arfordir deheuol; yr amcan uwchben popeth arall ydi Gwarchod y Dirwedd.**
Gwaelodlin Datblygiad	- 4 o ddatblygiadau **mawr iawn** - 3 o ddatblygiadau **mawr** - 2 o ddatblygiadau **canolig** - 1 datblygiad **bychan** - 3 datblygiad **bychan iawn**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau pellach** ar y sail bod y cynhwysedd wedi cael ei gyrraedd.

Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac oddi wrth AHNE Llŷn.	✓	✓	✓
Cadw nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Abermaw.	✓	✓	✓
Cynnal cefndir a'r golygfeydd allweddol tuag at ac oddi wrth Gastell Harlech, Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y môr a thuag at y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig Ardudwy.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig ac atyniadau lleol pwysig fel Mochras (Shell Island); a'r golygfeydd allweddol tuag at ac oddi wrth y nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau fertigol modern; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd, yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru (rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd i ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'i gefndir uniongyrchol, ac yn enwedig osgoi ardaloedd sydd wedi'u diffinio fel Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau twristiaeth prysur fel yr A496 a Rheilffordd y Cambrian.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓

S12 Cefnwlad Arfordir Ardudwy



Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Swyddfa Ei Mawrhydi, © hawlfraint y Goron, Trwydded rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon yn union tua'r gorllewin o gadwyn mynyddoedd y Rhinogau ac yn estyn o geg Afon Dwyryd yn y gogledd hyd at derfyn y Parc Cenedlaethol yn Abermaw yn y de.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd agored ar raddfa fawr
- Tirffurf yn rhedeg at i lawr yn ddramatig tuag at yr arfordir
- Diddordeb o ran Treftadaeth Ddiwylliannol

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa fawr**. VS8: Bychan (6%)/ Canolig (10%)/ Mawr (84%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	Mae'r tirffurf nodweddiadol yn dir **tonnog** efo cyfres o ddyffrynnoedd yn torri ar draws hynny. Mae'r tirffurf yn rhedeg at i lawr yn ddramatig tuag at yr arfordir yn y gorllewin. VS Dosbarthiad Lefel 2: Dyffrynnoedd Iseldir (6%)/ Iseldir Tonnog (86%)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	VS4: Tonnog (87%)/ Bryniau/ Dyffrynnoedd (6%)					
Gorchudd Tir	Gorchudd tir o **amaethyddiaeth pori** yn bennaf, efo ardal fawr o **iseldir agored isel** tuag at yr arfordir. Planhigfeydd coed conwydd a rhai darnau o goetir lled-naturiol o bwysigrwydd cenedlaethol ar wasgar trwy'r cyfan. Mae nifer o gyrff dŵr bychan ar wasgar trwy'r cyfan o'r iseldir agored i'r gogledd-ddwyrain o'r ACT. VS Dosbarthiad Lefel 3: Mosaig Iseldir Tonnog (6%)/ Iseldir Tonnog Agored (81%)/ Dyffrynnoedd Iseldir Coediog (6%) VS5: Cymysgedd (97%)	-			-	-
Dylanwadau wedi'u creu gan bobl	Y patrwm anheddiad nodweddiadol ydi clystyrau o pentrefi bychan ar hyd yr A496 tuag at ran orllewinol yr ACT. Ar y tir uwch tua'r dwyrain o'r A496 mae'n nodweddiadol yn eiddo gwasgaredig. **Mae llinellau uwchben 400 kV a 132 kV,** tyrbinau gwynt a mastiau'n dod â rywfaint o **ddatblygiadau fertigol modern** i'r dirwedd. Mae hefyd nifer o barciau carafanau statig/cabanau gwyliau. Mae Castell Harlech yn nodwedd o bwysigrwydd hanesyddol ar ymyl gorllewinol yr ACT. VS6: Clystyrau (80%)/ Gwledig Gwasgaredig/Fferm (8%)/ Aneddiadau (9%) VS27: Gweddol (00%)	-			-	-
Patrwm Anheddiad	Ddim yn gymwys					
Nenlinellau a Chefndiroedd	Mae'r tir sy'n rhedeg at i fyny yn rhan ddwyreiniol yr ACT wedi'i fframio gan **nenlinell Eryri, sy'n ddylanwad uwchlaw popeth arall,** yn enwedig cadwyn mynyddoedd y Rhinogau.	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
		Mae nenlinell eang tua'r gogledd o'r ACT, efo llinellau uwchben yn torri ar ei thraws.					
Gweledol	**Symudiad**	Bydd traffig ffordd yn dod â **symudiad achlysurol** i'r dirwedd ar hyd yr A496, yn enwedig ym misoedd yr haf. VS18: Achlysurol (82%) / Aml (8%) / Anaml (13%)	↑				
	Gweledegdd, Golygfeydd Allweddol, Fistâu a Derbynwyr Nodweddiadol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	Mae'r golygfeydd nodweddiadol yn yr ACT hon yn rhai **agored**, efo tir uwch yn rhoi cysylltiad gweledol cryf rhwng y mynyddoedd a'r arfordir. Mae'r golygfeydd yn aml yn rhai **eang** efo bryniau Penrhyn Llŷn i'w gweld tua'r gogledd. VS9: Cyfyngedig (6%)/ Wedi'i gau i mewn (6%)/ Agored (84%) Mae'r derbynwyr nodweddiadol yn cynnwys preswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr ar gyfer y mannau a ganlyn: ▪ Eiddo niferus, yn nodweddiadol mewn clystyrau ar hyd yr A496. ▪ Castell Harlech ▪ Llwybrau pellter hir yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) ▪ Ardaloedd Mynediad Agored ▪ Atyniadau a hawliau tramwy cyhoeddus lleol ▪ Rheilffordd y Cambrian ▪ Y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn cynnwys yr A496, sy'n llwybr twristiaeth pwysig ar yr arfordir	↑			↑	↑
	Golygfeydd tuag at ac oddi wrth Nodweddion Pwysig o ran Tirwedd a Threftadaeth	Mae'r rhain yn cynnwys: ▪ Parc Cenedlaethol Eryri ▪ Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd ▪ ATA Abermaw ▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Ardudwy	↑			↑	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
	Ddiwylliannol (tu mewn a thu allan i bob Ardal Cymeriad Tirwedd)	▪ Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor ▪ Bryngaer ▪ Parciau a Gerddi Cofrestredig ▪ Ardal Harddwch Naturiol CDLlE (Polisi Datblygu 2) ▪ Arfordir Heb ei Ddatblygu Morfa Harlech a Morfa Dyffryn CDLlE (Polisi Datblygu 2)					
	Cyflwr	Ddim yn gymwys					
Aesthetig, Canfyddiadol a Phrofiadol	**Ansawdd a Chymeriad yr Olygfa**	Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **canolig**. VS25: Canolig (90%)/ Cryf (10%) VS46: Uchel (79%)/ Canolig (21%) VS47: Canolig (84%)/ Uchel (16%) VS48: Uchel (16%)/ Canolig (84%)	-			-	-
	Pellenigrwydd / Llonyddwch	I ffwrdd oddi wrth yr aneddiadau a choridor ffordd yr A496 mae **cynnydd yn y teimlad o lonyddwch a bod yn bellennig.** VS24: Arall (75%)/ Arall; Tawel; Cysgodol; Pellennig; Ysbrydol (6%)/ Cysgodol (6%) / Arogl (6%)	-			-	-

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Gwerth	**Gwerth o ran Tirwedd** (yn cynnwys nodweddion yn ymwneud efo'r dirwedd)	Mae'r ACT gyfan tu mewn i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r nodweddion wedi'u dynodi'n genedlaethol yn cynnwys Ardaloedd Mynediad Agored a llwybr beicio cenedlaethol Sustrans Lôn Las Cymru (llwybr 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol). Rhannau bychan o Ardal o Brydferthwch Naturiol CDLlE. Mae Llwybr Arfordir Cymru'n rhedeg ar hyd rhannau bychan o'r ffin orllewinol ac yn croesi'r ACT tua'r gogledd. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Cymedrol** efo rhai rhannau'n **Neilltuol**. VS50: Uchel (16%)/ Canolig (83%) VS49: Uchel (9%)/ Canolig (90%) LH45: Uchel (21%)/ Canolig (32%)/ Isel (7%) / Neilltuol (40%) LH42: Heb ei asesu (100%) GL31: Uchel (40%)/ Neilltuol (58%) GL33: Uchel (40%)/ Neilltuol (58%)	↑			↑	↑
	Gwerth Hanesyddol	Mae'r ACT hon yn cynnwys Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd. Mae'r ACT bron yn gyfan gwbl tu mewn i Dirwedd Hanesyddol Cofrestredig Ardudwy, heblaw am ran fechan yn y gogledd eithaf. Mae'r ardal hon hefyd yn cynnwys bryngaer. Yr arfarniad nodweddiadol yn LANDMAP ydi **Neilltuol.**	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd	Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
		Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
	HL38: Uchel (9%)/ Canolig (12%)/ Neilltuol (23%)/ Heb ei asesu (56%)/ HL35: Uchel (40%)/ Neilltuol (60%) HL40: Uchel (33%)/ Neilltuol (63%)					

Sensitifrwydd Cyffredinol y Dirwedd a'r Strategaeth

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi crynodeb cyffredinol o sensitifrwydd o ran y mathau perthnasol o ddatblygiad[68] (ar sail y tabl arfarnu sensitifrwydd ACT), ynghyd â'r strategaeth arfaethedig ar gyfer y dirwedd.

DATBLYGIADAU YNNI GWYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae hon yn dirwedd ar raddfa fawr, yn dir pori efo planhigfeydd conwydd yn gymysg yn hynny. Mae pentrefi sydd wedi'u clystyru ac wedi'u canolbwyntio ar hyd yr A496, ynghyd â Rheilffordd y Cambrian, yn dod â symudiad i ran orllewinol yr ACT hon. Yn y gogledd, mae strwythurau fertigol sy'n bodoli'n barod, fel **llinellau uwchben,** yn tarfu ar y nenlinellau ac **yn lleihau sensitifrwydd ymhellach**. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, sy'n cyfrannu at werth neilltuol y dirwedd o ran treftadaeth ddiwylliannol ynghyd â nifer uchel o dderbynwyr sensitif a gweledegd yn ôl a blaen o un lle i'r llall efo Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd sensitif iawn. Yn ychwanegol, mae dynodiad yr ACT tu mewn i'r Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd ymhellach.

[68] NODER: Mae'r ACT yma tu allan i'r ardal astudiaeth ar gyfer datblygiadau ynni haul PV ar raddfa cae a lein uwchben 400 kV, felly does dim strategaethau ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad.

STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad **bychan** - 1 datblygiad **domestig**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau ynni gwynt (heblaw am nifer cyfyngedig o ddatblygiadau ynni gwynt ar raddfa ddomestig i ficro y dylent ymwneud yn dda efo aneddiadau/adeiladau sy'n bodoli'n barod ac sydd tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE ac Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE .)**

MASTIAU FFONAU SYMUDOL

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae hon yn dirwedd ar raddfa fawr, yn dir pori efo planhigfeydd conwydd yn gymysg yn hynny. Mae pentrefi sydd wedi'u clystyru ac wedi'u canolbwyntio ar hyd yr A496; a'r rheiny ynghyd â Rheilffordd y Cambrian, sy'n cynrychioli dylanwadau wedi'u creu gan bobl tua'r gorllewin o'r ACT. Yn y gogledd, mae strwythurau fertigol sy'n bodoli'n barod, fel **llinellau uwchben,** yn tarfu ar y nenlinellau ac yn lleihau sensitifrwydd ymhellach. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, sy'n cyfrannu at werth neilltuol y dirwedd o ran treftadaeth ddiwylliannol ynghyd â nifer uchel o dderbynwyr sensitif a gweledegd yn ôl a blaen o un lle i'r llall efo Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd sensitif iawn. Yn ychwanegol, mae dynodiad yr ACT tu mewn i'r Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd ymhellach.
STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 10 datblygiad **mastiau ffonau symudol** - 2 ddatblygiad **mastiau ffonau symudol wedi'u cuddio**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol dim cynhwysedd pellach ar gyfer datblygiadau mastiau ffonau symudol (heblaw am ar gyfer nifer cyfyngedig o fastiau ffonau symudol wedi'u cuddio a'u lleoli'n sensitif a'u dylunio'n dda.)**

PARCIAU CARAFANAU STATIG / CABANAU GWYLIAU AC ESTYNIADAU IDDYNT

SENSITIFRWYDD CYFFREDINOL	
Canolig-Uchel	Mae hon yn dirwedd ar raddfa fawr, yn dir pori efo planhigfeydd conwydd yn gymysg yn hynny. Mae pentrefi sydd wedi'u clystyru a pharciau carafanau statig/cabanau gwyliau'n bodoli'n barod wedi'u canolbwyntio ar hyd yr A496 a rhwydweithiau ffyrdd lleol; a'r rheiny ynghyd â Rheilffordd y Cambrian a llinellau uwchben yn cynrychioli dylanwadau wedi'u creu gan bobl tua'r gorllewin a'r gogledd o'r ACT ac yn lleihau sensitifrwydd yn lleol i ddatblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau ac estyniadau iddynt. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan bresenoldeb Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd, sy'n cyfrannu at werth neilltuol y dirwedd o ran treftadaeth ddiwylliannol, ynghyd â nifer uchel o dderbynwyr sensitif a gweledegd yn ôl a blaen o un lle i'r llall efo Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd sensitif iawn. Mae dynodiad yr ACT tu mewn i'r Parc Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r sensitifrwydd ymhellach, ac felly hefyd bresenoldeb rywfaint o goetir lled-naturiol a rhai rhannau golygfaol iawn o'r ACT hon, sydd wedi'u diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol.

STRATEGAETH AR GYFER Y DIRWEDD	
Amcan ar gyfer y Dirwedd	**Gwarchod y Dirwedd**
Gwaelodlin Datblygiad	- 1 datblygiad o faint **canolig** - 3 datblygiad **bychan** - 4 datblygiad **bychan iawn**
Cynhwysedd Dangosol Cyffredinol	**Yn nodweddiadol does dim cynhwysedd ar gyfer datblygiadau parciau carafanau statig/cabanau gwyliau, yn enwedig yn yr Ardal o Harddwch Naturiol CDLlE. Fodd bynnag, tu allan i'r ardaloedd hyn, gallai fod cynhwysedd ar gyfer nifer cyfyngedig o ddatblygiadau sydd wedi'u lleoli'n sensitif, eu dylunio'n dda ac ar raddfa fechan iawn.**


Canllawiau

Mae'r tabl isod yn rhoi nodiadau canllaw yn benodol ar gyfer yr ACT o ran lleoli datblygiad er mwyn cael cyn lleied ag y bo modd o effeithiau niweidiol.

Nodiadau Canllaw ar gyfer Lleoli	Ynni Gwynt	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau ac Estyniadau
Cadw prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ei nodweddion arbennig a'i gefndir ehangach. Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Mae angen ystyried effaith datblygiad tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, trwy ddefnyddio delweddau. Rhaid i ddatblygiad osgoi creu teimlad o fod yn ymwthio, amgylchynu, amlygrwydd, na bod yn anghydnaws i raddau sy'n annerbyniol, yn unigol neu fel effaith gynyddol ar y Parc Cenedlaethol.	✓	✓	✓
Dylai datblygiad barchu a chadw cymeriad a chefndir y dirwedd sydd wedi'i diffinio yn CDLlE fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol ac Arfordir heb ei Ddatblygu, yn enwedig ardaloedd sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu nodweddion pellennig a gwyllt.	✓	✓	✓
Ystyried effeithiau datblygiad ar olygfeydd tuag at ac oddi wrth AHNE Llŷn.	✓	✓	✓
Cadw nodweddion arbennig Ardal Tirwedd Arbennig Abermaw.	✓	✓	✓
Cynnal cefndir a'r golygfeydd allweddol tuag at ac oddi wrth Gastell Harlech - Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli datblygiadau ar nenlinellau agored neu lethrau ac amddiffyn golygfeydd allweddol, yn enwedig tuag at y môr a'r Parc Cenedlaethol.	✓	✓	
Cynnal cyfanrwydd Tirweddau Cofrestredig Hanesyddol Ardudwy a Basn Trawsfynydd a Chwm Prysor.	✓	✓	✓
Amddiffyn cefndiroedd nodweddion sydd wedi'u dynodi a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol pwysig eraill fel Parciau a Gerddi Cofrestredig; a'r golygfeydd allweddol at i mewn ac at allan o'r nodweddion hyn.	✓	✓	✓
Ystyried y golygfeydd oddi wrth dderbynwyr preswyl, yn enwedig y rhai mae ganddynt olygfeydd yn barod o ddatblygiadau fertigol modern; dylai'r gwaith o leoli datblygiad fertigol ychwanegol geisio osgoi effeithiau cynyddol ar yr olygfa.	✓	✓	
Sicrhau bod datblygiadau wedi'u gwahanu'n eglur oddi wrth ei gilydd fel bod eu heffaith ar y ffordd mae pobl yn gweld y dirwedd yn parhau i fod yn lleol ac nad oes dylanwad diffiniol o gasglu / cynyddu yn effeithio ar y profiad o'r dirwedd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yn arbennig o ofalus effeithiau cynyddol y datblygiadau presennol a datblygiadau arfaethedig.	✓	✓	✓
Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau poblogaidd yn cynnwys Llwybr Arfordir Cymru, llwybr beicio cenedlaethol Lôn Las Cymru Sustrans (rhif 8 y rhwydwaith beicio cenedlaethol) a gweledfannau eraill lleol sy'n cael eu gwerthfawrogi – defnyddio delweddu i asesu golygfeydd dilyniannol (yn cynnwys golygfeydd i ddatblygiad sy'n bodoli'n barod).	✓	✓	✓
Lleoli datblygiad llai o faint yn agos at adeiladau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi amlhau datblygiad yn y rhannau llai datblygedig o'r ACT hon.	✓	✓	✓
Osgoi lleoli unrhyw ddatblygiad ar hyd yr arfordir a'i gefndir uniongyrchol, ac yn enwedig osgoi mannau sydd wedi'u diffinio fel Arfordir heb ei Ddatblygu CDLlE.	✓	✓	✓

Osgoi effeithiau cynyddol ar lwybrau twristiaeth prysur fel yr A496 a Rheilffordd y Cambrian.	✓	✓	✓
Ystyried lleoliadau datblygiad sy'n bodoli'n barod a datblygiad arfaethedig wrth gynllunio datblygiad newydd, er mwyn osgoi effaith gynyddol raddol.	✓	✓	✓
Cynnal y golygfeydd o un i'r llall rhwng nodweddion treftadaeth ddiwylliannol ar bennau bryniau.	✓	✓	

S13 Y Rhinogau



1:125,000

Atgynhyrchwyd o fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ® ar ran Rheolwr Swyddfa Ei Mawrhydi, © hawlfraint y Goron, Trwydded rhif 100023387

Lleoliad a Maint

Mae'r ACT hon wedi'i chanolbwyntio ar gadwyn mynyddoedd garw y Rhinogau, yn estyn o'r llethrau uwchben aberoedd Dwyryd a Glaslyn yn y gogledd i lawr at aber Mawddach yn y de.

Nodweddion Allweddol

- Tirwedd ucheldir ddigysgod ar raddfa fawr
- Mynyddoedd a dyffrynnoedd garw
- Dylanwad (yn y gogledd-ddwyrain) oddi wrth gronfa Llyn Trawsfynydd a'r gyn-orsaf bŵer niwclear

Arfarniad

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos yr arfarniad o'r Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) hon yn erbyn meini prawf sensitifrwydd sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw ar gyfer y pum math o ddatblygiad.

Allwedd	Sensitifrwydd Uwch	↑	Sensitifrwydd Canolig	-	Sensitifrwydd Is	↓	Maen prawf / math o ddatblygiad ddim yn gymwys	

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	Ynni Haul PV ar Raddfa Cae	Lein Uwchben 400 kV	Mastiau Ffonau Symudol	Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau
Tirwedd	**Graddfa**	Yn nodweddiadol yn dirwedd ar **raddfa fawr**. VS8: Canolig (8%)/ Mawr (89%)	↓				
	Patrwm Caeau, Graddfa a Threfn Cau Tiroedd	Ddim yn gymwys					
	Tirffurf	**Cadwyn o fynyddoedd garw sy'n cynnwys bryniau uchel a dyffrynnoedd.** VS Dosbarthiad Lefel 2: Ucheldir/ Llwyfandir Digysgod (76%)/ Dyffrynnoedd Ucheldir (7%)/ Dŵr Mewndirol (Yn cynnwys Ymylon Cysylltiedig) (6%) / Dyffrynnoedd Iseldir (5%)	↑			↑	↑

Meini Prawf Sensitifrwydd		Nodweddion yr ACT	Asesiad o Sensitifrwydd y Dirwedd i'r Gwahanol Fathau o Ddatblygiad				
			Ynni Gwynt	**Ynni Haul PV ar Raddfa Cae**	**Lein Uwchben 400 kV**	**Mastiau Ffonau Symudol**	**Parciau Carafanau Statig / Cabanau Gwyliau**
		VS4: Bryniau Uchel/Mynyddoedd (80%)/ Tonnog (16%)/ Bryniau/ Dyffrynnoedd (5%)					
	Gorchudd Tir	Y gorchudd tir nodweddiadol ydi **copaon mynyddoedd** agored **garw** a **rhostir ucheldir** efo **ucheldir llwm a chreigiog** yn gymysg yn hynny a llynnoedd rhewlifol yn aml. Mae nifer o **blanhigfeydd coed conwydd** a choetir cymysg yn bresennol ar ochrau rhai dyffrynnoedd. VS Dosbarthiad Lefel3: Ucheldir Llwm/Creigiog (14%)/ Llyn (6%)/ Dyffrynnoedd Ucheldir Agored (7%) / Rhostir Ucheldir (62%) VS5: Tir Agored (76%)/ Patrwm Caeau/ Mosaig (12%)/ Coetir 60%)/ Cymysgedd (6%)	↑			↑	↑
